Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

**Ebrill 2025**

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei lunio a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Gorffennaf 2024, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd ar 15 Gorffennaf 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

***Mark Drakeford*** **AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

28 Ebrill 2025

# Cynnwys

**Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad 3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol 4
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael 5
4. Ymgynghori 65
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 83

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol 113
7. Yr opsiynau 117
8. Costau a manteision 124
9. Asesiadau o'r Effaith 171
10. Asesiad Fforddiadwyedd 181
11. Adolygu ar ôl gweithredu 185

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol 187**

**ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog 221**

**ATODIAD 3 – Tabl Tarddiadau 225**

**ATODIAD 4 – Atodlen o Ddiwygiadau 227**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Prif amcan y Bil hwn yw cyfrannu at y nod hwnnw drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Yn benodol, yr amcan yw i bob disgybl feithrin sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2, o leiaf, o’r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

1.2 Yn ogystal â chynigion polisi newydd, mae’r Bil yn cynnwys rhai newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Bydd y newidiadau hyn yn cryfhau ac yn ategu prosesau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio addysg Gymraeg yn bwrpasol i wella deilliannau ieithyddol ein disgyblion.

1.3 Mae’r Bil hefyd yn sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Un o rolau’r Athrofa fydd cynllunio datblygiad y gweithlu addysg a darparu hyfforddiant ar eu cyfer er mwyn gwella dysgu Cymraeg mewn ysgolion. Bydd hefyd yn darparu cefnogaeth i ddysgwyr Cymraeg o bob oedran, ac yn hybu arloesedd mewn perthynas â dysgu Cymraeg.

1.4 Yn gryno, bydd y Bil:

- yn rhoi sail statudol i’r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ei gwneud yn ofynnol i strategaeth y Gymraeg gynnwys targed o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio’r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol;
- yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar Ieithoedd;
- yn gwneud darpariaeth ynghylch dynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, ynghyd â gofynion o ran swm yr addysg Gymraeg a ddarperir (yn cynnwys isafswm), a nodau dysgu Cymraeg sydd ynghlwm wrth y categorïau;
- yn cysylltu’r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdod lleol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg);
- yn sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu Cymraeg.

# 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (“y Bil”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Cefndir polisi cyffredinol

3.1 Ar 10 Gorffennaf 2017, cyhoeddwyd strategaeth uchelgeisiol *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Mae nifer o gamau rhagweithiol wedi eu cymryd ers cyhoeddi’r strategaeth honno, ac mae’r seilwaith sy’n cefnogi’r Gymraeg wedi cryfhau mewn sawl agwedd. Y Bil hwn yw’r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i gael ei gyflwyno at ddibenion gwireddu amcan hirdymor y strategaeth, sef sicrhau hyfywedd y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau i ddod.

3.2 Ymhlith y llwyddiannau ers cyhoeddi’r strategaeth:

- mae’r sector dysgu Cymraeg yn tyfu’n barhaus, gyda galw uchel am ddosbarthiadau Cymraeg gydol oes, ac ymhlith pobl ifanc yn enwedig;
- mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi ymwreiddio ym mhrosesau cynllunio addysg awdurdodau lleol, ac mae hyn wedi arwain at gydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru;
- mae llawer o fwrlwm ac ewyllys da i’w gweld at yr iaith. Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, ac mae ymdeimlad gwirioneddol o berchnogaeth o’r iaith ymysg siaradwyr Cymraeg a’r sawl sydd ar ddechrau eu taith iaith.

3.3 Fodd bynnag, mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi amlygu’r angen i ni weithredu’n bwrpasol, ac mae’n briodol cymryd camau pellach i’r perwyl hwn drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

3.4 Mae gan y system addysg rôl annatod i’w chwarae er mwyn inni wireddu’r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae’r Gymraeg yn perthyn i ni gyd yng Nghymru beth bynnag yw ein sgiliau ieithyddol, ac mae pob disgybl yng Nghymru felly yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg. Mae cyfrifoldeb arnom ni oll sy’n gweithio yn y system addysg i weithio tuag at y nod hwn. Yr uchelgais yw bod pawb sy'n dysgu mewn ysgol neu leoliad yng Nghymru yn cael eu cefnogi i fwynhau defnyddio'r Gymraeg, i wneud cynnydd parhaus wrth ddysgu Cymraeg ac i gael yr hyder a'r sgiliau iaith fel y gallan nhw ddewis defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

3.5 Mae amcanion y Bil yn adlewyrchu’r nod a’r uchelgais yma ar gyfer ein system addysg. Bydd gwireddu hyn yn golygu cynyddu’r nifer o ysgolion “Prif Iaith – Cymraeg", ond hefyd, cynyddu a gwella’r

ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” ac ysgolion “Dwy Iaith”. Yn sylfaenol, rydyn ni am i bob disgybl ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy’r system addysg statudol.

3.6 Mae’r Bil yn creu mecanwaith i sicrhau dros amser bod pob plentyn yn derbyn cyfran gynyddol o’u darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan feithrin sgiliau Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Y nod, yn y pen draw, yw bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran addysg gorfodol yn siaradwyr Cymraeg annibynnol.

3.7 Er mwyn gwireddu’r nod hwn, mae’r Bil yn cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o newid sy’n gofyn am weithredu ar sawl lefel. Ac er bod gan ddeddfwriaeth gyfraniad pwysig i’w chwarae wrth osod y seiliau ar gyfer gwireddu’r newid, mae’n bwysig nodi mai un rhan o’r darlun yw’r darn hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Maes o law, byddwn yn cyflwyno darnau o is-ddeddfwriaeth. Yn ogystal, bydd gan weithgareddau ac ymyraethau eraill megis polisïau ar draws y maes addysg, ariannu, ymgysylltu a newid ymddygiad gyfraniad allweddol i’w chwarae.

## Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu

3.8 Pwysleisiodd ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021 i 2026 ein hymrwymiad i ddeddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg. Roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn ailddatgan y bwriad hwnnw i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai yn:

- cryfhau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg;
- pennu uchelgais a chymhellion newydd i ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a/neu weithio drwy gyfrwng y Gymraeg;
- sefydlu a rhoi un continwwm dysgu Cymraeg ar waith;
- hwyluso a galluogi ysgolion sy’n bodoli eisoes i symud i gategori Cymraeg uwch;
- cymell rhagor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys y rheini lle mai'r Saesneg yw’r cyfrwng addysgu.

3.9 Gwneir darpariaethau penodol yn y Bil yn sefydlu strwythurau i hwyluso a galluogi ysgolion categori “Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” ac ysgolion categori “Dwy Iaith” i symud i’r categori “Prif iaith – Cymraeg” dros amser. Addysg mewn ysgolion “Prif iaith – Cymraeg” yw’r dull mwyaf effeithiol i sicrhau siaradwyr hyderus ac annibynnol sydd yn fwy tebygol o ddefnyddio’r Gymraeg y tu hwnt i addysg, yn y gymuned, ac mewn swyddi yn y dyfodol, a throsglwyddo’r gallu i ddefnyddio’r

Gymraeg o fewn teuluoedd.

3.10 Ar 27 Mehefin 2023, gwnaeth cyn Brif Weinidog Cymru ddatganiad yn amlinellu trydedd flwyddyn rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol y Llywodraeth. Yn y datganiad hwn, pwysleisiodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a diogelu ein cymunedau Cymraeg. Ategodd mai ein huchelgais ar gyfer 2050 yw y bydd pob un o'n disgyblion yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg gyda hyder erbyn iddyn nhw adael yr ysgol. Mae’r Bil hwn yn adlewyrchu’r uchelgais hon, ac yn creu seilwaith cadarn a fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg.

## **Pam mae angen y Bil?**

3.11 Pan gyhoeddwyd strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, sefydlwyd dau brif darged, sef:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10% (yn 2013 i 2015) i 20% erbyn 2050.

3.12 Mae’r targedau hyn yn darparu naratif glir i ni i gyd yng Nghymru, i’r Llywodraeth, y sector cyhoeddus a holl ddinasyddion ein gwlad: mae’r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, felly hefyd y cyfrifoldeb am ei dyfodol.

3.13 Ond fel y noda strategaeth *Cymraeg 2050*, er bod ein gweledigaeth yn un hirdymor, rhaid i ni weithredu a gosod y seiliau nawr, a rhaid i’r camau a gymerwn adlewyrchu maint ein huchelgais. Dyma pam yr ymrwymwyd yn y strategaeth i adolygu’r ddeddfwriaeth sy’n cefnogi’r Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio’r iaith.

3.14 Mae hefyd yn bwysig nodi nad y Bil hwn yw’r man cychwyn. Dros flynyddoedd lawer, rydyn ni wedi sefydlu seilwaith anstatudol sydd wedi magu ei blwyf, ac wedi cefnogi’r Gymraeg yn y sector addysg a thu hwnt. Mae camau statudol eisoes wedi eu cymryd hefyd, gyda chyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu’r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Mae’r rheoliadau hyn a chyfundrefn y CSCA wedi trawsnewid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg, a rhaid inni adeiladu ar y cynnydd hwnnw sydd eisoes wedi ei wneud.

3.15 Y Bil hwn yw’r cam naturiol nesaf wrth inni weithio i wireddu ein huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr a chryfhau deilliannau

ieithyddol ein disgyblion yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n briodol i'r Bil edrych y tu hwnt i'r system addysg orfodol fel bod ein pobl ifanc nid yn unig yn meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd eu haddysg orfodol, ond yn barod i ddefnyddio'r iaith wedi hynny hefyd.

3.16 Er bod y ddeddfwriaeth hon yn gam nodedig tuag at wireddu'r nod polisi, rhaid pwysleisio mai un rhan o ddarlun ehangach yw'r Bil. Mae camau eraill sy'n hollbwysig er mwyn cefnogi gweithrediad y Bil, ac mae hyn yn cynnwys:

- creu is-ddeddfwriaeth sy'n dod â rhai o ddarpariaethau'r Bil i rym, er enghraifft Rheoliadau at ddibenion cynllunio ieithyddol mewn ysgolion, ynghyd â llunio Cod i sefydlu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.
- cymryd camau anneddfwriaethol i gynyddu capasiti'r gweithlu addysg er mwyn caniatáu i amcanion addysg y Bil gael eu gweithredu'n effeithiol.
- gosod targedau uchelgeisiol – yn rhai tymor canolig a hirdymor – dros y degawdau nesaf, a monitro bod y targedau hynny yn cael eu gwireddu.

## Darnau eraill o ddeddfwriaeth perthnasol

***Deddf Llywodraeth Cymru 2006***

3.17 Mae adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn cynnig hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw'r strategaeth bresennol, a gyhoeddwyd yn 2017.

3.18 Yn sgil y gofyniad am strategaeth y Gymraeg, mae'r Bil hwn yn ychwanegu elfennau y mae'n rhaid i strategaeth o'r fath eu cynnwys. Mae'r Bil felly yn alinio â darpariaeth adran 78, ac yn ymhelaethu arni er mwyn cryfhau atebolrwydd Gweinidogion Cymru wrth osod targedau penodol, ac ymateb i'r targedau hynny.

***Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011***

3.19 Ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sefydlwyd cyfundrefn safonau'r Gymraeg ynghyd â rôl Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r safonau sy'n gysylltiedig â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu o ran y Gymraeg a'r safonau hybu. Mae'n gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i ymgynghori gyda Chomisiynydd y Gymraeg wrth lunio strategaeth y Gymraeg, wrth adolygu'r safonau, ac wrth lunio neu

ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

***Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013***

3.20 Mae Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi gosod gofyniad ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys:

(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—

(i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal.

3.21 Mae'r Bil hwn yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn sgil y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Gwneir hyn drwy osod gofyniad ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, sy'n gyswllt hollbwysig rhwng y targedau a'r weledigaeth a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol a'r cynlluniau cyflawni ar lefel ysgolion.

3.22 Hefyd yn sgil Deddf 2013, sefydlwyd newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas â nifer o newidiadau a gynigir i ysgolion, gan gynnwys o ran newid cyfrwng iaith mewn addysg gynradd ac addysg uwchradd. Roedd y newidiadau rheoleiddiedig yn brathu pan fo cynnydd neu ostyngiad o ganran benodol yn cael ei wneud, neu yn ôl cynnydd neu ostyngiad yn nifer y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.23 Mae'r Bil hwn yn dirymu darpariaethau penodol yn Atodlen 2 o Ddeddf 2013 sy'n cyfeirio at newidiadau rheoleiddiedig yng nghyd-destun darpariaeth addysg Gymraeg gan y bydd cyfleoedd i ymgynghori yn sgil darpariaethau eraill y Bil hwn.

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

3.24 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl yn fwy am y tymor hir. Mae'r Bil hwn yn gweithio i ddiwallu nifer o nodau'r Ddeddf, gan gynnwys:

- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu;
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus.

Drwy ddarpariaethau'r Bil, bwriedir creu amodau lle gall y Gymraeg ffynnu o fewn y system addysg a thu hwnt i'r system addysg hefyd.

Gyda’r uchelgais o weld pob disgybl yn gadael addysg statudol yn medru siarad Cymraeg yn annibynnol, bydd hyn yn arwain at ddeilliannau ieithyddol mwy cyfartal a thrwy hynny gymunedau cydlynus. Mae’r Bil drwyddo draw yn amcanu i gofleidio gair ac ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

***Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021***

3.25 Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gwneud darpariaethau ynghylch cynnydd ac asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed – mae Cymraeg yn elfen fandadol o’r cwricwlwm hwnnw. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Cynnydd i nodi sut mae'n rhaid i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer dilyniant gan ddisgyblion a phlant. Mae'r Cod yn nodi bod cwricwlwm llwyddiannus, gyda chefnogaeth addysgu a dysgu effeithiol yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol. Rhaid i'r cynnydd priodol hwnnw fod ym mhob elfen o'r cwricwlwm gan gynnwys yr elfen fandadol Cymraeg. Mae Deddf 2021 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud trefniadau i asesu cynnydd dysgwyr er mwyn canfod y camau nesaf yn eu dysgu, a’r dysgu a’r addysgu sydd ei angen i wireddu’r cynnydd hwnnw.

3.26 Drwy‘r Bil, bwriedir sicrhau bod yr elfen fandadol Cymraeg yn y cwricwlwm, y Cod Cynnydd a threfniadau asesu cynnydd disgyblion yn cefnogi amcanion y Bil (sef bod y system addysg statudol yn cyfrannu tuag at y targed miliwn o siaradwyr) yn ogystal â chefnogi bwriad polisi Cwricwlwm i Gymru i ddisgyblion. Yn y tymor hir y nod yw y bydd pob ysgol yn galluogi ei disgyblion i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol, ar lefel cyfwerth â sgiliau llafar B2 y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) - bydd hyn yn eu galluogi i ddewis defnyddio’r iaith yn eu bywyd pob dydd.

3.27 Mae oriau cyswllt wrth ddysgu iaith a’i defnyddio, ynghyd ag ansawdd yr addysgu, yn ffactorau allweddol sy’n cael effaith ar raddfa cynnydd dysgwr. O ran ansawdd yr addysgu, mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau fydd yn cefnogi ysgolion i gynllunio’n bwrpasol ar gyfer sicrhau cynnydd priodol dros amser yn neilliannau disgyblion mewn perthynas â’r elfen fandadol Cymraeg. O ran yr oriau cyswllt, mae’r Bil yn cynnwys darpariaeth sy’n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i nodi swm y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ysgolion ymhob categori, gan osod isafswm o 10%. Ni fydd gofyniad statudol i ysgolion ddarparu swm penodol o addysg Gymraeg yn dod yn weithredol hyd nes y daw’r is-ddeddfwriaeth berthnasol i rym. Felly, bydd gan ysgolion sawl blwyddyn i gynllunio ar gyfer y newid, i adolygu faint o addysg Gymraeg maent yn ei darparu ac os bydd angen, i

ddiwygio eu cwricwlwm yn unol â Deddf 2021 i gynyddu’r swm erbyn y bydd y ddyletswydd yn dod yn weithredol.

***Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022***

3.28 Mae Rhan 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mewn perthynas â’r Gymraeg, mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar y Comisiwn Addysg Drydyddol i annog y galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi.

3.29 Ymhellach, yn unol ag adran 13 o’r Ddeddf, ar 28 Chwefror 2024 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru ddatganiad o flaenoriaethau strategol. Un o’r blaenoriaethau hynny oedd:

> *“Datblygu cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan, a'i hyrwyddo, gan gydnabod rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y person dynodedig o dan Adran 9 o Ddeddf 2022 a Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r llwybr di-dor i ddysgwyr at yr addysg drydyddol o'u dewis”.*

3.30 Mae’r darpariaethau hyn yn cydnabod bod y fframwaith addysg drydyddol ac ymchwil yn rhan o gyfundrefn ehangach. Mae cynigion y Bil hwn yn cyd-fynd â’r weledigaeth hon wrth sefydlu corff statudol a fydd yn darparu cefnogaeth gydol oes i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr 16 oed a throsodd, neu hwyluso gwaith dylunio a datblygu o’r fath.

3.31 Gwneir darpariaeth yn y Bil gan amlygu pwysigrwydd addysg drydyddol yn y Gymraeg i sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg y tu hwnt i addysg statudol. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu cynigion strategaeth y Gymraeg, gan gynnwys mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol.

3.32 Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ymgynghorai i'r Fframwaith Cenedlaethol, y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg lleol, a chynllun strategol newydd y Sefydliad Dysgu Cymraeg. Bydd y rôl hon yn amlygu'r angen am ddull cydgysylltiedig ar draws sawl sector i sicrhau darpariaeth Gymraeg effeithiol a chyfleoedd da i'n pobl ifanc

3.33 Mae’r Bil hwn hefyd yn cyflwyno disgrifiad o fathau o ddefnyddwyr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin sy’n cyd-fynd â’r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Gallai sefydliadau addysg drydyddol ac ymchwil fanteisio ar y lefelau cyfeirio cyffredin hyn wrth asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb o ddarpariaethau’r Bil

### RHAN 1: Hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg

**Adlewyrchu’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith**

3.34 Darparu sail statudol i’r targed o filiwn o siaradwyr drwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw strategaeth iaith Gymraeg a gaiff ei llunio gan Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys targed o o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio’r iaith.

3.35 Dyletswydd ar Weinidogion Cymru, o fewn 12 mis i gyhoeddi’r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, i adolygu’r safonau a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd yr adolygiad hwn gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn adlewyrchu’r Cod a hwyluso cyflawni targedau a osodir yn strategaeth y Gymraeg

### RHAN 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg

**Cod i sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg**

3.36 Sefydlu’r cysyniad bod tri math o ddefnyddiwr Cymraeg.

3.37 Disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddwyr Cymraeg ar sail chwe lefel cyfeirio gyffredin ‘Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd’.

3.38 Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cod a fydd yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio nodweddion penodol defnyddwyr Cymraeg ar sail y lefelau cyfeirio cyffredin. Bydd hyn yn hwyluso cyd-ddealltwriaeth dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o daith unigolyn i ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith honno.

### RHAN 3: Addysg Gymraeg

### Categoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion; cynlluniau cyflawni; a darpariaeth trochi hwyr

3.39 Sefydlu trefn statudol i gategoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg. Mae’r Bil yn nodi y bydd tri chategori, sef: (i) “Prif Iaith – Cymraeg" (ii) “Dwy Iaith” a (iii) “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”. Bydd hyn yn cyd-fynd â darpariaethau sy’n:

- Rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru osod yr amrediad o ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pob categori. Mae’r Bil yn nodi’r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion ym mhob categori.
- Darparu mai 10% yw’r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ysgol “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”.
- Caniatáu i Weinidogion, drwy reoliadau, gynyddu’r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg dros amser wrth i ffactorau megis argaeledd gweithlu newid.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu darpariaeth addysg Gymraeg yn unol ag amrediad eu categori iaith.
- Caniatáu i ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” wneud cais am esemptiad dros dro i’r ddyletswydd i ddarparu yn unol â’u categori lle bo angen rhagor o amser i gyrraedd yr isafswm statudol.
- Ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal rhestr o gategori iaith pob ysgol yn ei ardal, ac unrhyw ysgolion newydd a gynigir.

3.40 Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion baratoi cynlluniau cyflawni a fydd, ymhlith pethau eraill, yn dangos sut y bydd ysgolion yn gwella neu gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a, lle bo’n berthnasol, yn cynllunio i symud i gategori iaith uwch dros amser.

3.41 Rhoi rôl i awdurdodau lleol gymeradwyo cynlluniau cyflawni ysgolion ynghyd â chategori iaith ysgol.

3.42 Gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr yn y Gymraeg, ac i annog galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi.

## RHAN 4: Cynllunio Addysg a Dysgu’r Gymraeg

### Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu’r Gymraeg

3.43 Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu’r Gymraeg sy’n cwmpasu’r cynigion mewn perthynas â’r Gymraeg i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol, ar gyfer dysgu’r Gymraeg gydol oes, ac ar gyfer addysg

drydyddol. Bydd y Fframwaith yn creu cyswllt rhwng y targedau cenedlaethol a’r targedau ar lefel awdurdodau lleol mewn perthynas â’r Gymraeg mewn addysg.

3.44 Bydd hefyd yn ofynnol i'r Fframwaith gynnwys y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. Bydd yn rhaid i'r Fframwaith hefyd gynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd y targedau a osodir yn y Fframwaith, a nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd, yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, at ddibenion sicrhau bod nifer yr ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru yn diwallu’r angen.

3.45 Bydd gofyn diweddaru’r Fframwaith bob pum mlynedd, ac adrodd ar gyflawniad yn erbyn targedau’r Fframwaith yn flynyddol.

**Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg**

3.46 Newid y system o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, gan symud y ffocws tuag at gynlluniau sy’n nodi’r camau y mae’r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni’r targedau a osodwyd arnynt gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol o ran cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn eu hysgolion.

3.47 Ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau o’r fath fanylu’r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i:

- hybu a hwyluso addysg Gymraeg a defnydd o’r Gymraeg yn ysgolion ei ardal
- gwella’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal;
- gwella’r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal;
- hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg";
- cyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo addysg drochi hwyr a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr yn ei ardal;
- hwyluso dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, rhwng ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir, a rhwng addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol.

3.48 Bydd angen i'r Cynlluniau hefyd gynnwys gwybodaeth am y gweithlu addysg.

3.49 Hepgor Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**RHAN 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

3.50 Sefydlu corff statudol newydd, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("yr Athrofa") ac mae'n darparu ar gyfer ei aelodaeth a'i lywodraethiant yn ogystal â'i swyddogaethau.

3.51 Amcan yr Athrofa yw hwyluso a chefnogi pobl i ddysgu'r Gymraeg, fel bod rhagor o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio hi bob dydd.

3.52 Mae'r Bil yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr Athrofa i gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys:

- rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;
- darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol a gwella eu lefelau gallu yn y Gymraeg;
- darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg;
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol;
- dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith o'r fath. Rhaid i'r ddarpariaeth gynnwys amrywiaeth o lefelau dysgu sydd wedi'i seilio ar y lefelau cyfeirio cyffredin;
- cynllunio datblygiad y gweithlu addysg a darparu hyfforddiant ar eu cyfer er mwyn gwella dulliau addysgu'r Gymraeg; a
- chasglu a chyhoeddi data mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg.

3.53 Galluogi'r Athrofa i roi cyllid i unrhyw berson mewn perthynas ag addysgu a dysgu Cymraeg, rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu a dysgu Cymraeg, a chydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu a dysgu Cymraeg.

3.54 Ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa:

- hybu cyfle cyfartal a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu Cymraeg o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;
- hybu arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg;
- hybu cydlafurio a chydlynu mewn perthynas â dysgu Cymraeg a rhannu arfer orau;

- llunio cynllun strategol a gosod y trefniadau y mae'n rhaid i'r Athrofa eu dilyn wrth baratoi, cyflwyno, cyhoeddi ac adolygu'r cynllun strategol; a
- llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

**RHAN 6: Cyffredinol**

3.55 Gwneud darpariaethau cyffredinol am y Bil a chynnwys adran ddehongli ynghyd â manylion o ran pryd y daw'r Bil i rym.

# Darpariaethau manwl y Bil

## Rhan 1: Hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg

### i) Cefndir

3.56 Mae adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth y Gymraeg yn nodi sut y byddant yn hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg. *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* yw’r strategaeth bresennol, ac fe’i lluniwyd yn 2017. Mae’r strategaeth hon yn gosod targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae’r targed hwn yn gefnlen hollbwysig i nod cyffredinol y Bil hwn.

3.57 Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi amlygu’r angen i ni weithredu’n bwrpasol, ac wedi rhoi ffocws clir i’r camau y mae angen inni eu cymryd i gryfhau seilwaith y Gymraeg a gwireddu’r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr.

3.58 Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd cyfundrefn safonau’r Gymraeg. Mae safonau’r Gymraeg yn rhestr o ofynion cyfreithiol, a’u diben yw hybu a hwyluso’r Gymraeg a sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru. Mae sefydliadau yn gorfod cydymffurfio â safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

3.59 Pwrpas safonau’r Gymraeg yw:

- Ei gwneud yn fwy eglur i bobl yng Nghymru beth i'w ddisgwyl gan sefydliadau;
- Ei gwneud yn eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg;
- Sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

3.60 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bŵer o dan Fesur y Gymraeg i orfodi safonau sydd wedi eu gosod ar sefydliadau.

### ii) Pam y mae angen newid

3.61 Mae adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth newydd neu ddiwygio’r

strategaeth bresennol o bryd i'w gilydd. Roedd cyhoeddi strategaeth *Cymraeg 2050* yn gonglfaen allweddol wrth i Lywodraeth Cymru osod targed hirdymor yn adlewyrchu'r ffaith nad yw camau i gynyddu nifer y siaradwyr yn llwyddo dros nos, a bod cynllunio ieithyddol yn ymdrech hirdymor.

3.62 Yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021, rhaid inni gymryd camau pendant i wireddu'r uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr, ac i'r perwyl hwn mae'n briodol gosod targedau heriol ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig i sicrhau hyfywedd y Gymraeg. Mae gofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Cymru lunio strategaeth y Gymraeg, ac mae'n briodol nawr inni fod yn fwy rhagnodol ynghylch cynnwys y strategaeth honno.

3.63 Wrth osod targedau clir ac amlinellu'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i wireddu'r targedau hyn, cyflwynir haen bellach o atebolrwydd i weithredoedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

3.64 Mae darpariaethau eraill yn y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod yn manylu ar lefelau gallu yn y Gymraeg. Wrth inni ddisgrifio gallu ieithyddol yn y ffordd fwy soffistigedig hon, mae'n briodol inni hefyd adlewyrchu hynny ar draws ein gwaith ni fel Llywodraeth.

## iii) Amcanion polisi a diben y ddeddfwriaeth

3.65 Yr amcanion polisi cyffredinol yw cryfhau atebolrwydd Llywodraeth Cymru wrth gynllunio i sicrhau hyfywedd y Gymraeg.

3.66 Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo yn llwyr i'r targed o filiwn o siaradwyr. Mewn egwyddor, fodd bynnag, gellid bod wedi gwanhau neu ddiddymu targed a osodwyd gan strategaeth o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. O roi sail statudol i'r targed, rhoddir sylfeini mwy cadarn i gynllunio ieithyddol gan warantu na fydd y targed hwn yn cael ei lastwreiddio. Wrth ei gwneud yn ofynnol i'r Strategaeth gynnwys targed o 'o leiaf' miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhoddir eglurder nad cyrraedd y miliwn yw'r diwedd ar bethau, ac na fydd ymdrechion yn cael eu cyfyngu gyda'r miliwn yn nenfwd. Bydd hefyd yn gefnlen i unrhyw dargedau pellach a osodir – boed y targedau hynny ar gyfer gweithleoedd, yn gymdeithasol neu ar gyfer y sector addysg.

3.67 Yn sgil yr atebolrwydd cryfach hwn a'r gofynion yn y Bil i Weinidogion Cymru adrodd bob pum mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru a'r cynnydd a wneir yn erbyn y targedau, yr amcan polisi yw y bydd hyn yn galluogi'r Senedd i gynnal gwaith craffu trylwyr, ac mae hyn i'w

groesawu.

3.68 Wrth osod targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, rhaid hefyd bod yn glir sut y bydd y siaradwyr hynny'n cael eu cyfrifo. Rydyn ni'n ddiwyro ynghylch yr egwyddor bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, ac felly mae'r Bil yn cadarnhau y bydd unigolion yn hunan-asesu p'un a ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Cyfeirir at yr angen i ystyried unrhyw ddata sy'n deillio o'r Cyfrifiad, ac unrhyw ddata eraill sydd i'w pennu mewn rheoliadau. Maes o law, gallai'r darpariaethau ynghylch lefelau gallu yn y Gymraeg ein galluogi i gael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o lefel siaradwyr Cymraeg.

3.69 Wrth gyflwyno'r targed statudol hwn a'r gofyniad i Weinidogion Cymru gynnwys amryfal dargedau eraill yn strategaeth y Gymraeg, mae'n briodol hefyd ystyried y seilwaith cyfreithiol presennol sy'n cefnogi'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, yr amcan polisi yw i Weinidogion Cymru adolygu rhai o safonau'r Gymraeg yng ngoleuni darpariaethau'r Bil hwn.

## iv) Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n effeithlon

3.70 Mae'r Bil yn gosod gofyniad statudol i dargedau penodol gael eu cynnwys yn strategaeth y Gymraeg. Yn ogystal â'r targed o o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg, rhaid i'r Strategaeth gynnwys targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol a thargedau ynghylch addysg Gymraeg a dysgu'r Gymraeg. O dan adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun yn disgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyfrannu at gyrraedd y targedau hyn.

3.71 Golyga hyn y bydd y sectorau a fydd yn cael eu cwmpasu gan y targedau yn cael arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru o ran y camau sydd am gael eu cymryd i wireddu'r targedau hynny. Bydd y targedau hefyd yn rhoi cyd-destun i unrhyw gamau y mae sectorau am eu cymryd eu hunain er mwyn ymateb i amcanion polisi'r Bil.

3.72 Ymhellach, gallai'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg, a hynny o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg, arwain at ddiwygio safonau. Pe gwneid hynny, gallai roi eglurder pellach i sectorau ar sut y gallai'r lefelau cyfeirio cyffredin hyn ymwreiddio yn eu gwaith. Wrth adolygu safonau'r Gymraeg, gallai hyn hefyd arwain at ddiwygio safonau a fyddai'n hwyluso cyflawni targedau a nodir yn

strategaeth y Gymraeg.

3.73 Drwy ddarpariaethau'r Rhan hon felly, caiff perthnasedd unrhyw dargedau o fewn strategaeth y Gymraeg ac unrhyw safonau a adolygir yng ngoleuni'r Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg ei amlygu i bob sector.

### v) Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.74 Os nad yw darpariaethau'r Rhan hon wedi eu cynnwys yn y Bil, ni fydd gofyniad statudol i dargedau fel yr amlinellir uchod gael eu cynnwys yn strategaeth y Gymraeg. Golyga hyn, er bod rhyddid i Weinidogion Cymru osod targedau o'r fath mewn strategaeth, nad yw hynny'n orfodol ac y gellid peidio â chynnwys targedau o'r fath mewn strategaethau dilynol. Gan hynny, pe na ddeddfir i'r perwyl hwn, ni fyddai cymaint o rym hirdymor i'r targedau.

3.75 Mae darpariaethau'r Bil ynghylch targedau penodol o fewn y strategaeth hefyd yn cynyddu'r atebolrwydd i Senedd Cymru. Mae hyn gan y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru adrodd o leiaf unwaith bob 5 mlynedd gan asesu'r tebygolrwydd y bydd y targedau yn cael eu cyflawni. Mae'r Bil yn darparu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd os dônt i'r casgliad nad yw targed yn debygol o gael ei gyflawni, gan nodi'r rhesymau dros hynny a'r camau pellach sydd i'w cymryd i gyflawni'r targed. O beidio cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil, byddai llai o dryloywder ynghylch y cynnydd a wneir i gyrraedd miliwn o siaradwyr a chyflawni targedau eraill, ac mae'n debygol na fyddai'r Senedd yn gallu cynnal gwaith craffu mor effeithiol.

3.76 O ran y ddyletswydd i adolygu safonau'r Gymraeg, gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai Gweinidogion Cymru ei wneud heb ddarpariaethau yn y Bil. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y seilwaith cyfreithiol sy'n cefnogi'r Gymraeg yn gydlynol. Dyna ddiben y ddyletswydd i Weinidogion Cymru adolygu'r safonau, a hynny o fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg

## Rhan 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg

### i) Cefndir

3.77 Pan osodwyd targedau strategaeth bresennol Gweinidogion Cymru *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* yn 2017 i gyrraedd miliwn o siaradwyr a dyblu'r niferoedd sy'n ei defnyddio bob dydd, amlygwyd yr angen i ystyried sut mae diffinio 'siaradwr Cymraeg' a pha lefel o hyfedredd sy'n arwain at ymddygiad lle mae unigolyn yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

3.78 Ar sail-hunan asesiad unigolion y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i gyfrifo niferoedd siaradwyr Cymraeg ac oherwydd hynny mae canfyddiad unigolion yng Nghymru o'u sgiliau Cymraeg eu hunain (a'u plant) yn allweddol er mwyn mesur cynnydd tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050.

3.79 Wrth gyhoeddi'r data cyntaf o Gyfrifiad 2021 am y Gymraeg nodwyd gan y Prif Ystadegydd ym mis Rhagfyr 2022 y '*gall asesiad unigolyn o ba mor dda y mae'n siarad iaith fod yn oddrychol. I rai pobl, mae'r gallu i ddweud ambell air yn Gymraeg yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn ei siarad. I eraill, er eu bod yn ei siarad yn rheolaidd, efallai mai dweud nad ydynt yn gallu ei siarad a wnânt os ydynt yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad iaith arall*.' Mae ei sylwadau'n amlygu'r angen i aeddfedu'r naratif ynghylch sut mae unigolion yn hunan-asesu eu gallu yn y Gymraeg. Ychwanegodd ei bod '*yn glir o Arolwg Cenedlaethol Cymru bod nifer cynyddol o bobl sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg ac efallai bod dewis rhwng 'ydw' a 'nac ydw' pan ofynnir p'un a ydynt yn gallu siarad yr iaith yn arbennig o heriol i bobl sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg'*. Ymhellach, nododd fod hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod gwahanol ffynonellau data yn nodi gwahanol amcangyfrifon.

3.80 Yng nghyd-destun addysg statudol, mae strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr yn rhoi pwyslais clir ar gyfathrebu llafar. Dros amser, dylai cwricwlwm ysgolion a threfniadau asesu alinio gyda'r weledigaeth genedlaethol hon.

3.81 Mae taith iaith pawb yn unigryw, ac mae'n bwysig bod modd i bob unigolyn fedru disgrifio ei allu yn y Gymraeg yn effeithiol. Mae'r Bil yn darparu cyfle i ddatblygu un dull safonol genedlaethol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin er mwyn hwyluso gallu unigolion i hunan-asesu eu sgiliau Cymraeg a chyd-ddealltwriaeth dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr.

## ii) Pam y mae angen newid

3.82 Ar hyn o bryd defnyddir nifer o wahanol ddulliau gan gyrff i ddisgrifio lefelau gallu yn y Gymraeg. Mae sawl system yn weithredol, ac mae hynny wedi ei gwneud yn anodd i ymwreiddio un gyfundrefn gyson i bwrpas cynllunio ieithyddol a gweithredu strategaeth Cymraeg 2050. Mae cyfle nawr i Lywodraeth Cymru chwarae rôl arweiniol i ddatblygu cyfundrefn o'r fath.

3.83 Mae angen aeddfedu'r ffordd yr ydyn ni fel unigolion yn hunan-asesu ein gallu yn y Gymraeg er mwyn gwella ansawdd y data sy'n cael eu casglu am niferoedd siaradwyr Cymraeg a'u defnydd o'r iaith, ac i ymateb i'r heriau sydd wedi cael eu hadnabod gan y Prif Ystadegydd.

3.84 O ddatblygu un dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y gall unrhyw un gyfeirio atynt, byddai hyn yn hwyluso gallu pob unigolyn waeth faint o Gymraeg y maent yn ei siarad, i ddisgrifio eu gallu yn yr iaith yn ogystal ag amlygu cam nesaf eu taith iaith.

3.85 O ddefnyddio'r dull safonol yn gyson ar draws cyd-destunau gwahanol – o'r sector addysg i weithleoedd – gallai hyn arwain at wella ansawdd data sy'n cael eu casglu ar sail hunan-asesiad am niferoedd siaradwyr Cymraeg, boed hynny fel rhan o'r cyfrifiad neu fel arall, a gallai hwyluso cynllunio ieithyddol cydlynol.

3.86 Mae nifer o sefyllfaoedd lle byddai'r angen i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn fanteisiol. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- pan fydd rhiant yn dewis ysgol i'w blentyn ac eisiau eglurder ynghylch pa lefel o allu yn y Gymraeg y byddai disgwyl ei gyrraedd erbyn diwedd ei gyfnod yn yr ysgol;
- pan fydd cyflogwr yn hysbysebu swydd ac eisiau darparu eglurder ynghylch i ba raddau y byddai disgwyl i ymgeisydd feddu ar sgiliau yn y Gymraeg er mwyn cyflawni'r swydd;
- pan fydd dysgwr eisiau gwybod lle y mae arni o ran ei daith i ddysgu'r Gymraeg a beth fydd y cam nesaf;
- wrth lunio cymwysterau er mwyn darparu eglurder i ddisgybl wneud penderfyniad o ran pa gymhwyster Cymraeg i'w ddilyn ar sail lle dylai ddisgwyl ei gyrraedd o ran lefel gallu yn y Gymraeg ac felly i ba raddau y bydd cymhwyster o fudd yn y dyfodol;
- pan fydd cyflogwyr angen dealltwriaeth o lefel hyfedredd sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi er mwyn cael eglurder ynghylch eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## iii) Amcanion polisi a diben y ddeddfwriaeth

3.87 Yr amcan polisi yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin, trwy gymhwyso Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Cyngor Ewrop (CEFR) i gyd-destun Cymru a’r Gymraeg, a derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr yn y maes yng Nghymru. Caiff y ddarpariaeth hon yn y Bil ei hategu drwy gynnwys tabl o fframwaith y CEFR yn Atodlen 1 er mwyn darparu ar gyfer tri math o ddefnyddiwr Cymraeg a’r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer y mathau hynny o ddefnyddiwr.

3.88 Mae’r CEFR yn cynnig fframwaith safonol gydnabyddedig sy’n disgrifio’n eglur lefelau sgiliau a gallu ieithyddol ar sail lefelau cyfeirio cyffredin. Mae’r fframwaith yn cynnwys disgrifiadau cynhwysfawr, cydlynol a thryloyw o hyfedredd a defnydd o iaith. Mae’n diffinio lefelau hyfedredd sy'n caniatáu mesur cynnydd dysgwyr ar bob cam o'r dysgu ac ar sail gydol oes. Defnyddiwyd y CEFR i lunio disgrifyddïon ar gyfer amrywiol ieithoedd oddi mewn a thu hwnt i’r Undeb Ewropeaidd ac mae’r polisi yn mabwysiadu lefelau cyfeirio cyffredin y CEFR ar gyfer datblygu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, sy’n golygu y byddai’r lefelau wedi eu alinio gyda lefelau rhyngwladol cydnabyddedig.

3.89 Mae fframwaith y CEFR eisoes yn cael ei defnyddio gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel sail i’w darpariaeth gwricwlaidd ar gyfer oedolion. Mae hynny wedi hwyluso cydweithio gyda meysydd dysgu ieithoedd eraill yng Nghymru, ym Mhrydain a thramor, ac yn golygu bod modd cyfeirio yn haws at adnoddau a ddefnyddir yn y meysydd hynny gan eu haddasu lle bo’n fuddiol. Yn yr un modd defnyddiwyd fframwaith y CEFR gan CBAC i ddarparu ar gyfer cymwysterau Cymraeg i Oedolion sy’n alinio gyda lefelau’r fframwaith.

3.90 Bydd defnyddio’r lefelau cyfeirio cyffredin yn hollbwysig wrth greu cyfundrefn statudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg Gymraeg – bydd yn galluogi disgrifio’r nod dysgu Cymraeg y mae disgwyl i ysgolion gynllunio darpariaeth ar ei gyfer. Drwy roi statws statudol i’r Cod a’r lefelau cyfeirio cyffredin, y bwriad yw datblygu dealltwriaeth gyffredin ymhlith dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o’r gwahanol lefelau gallu yn y Gymraeg.

3.91 Bydd y Cod a’r lefelau cyfeirio cyffredin yn hwyluso cynllunio dilyniant i ddisgyblion ysgol yn enwedig wrth bontio i’r ysgol uwchradd, i sicrhau eu bod yn parhau i wneud cynnydd ac adeiladu ar y sgiliau a ddatblygwyd eisoes.

3.92 Bydd y Cod a’r lefelau cyfeirio cyffredin yn darparu sail i gynllunio darpariaeth dysgu Cymraeg gydol oes, a bydd modd eu defnyddio i safoni adnoddau a deunyddiau addysgu ac asesu. Bydd modd hefyd eu defnyddio wrth asesu a chynllunio ymyraethau i ddatblygu sgiliau’r gweithlu addysg.

3.93 Yn ogystal, bydd y Cod a’r lefelau cyfeirio cyffredin yn ddefnyddiol i osod disgwyliadau wrth ddarparu cymwysterau ar gyfer disgyblion ysgol, a byddant yn darparu eglurder ynghylch lle dylai disgyblion ddisgwyl ei gyrraedd o ran lefel gallu yn y Gymraeg ac felly i ba raddau y bydd cymhwyster o fudd yn y dyfodol.

3.94 Bydd y Cod a’r lefelau cyfeirio cyffredin yn parhau’n ddefnyddiol at ddibenion dysgu gydol oes a  darparu cymwysterau yn y cyd-destun hwnnw, a bydd modd eu defnyddio mewn gweithleoedd wrth inni gymryd camau i gynyddu defnydd y Gymraeg yn ehangach. Bydd rhyddid i unrhyw gorff fanteisio ar y dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg fydd yn cael ei sefydlu yn y Cod ar sail y lefelau cyfeirio cyffredin.

3.95 O ddefnyddio’r un dull safonol yn y Cod yn gyson i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail y lefelau cyfeirio cyffredin mewn amrywiol gyd-destunau – o ysgolion i weithleoedd a darpariaeth i oedolion – bydd ein dealltwriaeth yn gwella o’r trothwy sy’n ysgogi ymddygiad lle mae unigolyn yn fwy tebygol o ddefnyddio’r Gymraeg bob dydd, a bydd hyn yn ei dro yn hwyluso cynllunio ymyraethau er mwyn gwireddu targedau strategaeth Cymraeg 2050.

## iv) Sut y mae’r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu’n effeithlon

3.96 Bydd y lefelau cyfeirio cyffredin a gyflwynir yn sgil y Bil, ac yr ymhelaethir arnynt yn y Cod maes o law, yn galluogi sectorau i weithredu’n fwy effeithlon mewn sawl ffordd. Gallai hyn fod wrth eu galluogi i fanylu’n union pa lefelau gallu sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau o fewn sectorau. Gallai’r lefelau gallu hefyd fod yn ddefnyddiol at ddibenion cynllunio’r gweithlu ac wrth ganolbwyntio ar uwchsgilio staff.

3.97 Gan y bydd y lefelau cyfeirio cyffredin yn cael eu cyflwyno drwy’r Bil hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth ohonynt, a bydd yn gallu sicrhau cydlyniant wrth i wahanol sectorau gymhwyso’r lefelau hyn at wahanol

ddibenion.

## v) Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.98 Os na wneir y ddarpariaeth hon mewn deddfwriaeth mae risg y bydd canfyddiad unigolion yng Nghymru o'u sgiliau Cymraeg eu hunain (a'u plant) yn parhau'n anghyson. O beidio creu un dull safonol drwy'r Bil, gallai barhau i fod yn heriol i Weinidogion Cymru gyfrifo niferoedd siaradwyr ar sail-hunan asesiad unigolion wrth i hyn yn anorfod arwain at amcangyfrifon anghyson, a pheri anhawster wrth fesur cynnydd tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050

3.99 O beidio gwneud y ddarpariaeth hon yn y Bil, gallai fod cyfle wedi ei golli o ran cryfhau'r strwythurau sy'n galluogi cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Mae risg os na sefydlir lefelau cyfeirio cyffredin na fydd y cysyniad o ddatblygu un dull safonol i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn ymwreiddio mewn rhai sectorau. Mae peryg y bydd sectorau yn parhau i fod yn anghyson o ran y dulliau a ddefnyddiant i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Gallai hefyd olygu y bydd rhai yn parhau i feddwl yn or-syml ynghylch sut i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, er enghraifft wrth bennu ei bod yn hanfodol neu ddim yn hanfodol meddu ar sgiliau Cymraeg ar gyfer rolau. Mae'r lefelau cyfeirio cyffredin yn gyfle i ddisgrifio gallu ieithyddol mewn modd mwy soffistigedig.

3.100 O ran y sector addysg, o beidio cyflwyno lefelau cyfeirio cyffredin yn y Bil, y risg yw na fydd rhieni a disgyblion yn glir beth yw'r nod dysgu Cymraeg y dylai ysgolion weithio tuag ato. Gallai hynny ei gwneud yn anos gwneud penderfyniad gwybodus wrth ddewis ysgol heb ddeall beth fyddai'r disgwyliad o ran gallu'r disgybl yn y Gymraeg ar ddiwedd ei addysg orfodol. Roedd ymatebion y Papur Gwyn yn cyfleu neges glir y byddai'n fanteisiol i gategorïau ysgol ddisgrifio'r allbwn (sef y lefel gallu disgwyliedig yn y Gymraeg) yn ogystal â'r mewnbwn (sef swm y ddarpariaeth addysg gan ysgolion). Heb lefelau cyfeirio cyffredin, ni fyddai modd cyfleu'r allbwn hwn mewn modd effeithiol.

3.101 Risg arall yw bod ysgolion yn ei chael yn anos deall beth yw'r nod dysgu Cymraeg y dylent fod yn gweithio tuag ato wrth iddynt wella a/neu gynyddu eu darpariaeth Gymraeg dros amser. Bydd yn anos cyfleu i ba raddau y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd wrth i ddarpariaeth addysg Gymraeg gynyddu a/neu wella. Gallai hyn olygu bod y sefyllfa gyfredol yn parhau, gyda'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion bob degawd yn gadael yr ysgol heb gael y cyfle i ddysgu Cymraeg i lefel a fyddai'n eu galluogi i ddewis defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd.

## Rhan 3: Addysg Gymraeg

### i) Cefndir

3.102 Mae ysgolion a gynhelir yng Nghymru wedi cael eu categoreiddio, yn anstatudol, yn ôl cyfrwng iaith ers 2007. Mae'r gyfundrefn gategoreiddio wedi esblygu dros amser, ac yn 2021 cyhoeddwyd canllawiau anstatudol newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith.

3.103 Yn y canllawiau hynny, cyflwynwyd tri chategori ar gyfer ysgolion cynradd a thri chategori ar gyfer ysgolion uwchradd. Y categorïau hynny oedd ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwy iaith ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Cyflwynwyd hefyd ddau is-gategori trosiannol i ddynodi bod ysgol ar lwybr tuag at gategori uwch, ynghyd â chategori cyfrwng Cymraeg Penodedig. Ym mis Ionawr 2024, roedd pob ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi gosod eu hunain o fewn un o'r categorïau hyn. Mae hyn yn fan cychwyn cadarn wrth inni greu categorïau iaith statudol.

3.104 Mae ysgolion yn cynnwys eu categori iaith yn eu prosbectws, ac mae awdurdodau lleol yn cynnwys categorïau iaith holl ysgolion eu hardal o fewn eu prosbectws cyfansawdd.

3.105 Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £2.2 miliwn ar gyfer addysg drochi hwyr. Diben addysg drochi hwyr yw helpu dysgwyr sy'n ymuno ag addysg Gymraeg yn ddiweddarach a disgyblion nad oedd y Gymraeg yn rhan o'u bywyd bob dydd efallai, i feithrin y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen er mwyn parhau i ddysgu drwy'r Gymraeg.

3.106 Mae'r cyllid hwn wedi golygu bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu addysg drochi hwyr – boed hynny drwy sefydlu darpariaeth trochi hwyr newydd lle nad oedd yn bodoli o gwbl o'r blaen, neu drwy ehangu eu darpariaeth i ymateb i'r galw cynyddol. Ers i'r grant ddod yn weithredol yn 2021, mae tua 2,500 o ddysgwyr wedi elwa o ymyraethau trochi hwyr.

### ii) Pam y mae angen newid

3.107 Mae'r categorïau iaith anstatudol, ochr yn ochr â mentrau cysylltiedig megis y Siarter Iaith a Cymraeg Campus, wedi newid y ffordd yr ydyn ni'n meddwl am addysg Gymraeg o fewn ein hysgolion. Mae'r categorïau iaith wedi cyflawni newidiadau pellgyrhaeddol wrth i rai ysgolion fod â chymhelliant i symud i gategori uwch dros amser.

3.108 Mae cyfundrefn y categorïau iaith nid yn unig wedi ei mabwysiadu ar lefel ysgolion, ond mae wedi arwain at sefydlu rhwydweithiau a chysylltiadau rhwng awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio eu darpariaeth Gymraeg a gweithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn y blynyddoedd diwethaf, sefydlwyd rhwydwaith anffurfiol ymhlith awdurdodau lleol gorllewin Cymru i drafod pynciau llosg a heriau cyffredin mewn perthynas â chategorïau iaith, ac yn ddiweddarach sefydlwyd rhwydwaith debyg ar gyfer awdurdodau lleol dwyrain Cymru.

3.109 Mae’r categorïau anstatudol yn sicr wedi ennyn brwdfrydedd ymhlith awdurdodau lleol. Ond mae ymdeimlad hefyd ei bod bellach yn amser rhoi sail gryfach i’r categorïau iaith. Gan mai ar ffurf canllawiau anstatudol y mae’r categorïau presennol wedi eu creu, nid oes ond rheidrwydd i ysgolion roi sylw i’r canllawiau ac felly mae’n anos sefydlu trefniadau monitro cadarn i sicrhau bod gofynion penodol y categorïau yn cael eu diwallu.

3.110 Mae’r her o ran monitro darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion mewn modd ystyrlon yn anghydnaws â’r brwdfrydedd sydd i’w gael ynghylch addysg Gymraeg ar draws awdurdodau lleol ledled Cymru. Drwy greu categorïau statudol, bydd hyn yn rhoi sylfeini cryfach i’r gyfundrefn gategoreiddio, ac yn galluogi i awdurdodau lleol fonitro’r ddarpariaeth yn well ar draws ysgolion, a thrwy hynny adnabod ym mhle y dylai flaenoriaethu unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen.

3.111 Yn wahanol i’r categorïau anstatudol hefyd, mae’r categorïau statudol sy’n cael eu cynnig yn y Bil hefyd yn cydnabod pwysigrwydd disgrifio’r categorïau yn ôl yr allbwn yn ogystal â’r mewnbwn. Yr hyn a olygir gan hyn yw disgrifio nid yn unig y ddarpariaeth y bydd ysgolion yn ei rhoi i ddisgyblion (sef y ‘mewnbwn’), ond hefyd y nodau dysgu Cymraeg, sef y deilliant cyffredinol y byddai disgwyl i ddisgyblion mewn ysgol o’r categori fod wedi ei gyrraedd erbyn diwedd addysg orfodol (sef yr ‘allbwn’).

3.112 Roedd hyn yn rhywbeth a gododd yn aml yn yr ymatebion i’r Papur Gwyn wrth i ymatebwyr weld gwerth mewn deall lefel gallu yn y Gymraeg a fyddai’n ddisgwyliedig fesul categori iaith, a pherthnasedd hynny i’r byd gwaith a thu hwnt.

3.113 Yn yr ymatebion i’r Papur Gwyn, cafwyd barn glir gan nifer fod y broses newidiadau rheoleiddiedig o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gallu ei gwneud yn heriol cynyddu’r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion – boed y cynnydd hwnnw wedi ei gynnig gan yr ysgol neu gan yr awdurdod lleol.

3.114 Roedd hefyd ddryswch weithiau yn sgil y ffaith bod trefn wahanol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a sefydledig o'i chymharu â'r sefyllfa ar gyfer ysgolion cymunedol. Gan hynny, mae'r Bil yn cynnig diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2013 gan y bydd unrhyw gynnydd a wneir mewn darpariaeth addysg Gymraeg yn digwydd o fewn cyd-destun newydd y Fframwaith Cenedlaethol a'r Cynlluniau Strategol Lleol, ac yn destun ymgynghoriadau yn sgil y gyfundrefn newydd. Bydd cyfleoedd priodol i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y cynllun cyflawni a gynigir yn Rhan 3 o'r Bil, ac ynghylch y Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg a gynigir yn Rhan 4 o'r Bil.

3.115 O ran addysg drochi hwyr, mae'r buddsoddiad o £2.2 miliwn wedi cael effeithiau trawsnewidiol ar fywydau nifer fawr o ddysgwyr, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg lle na fyddai hynny wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan hwyluso'r sector addysg drochi hwyr i barhau i agor drysau newydd i ddisgyblion.

## iii) Amcanion polisi a diben y ddeddfwriaeth

**Categorïau iaith ysgolion**

3.116 Yr amcan polisi cyffredinol yw cryfhau'r gyfundrefn o gategoreiddio darpariaeth addysg Gymraeg ysgolion. Bydd hyn yn golygu bod pob ysgol a gynhelir yn pennu categori iaith ar gyfer yr addysg Gymraeg y maent yn ei darparu, ac y byddant o dan ddyletswydd i ddarparu'n unol ag amrediad eu categori iaith.

3.117 Mae'n hollbwysig creu strwythur atebolrwydd cadarn sy'n galluogi awdurdodau lleol i gael gorolwg clir o'r union ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ysgolion eu hardal, ynghyd â dull i'r awdurdod lleol ddylanwadu ar addysg Gymraeg yr ysgolion hynny. Mae cynigion y Bil yn golygu y bydd cyfle i'r awdurdod lleol ddylanwadu fel ymgynghorai i gynlluniau cyflawni ysgolion, a thrwy ei rôl yn cymeradwyo'r cynlluniau cyflawni maes o law.

3.118 Bydd hyn nid yn unig yn rhoi rôl oruchwylio i'r awdurdod lleol, ond bydd hefyd yn gyfle i'r awdurdod lleol adnabod lle i flaenoriaethu unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion i ddarparu addysg Gymraeg o fewn eu categori neu i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn meddu ar yr ysgogiadau hyn gan y bydd yr awdurdod lleol ei hun yn ddarostyngedig i dargedau drwy'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg

Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

3.119 Dylid cydnabod bod y canllawiau anstatudol presennol yn gofyn i ysgolion cyfrwng Saesneg ddarparu 15% o'u holl ddarpariaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y ganran hon yn cwmpasu'r ddarpariaeth gwricwlaidd a'r ddarpariaeth allgyrsiol. Wrth roi sail statudol i gategorïau iaith, nid yw'n ymarferol gosod gofyniad statudol ar ysgolion mewn perthynas â'u darpariaeth allgyrsiol – yn anad dim gan ei bod yn llawer anos monitro darpariaeth allgyrsiol. Hefyd, mae'r ddarpariaeth allgyrsiol a ddarperir yn gallu amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol, ac o flwyddyn ysgol i flwyddyn ysgol.

3.120 Mae'r Bil yn cynnig felly bod yr addysg Gymraeg sy'n ofynnol ym mhob categori yn seiliedig ar sesiynau ysgol. Bydd hyn yn darparu eglurder i'r ysgolion a'r awdurdodau lleol ill dau ynghylch beth yw'r disgwyliad. Gosodir dyletswydd hefyd ar gyrff llywodraethu ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn darparu swm o addysg Gymraeg sydd o fewn amrediad eu categori iaith.

3.121 Ar gyfer ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", mae'r Bil yn cynnig gosod gofyniad bod o leiaf 10% o'u darpariaeth yn addysg Gymraeg. Mae'r Bil yn diffinio addysg Gymraeg fel addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) neu addysg/hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.122 Mae'r gwaith ymgysylltu yr ydyn ni wedi ei wneud, a'r gwaith ystadegol sydd ar gael, yn awgrymu bod isafswm o 10% yn realistig ac yn deg o ystyried yr heriau sy'n bodoli o ran prinder gweithlu sydd â sgiliau Cymraeg.

3.123 Dylid nodi hefyd mai isafswm yw'r 10%, ac y disgwylir i ysgolion weithio i wella neu gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg dros amser. Mae'r Bil yn cynnig y bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried unwaith ym mhob cyfnod o bum mlynedd p'un a ddylid cynyddu'r isafswm hwn. Byddai penderfyniad o'r fath yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys sicrwydd bod gweithlu digonol, adnoddau pwrpasol a chefnogaeth effeithiol.

3.124 Yn ogystal ag amrediad o ran y ddarpariaeth addysg Gymraeg, bydd gan bob categori iaith nod dysgu Cymraeg y bydd disgwyl iddynt weithio tuag atynt. Y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer y categorïau fydd:

| **Categori iaith** | **Nod dysgu Cymraeg** |
|---|---|
| Prif Iaith - Cymraeg | Bod disgyblion yn ddefnyddwyr hyfedr o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel |

| | |
|---|---|
| | cyfeirio gyffredin C1 neu C2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr hyfedr. |
| Dwy Iaith | Bod disgyblion yn ddefnyddwyr annibynnol o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr annibynnol. |
| | Erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, bod disgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, (defnyddiwr Cymraeg annibynnol) o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol. |
| Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg | Hyd at ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, bod disgyblion yn ddefnyddwyr sylfaenol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol.<br><br>Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr sylfaenol.<br><br>O ran y lefelau cyfeirio cyffredin sy'n cwmpasu defnyddiwr sylfaenol, bydd disgwyl i gynllun cyflawni ysgol o dan adran 14(1)(f)(iii) hwyluso gwelliant parhaus. O wneud hynny, y disgwyl dros amser yw y bydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin A2 o leiaf. |

| | |
|---|---|
| | Ar ôl y dyddiad hwnnw,<br>(i) bod disgyblion yn ddefnyddwyr annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr annibynnol. |
| | (ii) erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, fod disgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, (defnyddiwr Cymraeg annibynnol) o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol. |

3.125 Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith mai nod dysgu Cymraeg ysgolion "Dwy Iaith" yw bod disgyblion yn ddefnyddwyr annibynnol erbyn diwedd oedran ysgol gorfodol, ac mai dyna fydd y nod hefyd ar gyfer ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" maes o law, a hynny erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Ar un olwg, mae hyn yn cyd-fynd ag amcan polisi cyffredinol y Bil, sef ein bod ni am weld y bwlch rhwng deilliannau ieithyddol disgyblion yn lleihau. Ond mae hefyd yn deg nodi ei bod yn debygol y bydd deilliannau ieithyddol disgyblion yn uwch po fwyaf o gyswllt â'r Gymraeg a gânt.

3.126 Gan hynny, bydd disgyblion mewn ysgolion "Dwy Iaith" yn fwy tebygol o allu gweithio tuag at y nod o fod ar frig 'defnyddiwr annibynnol', sef B2 nid yn unig o ran rhyngweithio ar lafar ond hefyd mewn agweddau eraill. Gan y bydd ysgol "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yn darparu llai o oriau cyswllt â'r Gymraeg, bydd disgyblion yn fwy tebygol o fod yn is o fewn cwmpas 'defnyddiwr annibynnol', sef B1 ar draws gwahanol agweddau (ond B2 o ran rhyngweithio ar lafar). Er y bydd y nod dysgu Cymraeg cyffredinol yr un fath ar gyfer y ddau gategori hyn maes o law, bydd y lefelau cyrhaeddiad yn amrywio o fewn rhychwant 'defnyddiwr annibynnol'.

3.127 Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu dyddiadau pan osodir nod:

- bod disgyblion ysgolion ‘Dwy Iaith’ yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol;
- bod disgyblion ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” yn ddefnyddwyr annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol.
- bod disgyblion ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol.

Bydd y dyddiadau hyn yn cael eu pennu yn seiliedig ar gynnydd priodol a wneir yn y categorïau hyn, ac yn seiliedig ar ffactorau megis adnoddau a chapasiti’r gweithlu. Nid ydynt o anghenraid am fod yr un dyddiad ar gyfer uwchraddio’r nodau ar draws y categorïau.

3.128 Amcan polisi cyffredinol rhoi ffocws ar nodau dysgu Cymraeg yw y bydd rhieni, gwarcheidwaid a dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am y llwybr addysg y maent am ei ddilyn yn seiliedig ar y nodau dysgu Cymraeg. Bydd perthnasedd y nodau dysgu Cymraeg hefyd yn cael ei amlygu fwyfwy os bydd gweithleoedd ddefnyddio’r un dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail y lefelau cyfeirio cyffredin.

3.129 Y bwriad yw bod y nodau dysgu Cymraeg yn rhai sefydlog a throsfwaol a fydd yn gefnlen i waith ysgolion o gynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg. Mae’r ddarpariaeth yn y Bil i ddiwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn golygu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio’r Cod Cynnydd a’i gadw o dan adolygiad, roi sylw i’r nodau dysgu Cymraeg sydd wedi eu gosod ar gyfer y gwahanol gategorïau o ddarpariaeth addysg Gymraeg ysgolion. Y Cod Cynnydd sy’n nodi’r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan ddisgyblion.

3.130 Mae darpariaethau’r Bil yn cefnogi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a’r Cod Cynnydd. Mae disgwyl eisoes i ysgolion ddylunio cwricwlwm a fydd yn galluogi dysgwyr i wneud ‘cynnydd priodol’ mewn perthynas ag elfen Gymraeg fandadol y meysydd dysgu a phrofiad.

3.131 Wrth gwrs, bydd y cyflymder y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at unrhyw ddeilliannau disgwyliedig yn parhau i fod yn unigol i bob dysgwr, yn unol â’r Cod Cynnydd. Rydym yn rhagweld y bydd ysgolion, yn enwedig ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”, yn gallu manteisio ar arbenigedd ac arweiniad yr Athrofa Dysgu Cymraeg

Genedlaethol (y corff a sefydlir gan y Bil) o ran sut i wella eu darpariaeth addysg Gymraeg i gyflawni eu nod dysgu Cymraeg.

3.132 Er mwyn galluogi ysgolion i asesu bod dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol tuag at wireddu'r nod tymor hir o ddod yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n darparu yn benodol y gellir defnyddio'r pŵer yn adran 56 o Ddeddf 2021 i bennu trefniadau asesu at y pwrpas o sicrhau cynnydd disgyblion tuag at wireddu nod dysgu Cymraeg yr ysgol. Rhagwelir byddai asesiadau o'r fath yn darparu gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau ysgolion ynghylch gwella a chynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg, ac yn hwyluso'r rhoi'r cefnogaeth briodol iddynt.

**<u>Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg</u>**

3.133 Mae'r Bil yn cynnig y bydd gofyniad ar bob ysgol a gynhelir i lunio cynllun cyflawni. Bydd y cynllun hwn yn:

- nodi categori iaith yr ysgol
- nodi swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol ar adeg llunio'r cynllun
- esbonio sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â'i chategori iaith
- nodi sut y bydd yr ysgol yn hybu addysg drochi hwyr
- nodi cynigion o ran swm yr addysg Gymraeg sydd i'w ddarparu yn ystod cyfnod y cynllun, a chynigion ar gynnal y swm hwnnw neu ei gynyddu pan fo hynny'n rhesymol ymarferol
- nodi, os yw'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o dan oedran ysgol gorfodol:
  - y swm o addysg feithrin Gymraeg a ddarperir ar yr adeg y llunnir y cynllun cyflawni,
  - cynigion y corff llywodraethu ar y swm o addysg feithrin Gymraeg y bwriedir ei ddarparu yn ystod cyfnod y cynllun cyflawni
  - cynigion y corff llywodraethu ar gynnal y swm hwnnw o addysg feithrin Gymraeg, a chynyddu'r swm pan fo hynny'n rhesymol ymarferol;
- nodi sut y bydd yr ysgol, at ddibenion cyflawni nod dysgu Cymraeg yr ysgol, yn:
  - hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol
  - hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol
  - hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol
- nodi'r cynigion y bwriedir eu cymryd i newid categori iaith yr ysgol, os yw'r corff llywodraethu yn dymuno.

3.134 Drwy osod gofyniad ar bob ysgol i lunio cynllun cyflawni, a manylu ar yr hyn y dylai cynllun o'r fath ei gynnwys, y nod yw y bydd hyn yn rhoi

arweiniad i ysgolion wrth iddynt gynllunio eu haddysg Gymraeg ar lefel ymarferol. Mae’r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn manylu ymhellach ar ffurf a chynnwys cynlluniau o’r fath. Gallai templed ar gyfer y cynlluniau cyflawni fod yn ddefnyddiol i ysgolion ddeall beth yn union y mae disgwyl iddynt ei wneud. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i baratoi templed sy'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ysgolion ei darparu, a'r wybodaeth y bydd awdurdodau lleol yn ei chael yn ddefnyddiol wrth lywio eu Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg.

3.135 Wrth lunio’r cynllun cyflawni, bydd yn rhaid i gorff llywodraethu’r ysgol ymgynghori â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion, rhieni disgyblion, staff yr ysgol a’r awdurdod lleol. Yr amcan yw y bydd hyn yn gyfle i randdeiliaid gael cyfrannu at benderfyniadau a wneir am yr addysg Gymraeg a ddarperir, ac yn benodol i’r awdurdod lleol gael rhoi barn ar ddigonolrwydd y cynllun i fodloni disgwyliadau’r Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg. Dylai hyn hefyd hwyluso’r broses gymeradwyo gan y bydd yr awdurdod lleol wedi cael cyfle i ddylanwadu ar y cynllun cyflawni cyn i ddrafft gael ei gyflwyno iddo.

3.136 Unwaith y bydd cynllun cyflawni wedi ei gyflwyno i’r awdurdod lleol, caiff yr awdurdod lleol ei gymeradwyo, ei gymeradwyo gydag addasiadau a gytunir gan gorff llywodraethu’r ysgol, neu ei wrthod gyda chyfarwyddyd i’r corff llywodraethu ailystyried y cynllun cyflawni. Os gwrthodir y cynllun, rhaid i gyfarwyddyd nodi’r rhesymau dros y penderfyniad a phennu erbyn pryd y mae’n rhaid i’r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach i’r awdurdod lleol. Yn unol â’r llinyn atebolrwydd clir a gyflwynir gan y Bil, rhaid i’r awdurdod lleol allu sicrhau bod modd iddo gyrraedd y targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ac mae rôl gymeradwyo yn hwyluso hyn.

3.137 Nodwyd eisoes y bydd gofyniad ar gyrff llywodraethu i sicrhau bod ysgolion yn darparu swm o addysg Gymraeg sydd o fewn amrediad eu categori, ac na chaiff hynny fod yn is na 10% o’r ddarpariaeth yn unol â’r isafswm a ragnodir yn y Bil. Yr amcan polisi yw y bydd canllawiau manylach yn cael eu llunio i ysgolion ddeall yn union sut y gallai 10% edrych ar lawr y dosbarth. Bydd rôl gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill i roi arweiniad pellach i ysgolion “Prif Iaith Saesneg – rhannol Gymraeg”, a’u cynorthwyo i ddarparu’r isafswm hwn.

3.138 Bydd mesurau anneddfwriaethol yn hollbwysig i’r perwyl hwn. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod adnoddau addysgu effeithiol ar gael i ysgolion, cynyddu’r gweithlu addysg dros amser, cyfleoedd i uwchsgilio staff lle bo’n briodol, a manteisio ar dechnoleg i hwyluso darpariaeth

addysg Gymraeg.

3.139 Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd cydnabod y bydd darparu o leiaf 10% o'u haddysg yn Gymraeg yn her i rai ysgolion, a hynny am resymau a all fod y tu hwnt i'w rheolaeth.

3.140 I'r perwyl hwn, mae'r Bil yn caniatáu i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" gyflwyno – fel rhan o'u cynllun cyflawni cyntaf – cais am esemptiad dros dro i'r gofyniad i ddarparu yr isafswm o addysg Gymraeg. Caniateir i ysgol wneud cais o'r fath os yw o'r farn nad yw'r ysgol yn gallu darparu'r isafswm o addysg Gymraeg ar gyfer ysgol "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". Os cymeradwyir cais o'r fath, bernir mai'r categori iaith "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" a ddynodir yn gategori iaith yr ysgol ar gyfer cyfnod y cynllun.

3.141 Yr amcan polisi yma yw cydnabod na fydd yn rhesymol ymarferol i rai ysgolion ddarparu'r isafswm o 10% pan ddaw'r gofyniad hwnnw i rym. Bydd yn rhaid i'r ysgol, wrth wneud cais am esemptiad dros dro, hefyd nodi:

- y rhesymau pam nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg;
- cynigion yr ysgol ar gyfer sicrhau y gall ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg (o leiaf);
- y dyddiad erbyn pryd y bydd y cynigion hynny wedi'u cymryd, dyddiad sydd heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o dair blynedd y mae'r cynllun cyflawni drafft yn ymwneud ag ef;
- gwybodaeth am y gefnogaeth y mae'r ysgol ei hangen er mwyn gallu darparu'r isafswm o addysg Gymraeg.

3.142 Diben hyn yw darparu tryloywder ynghylch yr union addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol, y rhwystrau sy'n atal yr ysgol rhag darparu'r isafswm, a'r camau a gaiff eu cymryd i gynyddu'r addysg Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi'r gofyniad i unrhyw gais am eithriad dros dro fanylu'r gefnogaeth y mae'r ysgol ei hangen gan yr awdurdod lleol er mwyn cyrraedd yr isafswm.

3.143 Mae hyn yn cydnabod na ddylai fod yn rhaid i ysgol weithio mewn seilo heb arweiniad i ddarparu'r isafswm. Bydd yr awdurdod lleol ei hun yn ddarostyngedig i ddisgwyliadau yn y Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg, ac felly er mwyn bodloni'r disgwyliadau hyn bydd yn fanteisiol i'r awdurdod lleol gefnogi ysgolion i gynyddu eu haddysg Gymraeg fel eu bod yn bodloni'r isafswm.

3.144 Yn ogystal, os yw'r ysgol wrth lunio ei ail gynllun cyflawni yn parhau o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg, caniateir i'r ysgol wneud cais am esemptiad pellach gan nodi

pam nad oedd y cynigion wedi llwyddo, neu pam na weithredwyd y cynigion hynny, ynghyd â'r cynigion pellach i ddarparu'r isafswm a pha gefnogaeth sydd ei hangen.

3.145 Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd penderfynu a ddylid cymeradwyo'r eithriadau hyn. Os bydd gan ysgol resymau dilys pam na ellir yn rhesymol ymarferol ddarparu'r isafswm, gall fod yn briodol cymeradwyo cais o'r fath gan gydweithio â'r ysgol i gynyddu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad oes rhwystrau rhesymol ymarferol sy'n atal ysgol rhag darparu'r isafswm, a bod capasiti amgen i ddarparu'r isafswm, gallai fod yn briodol i'r awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r ysgol ailystyried y cynllun cyflawni.

3.146 Gallai fod yn ddefnyddiol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau yn amlinellu'r math o resymau a allai fod yn ddilys dros gymeradwyo cais am esemptiad, ynghyd ag unrhyw gynigion amgen o ran sut y gellid darparu'r isafswm os na chymeradwyir y cais am esemptiad.

3.147 Mae'r Bil hefyd yn gosod gofyniad ar gorff llywodraethu ysgol i adolygu'r cynllun cyflawni o leiaf unwaith cyn diwedd y cynllun. O ystyried y bwriedir i'r cynllun cyflawni gynnwys manylion ymarferol o ran swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol a'r modd y mae'n cynnal y ddarpariaeth honno, mae'n bosibl ac yn debygol y bydd rhai ffactorau yn newid rhwng dechrau a diwedd y cynllun.

3.148 Yr amcan polisi felly yw y bydd gofyniad i adolygu'r cynllun o leiaf unwaith yn gyfle i'r ysgol werthuso beth sy'n gweithio'n dda a lle y gellid gwella, a bydd hefyd yn gyfle i'r awdurdod lleol werthuso darpariaeth addysg Gymraeg yr ysgol a chynnig cefnogaeth bellach lle bo'n briodol. Bydd modd i gorff llywodraethu ddiwygio'r cynllun cyflawni os yw'n briodol, a bydd gweithdrefn gymeradwyo'r awdurdod lleol yn berthnasol.

3.149 Mae'r Bil hefyd yn cydnabod y gallai cynllun cyflawni gael ei newid er mwyn newid categori iaith. Manylir na chaniateir newid categori iaith ysgol:

- o gategori "Dwy Iaith" i gategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg";
- o gategori "Prif Iaith – Cymraeg" i gategori "Dwy Iaith" neu gategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

3.150 Mae hyn yn adlewyrchu un o'r egwyddorion craidd a gyflwynwyd gyda chanllawiau anstatudol categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith yn 2021, sef na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Mae hefyd yn cyd-

fynd â darpariaeth arall a wneir yn y Bil y dylid gweithio i gynyddu'r ddarpariaeth lle bo'n rhesymol ymarferol, a gwella'r addysg Gymraeg yn barhaus. Cafodd yr egwyddor na ddylid cynnig llai o ddarpariaeth yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol gefnogaeth eang yn y Papur Gwyn hefyd.

3.151 Gan fod newid categori iaith yn gam pwysig yn nhaith iaith ysgol, gan arwain at nod dysgu Cymraeg uwch, mae'r Bil yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori os oes diwygiad yn cael ei wneud i gynllun cyflawni yn ystod oes y cynllun a fyddai'n arwain at newid categori iaith.

3.152 Mae'r Bil yn gosod gofyniad ar gorff llywodraethu ysgol i gyhoeddi cynllun cyflawni'r ysgol. Teimlir bod hyn yn bwysig gan y bydd manylion ynghylch addysg Gymraeg yr ysgol wedi eu cynnwys yn y cynllun cyflawni, a gallai hyn helpu rhieni, gwarcheidwaid a disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am yr addysg y maent am ei chael. Mae hefyd yn darparu eglurder i'r aelodau o staff.

**Ysgolion meithrin a gynhelir**

3.153 Mae darpariaeth yn y cynlluniau cyflawni ar gyfer ysgolion a gynhelir i fanylu ar eu darpariaeth a'u cynigion mewn perthynas â disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn golygu, os oes gan ysgol uned feithrin ynghlwm wrth yr ysgol, bydd gofyn iddi fanylu ar faint o addysg feithrin cyfrwng Cymraeg a ddarperir, a chynigion ar gyfer cynnal y swm hwnnw neu ei gynyddu lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr uned feithrin yn darparu addysg feithrin yn yr un cyfrwng iaith ag a ddarperir i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr meithrin a gynhelir ynghlwm wrth ysgolion fel hyn, ac felly byddant yn cael eu cynnwys yng nghynllun cyflawni'r ysgol.

3.154 Fodd bynnag, mae nifer fach o ysgolion meithrin a gynhelir yng Nghymru. Gwneir darpariaeth yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r math hwn o ysgolion ddarparu gwybodaeth debyg yn eu cynlluniau cyflawni addysg feithrin cyfrwng Cymraeg eu hunain.

**Ysgolion arbennig**

3.155 Un o negeseuon craidd y Bil yw ein bod am i bob disgybl gael cyfle teg i ddod yn siaradwr Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod y gyfundrefn gategoreiddio a sefydlir yn cwmpasu ysgolion o bob math – yn rhai cymunedol, gwirfoddol a sefydledig. Fodd bynnag, rhaid taro'r cydbwysedd cywir sy'n ystyriol o wahanol amgylchiadau. I'r perwyl hwn, penderfynwyd ei bod yn deg caniatáu eithriad dros dro i ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" rhag darparu'r isafswm statudol lle bo hynny'n heriol.

3.156 Yng nghyd-destun ysgolion arbennig cymunedol, mae'n rhaid taro'r cydbwysedd cywir rhwng galluogi ysgolion o'r fath i fod yn rhan o'r gyfundrefn gategoreiddio ehangach a rhoi ystyriaeth deilwng i'r amgylchiadau unigryw y maent yn gweithio o'u mewn. Mae meithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn bwysig ym mhob ysgol yng Nghymru, ond cydnabyddir y gallai fod yn arbennig o heriol i ysgolion arbennig gydymffurfio â darparu canran benodol o'u darpariaeth yn Gymraeg.

3.157 Felly, mae'r Bil yn gosod gofyniad ar ysgolion arbennig i lunio cynllun mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n nodi'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir, a chynigion y corff llywodraethu i hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol, ynghyd â hybu defnydd o'r iaith. Nid oes rheidrwydd iddynt ddarparu swm penodol o ddarpariaeth Gymraeg, ond mae cyfle iddynt arddangos yr hyn y maent yn ei wneud i hybu'r iaith ymhlith eu disgyblion.

3.158 Dylid nodi hefyd ei bod yn bosibl y bydd rhai ysgolion arbennig yn awyddus i ddarparu swm penodol o ddarpariaeth Gymraeg, ac y caniateir iddynt felly ddynodi categori iaith ar sail wirfoddol. Fel enghraifft, gallai hyn fod yn ddymunol i ysgolion arbennig cyfrwng Cymraeg sy'n dymuno cyfleu i rieni a disgyblion mai Cymraeg yw prif iaith y ddarpariaeth.

**Cofrestr categorïau iaith ysgolion**

3.159 At ddibenion darparu tryloywder, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal a chyhoeddi cofrestr sy'n cynnwys categori iaith pob ysgol yn eu hardal, cofnod o bob cais am esemptiad a gymeradwywyd, a chategori iaith arfaethedig unrhyw ysgolion newydd y gwneir cynigion ar eu cyfer.

3.160 Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, mae nifer o awdurdodau lleol eisoes yn cynnal cofrestr debyg, ac mae'r wybodaeth wedi ei chynnwys ym mhrosbectysau cyfansawdd awdurdodau lleol. Felly yr amcan yw nad yw'r ddyletswydd hon yn esgor ar faich gwaith sylweddol uwch na'r hyn a wneir ar hyn o bryd.

3.161 Fodd bynnag, bydd cynnwys dyletswydd o'r fath yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol ac yn ddefnyddiol o safbwynt gweinyddol. Bydd hefyd yn gyfle i randdeiliaid gael dweud eu dweud ar unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion newydd yn gynnar yn y broses.

**Addysg drochi hwyr**

3.162 Fel y nodwyd uchod, mae’r sector addysg drochi hwyr wedi profi i fod yn ddull effeithiol o sicrhau y gall disgyblion gyfranogi’n ystyrlon mewn addysg cyfrwng Cymraeg lle na byddai hynny wedi bod yn bosibl fel arall.

3.163 Mae’r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr sy’n ateb y galw amdani yn eu hardal. Yr amcan polisi yma yw atgyfnerthu rôl awdurdodau lleol o ran trefnu addysg drochi hwyr ac annod y galw a chyfranogiad ynddi.

3.164 Amcan cyffredinol y ddarpariaeth hon yw sicrhau tegwch ymhlith disgyblion drwy roi’r cyfle iddynt gael eu trwytho yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i elwa’n llawn o addysg mewn ysgol categori “Prif Iaith - Cymraeg" neu ysgol categori “Dwy Iaith”.

## iv) Sut y mae’r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu’n effeithlon

3.165 Mae darpariaethau’r Rhan hon, ynghyd â darpariaethau Rhan 4 ynghylch y Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg, yn sicrhau llinyn atebolrwydd clir rhwng yr ysgol a’r awdurdod lleol.

3.166 Mae’n hollbwysig bod gan yr awdurdod lleol orolwg cadarn o’r addysg Gymraeg a ddarperir ar draws ei ardal, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei rôl gymeradwyo ar gyfer cynlluniau cyflawni a’r categori iaith.

3.167 O allu dylanwadu ar ddarpariaeth addysg Gymraeg ysgolion ei ardal, a sicrhau ei fod yn darparu’r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, bydd yr awdurdod lleol mewn sefyllfa gref i allu cyflawni’r targedau a osodir arno yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

3.168 Yn sgil y gofynion manwl yn y Bil ynghylch yr hyn y mae’n rhaid i gynllun cyflawni ei gynnwys, a’r ffaith y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach am ffurf a chynnwys y cynlluniau, dylai hyn ddarparu eglurder i ysgolion o’r hyn sy’n ofynnol ohonynt. Mae arweiniad clir gan Weinidogion Cymru drwy’r Bil a thrwy reoliadau maes o law yn hanfodol i sicrhau bod ysgolion yn llunio cynlluniau cyflawni cynhwysfawr ac effeithiol.

3.169 Y tu hwnt i’r sector addysg, yn sgil y darpariaethau ynghylch y categorïau statudol – ac yn benodol, y nodau dysgu Cymraeg sydd

ynghlwm wrth y categorïau hynny – mae potensial y gall hyn fod yn fuddiol i'r sector addysg bellach wrth iddynt gynllunio eu darpariaeth, neu weithleoedd wrth iddynt recriwtio staff yng ngoleuni eu sgiliau iaith.

## v) Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.170 Fel y nodwyd uchod, mae'r gyfundrefn gategoreiddio yn ôl cyfrwng iaith wedi datblygu gryn dipyn ers ei chyflwyno am y tro cyntaf yn 2007. Yn sgil y datblygiad diweddaraf, sef cyhoeddi'r canllawiau anstatudol yn 2021, mae'r categorïau wedi ymwreiddio yng ngwaith cynllunio awdurdodau lleol ac ysgolion fel ei gilydd.

3.171 Fodd bynnag, roedd rhoi sail statudol i'r categorïau iaith yn rhywbeth y bwriadwyd ei ystyried ymhellach hyd yn oed ar adeg cyhoeddi'r canllawiau anstatudol. Wrth inni osod gweledigaeth y Bil, a chymryd camau pwrpasol i gryfhau'r seilwaith sy'n cefnogi addysg Gymraeg, mae'n hollbwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle drwy'r Bil hwn i greu categorïau statudol.

3.172 Pe na byddai categorïau statudol yn cael eu creu, a'r gyfundrefn sy'n ategu hynny o ran cynlluniau cyflawni a rôl gymeradwyo awdurdodau lleol, byddai'n llawer anos sicrhau llwyddiant y Cynllun Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg a'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysgu'r Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

3.173 Mae'r canllawiau anstatudol presennol wedi sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn amlycach yn narpariaeth ysgolion, ac mae dyletswydd ar ysgolion i roi sylw i'r canllawiau hynny. Mae hyn wedi meithrin rhagor o ewyllys da tuag at addysgu'r Gymraeg hefyd wrth i awdurdodau lleol gefnogi ysgolion ar eu taith. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cynnydd a gwelliant systemig yn narpariaeth addysg Gymraeg ysgolion – a thrwy hynny, arwain at ddeilliannau ieithyddol uwch ymhlith ein disgyblion – y dull mwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy greu categorïau statudol, cynlluniau cyflawni i yrru gwelliant a chynnydd, a llinyn atebolrwydd a chefnogaeth gadarn.

3.174 Derbynnir hefyd y gallai fod risg o greu'r gyfundrefn gategoreiddio statudol hon wrth i hyn arwain at ddisgwyliadau uwch o nifer o'n hysgolion sydd ddim eisoes yn darparu 10% o'u darpariaeth o fewn sesiynau ysgol yn Gymraeg. Mae nifer o ffactorau sy'n gallu cyfrannu at yr her o gyrraedd yr isafswm. Fodd bynnag, os ydyn ni am weithredu'n bwrpasol i wella deilliannau ieithyddol ein disgyblion, rhaid cymryd camau pendant sy'n darparu eglurder i'r disgyblion, yr ysgolion a'r awdurdodau lleol fel bod cyd-ddealltwriaeth o'r cynnydd disgwyliedig. Rhwng y darpariaethau yn y Bil ynghylch eithriad dros dro a'r gofyniad i

ysgolion fanylu pa gefnogaeth y maent ei hangen gan yr awdurdod lleol, cymerir camau lliniaru cymesur i sicrhau bod gofynion y Bil yn realistig i bob ysgol.

3.175 Yn y pen draw, y risg os na wneir deddfwriaeth yw na fydd cynnydd digonol yn cael ei wneud i wireddu'r targedau cenedlaethol a osodir yn strategaeth y Gymraeg, ac na lwyddir i gyflawni nod trosfwaol Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Rhan 4: Strategaeth y Gymraeg ac Addysg

### i) Cefndir

3.176 Mae adran 78(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth y Gymraeg. *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw'r strategaeth bresennol, ac mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi rhaglen waith bob pum mlynedd yn gwerthuso llwyddiant yn erbyn targedau, ac yn nodi'r camau pellach a gaiff eu cymryd dros gyfnod y rhaglen waith.

3.177 Mae sgôp y rhaglen waith yn eang gan ei bod yn cynnwys pob sector a gwmpesir gan y strategaeth ei hun, ynghyd â'r cynnydd sydd i'w wneud yn erbyn tair prif thema'r strategaeth, sef:

- Cynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
- Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun.

3.178 Tra bo strategaeth y Gymraeg a'i rhaglen waith gysylltiedig yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar lefel genedlaethol mewn perthynas ag addysg i gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gerbyd i awdurdodau lleol wella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal, ac i wella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal.

### ii) Pam y mae angen newid

3.179 Gan fod addysg yn rhan mor greiddiol o weledigaeth strategaeth *Cymraeg 2050* ac yn un o'r prif ffyrdd y byddwn yn cyrraedd miliwn o siaradwyr, rhaid sicrhau dull cydgysylltiedig o gynllunio sy'n cwmpasu'r lefel genedlaethol, lefel awdurdodau lleol, a lefel ysgolion.

3.180 Gan hynny, teimlir ei bod yn briodol llunio Fframwaith Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg sy'n cyfleu gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn glir. Mae angen i'r Fframwaith fod yn un holistaidd sy'n rhoi sylw i'r sector addysg orfodol ac ôl-orfodol fel ei gilydd, gan adlewyrchu'r ffaith ein bod ni oll ar daith iaith, boed hynny fel disgybl mewn ysgol neu fel dysgwr y tu hwnt i'r sector addysg gorfodol.

3.181 Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar gynyddu'r sector addysg cyfrwng Cymraeg. Tra bo'r sector cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig i greu siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid hefyd cynllunio'n bwrpasol i wella deilliannau dysgu

Cymraeg disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg hefyd.

3.182 I’r perwyl hwn, rhaid symud ffocws Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel eu bod yn rhoi rhagor o sylw i’r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion ym mhob categori iaith. Yn sgil creu’r categorïau statudol drwy’r Bil hwn, a’r isafswm o addysg Gymraeg y mae’n rhaid i ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” ei darparu, mae’n briodol i’r Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg ar eu newydd wedd fonitro’r cynnydd a wneir mewn ysgolion “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” llawn cymaint ag y gwneir ar gyfer ysgolion “Prif Iaith – Cymraeg".

## iii) Amcanion polisi a diben y ddeddfwriaeth

**<u>Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg</u>**

3.183 Yr amcan polisi cyffredinol yw sicrhau bod addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol a threfniadau dysgu Cymraeg y thu hwnt i’r ysgol yn cael eu cynllunio mewn modd integredig mewn un fframwaith cynhwysfawr.

3.184 Amcan polisi pwysig arall yn sgil y gofyniad i greu Fframwaith Cenedlaethol yw cryfhau atebolrwydd mewn perthynas â’r Gymraeg. Yn ogystal ag amlinellu yn y Fframwaith y camau penodol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd – yng nghyd-destun addysg Gymraeg ac yng nghyd-destun dysgu Cymraeg gydol oes – mae gofyniad hefyd i adrodd yn flynyddol ar weithrediad y Fframwaith.

3.185 Mae’n werth nodi bod adran 78(8) a Ddeddf Llywodraeth Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithrediad strategaeth y Gymraeg. Drwy gynnwys gofyniad i’r adroddiad hwnnw roi sylw penodol i weithrediad y Fframwaith ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, bydd hyn yn sicrhau tryloywder pellach. Bydd yn cynnig cyfle rheolaidd i’r Senedd graffu ar y cynnydd a wneir i wireddu’r amcanion y Fframwaith, ac yn gyfle i’r Llywodraeth werthuso llwyddiant y camau sydd wedi eu cymryd.

3.186 Ymhellach, ynghlwm wrth y ddyletswydd i Weinidogion Cymru lunio’r Fframwaith, mae gofyniad i ymgynghori â nifer o randdeiliaid allweddol ar ddrafft o’r Fframwaith hwnnw. Mae’r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Diben hyn yw creu Fframwaith sy’n ystyried

safbwyntiau’r sawl a fydd yn cydweithio gyda Gweinidogion Cymru i wireddu amcanion y Fframwaith.

3.187 Fel y nodwyd eisoes, bydd y Fframwaith yn cwmpasu dysgwyr o bob oedran. Yng nghyd-destun y sector addysg yn benodol, mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r Fframwaith nodi’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd at wahanol ddibenion. Mae’r camau hyn i’w cymryd ochr yn ochr â chamau ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ysgolion. Dyma ymhelaethu ar y gofynion penodol mewn perthynas ag addysg Gymraeg mewn ysgolion. Nodir hefyd unrhyw gydblethiad gyda darpariaethau eraill.

| **Rhaid i’r Fframwaith Cenedlaethol nodi’r camau sydd i’w cymryd er mwyn:** | **Eglurhad pellach** |
|---|---|
| Cynyddu’r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion | Dyma’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynyddu’r addysg Gymraeg y maent yn ei chynnig pan fo hynny’n rhesymol ymarferol.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Er bod y camau hyn ar lefel genedlaethol, mae’r gofyniad hwn yn cyd-fynd â’r gofyniad ar lefel leol i ysgolion nodi yn eu cynlluniau cyflawni sut y byddant yn sicrhau cynnydd yn yr addysg Gymraeg pan fo hynny’n rhesymol ymarferol (gweler adran 14(1)(e)(ii) o’r Bil). |
| Gwella’r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion | Dyma’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd ar lefel genedlaethol i gynorthwyo ysgolion i wella ansawdd eu haddysg Gymraeg.<br><br><u>Cydblethiad</u><br>Mae’r gofyniad hwn yn cyd-fynd â’r gofyniad:<br>(i) ar lefel awdurdod lleol: i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg nodi’r camau y bydd awdurdod lleol yn eu cymryd er |

| | |
|---|---|
| | mwyn gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg (gweler adran 30(3)(a)(i)).;<br><br>(ii) (ii) ar lefel ysgol: i ysgolion nodi yn eu cynlluniau cyflawni sut y byddant yn hwyluso gwelliant parhaus yn yr addysg Gymraeg (gweler adran 14(1)(g)(iii) o'r Bil). |
| Hyrwyddo addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg", a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r categori hwnnw | Mae disgyblion yn fwy tebygol o feithrin deilliannau ieithyddol uwch po fwyaf o addysg Gymraeg a gânt. Felly, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle gorau posibl i ddod yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, a thrwy hynny esgor ar gyfleoedd newydd iddynt, mae rôl i Weinidogion Cymru o ran hybu addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg".<br><br>Ym Mhapur Gwyn y Bil hwn, gofynnwyd a ddylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod yr ymatebion yn cytuno y dylai fod rôl gan awdurdodau lleol, awgrymodd nifer y dylai Gweinidogion Cymru fod â rôl ragweithiol wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gofyniad i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys y camau a gaiff eu cymryd i hyrwyddo ysgolion "Prif Iaith – Cymraeg" yn adlewyrchu'r farn honno.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" yn ei ardal (gweler adran 30(3)(b)).<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg drochi hwyr yn y Gymraeg yn adran 23 o'r Bil. |

| | |
|---|---|
| | |
| Sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru | Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan ysgolion y capasiti i gynyddu neu wella eu haddysg Gymraeg yn ôl y disgwyl.<br><br>Gan y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn gosod targedau fesul awdurdod lleol i gynyddu neu wella'r addysg Gymraeg yn eu hardal, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd rôl arweiniol wrth sicrhau bod y targedau hyn yn gyraeddadwy. Rhaid cynllunio capasiti ymarferwyr addysg ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod gweithlu digonol i wireddu targedau'r Fframwaith Cenedlaethol.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer y gweithlu o ymarferwyr addysg sy'n gweithio yn ei ardal yn ddigonol (gweler adran 30(3)(a)(iii)). |
| Annog dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac o ran addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i annog disgyblion i ddilyn llwybr addysg Gymraeg sy'n gyson â'r ddarpariaeth flaenorol a gawsant. Drwy hynny, bydd disgyblion yn cael eu hannog i wneud cynnydd parhaus yn eu sgiliau Cymraeg. Gallai hyn, er enghraifft, fod drwy barhau mewn ysgol o'r un categori iaith wrth symud o addysg gynradd i addysg uwchradd, neu drwy symud i ysgol mewn categori iaith uwch gan fanteisio ar addysg drochi hwyr yr awdurdod lleol i'w galluogi i wneud hynny.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i hwyluso dilyniant o ran |

| | |
|---|---|
| | addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng —<br><br>(i) addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol (gweler adran 30(3)(3)(d)(i)),<br>(ii) ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir (gweler adran 30(3)(d)(ii)), a<br>(iii) addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol (gweler adran 30(3)(d)(iii)).<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd â’r ddyletswydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg drochi hwyr yn y Gymraeg yn adran 23 o’r Bil. |

3.188 Yng nghyd-destun dysgu Cymraeg y tu hwnt i’r sector addysg, mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i’r Fframwaith nodi’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer personau o bob oed yng Nghymru i ddysgu’r Gymraeg.

3.189 Mae hyn yn cynnwys:

- drwy ofal plant cyn oedran ysgol gorfodol;
- drwy addysg feithrin;
- drwy addysg drydyddol;
- yn y gweithle ac yn y gymuned.

3.190 Gyda’i gilydd, bydd y camau yng nghyd-destun y sector addysg a’r camau yng nghyd-destun dysgu Cymraeg y tu hwnt i’r sector addysg yn golygu bod gan Weinidogion Cymru orolwg cadarn o’r sefyllfa o ran dysgu Cymraeg, a bydd hyn yn galluogi dull holistaidd wrth gynllunio’r camau sydd i’w cymryd yn y tymor byr a’r tymor canolig.

**<u>Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg</u>**

3.191 Yr amcan polisi cyffredinol yn narpariaethau’r Bil am Gynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg yw sicrhau bod aliniad rhwng y weledigaeth genedlaethol a osodir yn y Fframwaith a’r gwaith o

gynllunio addysg Gymraeg a wneir ar lefel awdurdodau lleol.

3.192 Mae cyfundrefn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a gyflwynwyd gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, wedi cael effaith bellgyrhaeddol, yn enwedig wrth i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

3.193 Bydd y Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg a gyflwynir gan y Bil hwn yn rhan o strwythur cynllunio ehangach. Yn syml, yr amcan yw i'r Cynlluniau Strategol Lleol ymateb i dargedau'r Fframwaith Cenedlaethol, ac i gynlluniau cyflawni ysgolion ymateb i dargedau'r Cynlluniau Strategol Lleol. Y nod yw y bydd y dull integredig hwn yn hwyluso newid systemig wrth inni weithio i wella deilliannau ieithyddol ein disgyblion. Byddant hefyd yn nodi sut bydd yr awdurdod lleol yn hybu a hwyluso, yn ei ardal (i) addysg Gymraeg, a (ii) defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion,

3.194 Mae cyfnod y Cynlluniau Strategol Lleol hefyd yn greiddiol i'r amcan polisi. Yn sgil ymgynghoriad ar ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, roedd cefnogaeth i ymestyn cyfnod Cynlluniau o 3 blynedd i 10 mlynedd. Bwriad hyn oedd galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y tymor hir gan fod 3 blynedd yn teimlo'n rhy fyr i gael effaith arwyddocaol.

3.195 Mae cyfnod y Cynlluniau Strategol Lleol a gyflwynir gan y Bil hwn yn 5 mlynedd, ond rhaid cynnwys camau y mae'r awdurdod lleol am eu cymryd dros gyfnod o 10 mlynedd. Diben hyn yw galluogi awdurdodau lleol i amlinellu eu bwriadau hirdymor, gan gydnabod bod rhai newidiadau i ddarpariaeth ysgolion yn gallu cymryd degawd i ddwyn ffrwyth.

3.196 Fodd bynnag, er y bydd ganddynt orolwg o 10 mlynedd, mae'r gofyniad yn y Bil i bob cynllun bara 5 mlynedd yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu hyblygrwydd i weithredu dros y tymor canolig i'r tymor hir, ond gydag atebolrwydd yn sgil y gofyniad i adrodd ar y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob cynllun. Mae'r cyfnod 5 mlynedd gyda gorolwg ehangach o 10 mlynedd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol.

3.197 Yn debyg i'r Fframwaith Cenedlaethol, mae gofyniad i Gynlluniau Strategol Lleol drafft fod yn destun ymgynghori. Bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori gydag, ymysg eraill, awdurdodau lleol cyfagos, pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a phob sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ei ardal.

3.198 Dylai hyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig ar draws yr awdurdod lleol. Yn ogystal, dylai'r ffaith bod Cynlluniau Strategol Lleol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod gweledigaeth y Cynllun Strategol Lleol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol.

3.199 Gan mai gweithredu'r Cynlluniau Strategol Lleol yw un o'r prif ysgogwyr i yrru cynnydd mewn addysg Gymraeg a gwella deilliannau ieithyddol ein disgyblion, mae'n briodol sefydlu trefniadau atebolrwydd cadarn ar gyfer y Cynlluniau hyn.

3.200 Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol gadw ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg o dan adolygiad, a'i ddiwygio os yw o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol ddiwygio ei Gynllun os ydynt o'r farn bod yr awdurdod lleol yn annhebygol o gyrraedd targed yn y Fframwaith Cenedlaethol.

3.201 Er mwyn cyrraedd targedau'r Fframwaith Cenedlaethol, bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol chwarae ei ran wrth weithredu eu Cynllun Strategol Lleol. Os yw'n briodol i Estyn gynnal adolygiad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn Cynllun Strategol Lleol, bydd yn hollbwysig adnabod pa gefnogaeth y mae awdurdod lleol ei hangen er mwyn sicrhau bod unrhyw dargedau yn cael eu cyrraedd.

### iv) Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n effeithlon

3.202 Fel y nodwyd eisoes, mae darpariaethau'r Rhan hon ynghylch Fframwaith Cenedlaethol a Chynlluniau Strategol Lleol i'w hystyried fel rhan o gyfundrefn ehangach. Bydd y gyfundrefn hon yn sicrhau aliniad mewn cynlluniau ar lefel genedlaethol, ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel ysgolion.

3.203 Bydd rhanddeiliaid perthnasol yn ymgynghoreion i'r Fframwaith Cenedlaethol neu'r Cynllun Strategol Lleol, ac felly dylai pob sector a fydd yn cael eu heffeithio gan unrhyw welliant neu gynnydd dros amser mewn addysg Gymraeg fod wedi cael cyfle i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ar bob lefel.

3.204 Dylai'r llinyn atebolrwydd clir rhwng y Fframwaith Cenedlaethol, y Cynlluniau Strategol Lleol ar lefel awdurdodau lleol, a'r Cynlluniau Cyflawni ar lefel ysgolion sicrhau bod targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu gosod yn y lle cyntaf, a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd fel y darperir unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar unrhyw lefel i alluogi'r

targedau i gael eu cyrraedd.

3.205 Y llinyn arian drwy'r Bil cyfan yw'r lefelau cyfeirio cyffredin sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg. Bydd y lefelau cyfeirio hyn yn cael eu defnyddio ar bob lefel o gynllunio addysg Gymraeg. Dylai dealltwriaeth o'r lefelau hyn a'r amcan polisi i sicrhau bod pob disgybl yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol helpu sectorau i ddeall y weledigaeth sy'n gyrru'r targedau a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol a'r Cynlluniau Strategol Lleol.

## v) Y risg os na wneir deddfwriaeth

3.206 Mae'r cynigion polisi a wneir yn Rhan 4 yn hollbwysig i lwyddiant y cynigon polisi a wneir yn Rhan 3 ynghylch categoreiddio ysgolion a chynlluniau cyflawni.

3.207 Os na wneir deddfwriaeth ynghylch darpariaethau Rhan 4, bydd y gwaith o gynllunio addysg Gymraeg yn llai cydgysylltiedig. Er bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol wedi newid meddylfryd awdurdodau lleol wrth gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Bil hwn yn symud y ffocws mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, rhoddir rhagor o sylw i'r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion ym mhob categori iaith. Yn ail, mae'r Bil yn disodli system lle roedd y cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i benderfynu ar eu huchelgais eu hunain o ran addysg Gymraeg eu hardal, gan mai ymateb i dargedau cenedlaethol y byddant. Bydd yr awdurdodau lleol wedi cael cyfle i roi barn ar y targedau hynny wrth i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y Fframwaith.

3.208 Oni bai am ddarpariaethau'r Rhan hon, mae perygl y bydd canfyddiad yn parhau mai rôl Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yw gwella addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Un o brif amcanion y Bil hwn yw sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i ddod yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, ac felly mae'n hollbwysig rhoi pwyslais ar gyfraniad ysgolion ym mhob categori iaith i wireddu hyn.

## Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

### i) Cefndir

3.209 Os yw'r Bil am lwyddo, rhaid sicrhau bod cefnogaeth sefydlog a phriodol i addysg Gymraeg ac i ddysgu'r Gymraeg y tu hwnt i'r sector addysg. Mae uchelgais polisi i ganoli cefnogaeth i ddysgu Cymraeg o fewn un sefydliad gweladwy sy'n arbenigo mewn dysgu'r Gymraeg ar bob cam o fywyd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ysgolion i drosglwyddo'r Gymraeg, a chefnogi pobl ifanc, oedolion, a gweithleoedd ar eu taith iaith.

3.210 Mae amrywiaeth o sefydliadau a phartneriaethau ar hyn o bryd yn cefnogi unigolion ar eu taith iaith, gan gynnwys Mudiad Meithrin, consortia addysg ac awdurdodau lleol, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("y Ganolfan").

3.211 Mae'r Ganolfan yn bodoli i gefnogi dysgu Cymraeg i'r rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol. Sefydlwyd y Ganolfan yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Un o argymhellion yr adroddiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu endid cenedlaethol i fod yn gyfrifol am roi arweiniad strategol i'r darparwyr Cymraeg i Oedolion ac i ymgymryd â dyletswyddau datblygol ar lefel genedlaethol o ran y cwricwlwm, hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu ymhlith pethau eraill.

3.212 Mae'r Ganolfan wedi chwarae rôl allweddol yn nhwf cyson dysgwyr Cymraeg y tu hwnt i'r sector ysgolion. Mae adolygiadau diweddar gan Estyn ac Adroddiad Adolygiad Annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021yn cyfeirio at y gwelliannau sylweddol yn y sector dysgu Cymraeg ers sefydlu'r Ganolfan. Diben cynigion y Bil yw adeiladu ar y strwythurau effeithiol hyn, a chreu corff statudol newydd gyda golwg gynhwysfawr dros hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg i bobl o bob oed yng Nghymru.

3.213 Mae gan Medr (sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd) ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Medr yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio darparwyr prentisiaethau, colegau addysg bellach, awdurdodau lleol a phrifysgolion, gan oruchwylio dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau, addysg bellach, addysg uwch a darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol.

3.214 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio i hyrwyddo, datblygu a chynnal cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg drydyddol ac mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Coleg i roi cyngor i Medr ar

gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

3.215 Er bod gan Medr ddyletswydd mewn perthynas a'r Gymraeg, mae'r ddyletswydd yn ymwneud yn benodol â dysgu a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Medr hefyd oruchwyliaeth am y Gymraeg fel pwnc, sef lle mae'r Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Lefel A neu yn y brifysgol. Mae'r hyn yn wahanol i amcan yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (yr "Athrofa") i hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg, a hynny ar gyfer pobl o bob oedran.

3.216 Noder bod "darparwyr dysgu Cymraeg" yn cyfeirio yn y Bil at berson a ariennir gan yr Athrofa i ddarparu addysgu Cymraeg i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol. Rhagwelir y bydd modd i'r Athrofa gomisiynu rhwydwaith o ddarparwyr i gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg a fydd yn cyd fynd â chwricwlwm yr Athrofa. Mae'r hyn gyfeirir ato yn y ddogfen hon fel y "sector dysgu Cymraeg" yn cyfeirio at y rhwydwaith o ddarparwyr y disgwylir i'r Athrofa ei comisiynu.

## ii) Pam y mae angen newid

3.217 Os yw'r darpariaethau yn Rhannau 1 i 4 o'r Bil am lwyddo, mae'n hanfodol sicrhau bod cefnogaeth ddigonol i alluogi'r Bil i gael ei weithredu yn effeithiol.

3.218 Mae rôl y Ganolfan Dysgu yn canolbwyntio'n benodol ar unigolion 16 oed a throsodd. Ar hyn o bryd nid oes un corff penodol yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes. O ganlyniad, mae'r gefnogaeth i ddysgu Cymraeg wedi'i rannu ar draws sawl sefydliad a phartneriaeth gan arwain at ddiffyg dilyniant ar draws y sector addysg a gwahanol gweithleoedd.

3.219 Fel sydd wedi'i nodi uchod mae rôl Medr yn ymwneud ag addysg trydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes. Nid oes ganddo oruchwyliaeth ar gyfer y sector dysgu Cymraeg nac ychwaith unrhyw rôl cynllunio strategol fel cyllidwr y sector dysgu Cymraeg.

3.220 Mae diffyg gweledigaeth/goruchwyliaeth strategol ganolog ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes yn arwain at ddyblygu darpariaeth ac adnoddau. Gall diffyg cyfleoedd i gydweithio rhwng y gwahanol sectorau addysg olygu bod cyfleoedd i rannu arbenigedd ac arfer da yn ogystal â chyd-gynhyrchu adnoddau yn cael eu colli. Heb sefydliad penodol â throsolwg a chyfrifoldeb am yr ystod lawn o ddarpariaeth,

gall hyn arwain at fylchau yn y ddarpariaeth a cholli cyfleoedd i rannu arbenigedd.

3.221 Byddai cynnal y drefn bresennol hefyd yn gwneud hi'n anoddach i weithredu un continwwm sgiliau Cymraeg a chyflawni ein nod o wella deilliannau ieithyddol dysgwyr 3-16 oed.

3.222 Nid yw cylch gwaith presennol y Ganolfan yn addas i gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a chefnogi'r uchelgais polisi a nodir uchod i'w lawn botensial. Gan fod y Ganolfan wedi'i sefydlu drwy broses dendro, ni ellir ehangu ei chylch gwaith heb gynnal proses dendro arall gyda gwahanol ofynion.

3.223 Mae'r Ganolfan wedi bod y gweithredu ar sail cyfnodau caffael penodol. Teimlir nad yw gweithio ar sail cyfnodau caffael yn darparu'r sicrwydd a'r hirhoedledd priodol i gorff sy'n cefnogi dysgu Cymraeg – yn enwedig os caiff y gefnogaeth honno ei hymestyn i'r sector addysg orfodol. Byddai sefydlu corff statudol newydd i wneud y gwaith yma yn rhoi sicrwydd tymor hir, a sefydlogrwydd sefydliadol, i'r sector dysgu Cymraeg ac yn galluogi'r corff i gynllunio'n hir dymor gyda hyder. Bydd swyddogaethau'r Athrofa yn cynnwys cylch gwaith presennol y Ganolfan ac o ganlyniad bydd y berthynas grant rhwng y Llywodraeth a'r Ganolfan yn dod i ben.

3.224 Wrth ddarparu sicrwydd a hirhoedledd i gorff statudol gyflawni swyddogaethau penodol, bydd hyn yn helpu'r corff hwnnw i feithrin arbenigedd ganolog. Bydd hyn yn golygu y gall y corff statudol fod yn bwynt canolog ac yn gyrchfan i unrhyw sefydliad sydd angen cefnogaeth ym meysydd addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg.

## iii) Amcanion polisi a diben y ddeddfwriaeth

3.225 Mae'r ddeddfwriaeth yn creu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr Athrofa yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r ddogfen fframwaith safonol ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

3.226 Amcan cyffredinol yr Athrofa yw hwyluso a chefnogi pobl o bob oedran i ddysgu'r Gymraeg, fel bod rhagor o bobl yn dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio hi'n ddyddiol. Mae'r amcan yn cwmpasu dysgwyr o bob oedran. Tra bo nifer o ddarpariaethau eraill y Bil yn i anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn benodol drwy'r system addysg orfodol, un

o brif swyddogaethau'r Athrofa yw cynnig cefnogaeth y tu hwnt i'r system addysg orfodol.

3.227 Yr amcan trwy'r Bil yw cyfleu'r neges nad yn yr ysgol yw'r unig gyfle i ddysgu Cymraeg neu i wella eich sgiliau yn y Gymraeg. Mae amryfal resymau pam y mae unigolion yn dewis dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg pan fônt yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ac mae'n hollbwysig ein bod yn hwyluso hyn gan gefnogi dysgwyr i wella eu sgiliau.

3.228 Bwriedir i'r Athrofa roi arweiniad i ddarparwyr dysgu Cymraeg. Bydd yr Athrofa yn datblygu a chynnal cwricwlwm dysgu Cymraeg o ansawdd uchel i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol orfodol, yn ogystal ag adolygu, cynhyrchu a chomisiynu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm. Yn hyn o beth bydd angen iddi weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Adnodd Cyf., CBAC, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru ac eraill yn y byd addysg er mwyn deall anghenion dysgwyr a sectorau penodol.

3.229 Mae gan y sector dysgu Cymraeg gyfraniad pwysig i'w wneud wrth inni weithio i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Drwy greu'r Athrofa fel corff statudol, darperir sylfaen gref ar gyfer cynllunio a chyllido hir dymor a bydd hefyd yn osgoi'r angen cyson am ail-dendro, a'r ansefydlogrwydd cynhenid y mae hyn yn ei greu.

3.230 Bydd darparu sylfeini ariannol cadarn yn rhoi hyder a llwyfan i'r Athrofa ddylunio polisïau, strategaethau, ac ymyriadau hirdymor. Bydd hefyd yn darparu sicrwydd i'r sector addysg ac i ddysgwyr fod cefnogaeth ganolog ar gael iddynt dros y tymor hir.

3.231 Y nod yw sefydlu'r Athrofa i fod nid yn unig yn bwynt canolog o ran cefnogaeth i'r sectorau addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg, ond hefyd fel corff sy'n darparu arweiniad ym mhob agwedd ar ddysgu'r iaith. Bydd yr Athrofa yn gweithredu i sicrhau bod darpariaeth dysgu Cymraeg yn flaengar ac yn ystyried yr ymchwil a'r addysgeg ddiweddaraf.

3.232 Gosodir dyletswyddau clir i'r corff hwyluso a chefnogi'r Gymraeg ar wyneb y Bil. Mae'r dyletswyddau hyn yn cefnogi amcanion polisi'r Bil fel a ganlyn:

| **Dyletswydd y corff** | **Amcan polisi** |
|---|---|
| Rhoi cyfeiriad ac arweiniad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg | Bydd gan yr Athrofa oruchwyliaeth strategol ganolog ar gyfer dysgu Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | Bydd yr Athrofa yn sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y modd y darperir yr arlwy o ddarpariaeth dysgu Cymraeg.<br><br>Yn ogystal, fel corff arweiniol cenedlaethol, gall yr Athrofa weithredu fel pwynt cyswllt canolog i unrhyw un sydd angen cyngor neu gymorth i ddysgu Cymraeg, a'i gyfeirio at ddarpariaeth dysgu Cymraeg priodol. |
| Darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg | Bydd hyn yn galluogi'r Athrofa i sicrhau bod deunyddiau safonol o ansawdd uchel yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu Cymraeg.<br><br>Bydd yr Athrofa yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau (digidol ac mewn print) ar gael i gefnogi dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol; mae hyn yn cynnwys cefnogi gweithgarwch yr Athrofa o fewn gweithleoedd. |
| Cynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg at ddiben gwella dulliau addysgu'r Gymraeg | Bydd gwaith yr Athrofa yn cefnogi gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol a fydd yn gosod targedau o ran cynyddu'r gweithlu addysg,<br><br>Bydd yr Athrofa yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth arbenigol i'r gweithlu, er mwyn uwchsgilio'r gweithlu addysg, ac er mwyn rhannu arfer da o ran addysgeg mewn perthynas â dysgu a throsglwyddo'r Gymraeg. Bydd disgwyl i'r Athrofa ddatblygu a gweithredu cynllun ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg. |

| | |
|---|---|
| Gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg—<br>(i) i'r gweithlu addysg,<br>(ii) yn y gweithle,<br>(iii) i bobl sy'n hŷn na'r oedran addysg gorfodol<br>a<br><br>Gwneud trefniadau i wella lefelau gallu yn y Gymraeg—<br><br>(i) i'r gweithlu addysg,<br>(ii) yn y gweithle,<br>(iii) i bobl sy'n hŷn na'r oedran addysg gorfodol | Mae'r dyletswyddau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod cylch gwaith yr Athrofa yn cwmpasu pob oedran.<br><br>Fel corff cenedlaethol, yr Athrofa fydd yn cydlynu darpariaeth dysgu a gwella sgiliau Cymraeg i'r gweithlu addysg, gweithleoedd, ac i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol.<br><br>Bydd yr Athrofa yn ymateb i ofynion sgiliau Cymraeg gwahanol sectorau a gweithleoedd gan weithio gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr i ddatblygu darpariaeth.<br><br>Bydd yr Athrofa hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod sectorau penodol lle mae angen ymyraethau i gynyddu'r capasiti o ran sgiliau Cymraeg, a chynyddu gallu cyrff a sectorau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'w defnyddwyr. |
| Dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith dylunio a datblygu o'r fath | Diben hyn yw cyfleu'r neges nad addysg orfodol yw'r unig gyfle i ddysgu Cymraeg, a sicrhau bod cyfle i ddatblygu sgiliau pellach yn y Gymraeg y tu hwnt i'r oedran addysg gorfodol os dymunir.<br><br>Bydd yr Athrofa yn sicrhau bod arlwy cynhwysfawr o ddarpariaeth i ddysgwyr sy'n cynnwys amrywiaeth o lefelau dysgu a gweithgareddau ynghyd ag amrywiaeth o leoliadau dysgu a dulliau astudio.<br><br>Rhagwelir y bydd y trefniadau a wneir gan yr Athrofa yn wahanol ac yn ychwanegol i'r cwricwla ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed sy'n |

| | |
|---|---|
| | cael eu cynnig gan ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill, er mai'r bwriad yw y dylai'r trefniadau ategu'r ddarpariaeth sy'n cael eu cynnig gan y sefydliadau hyn.<br><br>Bydd disgwyl i'r Athrofa gynnal partneriaethau strategol â chwmnïau masnachol; hynny er mwyn ehangu'r cyfleodd i ddysgwyr datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Mae'r ddyletswydd hon yn adeiladu ar waith presennol y Ganolfan o ran datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran addysg gorfodol. |
| Datblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol | Mae angen creu cwricwlwm dysgu Cymraeg o ansawdd uchel yn arbennig ar gyfer rheini sy'n hŷn na'r oedran addysg gorfodol.<br><br>Rôl yr Athrofa fydd datblygu a chynnal y cwricwlwm hwn, yn ogystal ag adolygu, cynhyrchu a chomisiynu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm. |
| Casglu a chyhoeddi data, o leiaf unwaith bob 12 mis, ar ddysgwyr Cymraeg sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. | Mae'n hollbwysig casglu data perthnasol fel y gall yr Athrofa roi sicrwydd ei bod yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.<br><br>Bydd casglu data hefyd yn galluogi monitro'r cynnydd a wneir drwy waith yr Athrofa. Mae data hefyd yn gallu amlygu tueddiadau, a thrwy hynny gall yr Athrofa gynllunio ei darpariaeth yn well ar gyfer y dyfodol. |

3.233 Wrth reswm, bydd y ddarpariaeth a ddylunnir ac a ddatblygir gan yr Athrofa , neu a hwylusir ganddo, ac sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg yn alinio â'r lefelau cyfeirio cyffredin yn y Cod o dan adran 6 yn y Bil. Yr amcan polisi drwy hyn yw prif ffrydio'r lefelau cyfeirio hyn, gan arwain at ddealltwriaeth fwy soffistigedig o allu yn y Gymraeg.

3.234 Er eglurder, nid yw'n fwriad i'r Athrofa osod gofynion ar gyfer dysgu'r Gymraeg fel pwnc mewn ysgolion a cholegau. Medr sydd yn goruchwylio a chyllido'r Gymraeg fel pwnc yn y sector addysg drydyddol ac fe fyddcymwysterau TGAU, Safon Uwch a Safon UG Cymraeg yn parhau i gael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru.

3.235 Bydd yr Athrofa yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau (digidol ac mewn print) ar gael i gefnogi dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol; mae hyn yn cynnwys cefnogi gweithgarwch yr Athrofa o fewn gweithleoedd. Gall yr Athrofa gynhyrchu adnoddau ei hunain, neu gomisiynu personau arall i greu, cynhyrchu, neu ddarparu adnoddau ar ei ran. Bydd yr Athrofa yn gyfrifol am adnoddau i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg i wella dulliau addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion. Bydd disgwyl i'r Athrofa hefyd gyd-weithio â chwmni Adnodd i sicrhau bod adnoddau addas ar gael i gefnogi dysgu Cymraeg o fewn ysgolion a bod yr adnoddau hynny yn cefnogi dilyniant trwy'r lefelau cyfeirio cyffredin.

3.236 Bydd disgwyl i'r Athrofa hefyd ffurfio perthynas waith gydag ystod o gyrff eraill er mwyn cyflawni ei dyletswyddau, gan gynnwys y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Estyn, Gwasanaethau Addysg a Gwella Ysgolion, Cyngor y Gweithlu Addysg ac Adnodd

.

3.237 Bydd y berthynas rhwng yr Athrofa, Medr a'r Coleg Cymraeg yn allweddol, gan y bydd y tri corff yn gweithredu ochr yn ochr a'u gilydd yn y sector addysg drydyddol. Er nad yw dysgu Cymraeg wedi'i gynnwys fel rhan o Datganiad o Flaenoriaethau Medr sy'n llywio ei waith, mae'n bwysig bod trefniadau gweithredol yn cael eu gwneud i sicrhau bod yr Athrofa, Medr, a'r Coleg yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gefnogi gwaith ei gilydd ac i osgoi dyblygu ymdrechion a chynyddu effaith ei hymyriadau. Bydd gan y Coleg, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel y person dynodedig i Medr, rôl allweddol yn hyn o beth. Rhagwelir y byddai Medr, y Coleg, a'r Athrofa yn elwa o ddatblygu Memoranda o Gyd-ddealltwriaeth gyda'u gilydd i amlinellu sut fyddant yn cydweithio.

3.238 Mae cael dau gorff statudol yn gweithredu yn y sector addysg drydyddol yn golygu bod angen sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau Medr

a'r Athrofa wedi’u diffinio'n glir.  Mae natur y sector dysgu Cymraeg yn golygu y bydd darparwyr dysgu Cymraeg hefyd yn rhan o’r rhwydwaith o ddarparwyr addysg drydyddol ehangach ac, o ganlyniad, yn ddarostyngedig i ofynion Medr.  Gall fod baich ychwanegol ar ddarparwyr os nad yw’r gofynion a osodir gan yr Athrofa a Medr yn cyd-fynd â’i gilydd.

3.239 Bwriedir gosod disgwyliadau clir i'r Athrofa ynghylch ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried gofynion Medr wrth ddatblygu ei drefniadau ei hun ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal, gwelliant parhaus, ymgysylltu â dysgwyr a sicrhau ansawdd.  Bwriedir gwneud hyn drwy lythyrau cylch gwaith i'r Athrofa a thrwy'r amodau a thelerau a gaiff eu hatodi i'w gyllid.

Cydlynu a chomisiynu ymchwil ar ddysgu Cymraeg

3.240 Bydd yr Athrofa hefyd yn gallu cydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg.  Y nod yw y bydd yr Athrofa yn cydlynu a chomisiynu ymchwil mewn modd strategol ar raddfa genedlaethol gan weithredu i adnabod bylchau ymchwil o ran caffael y Gymraeg, a hefyd ystyried perthnasedd ymchwil rhyngwladol sy’n cael ei gynnal mewn i gaffael ieithoedd eraill i’w gwaith yng nghyd-destun y Gymraeg. Bydd yr Athrofa hefyd yn cynnal ymchwil i’r farchnad er mwyn adnabod anghenion dysgwyr ac ymarferwyr addysg.

Cyngor ar addysgu neu ddysgu Cymraeg

3.241 Mae'r Bil yn darparu y caiff yr Athrofa rhoi cyngor i unrhyw berson ar addysgu neu ddysgu Cymraeg. Rhagwelir y bydd yr Athrofa yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog, gan gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i unrhyw un sydd angen cyngor neu gymorth i ddysgu Cymraeg.

3.242 Bydd yr Athrofa hefyd yn gweithredu i wella ansawdd yr wwybodaeth, cyngor ac arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr, gweithleoedd a’r gweithlu addysg a lleihau'r tebygolrwydd o ddyblygu a chystadleuaeth rhwng darparwyr am ddysgwyr.

Cymorth ariannol mewn perthynas â dysgu Cymraeg

3.243 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Athrofa allu dyrannu cyllid i unrhyw berson mewn perthynas ag addysgu neu dysgu’r Gymraeg.  Pwrpas cyllid o'r fath yw cefnogi’r darpariaeth dysgu Cymraeg ynghyd â chyfleusterau a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â’r ddarpariaeth.  Mater i'r Athrofa fydd penderfynu ar y drefniadau cyllid a monitro.

3.244 Yn ogystal â'r swyddogaethau hyn, mae'r Bil yn darparu y caiff yr Athrofa weithredu os yw'n ystyried bod hynny'n briodol, er mwyn cyflawni targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg.

Hybu cyfle cyfartal

3.245 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hybu cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw ei fod gennym sector dysgu Cymraeg sy'n diwallu anghenion gwahanol pobl sydd dros oedran ysgol orfodol.

3.246 Mae gan Medr hefyd ddyletswydd benodol mewn perthynas a hybu cyfle cyfartal a bydd angen i'r Athrofa ystyried y gofynion a bennir gan Medr ar gyfer darparwyr addysg drydyddol wrth gyflawni'r ddyletswydd hon.

Hybu arloesedd a gwelliant parhaus

3.247 Mae'r Bil yn ei wneud hi'n ofynnol i'r Athrofa hybu codi safonau o ran dysgu Cymraeg er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg a gwella gallu'r siaradwyr hynny. Nid yw hybu codi safonau ar ei ben ei hun yn ddigonol a gan bod gan yr Athrofa ddyletswydd hefyd i hybu gwelliant parhaus.

3.248 Bydd yr Athrofa mewn sefyllfa ddelfrydol i hybu arloesedd a gwelliant parhaus ar draws y sector dysgu Cymraeg. Bwriedir i'r Athrofa:

- Cyhoeddi a chynnal fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer y sector dysgu Cymraeg.
- Roi cyngor ac arweiniad i ddarparwyr dysgu Cymraeg ynghylch ansawdd a gwella ansawdd. Yn benodol, bydd disgwyl i'r Athrofa roi cyngor ac arweiniad i ddarparwyr mewn sefyllfaoedd lle mae risg y gallai ansawdd yr addysg dysgu Cymraeg fod yn annigonol.
- Datblygu a gweithredu cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector dysgu Cymraeg***.***
- Datblygu rhaglen o gasglu barn dysgwyr a'r gweithlu yn gyson er mwyn arwain at raglen o welliant.
- Datblygu rhaglenni arloesol sy'n arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ac yn gwella dulliau addysgu'r Gymraeg.
- Cynnal Grŵp Arloesedd ym maes caffael a dysgu iaith.
- Creu a chyllido cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi.

3.249 Bydd partneriaeth effeithiol rhwng yr Athrofa ac Estyn ar gyfer asesiadau o ansawdd dysgu Cymraeg yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol yn parhau ar draws y sector dysgu

Cymraeg ar gyfer asesu a sicrhau ansawdd. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd angen i'r Athrofa hefyd gydweithio'n effeithiol â Medr sydd â dyletswyddau penodol o ran monitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno.

3.250 Mae gan Medr y pŵer i greu a chyhoeddi fframwaith sicrhau ansawdd, a fydd yn amlinellu ei bolisi'n ymwneud ag ansawdd ac asesu ansawdd. Bydd angen i'r Athrofa ystyried gofynion Medr wrth yn ddatblygu trefniadau ansawdd a threfniadau arolygu ar gyfer dysgu Cymraeg, gan sicrhau bod ei drefniadau yn cydweddu â'r fframweithiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Medr.

3.251 Mae'n ofynnol i'r Athrofa roi sylw i ystyried barn dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol wrth arfer ei swyddogaethau. Disgwylir y bydd yr Athrofa yn ystyried y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ehangach y bydd Medr yn ei ddatblygu i gyflawni'r dyletswyddau yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd hyn yn unol â'r egwyddor bod dysgwyr yn ganolog i'r system addysg drydyddol yng Nghymru.

Hybu cydlafurio

3.252 Bwriedir i gydweithio a chydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth a rhaniad fod yn sail i'r sector dysgu Cymraeg, a bydd yr Athrofa yn ganolog i gyflawni hyn. Yn hyn o beth bydd angen i'r Athrofa greu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio ar draws y sector gan gynnwys cyllido prosiectau cydweithredol a gweithio gyda darparwyr i ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweddu darpariaeth, fel y gall dysgwyr symud ymlaen yn haws i ddysgu ar lefelau uwch.

3.253 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hybu cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg, rhwng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, rhwng darparwyr dysgu Cymraeg a darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, a rhwng darparwyr dysgu Cymraeg a chyflogwyr yng Nghymru. Bwriedir i'r Athrofa hyrwyddo mwy o gydweithio er budd rheiny sy'n dysgu Cymraeg. Bydd disgwyl i'r Athrofa weithio gyda chyflogwyr a chyrff ymbarél sectorol i adnabod bylchau mewn sgiliau Cymraeg, a pharatoi ymyraethau wedi'u targedu at weithleoedd, sectorau, neu ardaloedd daearyddol penodol er mwyn gwella gallu cyrff a sectorau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

3.254 Fel sydd wedi nodi uchod, gall darparwyr dysgu Cymraeg hefyd yn disgyn mewn i'r categori "darparwyr addysg drydyddol". Mae'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr yn cynnwys sefydliadau addysg bellach, addysg uwch a dysgu cymunedol. Mae'n hanfodol bod darparwyr yn cydweithio â'u gilydd a gyda darparwyr addysg drydyddol

eraill yn eu hardaloedd er mwyn ehangu cyfleoedd i ddysgu’r Gymraeg a gwella sgiliau siaradwyr Cymraeg.

Hybu cydlynu

3.255 Bydd hi’n ofynnol i’r Athrofa hybu cydlynu yn narpariaeth dysgu Cymraeg yng Nghymru i rheiny sydd dros oedran ysgol gorfodol. Heb gydlyniad yn y ddarpariaeth i ddysgwyr, neu system a reolir yn ganolog i nodi bylchau a dyblygu diangen byddai'n anodd sicrhau llwybrau dysgu sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer dysgwyr neu sicrhau ffocws parhaus a chyson ar ansawdd y ddarpariaeth.

3.256 Bydd hi’n ofynnol hefyd i’r Athrofa weithredu er mwyn hybu rhannu arfer orau mewn perthynas â dulliau addysgu a throsglwyddo’r Gymraeg.

Cynllun strategol ac adroddiad blynyddol

3.257 Fel y byddai disgwyl gyda chorff statudol, mae’r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Athrofa i lunio cynllun strategol yn nodi sut y mae’n bwriadu arfer ei swyddogaethau i gyflawni’r amcan o hwyluso a chefnogi pobl i ddysgu’r Gymraeg, fel bod rhagor o bobl yn dysgu’r iaith, a hefyd sut y mae’n bwriadu arfer swyddogaethau penodol

3.258 Wrth lunio’r cynllun strategol, gosodir gofyniad ar yr Athrofa i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a darparwyr dysgu Cymraeg sy’n derbyn cefnogaeth ariannol gan yr Athrofa yn ogystal ag eraill y mae’n ystyried eu bod yn briodol. Drwy sicrhau mewnbwn eang gan yr holl randdeiliaid perthnasol hyn, yr amcan yw y bydd pob cynllun strategol yn gydgysylltiedig â strategaethau ehangach. Bydd hyn yn hwyluso aliniad ar draws sefydliadau mewn perthynas â dysgu Cymraeg.

3.259 At hynny, mae’r Bil yn ei wneud hi’n ofynnol i’r Athrofa gyflwyno’r cynllun i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Mae hwn yn bwysig er mwyn sicrhau bod gweledigaeth a chynllun gwaith yr Athrofa yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Gweinidogion Cymru. Mae Rhan 1 o’r Bil yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i asesu’r tebygolrwydd o gyrraedd targedau penodol yn strategaeth y Gymraeg. Mae’n bosibl y bydd canlyniad unrhyw asesiad o’r fath yn llywio penderfyniad Gweinidogion Cymru o ran cymeradwyo cynllun strategol yr Athrofa.

3.260 Gosodir dyletswydd hefyd ar yr Athrofa i lunio adroddiad blynyddol, ac mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i’w osod gerbron y Senedd.

### iv) Sut y mae’r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu’n effeithlon

3.261 Bydd yr Athrofa yn gweithredu fel siop-un-stop i ddysgu Cymraeg. Amcan cyffredinol yr Athrofa yw hwyluso a chefnogi pobl i ddysgu’r Gymraeg, ac mae’r amcan hwn yn cwmpasu pob oedran. Golyga hyn fod eglurder i unrhyw sefydliad neu unigolyn yng Nghymru mai’r Athrofa yw’r pwynt cyswllt canolog i ddysgu Cymraeg.

3.262 Bydd yr Athrofa felly yn gyrchfan glir i unrhyw un sydd eisiau cefnogaeth ym maes dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, bydd hefyd yn chwarae rôl ragweithiol drwy weithredu’r swyddogaethau clir a nodir ar wyneb y Bil. Bydd hyn yn cynnwys gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a gwella lefelau gallu yn y Gymraeg i’r gweithlu addysg ac yn y gweithle.

3.263 Er bod nifer o swyddogaethau’r Athrofa yn adran 37(2) y Bil yn canolbwyntio ar ddysgwyr sydd dros oedran ysgol orfodol, un o’r canlyniadau o arfer y swyddogaethau hyn fydd i gefnogi addysg ac addysgu’r Gymraeg gydol oes.

3.264 Rhaid pwysleisio serch hynny nad oes bwriad i’r Athrofa ddarparu cyrsiau a gweithgareddau yn uniongyrchol i ddisgyblion 3-16 mewn ysgolion. Ond, bydd y ddarpariaeth a gynllunnir a threfnir gan yr Athrofa i’r gweithlu addysg yn gwella’r ddarpariaeth i blant 3-16 ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â lefelau sgiliau dysgu Cymraeg.

3.265 Bydd yr Athrofa yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal cwricwlwm dysgu Cymraeg cenedlaethol i bobl dros oedran ysgol gorfodol yn seiliedig ar y lefelau cyfeirio cyffredin yn y Cod. Bydd hefyd yn darparu adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi'r cwricwlwm.

3.266 Bydd y cynnig cyson hwn i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol yn rhoi mwy o eglurder i ddysgwyr ac yn caniatáu cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen yn ddi-dor rhwng darparwyr a/neu lefelau dysgu.

3.267 Ni fydd yr Athrofa yn gyfrifol am y cwricwlwm mewn ysgolion ond bydd yn cynllunio ac yn trefnu hyfforddiant a chymorth arbenigol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a rhannu ymarfer pedagogaidd da mewn perthynas â dysgu a throsglwyddo'r Gymraeg.

3.268 Mae’r Bil hefyd yn darparu y caiff yr Athrofa roi cymorth ariannol i ddarparwyr dysgu Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi sectorau i weithio’n effeithiol gan ei fod yn golygu bod yr Athrofa nid yn unig yn chwarae rôl ar lefel genedlaethol, ond y gall ariannu darpariaeth leol sy’n effeithiol

ar gyfer gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol ardaloedd.

**v) Y risg os na wneir deddfwriaeth**

3.269 Fel y nodir ym Mhennod 4 o’r Memorandwm Esboniadol hwn, mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi gweithio’n effeithiol ym maes dysgu Cymraeg, ac mae’r sector wedi tyfu’n llwyddiannus gan ennyn brwdfrydedd gan sefydliadau ac unigolion fel ei gilydd. Ond canolbwyntio'n benodol ar unigolion 16 oed a throsodd mai’r Ganolfan ac nid oes un corff penodol yn darparu arweinyddiaeth strategol a chefnogaeth ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes.

3.270 Heb oruchwyliaeth ganolog ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes mae risg dyblygu darpariaeth ac adnoddau. Gall hyn hefyd arwain at fylchau yn y ddarpariaeth ac mae risg bod cyfleodd i gydweithio er mwyn rhannu arbenigedd ac arfer da yn ogystal â chyd-gynhyrchu adnoddau hefyd yn cael eu colli. Mae cynigion yn Rhannau eraill y Bil hwn yn creu llinyn atebolrwydd clir rhwng cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel yr ysgol, ar lefel yr awdurdod lleol, ac ar lefel genedlaethol. Ond wrth osod gofynion ychwanegol a thargedau penodol, rhaid sicrhau bod cefnogaeth sefydlog, arbenigol yn cael ei chynnig yn ganolog.

3.271 Dyma’r rheswm dros greu corff statudol. Mae cynigion y Bil yn rhai sydd â gweledigaeth hirdymor, ac mae angen darparu gwaith o'r pwysigrwydd a natur hirdymor hwn ar sylfeini ariannol cadarn, yn hytrach na bod sefydliad yn ddarostyngedig i gyfnodau caffael heb sicrwydd ar ddiwedd y cyfnodau hynny.

3.272 Bydd y sefydlogrwydd a ddarperir drwy sail statudol i’r Athrofa hefyd yn ehangu gorwelion y corff wrth iddo gynllunio ar gyfer y tymor hir a meithrin arbenigedd ar lefel genedlaethol a fydd yn hygyrch i unigolion a sefydliadau fanteisio arno.

# 4. Ymgynghori

4.1 Mae nifer o gynigion y Bil hwn yn ymdrin â strwythurau a chyfundrefnau sydd eisoes yn bodoli – boed y rheiny'n statudol neu'n anstatudol – er enghraifft y targed miliwn o siaradwyr, system gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ymhlith cynigion eraill.

4.2 Gan hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sawl adolygiad polisi gan ymgynghori ac ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid ynghylch cynigion polisi sydd wedi eu cyflwyno. Cafodd cynigion y Papur Gwyn ar gyfer y Bil eu datblygu yng ngoleuni yr ymgynghoriadau a'r adolygiadau hynny.

4.3 Ymgynghorwyd ar gynigion y Papur Gwyn ar gyfer y Bil hwn rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023, ac amlinellir canfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw isod. Yn gyntaf, dyma amlinellu'r ymgynghoriadau blaenorol sydd wedi eu cynnal ar y materion polisi yr ymdrinnir â hwy yn y Bil.

## Ymgynghoriadau, adolygiadau ac ymchwiliadau a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Papur Gwyn

### Strategaeth Cymraeg 2050 a'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr

4.4 Strategaeth Cymraeg 2050 yw'r strategaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei mabwysiadu o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft rhwng 1 Awst a 31 Hydref 2016, a chyhoeddwyd y strategaeth ar 11 Gorffennaf 2017. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gael yma.

4.5 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Wrth drafod rôl addysg yn benodol o fewn y strategaeth, teimlai rhai bod angen bod yn fwy rhagweithiol wrth greu galw am addysg Gymraeg yn hytrach na dim ond ymateb i'r galw. Mae hyn wedi bod yn egwyddor allweddol i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, fel yr amlygir yn y man.

4.6 Fe wnaeth ymatebwyr yr ymgynghoriad hefyd amlygu pwysigrwydd cynnwys holl ysgolion Cymru yn yr ymgais i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu Cymraeg. Trafodwyd y dylid ymdrechu i gynyddu'r cyd-weithio sydd rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cyfrwng Saesneg, a'r dymuniad i adolygu'r broses o gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith. Wrth edrych ar strwythurau ysgolion, trafodwyd yn ogystal yr angen i roi sylw digonol i'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol megis

hwyrddyfodiaid a phobl gydag anghenion dysgu ychwanegol.

4.7 Soniodd rhai ymatebwyr am yr angen i gyflwyno continwwm ieithyddol ar gyfer holl ysgolion Cymru. Soniwyd hefyd am yr angen i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r cyfnod statudol, yn enwedig mewn addysg bellach ac addysg uwch er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl barhau gyda'u haddysg trwy'r Gymraeg.

4.8 Wrth drafod yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu wrth weithredu strategaeth Cymraeg 2050, roedd y nifer fwyaf o ymatebion yn amlygu datblygu maes addysg fel y flaenoriaeth o ran gweithredu amcanion y strategaeth ddrafft. Dros ystod yr ymatebion oedd yn blaenoriaethu addysg, cafwyd cyfeiriadau at yr angen i ddatblygu'r sector addysg drwyddi draw, o'r blynyddoedd cynnar, y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, hyd at addysg bellach ac addysg uwch ynghyd â dysgu gydol oes a'r ddarpariaeth drochi.

## Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

4.9 Yn 2013, cyflwynwyd cysyniad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) yn Rhan 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae adran 84 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i lunio cynllun, cadw golwg arno, a'i ddiwygio os bydd angen. Mae adran 87 o'r Ddeddf honno yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer CSCAau o'r fath. Diben y CSCAau oedd cofnodi bwriadau'r awdurdod lleol ynghylch y modd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg, ar gyfer gwella:

- y broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg
- safonau addysg cyfrwng Cymraeg
- safonau addysgu'r Gymraeg.

4.10 Rhwng 27 Mehefin a 22 Awst 2013, cynhaliwyd ymgynghoriad ar Reoliadau drafft ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Cafwyd atebion gan sefydliadau ac unigolion.

4.11 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r rheoliadau drafft yn gadarnhaol. Ar adeg ymateb i'r ymgynghoriad, nodwyd bod awdurdodau lleol eisoes wedi cael dwy flynedd o brofiad o baratoi a chyflwyno CSCAau ar sail anstatudol. Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad, lleihawyd y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos i 8 wythnos, a symleiddiwyd y broses ar gyfer adolygu'r CSCAau.

4.12 Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013 i rym ar 1 Medi 2013.

4.13 Cyflwynwyd y cynlluniau statudol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2014-2017 i Weinidogion Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Cyflwynwyd yr ail gynlluniau statudol ar gyfer y cyfnod 2017-2020 i Weinidogion Cymru ym mis Rhagfyr 2016. Cynhaliwyd asesiad llawn o'r cynlluniau, a'r casgliad oedd nad oeddent yn mynd yn ddigon pell i sicrhau twf digonol mewn addysg Gymraeg – yn enwedig felly yng nghyd-destun y targed a osodwyd yn y cyfamser gan strategaeth Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

4.14 Ar 14 Mawrth 2017, cyhoeddwyd y byddai adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 yn cael ei gynnal. Roedd yr adolygiad cyflym yn cydnabod canfyddiadau ac argymhellion dau adroddiad a gyhoeddwyd yn flaenorol, sef adroddiad gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, ac adroddiad ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd gan Estyn ym mis Medi 2016

4.15 Cafodd 18 o argymhellion eu cynnig yn sgil yr adolygiad cyflym, a derbyniwyd pob un o'r argymhellion hyn. Roedd yr adolygiad yn datgan bod angen newid nid yn unig o ran uchelgais y cynlluniau unigol ond hefyd yn y fframwaith deddfwriaethol sydd wedi cael ei osod gan y Llywodraeth. Aeth ymlaen i ddweud bod angen newid yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth, ac y byddai hyn yn arwain yn anochel at newid yng nghyfrifoldebau'r rhanddeiliaid a'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni. Yn ogystal, ffurfiwyd bwrdd cynghori annibynnol i oruchwylio gweithrediad yr argymhellion.

4.16 Roedd yr adolygiad yn argymell bod:

- angen adolygu a newid y gyfundrefn gyfreithiol trwy greu fframwaith sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynllunio yn strategol yn yr hir dymor yn hytrach na dros gyfnod o dair blynedd;
- angen creu fframwaith cynllunio lle mae'r dyheadau ar lefel leol yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru ac yn gofyn i'r awdurdodau gynllunio ar sail hynny;
- angen newid y broses sy'n ymwneud â gwrthod cynllun fel bo'r cynllun yn cael ei yrru'n ôl at yr awdurdod lleol i'w ail-ysgrifennu yn hytrach nac i Lywodraeth Cymru dderbyn y cyfrifoldeb o wneud hynny.

4.17 Roedd yr adolygiad hefyd yn argymell bod angen symleiddio proses categoreiddio ysgolion – mater a drafodir ymhellach isod.

4.18 Rhwng 30 Mai ac 13 Medi 2019, ymgynghorwyd ar ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau. Mae crynodeb o'r ymatebion i'w gael yma.

4.19 Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gwnaeth Llywodraeth Cymru y diwygiadau a ganlyn:

- Ymestyn hyd y CSCAau o 3 blynedd i 10 mlynedd;
- Dileu'r ddyletswydd i gynnal asesiadau o'r galw ymysg rhieni fel y sail ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
- Lleihau nifer y Datganiadau yr oedd yn ofynnol ymdrin â hwy mewn CSCA;
- Pwysleisio nad oes gofyn diwygio CSCA yn flynyddol, ond yn hytrach bod gofyniad i gyflwyno adroddiad adolygu i Lywodraeth Cymru yn flynyddol

4.20 Daeth Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 i rym ar 1 Ionawr 2020. Ar 27 Ionawr 2021, cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau hyn.

4.21 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal sesiynau rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cynnig cyfle i unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwaith o roi'r cynlluniau ar waith i rannu arferion da; dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

4.22 Rhwng 12 Ebrill 2022 a 24 Mehefin cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Ym mis Mai 2023, cyhoeddwyd yr adroddiad yn dilyn yn ymchwiliad. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ym mis Gorffennaf 2023, gan gadarnhau bod nifer o argymhellion yr adroddiad yn cyd-fynd â chynlluniau sydd eisoes ar droed, rhai ohonynt drwy'r Bil hwn.

## Cynllunio'r Gweithlu

4.23 Fel y nodwyd uchod, roedd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn destun ymgynghori. Un o'r deilliannau

a nodir yn y rheoliadau hyn yw ‘Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg’. Pan gyhoeddwyd y canllawiau ategol yn 2021, nodir bod rhaid i awdurdodau lleol gynnwys yn eu cynlluniau ei ymrwymiad i adnabod y gweithlu y mae ei angen arno er mwyn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun yn unol â thargedau’r cynllun, ac i gyfrifo unrhyw ddiffyg disgwyliedig yn ei weithlu.

4.24 Ar 24 Mai 2022, cyhoeddwyd Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Bu ymgysylltu eang â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol er mwyn deall y problemau a datblygu’r atebion sydd eu hangen. Fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r cynllun, fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen gydweithio â Llywodraeth Cymru i awgrymu, datblygu a mireinio’r camau gweithredu.

4.25 Fel rhan o’r gwaith o weithredu’r Cynllun, ymrwymwyd i:

- sefydlu grŵp llywio o arbenigwyr o'r sector i gynghori ar weithredu
- ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygiadau penodol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen
- monitro a gwerthuso'r camau a gymerwyd yn barhaus ac adolygu’r cynllun yn ffurfiol ar ôl 5 mlynedd
- ystyried arfer gorau rhyngwladol wrth i ni symud ymlaen â'r gweithredu

4.26 Roedd un o argymhellion Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn ei adroddiad ar y fframwaith deddfwriaethol sy’n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi’n sylweddol mewn uwchsgilio’r gweithlu addysgu presennol, gan roi’r cyfle i nifer uwch o athrawon, cynorthwywyr addysgu a darlithwyr ymgymryd â’r Cynllun Sabothol.

4.27 Mewn ymateb i’r argymhelliad hwn, cyfeiriwyd at y cynigion yn y Papur Gwyn i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu a gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar ddadansoddi'r data perthnasol yn y Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Ysgolion.

## Categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith

4.28 Cyflwynwyd categorïau iaith ysgolion am y tro cyntaf yn 2007 mewn ymgais i roi darlun cyflawn o’r ffordd yr oedd addysg drochi cyfrwng

Cymraeg yn cael ei rhoi ar waith mewn gwahanol rannau o Gymru, yn ogystal â sicrhau cysondeb drwy grwpio ysgolion a oedd yn defnyddio dulliau trochi tebyg i'w gilydd.

4.29 Cafodd y categorïau hyn eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn y canllawiau anstatudol, Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac roeddent yn cynnwys nifer o gategorïau – pum categori yn y sector cynradd a phedwar yn y sector uwchradd (gan gynnwys pedwar is-grŵp).

4.30 Wrth lunio'r categorïau hyn, ymgynghorwyd yn eang a chafwyd ymatebion gan ysgolion, awdurdodau lleol, cymdeithasau athrawon a grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.31 Ym mis Awst 2017, cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad cyflym o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020. Roedd yr adolygiad yn argymell y dylid symleiddio proses categoreiddio ysgolion.

4.32 Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd adroddiad yn dilyn adolygiad annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys panel o arbenigwyr, ac ymgysylltwyd ynglŷn â'r categorïau drafft a gynigiwyd.

4.33 Wrth i'r adolygiad ystyried diffiniadau'r categorïau newydd, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol Cymru a Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Argymhellwyd y dylid creu tri chategori ar gyfer y sector cynradd, a thri chategori ar gyfer y sector uwchradd. Argymhellwyd hefyd fod ysgolion yn cael cyfle i ddilyn cyfnod trosiannol wrth iddynt symud o un categori i'r llall er mwyn rhoi cyfle i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig o amser.

4.34 Argymhellodd yr adroddiad a luniwyd yn seiliedig ar yr adolygiad mai un o'r egwyddorion creiddiol ddylai fod nad yw ysgolion yn medru cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol. Wrth argymell y dylid labelu'r categorïau mewn ffordd niwtral h.y. gyda rhifau 1, 2 a 3, nododd yr adroddiad hefyd fod angen ystyried cyplysu rhif y categori â disgrifiad cynhwysfawr o bob categori. Cynigiwyd y byddai'r disgrifiad hwn yn nodi taith ieithyddol eu plentyn a beth fyddai y rhiant/rhieni a'r plentyn yn gallu ei ddisgwyl o ran deilliannau ieithyddol ar ddiwedd y daith honno.

4.35 Nododd yr adroddiad hefyd fod angen ailedrych ar y tabl sy'n cyflwyno newidiadau rheoleiddiedig (Atodlen 2 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth

Ysgolion (Cymru) 2013) gan fod y geiriad fel mae'n sefyll yn ei gwneud hi'n anodd symud ysgolion mewn dull ymarferol a synhwyrol ar hyd y continwwm ieithyddol. Aeth ymlaen i ddweud 'o edrych ar y targedau uchelgeisiol sydd yn Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, mae'n amlwg fod angen edrych yn fawl ar y diffiniadau o'r categorïau presennol a'r amodau o ran ymgynghori ar newid cyfrwng dysgu'.

4.36 Gan ddefnyddio'r adroddiad hwnnw fel sail, rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 26 Mawrth 2021 ymgynghorwyd ar ganllawiau anstatudol diwygiedig i ddisodli canllawiau 2007. Nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn y bydd unrhyw drefniadau newydd yn parhau'n anstatudol am y tro wrth i ni barhau i gwmpasu opsiynau i osod categorïau iaith ysgolion ar sail statudol.

4.37 Derbyniwyd cefnogaeth eang i'r egwyddor y dylid symleiddio'r gyfundrefn i gynnwys tri chategori. Roedd cryfhau'r cynigion yn flaenoriaeth i rai ymatebwyr, a oedd yn teimlo y dylai'r polisi fod yn fwy uchelgeisiol a darparu mwy o gymhellion i ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y maent yn ei chynnig. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r cynigion fod yn statudol ac y dylent gynnwys cyfeiriad at ystyriaethau ehangach gan gynnwys ethos ysgolion mewn perthynas â'r Gymraeg.

4.38 Nododd rhai ymatebwyr yr angen am fwy o fanylion er mwyn gwerthuso'r cynigion yn llawn. Roedd hyn yn cynnwys manylion am yr amserlenni (yn enwedig mewn perthynas â'r amser a dreulir o fewn categorïau trosiannol), deilliannau ieithyddol, trefniadau monitro, cyllid a natur y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i'w helpu i symud rhwng categorïau.

4.39 Ar 16 Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd y canllawiau anstatudol newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith. Bu cryn ymgynghori wrth lunio'r polisi hwn, a phwysleisiwyd mai'r cam cyntaf yn unig oedd y canllawiau anstatudol newydd. Nodwyd y byddai angen ystyried y manteision o wneud y categorïau yn statudol, ond ei bod yn glir o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ein bod ar y trywydd iawn.

**Cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg**

4.40 Un o gynigion y Papur Gwyn oedd y dylid canoli'r gefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg, gan gynnwys addysg ysgolion, o fewn un corff. Mae'r cysyniad o gael un corff hollgwmpasog sy'n gyfrifol am bob agwedd ar gaffael y Gymraeg yn un newydd. Serch hyn, mae gwaith ymgysylltu ac ymgynghori cysylltiedig wedi ei gynnal ar hyd y

blynyddoedd.

4.41 Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion - adroddiad o'r enw "Codi Golygon" - a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Un o argymhellion yr adroddiad hwnnw oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu endid cenedlaethol i fod yn gyfrifol am roi arweiniad strategol i'r darparwyr Cymraeg i Oedolion ac i ymgymryd â dyletswyddau datblygol ar lefel genedlaethol o ran y cwricwlwm, hyfforddiant tiwtoriaid, ymchwil, marchnata ac e-ddysgu ymhlith pethau eraill.

4.42 Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Estyn adolygiad o waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn dilyn sefydlu'r Ganolfan ddwy flynedd yn flaenorol. Canfu Estyn fod y Ganolfan wedi datblygu ei rôl yn dda yn llais cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion, a'i bod yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer y sector.

4.43 Ymhellach, nododd Estyn fod y Ganolfan Genedlaethol wedi datblygu ystod newydd o gyrsiau ar lefelau mynediad, sylfaen, canolraddol ac uwch er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ledled Cymru. Roedd y lefelau deilliant yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd(CEFR). Dywedodd Estyn y bu'r Ganolfan Genedlaethol yn ymgynghori â darparwyr ynglŷn â'r newidiadau hyn i'r cwricwlwm, a'i bod wedi ymateb yn briodol i adborth. Aeth Estyn ymlaen i ddweud bod y Ganolfan yn cyflwyno dull cyson ar draws yr holl ddarparwyr ar gyfer gwrando ar safbwyntiau dysgwyr er mwyn gwella eu profiadau dysgu.

4.44 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Estyn adroddiad arolygu ar y Ganolfan. Unwaith yn rhagor, canmolwyd gwaith y Ganolfan, a chynigiwyd rhai argymhellion gan gynnwys rhannu methodoleg addysgu a chaffael ail iaith llwyddiannus gyda sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050, a pharhau i weithio gyda darparwyr Dysgu Cymraeg i ddatblygu modelau o ddarpariaeth ar sail argaeledd dysgwyr.

4.45 Er mwyn llywio darpariaeth y Ganolfan o 1 Awst 2022 ymlaen, sef yr ail gyfnod caffael o saith mlynedd yn dilyn ei sefydlu yn 2015, comisiynodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar y pryd Adolygiad Cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn ceisio eu barn, gan gynnwys defnyddwyr, darparwyr a rheolwyr darpariaeth Dysgu Cymraeg yn ogystal â Llywodraeth Cymru ac Estyn. Roedd yr

adolygiad cyflym hwn yn cynnwys nifer o argymhellion, unwaith eto yn canmol gwaith y sefydliad ac yn annog rhannu arferion da a chydweithio pellach gyda sectorau eraill.

4.46 Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, cytunodd Llywodraeth Cymru bod y Ganolfan wedi sefydlu strwythur cenedlaethol sydd wedi rhoi sail gadarn i'r sector Dysgu Cymraeg. Aeth y Llywodraeth ymlaen i ddweud y bydd yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu'r Ganolfan ymhellach a chryfhau dylanwad y Ganolfan ym maes caffael y Gymraeg. Wrth ymateb, dywedodd y Llywodraeth ei bod yn falch bod y Ganolfan eisoes wedi cydweithio gyda chonsortia addysg i addasu peth o'i hadnoddau i'w defnyddio i ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion, a byddwn yn sicrhau bod cydweithio fel hyn yn parhau ac yn cael ei ehangu yn strategol ar lefel genedlaethol.

4.47 Roedd rhai o argymhellion eraill yr adroddiad yn cynnwys:

- y dylai'r Ganolfan ddatblygu'n hwb ar gyfer arloesedd ymchwil ym maes caffael iaith, ac unwaith eto roedd Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda'r argymhelliad hwn.
- y dylid ystyried a yw'r model llywodraethu presennol yn briodol.
- y dylid archwilio sut y gall cylch gwaith y Ganolfan gael ei ehangu i feysydd fel hyfforddi'r gweithlu addysg, gan rannu adnoddau ac arferion da â'r sector ail iaith mewn ysgolion a meithrin sgiliau iaith ar gyfer pynciau addysg bellach
- y dylid ystyried ehangu'r ddarpariaeth a'r cylch gwaith i gynnwys pobl 16-25 oed sydd wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y sector ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg**

4.48 Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar y cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar 27 Mawrth 2023, a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 16 Mehefin. Roedd y Papur Gwyn hwn yn cynnwys 36 cwestiwn yn ymwneud â'r cynigion polisi a'r effeithiau ariannol ac anariannol yn sgil y cynigion hyn.

4.49 Yn fras, roedd cynigion y Papur Gwyn yn cynnwys:

- Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith;
- Creu un continwwm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg;
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith;

- Dros amser, cynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig;
- Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol;
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru;
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr; a
- Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg.

4.50 Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar wefan y Llywodraeth, ac fe’i hanfonwyd at randdeiliaid perthnasol. Aed ati’n rhagweithiol i ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chynhaliwyd dros 35 o gyfarfodydd, seminarau a fforymau i drafod y cynigion. Fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 538 o ymatebion, ac roedd 366 o’r ymatebion hyn yn rhai unigryw. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, prifysgolion, undebau athrawon, sefydliadau cyhoeddus eraill yn y sector addysg, sefydliadau yn y trydydd sector ac unigolion. Mae’r rhestr lawn o ymatebwyr wedi ei chynnwys yn Atodlen 1 yr adroddiad.

4.51 Cyhoeddwyd dadansoddiad annibynnol o’r ymatebion a gafwyd. Mae’r adroddiad ynghyd â’r ymatebion wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

4.52 Mae darpariaethau’r Bil fel y’i cyflwynwyd yn seiliedig ar gynigion y Papur Gwyn a’r ymatebion a gafwyd i gwestiynau’r ymgynghoriad hwnnw. Fodd bynnag, mae’n werth tynnu sylw at ddarpariaeth yn Rhan 1 nad oedd yn rhan o ymgynghoriad y Papur Gwyn, ac a oedd yn ddatblygiad polisi newydd yn ystod y cyfnod o ddrafftio’r Bil.

4.53 Mae’r ddarpariaeth newydd hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu’r safonau a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio —

a) un neu ragor o’r safonau sy’n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau’r gweithlu o ran y Gymraeg er mwyn—
    i. hwyluso cyflawni targed a bennir yn Rhan 1 o’r Bil, neu

ii. adlewyrchu'r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a lunnir gan Weinidogion Cymru yn Rhan 2 o'r Bil;

b) un neu ragor o safonau hybu'r Gymraeg er mwyn hwyluso cyflawni targed a bennir yn Rhan 1 o'r Bil.

4.54 Yn gyntaf oll, mae'n werth tynnu sylw mai dyletswydd yw hon i adolygu'r safonau, ac nid rheidrwydd i'w diwygio. Byddai unrhyw benderfyniad i ddiwygio rheoliadau safonau'r Gymraeg yn ddarostyngedig i ymgynghoriad pellach, fel sy'n arferol ar gyfer rheoliadau.

4.55 Mae wyth set o reoliadau wedi eu llunio yn ymwneud â safonau'r Gymraeg, ac maent oll wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gosod dyletswydd ar wyneb y Bil i adolygu safonau penodol yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gydblethu darpariaethau'r Safonau â darpariaethau'r Bil.

4.56 Mae dau brif reswm dros gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil. Yn gyntaf, mae'n amcanu i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn ategu unrhyw dargedau a osodir yn strategaeth y Gymraeg, ac yn hwyluso gwireddu'r targedau hynny. Yn ail, mae'n amcanu i sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn adlewyrchu'r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.

4.57 Ymhellach, rhaid i adolygiad o'r fath gael ei gynnal o fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, ac felly mae'r ddarpariaeth yn anelu i sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i sicrhau llwyddiant y targedau statudol y mae'n rhaid eu pennu o dan y Bil.

**Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad**

4.58 Ar y cyfan, roedd y sylwadau a gafwyd ar y cynigion yn ymateb yn ffafriol i'r cynigion, yn enwedig felly gan y sefydliadau a ymatebodd (gan gynnwys y sefydliadau a fydd yn gyfrifol am weithredu cynigion y Bil).

**Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith**

4.59 O ran adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr ar wyneb y Bil, roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn, gyda chydnabyddiaeth y byddai cryfhau statws y targed yn arwain at arweinyddiaeth ganolog, ac y byddai hynny'n hwyluso gweithredu effeithiol i gefnogi cynnydd ar

draws gwahanol sectorau.

4.60 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn ansicr beth oedd yn cael ei fesur wrth gyfeirio at 'siaradwyr Cymraeg' ac yn teimlo bod angen mwy o eglurder yn hyn o beth. Roedd rhai hefyd yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau priodol i ddiwallu unrhyw darged a osodir.

**Creu un continwwm sgiliau Cymraeg**

4.61 O ran sefydlu un continwwm sgiliau Cymraeg gydol oes, roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn, gyda nifer yn teimlo y byddai hyn yn rhoi dealltwriaeth gyffredin a gwell eglurder i rieni a disgyblion ynghylch deilliannau ieithyddol tebygol dysgwyr ym mhob ysgol. Roedd nifer o'r ymatebion yn gweld y potensial i'r continwwm gysylltu â lefelau hyfedredd disgwyliedig disgyblion, ac roedd nifer yn credu y byddai'n briodol gosod nod i ysgolion cyfrwng Saesneg greu siaradwyr ar lefel sydd gyfystyr â B2 ar y CEFR o leiaf.

4.62 Nodwyd hefyd y byddai continwwm o'r fath yn cynnig fframwaith cyffredin i'w ddefnyddio gan gyflogwyr yn ystod prosesau recriwtio wrth gyfathrebu ac asesu'r sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer swyddi.

4.63 Codwyd yr angen i sicrhau bod unrhyw gontinwwm yn hygyrch ac yn hawdd ei ddeall. Awgrymwyd bod angen diffinio'r continwwm yn glir ac yn ofalus felly, a sicrhau bod ei bwrpas a'i fanteision yn glir i bawb. Nodwyd y byddai hyn yn codi hyder pobl i ddeall lle maen nhw fel unigolion ar y continwwm.

4.64 Nodwyd hefyd bod rhaid gofalu nad yw unrhyw darged deilliannau sy'n gysylltiedig â'r continwwm yn rhoi gormod o bwyslais ar y disgwyliad isaf, a bod hynny'n rhwystro uchelgais bellach gan greu rhyw fath o nenfwd artiffisial.

**Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith**

4.65 O ran y cynnig i sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith, nododd ymatebwyr y byddai creu cyfundrefn statudol yn golygu y gellid diffinio'r ddarpariaeth yn gywir, monitro'r ddarpariaeth yn gyson, ac yn rhoi sail ar gyfer cynnydd yn unol â thargedau Cymraeg 2050.

4.66 Roedd rhai ymatebion yn nodi y dylid bod yn glir am y cysylltiad rhwng lefelau hyfedredd y continwwm a'r categorïau statudol. Roedd peth teimlad hefyd y byddai'r newid hwn i gategorïau statudol yn cael ei wneud yn fuan iawn wedi i'r categorïau anstatudol newydd gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2022.

4.67 O ran cynnwys manylion y categorïau statudol mewn rheoliadau, pwysleisiwyd bod angen ymgynghori ac ymchwilio ymhellach cyn pennu disgrifiadau o'r categorïau. Teimlai rhai ymatebwyr hefyd ei bod yn bwysig gallu diwygio unrhyw elfennau o'r categorïau yn y dyfodol.

4.68 Roedd cefnogaeth eang o blaid cyflwyno isafswm darpariaeth Gymraeg, ond cafwyd nifer o sylwadau yn gwneud pwyntiau dilynol i'r perwyl hwn. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi pwyslais ar 'ethos Cymraeg' yn ogystal â'r ddarpariaeth, a bod angen canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd.

4.69 Cafwyd rhai ymatebion yn nodi bod angen i unrhyw isafswm darpariaeth Gymraeg fod yn ddigonol i ddisgyblion ddod yn siaradwyr hyderus. Fodd bynnag, roedd eraill yn pwysleisio bod rhaid cael cefnogaeth ddigonol (e.e. hyfforddiant staff, adnoddau dysgu a chyllid) i fynd law yn llaw ag unrhyw isafswm.

4.70 Soniwyd bod angen rhoi sylw nid yn unig i faint o ddarpariaeth a roddir, ond i ansawdd y ddarpariaeth honno. Nododd un sefydliad ei bod yn allweddol bod yr amser cyswllt gyda disgyblion yn ysgogol a chyfoethog, ac wedi ei seilio ar yr arferion addysgeg gorau.

4.71 O ran rhoi rôl i awdurdodau lleol gymeradwyo categori iaith ysgolion, roedd cefnogaeth eang i'r egwyddor hwn. Dywedodd ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau cysondeb a galluogi awdurdodau lleol i feddu ar orolwg cadarnach, a bydd hyn yn sicrhau mwy o unffurfedd o ran categorïau'r ysgolion ledled eu sir.

4.72 Fodd bynnag, wrth roi'r trefniant hwn ar waith ar lefel ymarferol, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i'r awdurdod lleol weithio'n agos gydag ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a rhanddeiliaid eraill i gytuno ar y categorïau y mae ysgolion yn cael eu gosod ynddynt.

**Dros amser, cynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig**

4.73 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn cytuno gyda chynnig y Papur Gwyn o ran cynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg a symud tuag at gategori ieithyddol uwch. Roedd rhai yn credu bod angen diffinio’n gliriach faint o gynnydd oedd angen ei wneud o fewn cyfnod penodol, ond roedd eraill yn tynnu sylw at ffactorau eraill sy’n effeithio ar raddfa’r cynnydd e.e. sgiliau Cymraeg y gweithlu. Pwysleisiwyd bod hyn yn rhywbeth y mae’n rhaid cynllunio ar ei gyfer.

4.74 Roedd ymatebwyr eraill yn pryderu bod y disgwyliad am gynnydd am olygu bod pob ysgol yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg neu cyfrwng Cymraeg penodedig, a theimlwyd hefyd bod angen rhoi ystyriaeth briodol i’r gofynion ar leoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

4.75 Fel ffordd o yrru’r cynnydd hwn, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno bod cynlluniau cyflawni ar lefel ysgol yn angenrheidiol. Fodd bynnag, thema gyffredin a gododd oedd bod angen ystyried unrhyw bwysau gwaith ychwanegol y byddai creu cynllun o’r fath yn ei greu, a bod angen adnoddau priodol. Nodwyd hefyd y byddai angen canllawiau clir yn manylu sut i lunio cynlluniau cyflawni.

4.76 Cynigiwyd hefyd y dylid cynnwys hyblygrwydd i Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol roi cyllid a chefnogaeth bellach i unrhyw ysgolion sydd yn y broses o drosi i gategori ieithyddol uwch. Aeth rhai ymatebwyr ymlaen hefyd i nodi y byddai angen ymdrechion pellach i hyrwyddo’r manteision o fod yn siaradwr Cymraeg i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg.

4.77 Ar lefel ymarferol, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cynllunio unrhyw gynnydd mewn darpariaeth fesul clwstwr o ysgolion cynradd fel bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol uwchradd gyda lefelau hyfedredd tebyg.

4.78 Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr hefyd yn cytuno gyda chynnig y Papur Gwyn o ran monitro cynnydd ysgolion. Er eu bod yn cytuno gyda’r cynnig o roi’r cyfrifoldeb monitro hwn i awdurdodau lleol, mynegodd rhai awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â’r baich gwaith ychwanegol byddai hyn yn gosod ar eu hadnoddau.

4.79 I rai o'r ymatebwyr, roedd y syniad o gynnwys corff allanol fel Estyn o fewn y broses fonitro yn hanfodol. Ar lefel ymarferol, fe wnaeth nifer o

ymatebwyr bwysleisio’r angen i sicrhau fod rôl monitro awdurdodau lleol ac Estyn yn cael eu cynnal mewn ffordd gefnogol a chydweithredol ac nid mewn ffordd sy’n barnu ysgolion.

4.80 Roedd rhai ymatebwyr yn dweud bod rhaid darparu eglurder ar ba ffurf fyddai unrhyw fonitro cynnydd – ai ar sail mewnbwn h.y. y ddarpariaeth gan yr ysgol, neu ai ar sail yr allbwn h.y. canlyniadau’r disgyblion mewn asesiadau. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn dweud bod angen bod yn glir beth fyddai'r canlyniadau pe bai'r broses fonitro yn adnabod ysgol sydd heb gynyddu neu wella ei darpariaeth Gymraeg.

**Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol**

4.81 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu bod angen i Weinidogion Cymru lunio Cynllun Cenedlaethol i osod arweiniad a chyfeiriad ar ddefnydd y Gymraeg yn ogystal â threfniadau i gefnogi caffael yr iaith a sicrhau cysondeb ar draws yr holl ardaloedd lleol. Roedd rhai yn awgrymu ei bod yn werth cynnwys arbenigwyr iaith ac addysgu yn y broses o greu’r Cynllun Cenedlaethol.

4.82 Nodwyd ei bod yn bwysig bod unrhyw Gynllun Cenedlaethol yn ymdrin â’r cynnydd sylweddol sydd ei angen yn nifer yr athrawon sy’n medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llai o athrawon yn gadael y proffesiwn. Awgrymodd nifer fawr o ymatebwyr bod angen buddsoddi yn ariannol er mwyn hybu cyrsiau hyfforddi er mwyn denu rhagor o bobl i’r sector addysgu.

**Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru**

4.83 O ran rôl awdurdodau lleol yn cynllunio’r Gymraeg mewn addysg (ar ffurf y CSCA), cafwyd cefnogaeth gan nifer o ymatebwyr, ond tynnwyd sylw at faint y dasg o sicrhau gweithlu dwyieithog digonol er mwyn gweithredu’r cynlluniau sirol (ac amcanion y Bil yn gyffredinol). Nodwyd bod yr her o dyfu’r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth genedlaethol ac yn rhywbeth na fydd modd datrys ar y lefel leol yn unig. Dywedwyd hefyd ei bod yn hollbwysig sicrhau isadeiledd ac adnoddau ar lefel genedlaethol er mwyn cefnogi gweithredu cynlluniau lleol.

4.84 Cafwyd cefnogaeth eang i’r egwyddor y dylai CSCA gael eu hadolygu ar ôl 5 mlynedd i gyd-fynd â chyfnod adolygu’r Cynllun Cenedlaethol.

Cynigiwyd hefyd y dylid alinio'r CSCA gyda chynlluniau ariannu cyfalaf am resymau ymarferol.

4.85 O ran yr egwyddor mai Gweinidogion Cymru ddylai osod targedau ar awdurdodau lleol drwy'r Cynllun Cenedlaethol, dywedodd ymatebwyr bod angen sicrhau fod y targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn rhai sy'n addas i amgylchiadau lleol ond ar yr un pryd yn ddigon uchelgeisiol. Nodwyd y byddai arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru i'w groesawu, gan y credai rhai mai'r rheini a grwpiau pwyso eraill sydd wedi arwain y galw yn y gorffennol. Nododd sawl ymatebydd eu bod yn croesawu'r cynigion y gall Weinidogion Cymru osod disgwyliadau uwch mewn rhai ardaloedd penodol er mwyn gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol.

4.86 Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen cyd-drafod rhwng awdurdodau a Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno a diweddaru targedau, a sicrhau bod gan awdurdodau lleol berchnogaeth a dyhead i gyflawni'r targedau. Roedd rhai yn pryderu y byddai targedau'n cael eu gosod heb fod gweithlu digonol ar gael yn lleol i gyflawni'r targedau hynny, ac felly bod angen hyblygrwydd i ymateb i dargedau mewn ffordd sy'n adlewyrchu cyd-destunau a heriau lleol.

4.87 O ran galluogi Gweinidogion Cymru i gomisiynu Estyn i adolygu cynnwys CSCA awdurdod lleol pan fo'n briodol, dywedodd rhai ymatebwyr y byddai barn allanol wrthrychol ac arbenigol yn werthfawr ac yn fodd o sicrhau bod datblygiadau yn cael eu hadeiladu ar sail ymchwil. Nododd eraill y byddai'r cynnig yn sicrhau bod y prosesau adolygu a gwerthuso yn fwy effeithiol ac yn cyflymu'r broses o sicrhau bod awdurdodau yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu cynlluniau neu eu gweithredu. Fodd bynnag, dywedodd rhai fod angen rhagor o eglurder o ran yr amodau neu sefyllfaoedd a fyddai'n peri i adolygiad allanol gael ei gynnal.

4.88 O ran gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu yn unol â'r CSCA, cynigiwyd bod angen mapio'r gweithlu cyfan a chanfod y cyfleodd i ddatblygu'r gweithlu yn ôl anghenion yr ardal. Pwysleisiwyd hefyd fod angen darparu'r adnoddau priodol i alluogi'r awdurdodau lleol i dyfu'r gweithlu Cymraeg, er enghraifft bod angen parhau ac ymestyn y Cynllun Sabothol a chynllun Camau. Nodwyd hefyd fod angen i'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ddigwydd ar lefel ehangach na'r awdurdodau lleol yn unig, gan gynnwys sefydliadau perthnasol eraill sy'n gweithio yn y maes.

4.89 Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y CSCA a'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol. Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynnig hwn am resymau atebolrwydd a thryloywder, a nododd rhai awdurdodau eu bod eisoes yn gwneud hyn at ddibenion craffu, ac felly y byddai ffurfioli'r gofyniad i'w groesawu. Soniodd rhai ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau clir i sicrhau cysondeb o ran dulliau a disgwyliadau.

4.90 O ran rhoi rôl i Estyn gynnal adolygiad chwim o CSCA awdurdod lleol mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau, roedd canfyddiad y byddai hyn yn sicrhau mesur o atebolrwydd ac yn darparu llwybr clir i ymdrin ag unrhyw dangyflawniad gan awdurdod lleol.

4.91 Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod darpariaeth ddigonol eisoes yn cael ei gwneud gan y Bil yn sgil y gofyniad i awdurdodau lleol ddiwygio'r CSCA bob 5 mlynedd i sicrhau cysondeb gyda'r Cynllun Cenedlaethol. Cynigiodd eraill y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymyrryd mewn achosion o'r fath. Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen bod yn eglur ynghylch beth fyddai union rôl Estyn yn sgil y cynnig.

**Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr**

4.92 O ran gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, roedd ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig yn dweud bod hyn eisoes ar y gweill gan nifer o awdurdodau lleol a bod y cynnig yn adeiladu ar y sylfeini hyn. Nododd ymatebwyr hefyd y gallai gosod dyletswydd o'r fath gyfrannu at well eglurder a gwybodaeth i rieni a gwarcheidwaid, gan eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer addysg eu pant. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai hefyd yn fuddiol i unrhyw hyrwyddo a wneir gynnwys unrhyw gyfleoedd i rieni ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg fel y gallent gefnogi eu plant yn y cartref.

4.93 Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn teimlo bod rôl i Weinidogion Cymru o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Yn bennaf, roedd hyn yn ymwneud â darparu adnoddau digonol i roi hwb i'r sector cyfrwng Cymraeg, ynghyd ag adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon wella eu sgiliau Cymraeg.

4.94 Roedd cefnogaeth eang hefyd i'r cynnig o osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnig darpariaeth trochi hwyr. Pwysleisiodd nifer fod hyn eisoes yn digwydd mewn awdurdodau lleol, ond y byddai sicrwydd cyllid digonol yn hanfodol. Cynigiwyd y gellid rhoi arweiniad cenedlaethol o ran trochi hwyr er mwyn sicrhau gweithredu cydlynol ar draws awdurdodau lleol a rhannu arferion da. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu am oblygiadau cyllid yn sgil dyletswydd o'r fath, ac yn awyddus na fyddai unrhyw gyllid a glustnodir ar gyfer trochi hwyr yn cael ei ddargyfeirio o ysgolion.

**Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg**

4.95 O ran y cynnig i ganoli cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg, gan gynnwys addysg ysgolion, o fewn un corff, teimlai nifer o'r ymatebwyr y byddai hyn yn rhoi eglurder i ysgolion o ran lle y gallent gael cymorth ac y byddai'n osgoi dyblygu gwaith yn genedlaethol. Roedd rhai ymatebwyr yn nodi bod cefnogaeth ar lefel leol yn hollbwysig hefyd. Dywedodd rhai bod angen mwy o drafod ac ystyriaeth ar y mater hwn, gan gynnwys pennu swyddogaethau a chwmpas corff o'r fath.

4.96 Cafwyd cefnogaeth eang i'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, gan ddweud ei bod hi'n angenrheidiol gwarantu'r ddarpariaeth a'r strwythurau i gyflawni'r nod hwn. Fodd bynnag, roedd rhai yn awyddus i gael manylion mwy penodol am y cynnig a'i weithrediad er mwyn deall ei gwmpas a'i effaith yn llawn.

4.97 Cynhaliwyd hefyd waith ymgysylltu pellach gyda rhanddeiliad sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan gynigion y Bil yn gofyn am wybodaeth bellach yn benodol ar gostau, effeithiau a buddion y cynigion. Manylir ar ddulliau a chanlyniadau'r gwaith ymgysylltu hwnnw ym mharagraffau 8.2 – 8.7 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Rheswm dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft**

4.98 Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fyd ar y cyfan â'r cynigion a nodir yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn, fel y nodir uchod. Yn ogystal â hynny, ac o ystyried bod ymgysylltu eang a manwl wedi digwydd yn y meysydd polisi dros gyfnod hir, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft.

# 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi’r canlynol mewn perthynas â’r rhain:

(i) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) ar ba ffurf y mae’r pŵer i gael ei arfer;

(iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv) y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i’r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi dyletswydd i bennu’r sail data ar gyfer cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg.<br><br>Mae’n addas i gynnwys y gwybodaeth hwn mewn rheoliadau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru amrywio’r ffynonellau data dros amser. | Cadarnhaol drafft | Mae’n debygol bydd pwnc y rheoliadau o ddiddordeb i Aelodau’r Senedd ac i’r cyhoedd. |
| 3(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i bennu dull o benderfynu a yw person o dan 17 oed yn siaradwr Cymraeg ac a yw'r dull hwnnw i'w ddefnyddio yn ychwanegol at, neu yn lle, yr asesiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(b).<br><br>Mae'n briodol bod hyn yn bŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu i ddulliau newydd dros amser.. | Cadarnhaol drafft | Mae’n debygol bydd pwnc y rheoliadau o ddiddordeb i Aelodau’r Senedd ac i’r cyhoedd. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 5(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1 (Tabl 1).<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd gan Weinidogion Cymru i addasu'r testun yn Tabl 1 mewn ymateb i newidiadau i Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Mae is-adran 5(3) yn cyfyngu'r pŵer hwn i sefyllfaoedd lle bod angen gwneud newidiadau mewn ymateb i newid a wneir i Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd yn unig. | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |
| 9(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i addasu Rhan 3 y Bil i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ysgol y dynodwyd mwy nag un categori iaith ar ei chyfer.<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cymru yr hyblygrwydd i wneud newidiadau i'r Bil mewn perthynas ag ysgol y dynodwyd mwy nag un categori iaith ar ei chyfer, fel bo'r angen yn codi a dros amser. | | |
| 10(1) a (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi dyletswydd i bennu swm yr addysg Gymraeg ar gyfer ysgolion ymhob categori iaith, gan gynnwys isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg.<br><br>Mae adran 10(2) yn nodi bod rhaid pennu'r swm:<br>(a) drwy gyfeirio at yr addysg Gymraeg fel canran o'r addysg a hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn ystod sesiynau ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol; a<br>(b) ar ffurf amrediad o ganrannau ar gyfer pob categori iaith. | Cadarnhaol drafft | Mae pwnc y rheoliadau o bwys arbennig i Aelodau'r Senedd ac i randdeiliaid. Bydd yr amrediad a'r isafswm hefyd yn debygol o arwain at oblygiadau ariannol i randdeiliaid. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ddiwygio'r amrediad a'r isafswm dros amser, yn enwedig yn rhinwedd y ddyletswydd yn adran 13(5). | | |
| 11(2)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i bennu'r dyddiad pan mai nod dysgu ysgolion categori "Dwy Iaith" yw o leiaf lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar.<br><br>Mae'n bwysig felly bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i osod y dyddiad hwn ar adeg priodol ac ar sail tystiolaeth. Bydd angen sicrhau bod y gweithlu addysg ar gael a bod cefnogaeth i gynorthwyo ysgolion. | Cadarnhaol drafft | Mae pwnc y rheoliadau o bwys arbennig i Aelodau'r Senedd ac i randdeiliaid. |
| 11(3)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i bennu'r cyfnod pan mai nod dysgu Cymraeg | Cadarnhaol drafft | Mae pwnc y rheoliadau o bwys |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | disgyblion ysgolion categori “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg” yw o leiaf defnyddwyr Cymraeg sylfaenol.<br><br>Bydd y rheoliadau yn arwain at newid systematig. Mae’n bwysig felly bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i osod y dyddiad hwn ar adeg priodol ac ar sail tystiolaeth. Bydd angen sicrhau bod y gweithlu addysg ar gael a bod cefnogaeth i gynorthwyo ysgolion. | | arbennig i Aelodau’r Senedd ac i randdeiliaid. |
| 11(3)(b)(ii) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi pŵer i bennu’r dyddiad pan mai nod dysgu ysgolion categori “Prif Iaith- Saesneg, rhannol Gymraeg” yw o leiaf lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar.<br><br>Mae’n bwysig felly bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i osod y dyddiad hwn | Cadarnhaol drafft | Mae pwnc y rheoliadau o bwys arbennig i Aelodau’r Senedd ac i randdeiliaid. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar adeg priodol ac ar sail tystiolaeth. Bydd angen sicrhau bod y gweithlu addysg ar gael a bod cefnogaeth i gynorthwyo ysgolion. | | |
| Mae 12(1) yn cyfeirio at y pŵer i wneud reoliadau o dan adran 56 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021[1] | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n cyfeirio at y pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau asesu – cynllunio, gweithredu, gwerthuso, diwygio a darparu gwybodaeth. | Ddim yn berthnasol i'r Bil hon. Y weithdrefn negyddol sydd yn berthnasol i'r pŵer yn adran 56 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. | Cytunodd y Senedd wrth graffu ar Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 bod pwnc y rheoliadau yn gymharol fân a thechnegol ac mae'n debygol y bydd angen eu diweddaru'n rheolaidd, felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol. |
| 13(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio |

[1] Memorandwm Esboniadol Diwygiedig Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, tud 56

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i wneud darpariaeth bellach am y categorïau iaith dros amser, fel bo'r angen yn codi. | | deddfwriaeth sylfaenol. |
| 13(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i:<br><br>(a) ychwanegu categori iaith neu<br>(b) ddiwygio categori iaith<br>ni chaiff y reoliadau ychwanegu neu ddiwygio categori iaith fel bod swm yr addysg Gymraeg a ddarperir ar gyfer y categori newydd yn llai na isafswm y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ysgol categori “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”. | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (c) gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ysgol categori "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg"<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ddiwygio'r categorïau iaith dros amser. | | |
| 13(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mewn amgylchiadau lle ddefnyddir y pŵer o dan adran 13(2)(a)(i) i ychwanegu categori iaith i adran 9, mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd i ddiwygio adran 11 i osod nod dysgu Cymraeg ar gyfer y categori hwnnw.<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu gosod nod dysgu Cymraeg ar gyfer categori iaith | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ysgolion a ychwanegir yn y dyfodol. | | |
| 14(2)(b)(vi) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu person arall y mae’n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â hwy wrth lunio cynllun cyflawni addysg Gymraeg.<br><br>Mae hwn yn briodol i’w gynnwys mewn rheoliadau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion sy’n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â hwy dros amser. | Negyddol | Mae pwnc y pŵer yn fanylyn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol ar gyfer gweithredu’r Bil<br><br>Rydym yn dilyn y weithdrefn a ddefnyddiwyd ar gyfer darpariaeth debyg yn adran 97 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. |
| 14(3)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi pŵer i bennu dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf.<br><br>Mae’n briodol bod rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd i | Negyddol | Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi ar yr wyneb ar y Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Weinidogion Cymru benderfynu pryd y mae'n briodol gosod y gofyniad ar gyrff llywodraethu ysgolion. Mae'r ddarpariaeth hon yn ddibynnol ar weithredu darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu'r Gymraeg a'r cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. | | technegol a gweinyddol. |
| 14(4)(a) a (b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i newid hyd y cyfnod y mae cynlluniau cyflawni yn gymwys a gwneud darpariaeth am ffurf a chynnwys cynllun cyflawni.<br><br>Gall ffurf a chynnwys y cynlluniau cyflawni newid dros amser, felly mae'n briodol bod y materion yma mewn rheoliadau. | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio effaith deddfwriaeth sylfaenol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 20(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i wneud ddarpariaeth bellach ynghylch Cynlluniau addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol, gan gynnwys ynghylch –<br>(a) hyd ac amseriad cynllun<br>(b) ymgynghori ar gynllun;<br>(c) cymeradwyo cynllun;<br>(d) adolygu a diwygio cynllun.<br><br>Gall y manylion sydd i'w cynnwys yn y rheoliadau newid dros amser, felly mae'n briodol eu cynnwys mewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i wneud newidiadau fel bo'r angen yn codi. | Negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol. |
| 20(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi dyletswydd i wneud darpariaeth , mewn perthynas â dynodiad gwirfoddol, gan gynnwys addasu Rhan 3 y Bil.<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i wneud newidiadau i'r Bil mewn perthynas â dynodiad gwirfoddol, fel bo'r angen yn codi a dros amser. | | |
| 21(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach am gynlluniau addysg feithrin Gymraeg. Gall y rheoliadau hyn gynnwys: –<br>(a) hyd ac amseriad cynllun;<br>(b) ymgynghori ar gynllun;<br>(c) cymeradwyo cynllun;<br>(d) adolygu ac addasu cynllun.<br>Mae hwn yn bŵer gwneud rheoliadau tebyg i'r un yn adran 20(2). Gall y manylion i'w cynnwys yn y rheoliadau newid dros amser, | Negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn manylu ar faterion technegol, gweinyddol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | felly mae'n briodol eu cynnwys mewn rheoliadau i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i wneud newidiadau yn ôl yr angen. | | |
| 22(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi pŵer i wneud darpariaeth bellach ar gyfer y materion sydd i’w cynnwys yn y gofrestr sydd i’w chynnal gan awdurdod lleol o gategorïau iaith ysgolion a gynhelir yn ei ardal. Mae hefyd yn rhoi pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ffurf y gofrestr ac am sut a phryd i gyhoeddi’r gofrestr honno.<br><br>Gall ffurf a chynnwys y gofrestr a’r dulliau cyhoeddi newid dros amser, felly mae’n briodol bod y materion yma mewn rheoliadau. | Negyddol | Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi ar wyneb ar y Bil. Bydd yn rheoliadau’n cynnwys materion technegol a gweinyddol |
| 24(10) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n rhoi pŵer i newid yr hyn sy’n ofynnol neu y caniateir ei gynnwys yn y Fframwaith | Cadarnhaol drafft | Mae’r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio effaith |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu'r Gymraeg.<br><br>Mae'n briodol defnyddio pŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion amrywio cynnwys y Fframwaith, pan fo angen. | | deddfwriaeth sylfaenol. |
| 30(5)(b)(xi) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi personau eraill y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth baratoi cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg.<br><br>Mae hwn yn briodol i'w gynnwys mewn rheoliadau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion bod rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy dros amser. | Negyddol | Mae pwnc y pŵer yn fanylyn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol ar gyfer gweithredu'r Bil.<br><br>Rydym yn dilyn y weithdrefn a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o dan adran 97 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 31(1)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod 5 mlynedd cyntaf y cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg.<br><br>Mae'n briodol bod rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru benderfynu pryd y mae'n briodol gosod y gofyniad ar awdurdodau lleol. | Negyddol | Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi ar yr wyneb ar y Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol. |
| 35(1) a (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Nid yw cynnwys y rheoliadau wedi'i cyfyngu i'r materion a nodir yn yr adran hon.<br>Mae hefyd yn rhoi pŵer i wneud darpariaeth i alluogi dau neu ragor o awdurdodau i gynhyrchu cynllun lleol strategol Cymraeg mewn addysg ar y cyd. | Negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol.<br>Rydym yn dilyn y weithdrefn a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o dan adran 97 Deddf Safonau a Threfniadaeth |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gall y Rheoliadau gynnwys manylion am ffurf a chynnwys cynllun, amseriad llunio cynllun, y broses ymgynghori wrth lunio cynllun drafft, gweithdrefn cymeradwyo, sut a phryd i gyhoeddi cynllun ac adrodd ar weithredu'r cynllun. Mae'r briodol felly bod y lefel yma o fanylion yn fater i is-ddeddfwriaeth oherwydd mae'n debygol fyddant yn amrywio dros amser ac fydd angen gwneud newidiadau yn rheolaidd. | | Ysgolion (Cymru) 2013 |
| 40(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i roi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Mae hwn yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu swyddogaethau'r Athrofa fel bo'r angen. | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 46(8)(a) a (b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i bennu'r cyfnod cynllunio cyntaf a phŵer i amrywio'r cyfnod cynllunio ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Mae hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru bennu'r cyfnodau cynllunio yn ôl yr angen. | Negyddol pan yn pennu cyfnod cynllunio o dan adran 44(8)(a)<br><br>Cadarnhaol drafft pan yn amrywio cyfnod cynllunio o dan adran 44 (8)(b) | Mae sylwedd y darpariaethau hyn wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol. Mae 44(8)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod cynllunio o 3 blynedd a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| 55(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n deilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu sy'n ganlyniadol ar unrhyw ddarpariaeth yn y Bil a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil. | Cadarnhaol drafft os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio. Gweithdrefn negyddol fel arall. | Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn addas pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio gan bo lefel uwch o graffu'n briodol. Fel arall mae'r weithdrefn negyddol yn berthnasol – mae'r newidiadau hyn |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwriad y pŵer hwn fydd i alluogi i Weinidogion Cymru wneud newidiadau dros amser, i sicrhau bod y Bil hwn yn cydweithio gyda deddfau eraill. Mae'n briodol cyflwyno rheoliadau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru. | | wedi'u cyfyngu i rai sy'n ganlyniadol ayyb. |
| 56(4) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn Cychwyn | Mae'n rhoi pŵer i gychwyn darpariaethau'r Bil.<br><br>Mae'n addas cychwyn darpariaethau drwy orchymyn gan y bydd angen sicrhau bod trefniadau gweithredu ar waith cyn i'r adrannau ddod i rym. | Dim Gweithdrefn | Mae'r Gorchymyn yn ymwneud â darpariaethau cychwyn. |
| Atodlen 2, paragraff 2(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru amrywio nifer yr aelodau ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | Cadarnhaol | Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru newid nifer yr aelodau anweithredol a gweithredol fel bo'r angen ond rhaid iddynt sicrhau bo nifer yr aelodau anweithredol yn uwch na nifer yr aelodau gweithredol. | | technegol a gweinyddol. |
| Atodlen 2, paragraff 3(f) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau, deiliad swydd neu aelod corff neu aelod o staff corff sydd wedi ei anghymwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.  Mae hwn yn ychwanegol i'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Athrofa  sydd eisoes ar wyneb y Bil.<br><br>Mae hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at y personau sydd | Cadarnhaol drafft | Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wedi eu hanghymwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | | |

**Tabl 5.2: Crynodeb o’r pwerau i wneud cyfarwyddydau a chyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(3) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae’n rhoi dyletswydd i lunio a chyhoeddi canllawiau ar asesiadau at ddibenion cynorthwyo unigolion i gwblhau asesiadau, gan gynnwys hunanasesiad o’u gallu yn y Gymraeg.<br>Ystyrir bod canllawiau’n briodol gan mai’r diben yw i ddarparu gwybodaeth pellach a chymorth y tu hwnt i’r hyn fydd yn y Cod (o dan adran 6(1)). | Dim gweithdrefn | Bwriad y canllaw yw i hwyluso’r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol. |
| 6(1) | Gweinidogion Cymru | Cod | Mae’n rhoi dyletswydd i lunio cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg sy’n seiliedig ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.<br><br>Rhaid i’r cod esbonio sut i ddefnyddio’r lefelau cyfeirio cyffredin a disgrifio nodweddion | Dim gweithdrefn | Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi'n glir ar wyneb y Bil a chynnwys y cod yn dechnegol ei natur. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | penodol ar gyfer pob lefel cyfeirio gyffredin.<br><br>Ystyrir bod cod yn briodol oherwydd bydd yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a manwl sydd yn debygol o fod angen ei ddiweddaru yn weddol rheolaidd. | | |
| 15(4)(c) | Awdurdod Lleol | Cyfarwyddyd | Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni drafft rhaid i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu ysgol ail ystyried y cynllun drafft. Rhaid i’r cyfarwyddid roi rhesymau dros y penderfyniad i wrthod a phennu pryd  y mae’n ofynnol i’r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o’r cynllun.<br><br>Bydd cynnwys y cyfarwyddyd yn amrywio fel gall ymdrin â resymau penodol am wrthod cynllun. Mae’n | Dim Gweithdrefn | Bwriad y cyfarwyddyd yw i hwyluso’r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | briodol felly i gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf cyfarwyddyd. | | |
| 16(6)(c) | Awdurdod Lleol | Cyfarwyddyd | Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni diwygiedig rhaid i awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu ysgol ail ystyried y cynllun diwygiedig. Rhaid i'r cyfarwyddid roi rhesymau dros y penderfyniad i wrthod y cynllun cyflawni diwygiedig a phennu'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o'r cynllun i'r awdurdod lleol neu hysbysu'r awdurdod lleol nad yw bellach yn cynnig diwygio ei gynllun cyflawni.<br><br>Bydd cynnwys y cyfarwyddyd yn amrywio fel gall ymdrin â resymau penodol am wrthod cynllun. Mae'n briodol felly i gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf cyfarwyddyd. | Dim Gweithdrefn | Bwriad y cyfarwyddyd yw i hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 32(3)(c) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg drafft rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Awdurdod Lleol i ail ystyried y cynllun drafft. Rhaid i'r cyfarwyddid roi rhesymau dros y penderfyniad i wrthod a phennu pryd y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft pellach o'r cynllun.<br><br>Bydd cynnwys y cyfarwyddyd yn amrywio fel gall ymdrin â resymau penodol am wrthod cynllun. Mae'n briodol felly i gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf cyfarwyddyd. | Dim Gweithdrefn | Bwriad y cyfarwyddyd yw i hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol. |
| 34(3) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol mewn amgylchiadau penodol sef<br>(a) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod awdurdod lleol yn annhebygol o | Dim Gweithdrefn | Bwriad y cyfarwyddyd yw i hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyrraedd targed yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg Dysgu Cymraeg; a<br>(b) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen diwygio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol yn unol a hynny.<br><br>Bydd cynnwys y cyfarwyddyd yn wedi'i dargedu ar gyfer amgylchiadau penodol felly mae'n addas bod y wybodaeth ar ffurf cyfarwyddyd. | | |
| 48(2) | Gweinidogion Cymru | Canllaw | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol am eu swyddogaethau o dan y Bil.<br><br>Bwriad y pŵer hwn yw i ganiatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru | Dim Gweithdrefn | Bwriad y canllaw yw i hwyluso'r gwaith o gymhwyso deddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | baratoi canllawiau, fel bo’r angen yn codi. | | |
| Atodlen 2, paragraff 9(4) a (5) | Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Cyfarwyddyd | Mae’n rhoi pŵer i’r Athrofa bennu mewn cyfarwyddyd y swyddogaethau na chaiff pwyllgor neu is-bwyllgor o’r Athrofa eu dirprwyo. Mae hefyd yn galluogi’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyaeth a bennir yn y cyfarwyddyd, ac i gyfarwyddo pwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gan y pwyllgor.<br><br>Rhoddir bwerau i bwyllgorau’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol roi cyfarwyddyd i is-bwyllgorau ynghylch peidio dirprwyo swyddogaethau yn ogystal â chyfarwyddo’r is-bwyllgor i, amrywio neu ddirymu | Dim Gweithdrefn | Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r pwyllgor neu is-bwyllgor o’r Athrofa wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dirprwyaeth a wnaed gan yr is-bwyllgor.<br><br>Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol i roi hyblygrwydd i'r Athrofa benderfynu ar ba swyddogaethau na chaiff ddirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor, ac i bwyllgor o'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol benderfynu ynghylch cyfarwyddo is-bwyllgorau. | | |
| Atodlen 2, paragraff 10 | Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Rheolau | Mae'n rhoi dyletswydd ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wneud rheolau i reoleiddio ei gweithdrefn ei hun. Rhaid i'r rheolau ddarparu nad yw cyfarfod o'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ffurfio cworwm oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol. | Dim Gweithdrefn | Bydd y rheolau yn ymdrin yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd ni ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wneud rheolau i reoleiddio gweithdrefn ei phwyllgorau a'i his- bwyllgorau.<br>Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ei phwyllgorau a'i his-bwyllgorau bennu eu gweithdrefn eu hunain yn ddarostyngedig i unrhyw reolau a wneir gan yr Athrofa o dan baragraff 10(3).<br><br>Bernir bod y manylion yma'n addas i'w cynnwys mewn rheolau i roi hyblygrwydd i newid y cynnwys fel bo angen. | | |
| Atodlen 2, paragraff 16(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o ran yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad o gyfrifon, y modd mae'r wybodaeth i'w chyflwyno a'r dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy | Dim Gweithdrefn | Bydd y cyfarwyddiadau yn dechnegol eu natur ac yn ymdrin yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd ni ystyrir ei bod yn briodol |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a gwybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r datganiad.<br><br>Bernir bod y manylion yma'n addas i'w cynnwys mewn cyfarwyddiadau i roi hyblygrwydd i newid y cynnwys fel bo angen. | | defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac fe'i nodir isod.

6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil a fydd yn newid gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.3. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil yn gyffredinol. Bwriedir i'r tabl gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><td colspan="3">Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir: Cyflwyno deddfwriaeth i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg sy'n cynnwys darpariaethau i atgyfnerthu'r seilwaith sy'n sail i ddysgu a chaffael y Gymraeg ac, yn benodol, rôl addysg yn y broses hon. Mae'r Bil yn cwmpasu'r canlynol –<br><ul><li>gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr i un filiwn erbyn 2050</li><li>darparu ar gyfer lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg</li><li>datblygu fframwaith cenedlaethol a chynlluniau lleol ar gyfer gwella addysg Gymraeg</li><li>cyflwyno system o gategoreiddio ysgolion yn seiliedig ar faint o addysg Gymraeg a ddarperir</li><li>pennu nodau dysgu Cymraeg i ysgolion anelu atynt drwy gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg</li><li>sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi dysgu Cymraeg gydol oes.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Introduction</td><td>Cyfnod arfarnu:<br>2025-26 - 2034-35</td><td>Blwyddyn sail brisiau:<br>2023-24</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm y Gost<br>Cyfanswm: £ 111.9m<br>Gwerth presennol: £89.3m</td><td>Cyfanswm y Manteision<br>Cyfanswm: £0<br>Gwerth presennol: £0</td><td>Gwerth Presennol Net (GPN):<br>£-89.3m</td></tr>
</table>

## Cost weinyddol

<table>
<tr><td colspan="4">Costau:<br>Mae sawl cynnig yn y Bil yn adeiladu ar strwythurau ac arferion sydd eisoes yn bodoli – p'un a ydynt yn rhai statudol neu anstatudol. Er enghraifft, y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg a Chynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCA lleol), ymhlith cynigion eraill. Fodd bynnag, ein hasesiad yw y bydd costau gweinyddol yn gysylltiedig â'r Bil. Bydd costau i Lywodraeth Cymru, er enghraifft er mwyn datblygu Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, canllawiau a rheoliadau, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â datblygu Fframweithiau Cenedlaethol a sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Amcangyfrifir mai'r gost weinyddol i Lywodraeth Cymru fydd £8.2m</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £3.3m</td><td>Cylchol: £4.9m</td><td>Cyfanswm: £8.2m</td><td>Gwerth presennol: £6.9m</td></tr>
<tr><td colspan="4">Arbedion cost:<br>Mae'r Bil yn bwriadu nodi cyd-destun clir ar gyfer cyfraniad gwahanol randdeiliaid a'r system addysg at gyflawni'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bwriedir i ddarpariaethau yn y Bil symleiddio systemau a phrosesau presennol a sicrhau y caiff adnoddau eu targedu'n well at nodau allweddol. Mae rhanddeiliaid allweddol (e.e. awdurdodau lleol, ysgolion) wedi awgrymu y gallai hyn sicrhau arbedion cost yn yr hirdymor. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr arbedion cost hyn ar hyn o bryd. Dylai unrhyw arbedion cost sy'n gysylltiedig â'r Bil gael eu hystyried ymhellach yn ystod y cyfnod ar ôl gweithredu.</td></tr>
<tr><td>Trosiannol: £0</td><td>Cylchol: £0</td><td>Cyfanswm: £0</td><td>Gwerth presennol: £0</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cost weinyddol net: £8.2m</td></tr>
</table>

## Costau cydymffurfio

| |
|---|
| Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswyddau statudol i awdurdodau lleol ac ysgolion, y bydd angen iddynt gydymffurfio â nhw. Mae a wnelo hyn yn bennaf â'r gofyniad i ysgolion lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg i'w cymeradwyo gan awdurdodau lleol; y gofyniad i ysgolion gynyddu'r addysg Gymraeg a ddarperir ganddynt er mwyn cyflawni nodau dysgu Cymraeg; a diwygiadau i system bresennol CSCAau.<br><br>Amcangyfrifir mai'r gost i awdurdodau lleol dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd fydd £4.3m ac amcangyfrifir mai'r gost i ysgolion fydd £10.2m. Amcangyfrifir mai'r gost i Estyn fydd £0.16m.<br><br>Amcangyfrifir mai cyfanswm y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion fydd £89.0m dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Amcangyfrifir y cyfanswm hwn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd angen i'r lefel presennol o gyllid i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion barhau drwy gydol y cyfnod arfarnu er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Bil. Gan na chytunwyd ar gyllid yn y dyfodol eto, mae'r costau hyn wedi'u cynnwys fel costau ychwanegol y Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £103.7** | **Cyfanswm: £103.7** | **Gwerth presennol: £82.4** |

## Costau Eraill

| |
|---|
| Ddim yn gymwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Costau ac anfanteision heb eu mesur

| |
|---|
| Ddim yn gymwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Cylchol: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Manteision

| |
|---|
| Mae *Cymraeg 2050* yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg: erbyn 2050 'mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd'. O ystyried pwysigrwydd addysg i greu siaradwyr Cymraeg newydd, mae'r Bil yn cysylltu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn glir â'r seilwaith a'r prosesau cynllunio sydd ynghlwm wrth gynyddu addysg Gymraeg. Mae'n nodi darpariaethau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg statudol. Oherwydd eu natur, ni fu'n bosibl mesur y manteision ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

## Tystiolaeth, tybiaethau ac ansicrwydd allweddol

| |
|---|
| Datblygwyd amcangyfrifon gorau o gostau a manteision gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau o dystiolaeth, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, data gweinyddol a phapurau ymchwil. Cynhaliwyd cyfweliadau a gweithdai ychwanegol gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol y rhagwelir y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Cynhaliwyd arolygon hefyd gydag awdurdodau lleol ac ysgolion. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon fel sail i dybiaethau allweddol a wnaed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys y costau tebygol mewn meysydd megis datblygu'r gweithlu Cymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". |

# 7. Opsiynau

7.1 Y brif egwyddor drefniadol ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yw y dylai pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 allu siarad Cymraeg yn annibynnol. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae'r Bil yn cyflwyno rhaglen newid sy'n gofyn am weithredu ar sawl lefel.

7.2 Nodir amcanion polisi'r Bil a'r sail resymegol drosto ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn a dylid darllen y bennod hon ochr yn ochr â Phennod 3. Er mwyn cynorthwyo'r darllenydd, nodir rhannau allweddol y Bil isod:

**Rhan 1 – Hybu a Hwyluso defnydd o'r Gymraeg**
**Rhan 2 – Disgrifio Gallu yn y Gymraeg**
**Rhan 3 – Addysg Gymraeg**
**Rhan 4 – Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**
**Rhan 5 – Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

7.3 Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob un o'r meysydd uchod fel rhan o'r broses datblygu polisi. Craffodd swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau hyn yn ystod gweithdy arfarnu opsiynau, gan nodi'r 'opsiwn a ffefrir' ac opsiwn 'gwneud y lleiaf posibl' neu 'gwneud rhywbeth' amgen realistig. Mewn rhai achosion, does dim opsiwn amgen wedi'i gynnwys lle yr ystyriwyd nad oedd unrhyw opsiwn ymarferol heblaw'r opsiwn Busnes fel Arfer a'r opsiwn a ffefrir.

7.4 Ystyriwyd opsiwn amgen er mwyn penderfynu a allai cyfran fawr o fanteision disgwyliedig yr 'opsiwn a ffefrir' gael ei sicrhau am gost sylweddol is[2]. Y sefyllfa bresennol o dan Fusnes fel Arfer oedd y llinell sylfaen yr aseswyd yr opsiynau eraill yn ei herbyn.

7.5 Cafodd trafodaethau yn ystod y gweithdy arfarnu opsiynau eu llywio gan adroddiadau ymchwil yn ymwneud â'r meysydd polisi perthnasol, gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid allweddol, gwybodaeth swyddogion am y sector a thystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y papur gwyn. Mae Pennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn disgrifio sut yr ymdriniwyd â phwyntiau allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

[2] Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd (Llywodraeth Cymru)

*Tabl 1 – Crynodeb o'r opsiynau polisi allweddol a ystyriwyd yn ystod y broses arfarnu opsiynau*

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg | Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith | **Gwneud Dim** – Byddai'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn parhau i weithredu fel targed anstatudol. | Isel | Nac oes | • Mae'r targed wedi bodoli fel targed anstatudol ers 2017 ac mae bellach yn sail ar gyfer llunio polisi iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff hyn ei gyflawni i raddau helaeth drwy raglenni gwaith sefydledig, a gaiff eu diweddaru bob pum mlynedd.<br>• Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | • Mae natur anstatudol y targed yn golygu nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar Weinidogion Cymru nac awdurdodau lleol i ystyried y targed wrth gyflawni eu dyletswyddau.<br>• Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd sicrhau bod nod uchelgais polisi hirdymor yn cael y sylw angenrheidiol gan gyrff perthnasol, yn enwedig wrth ystyried blaenoriaethau polisi croes. |
| | | **Y Dull a Ffefrir** – Rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys y targed yn eu Strategaeth ar gyfer y Gymraeg. At hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn gosod targedau eraill ar gyfer defnydd o'r iaith, addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg.<br><br>Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu Safonau'r Gymraeg a nodir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan ystyried y targedau a'r darpariaethau sy'n ymwneud â disgrifio gallu yn y Gymraeg (gweler isod). | Canolig | Oes – byddai angen diwygio adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. | • Mae cynnwys targedau neu ganlyniadau mewn deddfwriaeth yn ffordd o sicrhau bod uchelgais hirdymor y polisi yn cael y sylw angenrheidiol gan gyrff perthnasol.<br>• Mae rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn rhoi cyd-destun clir ar gyfer cyfraniad y system addysg orfodol at gyflawni'r targed, ac at newid ymddygiad yn yr hirdymor.<br>• Bydd adolygu Safonau'r Gymraeg yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i sut mae'r dyletswyddau a osodir ar gyrff drwy'r Safonau yn cysylltu'n glir â'r Bil, ac yn benodol y targed statudol a'r Cod. Er y byddai'n bosibl adolygu'r Safonau heb ddeddfu, byddai'r dull a ffefrir yn darparu sail gryfach. | • Mae cynnwys targedau mewn deddfwriaeth yn cyfyngu ar y gallu i ddiwygio'r targed.<br>• Er na fydd rhoi sail statudol i'r targed yn arwain at gostau ychwanegol, bydd costau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag adolygu Safonau'r Gymraeg. |
| Disgrifio Gallu yn y Gymraeg | Cod i bennu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg | **Gwneud Dim –** Ar hyn o bryd, mae rhanddeiliaid yn defnyddio amrywiaeth o fframweithiau ar gyfer diffinio a mesur sgiliau Cymraeg | Isel | Nac oes | • Mae fframweithiau presennol yn sefydledig ac fe'u defnyddir gan amrywiaeth o randdeiliaid.<br>• Defnyddir fframweithiau presennol fel ffordd o fesur sgiliau Cymraeg y gweithlu ac yn aml maent yn sail i bolisïau iaith Gymraeg sefydliadau[3].<br>• Ar hyn o bryd, mae gan randdeiliaid yr hyblygrwydd i ddewis fframwaith sy'n cyd-fynd orau ag anghenion ac arbenigedd eu sefydliad. | • Mae fframweithiau presennol yn anghyson o ran y ffordd y caiff gwahanol lefelau o sgiliau Cymraeg eu disgrifio a'u mesur.<br>• Mae fframweithiau wedi'u llunio ar gyfer oedolion yn bennaf ac nid ydynt yn cyd-fynd ag egwyddorion cynnydd y Cwricwlwm i Gymru. |

[3] Cynllluniau Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg)

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | |
| | | **Yr Opsiwn a Ffefrir** – Mabwysiadu'r lefelau cyfeirio cyffredin o Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd (CEFR) Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd yn y Bil a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y lefelau cyfeirio cyffredin. | Canolig | Oes | • Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cyfle i Weinidogion Cymru chwarae rôl strategol bwysig yn y maes polisi hwn a llunio un fframwaith pwrpasol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg, y bydd yn bosibl mapio pob dysgwr a siaradwr arno, ni waeth beth fo'i oedran a'i hyfedredd. | • Bydd yr opsiwn hwn yn tarfu ar rai rhanddeiliaid yn y byrdymor oherwydd yr angen i drosglwyddo o fframweithiau presennol i fframwaith a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys y sector oedolion, eisoes yn gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd.<br>• Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gostau i randdeiliaid sy'n diweddaru prosesau a gweithdrefnau perthnasol (polisïau iaith Gymraeg sefydliadol) er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â'r fframwaith newydd.<br>• Bydd costau staff i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â llunio'r Cod. |
| | | **Yr Opsiwn Amgen** – Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu fframwaith presennol. | Canolig | Nac oes | • Byddai'r gost yn llai nag ar gyfer yr opsiwn a ffefrir gan na fyddai angen i staff Llywodraeth Cymru lunio fframwaith pwrpasol.<br>• Mae'n bosibl y byddai'r dull hwn o weithredu yn tarfu llai ar randdeiliaid gan mai'r uchelgais fyddai mabwysiadu a chefnogi fframwaith sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan rai grwpiau (e.e. y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd neu Fframwaith y Gymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE). | • Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at darfu byrdymor ar y rhanddeiliaid hynny sy'n trosglwyddo i fframwaith gwahanol.<br>• Mae heriau yn gysylltiedig â chysoni fframwaith presennol a gynlluniwyd ar gyfer oedolion â'r Cwricwlwm i Gymru. |
| **Addysg Gymraeg** | Categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg; cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg; a darpariaeth trochi hwyr | **Gwneud Dim** – Bydd yn ofynnol o hyd i ysgolion nodi yn eu prosbectws eu categori iaith yn erbyn y canllawiau categoreiddio anstatudol presennol, sef canllawiau 2021. | Isel | Nac oes | • Cafodd y categorïau presennol eu llunio yn seiliedig ar egwyddorion symlrwydd, eglurder a hygyrchedd.<br>• Ymdriniodd hyn ag un o wendidau'r categorïau a luniwyd yn 2007, y nodwyd eu bod yn rhy gymhleth i'r rhai a oedd yn eu defnyddio[4].<br>• Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | • Nid yw'r opsiwn hwn wedi ymdrin ag un o'r anfanteision allweddol sy'n gysylltiedig â chategorïau 2007: *"Prif wendid y diffiniadau newydd oedd nad oeddynt yn rhai statudol ac o'r herwydd nid oedd rheidrwydd i awdurdodau addysg gymryd rhyw lawer o sylw ohonynt".* |

[4] Adolygiad o gategorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru)

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Yr Opsiwn a Ffefrir** – Sefydlu system statudol i gategoreiddio ysgolion. Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg a fydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi sut y byddant yn cynyddu eu darpariaeth Gymraeg er mwyn cyflawni nodau dysgu Cymraeg. Pennu'r ddarpariaeth Gymraeg ofynnol mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ar 10%. Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymeradwyo cynlluniau cyflawni, a hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg. | Uchel | Oes | • Caiff pob ysgol a gynhelir ei chategoreiddio yn ôl un system.<br>• Bydd faint o ddarpariaeth Gymraeg yn ôl categori iaith a nodir mewn rheoliadau o dan y Bil, ynghyd â'r nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori, yn rhoi eglurder i ysgolion o ran yr hyn sy'n ofynnol ac at ba ddiben.<br>• Bydd angen i gategori pob ysgol gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol fel rhan o'r broses o gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion, sy'n golygu y bydd gan yr awdurdod lleol drosolwg mwy cadarn.<br>• Bydd y ddyletswydd i hybu darpariaeth trochi hwyr yn cynnig cyfle i fwy o ddisgyblion gael addysg cyfrwng Cymraeg. | • O dan yr opsiwn hwn, bydd costau staff i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygu'r rheoliadau.<br>• Mae cyfrifoldebau newydd yn golygu costau i awdurdodau lleol (cymeradwyo categorïau ysgolion) ac ysgolion (llunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg).<br>• Mae llwyddiant yr opsiwn hwn yn dibynnu ar sicrhau bod gweithlu cadarn a all ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu Cymraeg, sy'n gofyn am gyllid parhaus. |
| | | **Yr Opsiwn Amgen** – Ategu canllawiau presennol â chanllawiau anstatudol ychwanegol er mwyn sicrhau bod categorïau iaith ysgolion yn cyd-fynd â chynigion eraill yn y Bil. | Canolig | Nac oes | • Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â'r canllawiau anstatudol newydd.<br>• Byddai'r opsiwn hwn yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud yn lle creu prosesau a systemau newydd.<br>• Byddai'r gost yn is o gymharu â'r opsiwn a ffefrir gan na fyddai'n ofynnol i staff Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau na rheoliadau newydd yn ymwneud â chategorïau iaith ysgolion nac ymgynghori arnynt. | • Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai parhau â system anstatudol yn darparu'r seilwaith gofynnol er mwyn cyflawni'r nodau addysg yn strategaeth *Cymraeg 2050*.<br>• Byddai angen darparu cyllid parhaus o hyd er mwyn sicrhau bod gweithlu cadarn a all ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. |
| **Cynllunio addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg** | Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg | **Gwneud Dim** – Nid oes unrhyw beth sy'n cyfateb i Fframwaith Cenedlaethol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o sefydliadau a phartneriaethau yn datblygu cynlluniau a pholisïau sy'n ymwneud â chefnogi unigolion ar eu taith ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg, mewn gwahanol sectorau ac ar wahanol gamau bywyd. | Isel | Nac oes | • Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.<br>• Mae'r strategaeth yn sefydledig ac mae adroddiadau blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith helaeth sydd wedi'i wneud i gyflawni ei huchelgeisiau.<br>• Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | • Nid yw strategaeth *Cymraeg 2050* yn ymdrin â mater gweithredu'n lleol nac yn nodi targedau lleol.<br>• Mae cyfnod byr cynlluniau gweithredu blynyddol *Cymraeg 2050*, a'r ffaith eu bod yn ymdrin â holl themâu *Cymraeg 2050*, yn golygu nad ydynt yn darparu dadansoddiad penodol o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran addysg Gymraeg. |

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Yr Opsiwn a Ffefrir** – Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol statudol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg | Canolig | Oes | • Mae Fframwaith Cenedlaethol (a ategir gan bwerau newydd i osod targedau ar awdurdodau lleol) yn ffordd o sicrhau bod addysg Gymraeg a gweithgareddau dysgu yn digwydd mewn modd mwy cydgysylltiedig ar draws awdurdodau lleol gwahanol (yn achos addysg statudol) ac ar wahanol gamau bywyd. | • Os na fydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n briodol ag awdurdodau lleol yn ystod y broses o osod targedau, mae risg y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn afrealistig ac yn anymarferol.<br>• O dan yr opsiwn hwn, bydd costau staff i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â llunio'r Fframwaith Cenedlaethol. |
| | | **Yr Opsiwn Amgen** – Gweinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol anstatudol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg | Canolig | Nac oes | • Bydd yr opsiwn hwn yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru chwarae rôl arwain fwy canolog ym maes addysg Gymraeg a gweithgareddau dysgu. | • Nid oes unrhyw sicrwydd y byddai targedau anstatudol yn sicrhau'r newid mewn ymddygiad sydd ei angen i gyflawni uchelgeisiau strategaeth *Cymraeg 2050.*<br>• Byddai costau staff i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â llunio'r Fframwaith Cenedlaethol. |
| | Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau lleol) | **Gwneud Dim –** Mae system bresennol CSCAau wedi bod ar waith ers 2013, lle mae awdurdodau lleol yn pennu eu targedau eu hunain ar gyfer gwella addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. | Isel | Nac oes | • Mae system bresennol CSCAau wedi darparu sail gadarn ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel awdurdod lleol.<br>• Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | • Roedd rhanddeiliaid a ddarparodd dystiolaeth i ymchwiliad y Senedd yn cytuno, ar y cyfan, nad oedd yn gweithio mor effeithiol ag y gallai. Nodwyd nad oedd rhai argymhellion allweddol a wnaed yn ystod yr Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan Aled Roberts wedi cael eu rhoi ar waith. |
| | | **Yr Opsiwn a Ffefrir** – Diwygio'r system bresennol ar gyfer llunio CSCAau a chreu cysylltiad uniongyrchol â'r targedau yn y Fframwaith Cenedlaethol. | Canolig | Oes | • Mae'r opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu targedau yn uniongyrchol ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn cyflawni polisi cenedlaethol. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol lle mae awdurdodau lleol yn gosod eu targedau eu hunain, gan ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru. | • Mae gan awdurdodau lleol adnoddau i reoli CSCAau eisoes, er y bydd rhai costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â diwygiadau i'r system. |
| | | **Yr Opsiwn Amgen** – Rhoi terfyn ar CSCAau ac, yn lle hynny, dibynnu ar y Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig i lywio polisi iaith Gymraeg mewn awdurdodau lleol. | Isel | Nac oes | • Byddai hyn yn cynnig cyfle i ymgorffori uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg mewn meysydd polisi eraill ar lefel awdurdod lleol. | • Mae'n bosibl y byddai'r opsiwn hwn yn achosi llawer o broblemau ac yn difetha system sydd wedi bod ar waith ers dros 10 mlynedd.<br>• Er y byddai'r gost yn llai o gymharu â'r opsiwn a ffefrir, byddai rhoi terfyn ar CSCAau yn tanseilio'r trefniadau sydd ar waith rhwng awdurdodau lleol i gydgysylltu ymdrechion mewn perthynas ag addysg Gymraeg a byddai'n gam yn ôl. |

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol** | Canoli cymorth ar gyfer dysgu Cymraeg | **Gwneud Dim** – Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o sefydliadau a phartneriaethau yn cefnogi unigolion ar eu taith ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg, gan gynnwys Mudiad Meithrin yn y blynyddoedd cynnar; ysgolion; consortia addysg ac awdurdodau lleol sy'n darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n gweithio gyda darparwyr ôl-16 i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i bobl dros 16 oed, gan gynnwys cymorth i weithleoedd. | Isel | Nac oes | • Mae sefydliadau a phartneriaethau unigol wedi hen ennill eu plwyf yn eu meysydd unigol ac maent yn chwarae rôl allweddol yn helpu eu cynulleidfa darged i ddysgu Cymraeg.<br>• Mae adolygiad gan Estyn, a gyhoeddwyd yn 2021, ac Adolygiad Cyflym, a gynhaliwyd gan dîm dan arweiniad Steve Morris, yn tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol yn y sector Dysgu Cymraeg ers i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei sefydlu yn 2015.<br>• Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer. | • Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn canolbwyntio'n benodol ar bobl dros 16 oed. Ar hyn o bryd, nid oes un corff sy'n darparu arweiniad a chymorth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes. O ganlyniad, mae cymorth ar gyfer dysgu a chaffael y Gymraeg wedi'i rannu rhwng sawl sefydliad a phartneriaeth, sy'n golygu bod diffyg parhad rhwng gwahanol sectorau.<br>• Mae'r diffyg trosolwg strategol canolog yn arwain at ddyblygu adnoddau a rhaglenni. Mae'r diffyg cydweithrediad rhwng sectorau yn golygu bod cyfleoedd i rannu arbenigedd yn cael eu colli.<br>• Byddai parhau â'r sefyllfa bresennol yn ei gwneud hi'n anos gweithredu un fframwaith ar gyfer gallu yn y Gymraeg yn rhan 2 o'r Bil.<br>• Mae'r model cyllido presennol ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio ar gyfer yr hirdymor ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd. |
| | | **Yr Opsiwn a Ffefrir –** Sefydlu corff statudol newydd: yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. | Uchel | Oes | • Bydd yr Athrofa yn gorff unigol a fydd yn rhoi arweiniad strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes, gan fynd i'r afael â gwendidau yn y system bresennol.<br>• Mae'r opsiwn hwn yn ymdrin â'r argymhellion yn yr adroddiad diweddar gan Estyn a'r Adolygiad Cyflym ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan greu corff a fydd yn rhannu arbenigedd â'r sector addysg statudol ac yn datblygu'n ddylanwadwr strategol ym maes caffael iaith ar gyfer pobl o bob oedran.<br>• Bydd yr opsiwn hwn yn darparu sail ariannol a sail gynllunio fwy sefydlog ar gyfer llunio polisïau ac ymyriadau hirdymor. | • Bydd sefydlu corff statudol newydd yn opsiwn mwy costus i Lywodraeth Cymru o gymharu â'r opsiwn Busnes fel Arfer. |

| Rhan o'r Bil | Maes Polisi | Cynnig / Opsiwn | £ * | Oes Angen Deddfwriaeth? | Manteision / Buddion | Anfanteision / Risgiau / Costau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Opsiwn amgen** – Ehangu cylch gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Canolig | Nac oes | • Byddai'r opsiwn hwn yn ehangu rôl y Ganolfan Genedlaethol y tu allan i'r Bil hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn ymdrin ag argymhellion y gallai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rannu arbenigedd â'r sector addysg statudol a darparu cyfeiriad strategol. | • Byddai costau sylweddol yn gysylltiedig ag ehangu cylch gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o hyd, er y byddent ychydig yn llai o gymharu â'r opsiwn a ffefrir.<br>• Gan fod y Ganolfan wedi'i sefydlu gan broses dendro, ni ellir ehangu ei chylch gwaith heb gynnal proses dendro arall â gofynion gwahanol.<br>• Mae'r model cyllido presennol ar gyfer y Ganolfan yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio ar gyfer yr hirdymor ac mae'r angen rheolaidd i aildendro yn creu ansefydlogrwydd ac yn peri risg y caiff aelodau allweddol o staff ac arbenigedd eu colli gyda phob cylch. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn ymdrin â'r risgiau hyn ac ni fyddai'n darparu sail ariannol na sail gynllunio gadarn ychwaith.<br>• Mae'n annhebygol y byddai Canolfan wedi'i hehangu yn meddu ar yr un proffil neu'n gallu dylanwadu yn yr un modd â chorff statudol. |

** Sylwer: Mae'r golofn gost yn darparu asesiad lefel uchel o gostau'r opsiwn 'gwneud dim', 'opsiwn a ffefrir' a'r 'opsiwn amgen' o'i gymharu â'i gilydd, yn hytrach na mesur o'r gwir gostau amcangyfrifedig. Mae'r gwir gostau amcangyfrifedig yn cael eu cyflwyno ym Mhennod 8.*

# 8. Costau a Manteision

8.1 Cyflwynodd y bennod flaenorol grynodeb o'r opsiynau a ffefrir ar gyfer pob rhan o'r Bil. Mae'r bennod hon yn rhoi manylion pellach am yr opsiynau a ffefrir ac yn adeiladu ar y manteision, yr anfanteision a'r costau a ddisgrifir ym Mhennod 7. Mae'n nodi dadansoddiad cost a budd ar gyfer nodau'r Bil yn gyffredinol a phob opsiwn a ffefrir o gymharu â'r opsiwn Busnes fel Arfer.

**Ffynonellau Tystiolaeth**

8.2 Datblygwyd amcangyfrifon gorau o gostau a manteision gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau o dystiolaeth, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, data gweinyddol a phapurau ymchwil. Cynhaliwyd ymarfer casglu tystiolaeth hefyd gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol y rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt.

8.3 Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein gydag awdurdodau lleol er mwyn esbonio'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y Bil a chasglu adborth ar y costau a'r manteision disgwyliedig. Ar yr un pryd, gwahoddwyd pob awdurdod lleol i ddarparu mewnbwn drwy gwblhau cyfres o gwestiynau am gostau a manteision ar ffurf arolwg. Cafwyd adborth gan 13 o awdurdodau lleol ar gostau trosiannol a chylchol rhoi'r cynigion ar waith, o gymharu â Busnes fel Arfer.

8.4 Cynhaliwyd arolwg hefyd gydag ysgolion, gyda 23 o ysgolion yn rhoi adborth ar gostau a manteision trosiannol a chylchol, o gymharu â Busnes fel Arfer. Gwnaed cyswllt cychwynnol â 295 o ysgolion, wedi'u haenu yn ôl darpariaeth gynradd a darpariaeth uwchradd, ardal ddaearyddol a chategori iaith. Roedd y 23 o ymatebion yn cynnwys amrywiaeth o ysgolion ar draws y categorïau haenedig. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth ddigonol o'r meysydd cost tebygol sy'n gysylltiedig ag elfennau arfaethedig y Bil ar draws (neu ar gyfer) gwahanol gategorïau iaith ysgolion.

8.5 Roedd cwmpas gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn cynnwys sefydliadau a nodwyd yn y papur gwyn, yn ogystal â'r rhai y byddai'r newidiadau arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt. Cynhaliwyd trafodaeth grŵp â'r Gweithgor Datblygu a Gweithredu Polisi (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau addysg ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chynrychiolydd awdurdod lleol), a chynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr o Estyn, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Mudiad Meithrin, Cyngor y Gweithlu Addysg a phedwar darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon.

8.6 Yn ystod y broses hon, darparwyd amcangyfrifon dibynadwy gan lawer o'r rhanddeiliaid o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesau a gweithdrefnau gweinyddol newydd (e.e. trefniadau monitro newydd). Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid yr her sy'n gysylltiedig â darparu amcangyfrifon

dibynadwy o gostau ar gyfer rhannau o'r Bil sy'n dibynnu ar gyflymder a maint y newid. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i dargedau sy'n sail i'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig a Chynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau lleol) ac ystodau a bennwyd fel rhan o'r system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

8.7 Mae hyn yn peri her i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan mai dim ond ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith y caiff y Fframwaith Cenedlaethol a'r CSCAau lleol newydd eu llunio. Fodd bynnag, gwyddom y bydd canlyniadau presennol CSCAau yn parhau i ddarparu ffocws clir ar gyfer gwaith cynllunio cenedlaethol a lleol, ac y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn parhau i weithio tuag at darged *Cymraeg 2050* o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r ffactorau hyn yn darparu sail inni ystyried beth a allai yn rhesymol ddigwydd ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar randdeiliaid allweddol megis ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Senarios o ran cost**

8.8 Datblygwyd tair senario wahanol er mwyn hwyluso'r broses o ystyried yr hyn a allai yn rhesymol ddigwydd ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith. Defnyddiwyd y sefyllfa bresennol o ran Busnes fel Arfer fel y llinell sylfaen ar gyfer y senarios hyn ac fe'u datblygwyd gan ddefnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid, data gweinyddol a mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

**Senario 1**
Daw'r Bil yn gyfraith. Mae'r cynnydd presennol tuag at y nod o sicrhau y gall pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 siarad Cymraeg yn annibynnol yn **dda**. O ganlyniad, mae darpariaethau'r Bil (y Fframwaith Cenedlaethol, categoreiddio ysgolion, ac ati) yn cefnogi gweithgareddau presennol Busnes fel Arfer. Mae hyn yn golygu bod effaith y Bil a'r costau i randdeiliaid yn fach iawn.

**Senario 2**
Daw'r Bil yn gyfraith. **Nid** yw'r cynnydd presennol tuag at y nod o sicrhau y gall pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 siarad Cymraeg yn annibynnol yn bodloni'r disgwyliadau. O ganlyniad, mae darpariaethau'r Bil (y Fframwaith Cenedlaethol, categoreiddio ysgolion, ac ati) yn atgyfnerthu gweithgareddau presennol Busnes fel Arfer er mwyn cydgysylltu cynnydd tuag at dargedau allweddol yn well. Mae hyn yn golygu bod y Bil yn effeithio ar randdeiliaid ac y byddant yn mynd i gostau.

**Senario 3**
Daw'r Bil yn gyfraith ac mae'n **gwyro cryn dipyn** oddi wrth Fusnes fel Arfer. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau'r Bil yn llawer mwy uchelgeisiol nag arferion cyfredol. O ganlyniad, bydd

y Bil yn cael cryn effaith ar randdeiliaid a byddant yn mynd i gostau sylweddol.

8.9 Mae Senario 1 yn cydnabod y cynnydd pwysig sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol ac ysgolion ar hyn o bryd tuag at dargedau ehangach *Cymraeg 2050*. Felly, swyddogaeth y Bil yn y senario hon fyddai cefnogi gweithgareddau presennol Busnes fel Arfer. Fodd bynnag, mae'r senario hon yn tybio y bydd cynnydd dros y 10 mlynedd nesaf yn ddigonol i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 ac nid yw'n ystyried unrhyw bwysau na heriau allanol a allai atal cynnydd rhag cael ei wneud.

8.10 Mae Senario 2 yn ystyried yr heriau hyn ac yn cydnabod bod y Bil yn ceisio ysgogi cynnydd drwy bennu targedau a disgwyliadau uchelgeisiol. Mae'n werth nodi bod y Bil yn rhoi sail statudol i lawer o arferion cyfredol, y mae'n anochel y bydd yn ysgogi rhanddeiliaid i ailganolbwyntio ymdrechion ar elfennau o waith nad oeddent yn rhai statudol yn flaenorol. Bydd hyn yn arwain at rai costau ychwanegol i randdeiliaid wrth iddynt ddwysáu a dyblu eu hymdrechion mewn ymateb i uchelgeisiau a nodir yn y Bil.

8.11 Yn olaf, mae Senario 3 yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymarfer casglu tystiolaeth y bydd y Bil yn arwain at newidiadau sylweddol i dargedau a systemau presennol sy'n sail i bolisi iaith Gymraeg ac, felly, at gostau sylweddol. Fodd bynnag, wrth lunio'r Fframwaith Cenedlaethol, bydd yn ofynnol i Weinidogion ystyried sawl ffactor wrth osod targedau lleol, gan gynnwys demograffeg ieithyddol yr awdurdod lleol dan sylw a'r gweithlu sydd ar gael i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu Cymraeg. Gwneir hyn hefyd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol megis awdurdodau lleol. Felly, ni fydd y Bil yn arwain at newidiadau sylweddol i weithgareddau Busnes fel Arfer.

8.12 Yn seiliedig ar y pwyntiau uchod, ystyriwyd bod Senarios 1 a 3 yn annhebygol o gael eu gwireddu. Yn lle hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhagweld bod maint y newid o gymharu â Busnes fel Arfer yn debygol o ddod o dan Senario 2. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, y bydd y Bil yn atgyfnerthu seilwaith presennol Busnes fel Arfer ac y bydd yn pennu disgwyliadau rhesymol ond heriol er mwyn sicrhau bod y trefniadau presennol (e.e. CSCAau, categoreiddio ysgolion, trochi hwyr) yn arwain at gynnydd gwell.

**Tybiaethau cyffredinol o ran cost**

8.13 Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau bandiau cyflog cyfartalog ar gyfer 2023-24, sy'n defnyddio blwyddyn 52 wythnos ac wythnos waith pum diwrnod. Yr wythnos waith safonol yw 37 awr yr wythnos yn unol â ‘Llyfr Gwyrdd’ y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau staff yn cynnwys argostau. Mae costau staff Llywodraeth Leol yn seiliedig ar Raddfa Gyflog Soulbury 2023-24. Ychwanegwyd 30% er mwyn cyfrif am argostau.

8.14 Yn y tablau, mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Mewn rhai tablau, gall fod gwahaniaeth bach iawn rhwng swm y costau a'r cyfansymiau oherwydd y talgrynnu hwn.

8.15 Mae costau a manteision ariannol wedi'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%.

8.16 Eir i gostau o flwyddyn ariannol 2025-26, er na fydd pob rhan o'r Bil yn esgor ar gostau ar yr un pryd. Bydd rhai costau yn codi ar adegau penodol a bydd costau eraill yn rhai cylchol tan 2050. Mae'r cyfnod arfarnu a ddefnyddir yn y dadansoddiad cost a budd yn gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025-26 a 2034-35.

8.17 Nodir yr amcangyfrif gorau o pryd yr eir i gostau yn Nhabl 16. Fodd bynnag, bydd yr union adeg yr eir i gostau yn dibynnu ar roi is-ddeddfwriaeth ar waith, yn ogystal â chyflymder y newid ar gyfer pob ysgol ac awdurdod lleol.

8.18 Rydym wedi defnyddio'r naratif i dynnu sylw at feysydd lle y ceir ansicrwydd o ran costau yn hytrach na darparu ystod o gostau ar gyfer gwahanol rannau o'r Bil pan nad oes unrhyw sail gadarn dros wneud hynny. Felly, dylid ystyried mai'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw ein hamcangyfrif canolog gorau, a bod y naratif cysylltiedig yn disgrifio amgylchiadau lle y gallai'r costau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

**Manteision cyffredinol**

8.19 Oherwydd natur manteision y Bil hwn, ni fu'n bosibl rhoi gwerth ariannol iddynt na'u mesur. Fodd bynnag, rydym yn disgrifio manteision cyffredinol y Bil yn yr is-adran hon yn ogystal â manteision pob rhan unigol o'r Bil yn yr is-adrannau isod.

8.20 ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu’ yw un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r nod hwn yn tynnu sylw at natur unigryw diwylliant Cymru, y mae cysylltiad cryf rhyngddo â threftadaeth a'r Gymraeg. Mae hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg yn rhan o'r diffiniad o'r nod hwn.

8.21 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi ymhelaethu ar y daith tuag at sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu[5]. Mae'r Comisiynydd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu sgiliau, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel gwlad ddwyieithog. Mae'r Comisiynydd hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ehangach ac ysgogi newidiadau economaidd ac amgylcheddol.

---

[5] Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

8.22 Mae *Cymraeg 2050* yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg: erbyn 2050 '*mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd*'. *Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.'* Mae'n cydnabod y bydd sicrhau miliwn o siaradwyr yn gofyn am ymdrech ar y cyd. Y ddau brif ddull yw trosglwyddo'r Gymraeg o'r naill genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod addysg yn elfen allweddol am fod pen draw i'r nifer ychwanegol o siaradwyr Cymraeg y gellir eu creu o drosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf.

8.23 O ystyried pwysigrwydd addysg i greu siaradwyr Cymraeg newydd, mae'r Bil yn cysylltu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn glir â'r seilwaith a'r prosesau cynllunio sydd ynghlwm wrth gynyddu addysg Gymraeg. Mae'n nodi darpariaethau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg statudol. Felly, ystyrir bod y darpariaethau yn y Bil yn ffordd gost effeithiol o gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

## *Rhan 1 – Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg*

### Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith.

**Cefndir**

8.24 Mae *Cymraeg 2050* yn strategaeth hirdymor, a bydd cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn gofyn am weithredu pwrpasol gan lawer o sefydliadau. O ystyried pwysigrwydd addysg i greu siaradwyr Cymraeg newydd, mae uchelgais i sicrhau bod cysylltiad clir rhwng y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a'r prosesau cynllunio sydd ynghlwm wrth gynyddu a gwella addysg Gymraeg.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer**

8.25 Byddai'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn parhau i weithredu fel targed anstatudol.

8.26 Mae adran 78(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n amlinellu'r ffordd y caiff defnydd o'r Gymraeg ei hybu a'i hwyluso[6]. Strategaeth *Cymraeg 2050*[7] yw'r strategaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd o dan y ddyletswydd hon ac mae'n disodli *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17*. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru

[6] Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[7] Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru)

2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru amlinellu targedau statudol cyfreithiol rwymol.

8.27 Ni fyddai Safonau'r Gymraeg yn cael eu hadolygu ar yr adeg hon.

**Opsiwn 1 – Costau**

8.28 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer.

8.29 Er bod ffrydiau gwaith penodol â chyllidebau ynghlwm wrth strategaeth *Cymraeg 2050*, mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar y targed ei hun. Mae'r targed eisoes yn rhan annatod o bolisi ac mae'n sail i amrywiaeth o strategaethau eraill.

**Opsiwn 1 – Manteision**

8.30 Ers iddo gael ei greu yn 2017, mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn strategaeth *Cymraeg 2050* wedi bod yn egwyddor arweiniol ar gyfer polisi iaith Gymraeg. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyflawni tri phrif darged y strategaeth. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at y gwaith cadarnhaol sydd wedi'i gyflawni a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y targedau hyn [8].

**Opsiwn 2 – Y Dull a Ffefrir – Rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu Safonau'r Gymraeg**

8.31 Mae'r Bil yn rhoi sail statudol i'r targed o sicrhau o leiaf filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Gwneir hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw strategaeth ar gyfer y Gymraeg a gaiff ei mabwysiadu gan Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys targed i sicrhau o leiaf filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith, dysgu ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.32 Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu Safonau'r Gymraeg a nodir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn nodi a oes angen diwygio'r Safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau Cymraeg y gweithlu a safonau hyrwyddo'r Gymraeg. Os cynigir unrhyw ddiwygiadau i'r Safonau, bydd y rhain yn ddarostyngedig i is-ddeddfwriaeth a byddant yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.33 Ni fydd rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, ynddo'i hun, yn arwain at unrhyw waith na gweithgareddau ychwanegol y tu hwnt i Fusnes fel Arfer. Yn lle hynny, bwriedir i'r newid hwn ymgorffori newid

[8] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Adroddiad blynyddol 2022-23 (Llywodraeth Cymru)

ymddygiad hirdymor o ran y ffordd y caiff polisi iaith Gymraeg ei gynllunio a'i gyflawni ymhlith rhanddeiliaid gwahanol.

8.34 Bydd cost staff drosiannol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag adolygu Safonau'r Gymraeg a datblygu rheoliadau ynglŷn â chyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon gan y bydd yn cynnwys staff presennol Llywodraeth Cymru. Yn ôl y Bil, rhaid i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau o fewn cyfnod o 12 mis a fydd yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg gael ei gyhoeddi (gweler Rhan 2). Felly, rydym yn tybio mai cost untro fydd y gost hon yr eir iddi rhwng mis Awst 2026 a mis Gorffennaf 2027. Gallai'r adolygiad o'r Safonau arwain at benderfyniadau y bydd goblygiadau cost pellach iddynt. Ystyrir y goblygiadau cost hyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhelir yn y dyfodol i ategu'r is-ddeddfwriaeth berthnasol.

*Tabl 2 – Costau trosiannol staff Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 1 o'r Bil*

| **Rhanddeiliad** | **Gradd Staff** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Cyfnod Trosiannol (Misoedd)** | **CALI** | **Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Trosiannol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | 12 | 0.5 | £35,700 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | 12 | 0.2 | £18,600 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | 12 | 0.1 | £12,800 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | 6 | 0.1 | £4,600 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol – Sicrhau Ansawdd) | £92,844 | £7,737 | 1 | 0.1 | £800 |
| | Gradd 6 (Cyfreithiol) | £112,521 | £9,376 | 2 | 0.1 | £1,900 |
| | SEO (Dadansoddwr) | £71,380 | £5,948 | 12 | 0.3 | £21,400 |
| | Gradd 7 (Dadansoddwr) | £92,844 | £7,737 | 12 | 0.1 | £9,300 |
| **Cyfanswm y Gost – £105,000 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £105,000)** | | | | | | |

### Opsiwn 2 – Manteision

8.35 Disgwylir i'r opsiwn hwn arwain at newid ymddygiad hirdymor a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ystyried a yw eu penderfyniadau a'u gweithredoedd yn debygol o arwain at gyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag addysg orfodol.

8.36 Yn ogystal â chael ei adlewyrchu mewn strategaeth, sef dogfen y gellir ei newid unrhyw bryd, caiff y targedau perthnasol eu hymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn adlewyrchu'r pwys a roddir ar

gyflawni'r targed ac ar sicrhau bod y targed yn llywio penderfyniadau allweddol a wneir mewn prosesau cynllunio addysgol gorfodol.

8.37 Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn cytuno y byddai rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn atgyfnerthu ei statws, yn ogystal â statws y Gymraeg.

8.38 Roedd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn o'r farn y byddai'r statws hwn ynghyd ag arweinyddiaeth ganolog yn hwyluso gweithredu effeithiol er mwyn cefnogi cynnydd tuag at y targed a sicrhau bod pob rhanddeiliad ym mhob rhan o'r system addysg orfodol yn ymrwymo i'w gyflawni.

8.39 Adlewyrchwyd y farn hon yn ystod yr ymarfer casglu tystiolaeth , gyda rhanddeiliaid allweddol yn nodi y byddai targed statudol yn rhoi sicrwydd y bydd y gwaith tuag at y targed hwn yn parhau i gael ei gefnogi yn y dyfodol. Byddai hefyd yn darparu nod a rennir, wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth, y byddai pob sefydliad yn gweithio tuag ato.

8.40 Diben darpariaeth y Bil ar gyfer adolygu Safonau'r Gymraeg yw sicrhau bod y targedau a bennir yn Rhan 1 a'r Cod yn cael eu hadlewyrchu yn y dyletswyddau a osodir ar gyrff drwy'r Safonau.

8.41 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr ddealltwriaeth gyffredin o sgiliau Cymraeg (gweler Rhan 2). Er mwyn cyflawni a hwyluso hyn, mae'n bwysig bod y Safonau yn cyfrannu at normaleiddio'r defnydd o'r lefelau cyfeirio cyffredin ym maes addysg ac yn y gweithle. Bydd hyn yn atgyfnerthu statws y lefelau cyfeirio cyffredin fel mesur safonol. Bydd hefyd yn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru ac wrth symud o addysg i fyd gwaith.

8.42 Yn unol â'r Safonau, mae dyletswydd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac awdurdodau parciau cenedlaethol, i lunio strategaeth er mwyn hybu'r Gymraeg. Mae'r Bil yn cydnabod cyfraniad y Safonau hyn at gyflawni'r targedau yn Rhan 1 o'r Bil. Bydd sicrhau bod y targedau a bennir yn Rhan 1 yn cael eu hadlewyrchu yn y Safonau hyrwyddo yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried y targedau hyn wrth lunio eu strategaethau hyrwyddo. Bydd hyn yn sicrhau bod strategaethau yn cyd-fynd â'r Bil ac yn cyfrannu at gyflawni at ei nodau.

## *Rhan 2 – Disgrifio Gallu yn y Gymraeg*

## Cod er mwyn pennu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg

**Cefndir**

8.43 Mae uchelgais polisi i sefydlu dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith honno.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer**

8.44 Ar hyn o bryd, mae rhanddeiliaid yn defnyddio amrywiaeth o fframweithiau ar gyfer diffinio a mesur sgiliau Cymraeg. Er enghraifft:

- Fframwaith y Gymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE) – Mae sawl rhanddeiliad yn ei ddefnyddio, gan gynnwys CBAC ar gyfer ei gwrs Cymraeg i Oedolion[9]; rhai awdurdodau lleol a chyrff yn y sector cyhoeddus yn eu polisïau iaith Gymraeg; a chynllun strategol Mwy na geiriau ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol ar gyfer ei Fframwaith Sgiliau Iaith cysylltiedig [10].

- Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar gyfer Ieithoedd – Defnyddir y fframwaith hwn i fesur gallu pob ymarferydd addysg yng Nghymru yn y Gymraeg drwy'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion[11]. Fe'i defnyddir hefyd i ddiffinio cyrsiau a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol[12].

- Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol sy'n rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio ei chwricwlwm ei hun, yn unol â dull cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb. Mae'r fframwaith yn cynnwys 'Cymraeg' fel elfen fandadol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh). Mae'n un o elfennau mandadol y cwricwlwm ym mhob categori iaith ysgolion, gan gynnwys cyfrwng Saesneg. Rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu Cymraeg i ddysgwyr 3-16 oed (7-16 oed mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) a rhaid iddo ddarparu ar gyfer cynnydd priodol. Mae'r fframwaith yn darparu disgwyliadau cenedlaethol o ran cynnydd dysgwyr drwy'r continwwm dysgu.

**Opsiwn 1 – Costau**

8.45 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer.

---

[9] Cymraeg i Oedolion (CBAC)
[10] Mwy na geiriau (Llywodraeth Cymru)
[11] Datblygu'r Gymraeg yn eich ysgol (Llywodraeth Cymru)
[12] Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg ( Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)

**Opsiwn 1 – Manteision**

8.46 Yn lle un fframwaith, byddai rhanddeiliaid yn parhau i ddefnyddio fframweithiau gwahanol i ddiffinio a mesur sgiliau Cymraeg. Rhoddwyd enghreifftiau o'r fframweithiau hyn uchod, yn ogystal â throsolwg cyffredinol o'r ffordd y caiff sgiliau Cymraeg eu haddysgu drwy fframwaith deddfwriaethol y Cwricwlwm i Gymru.

8.47 Mae'r fframweithiau hyn a'r dulliau o fesur sgiliau Cymraeg yn sefydledig ac fe'u defnyddir gan amrywiaeth o randdeiliaid. Yn aml fe'u defnyddir fel ffordd o fesur lefelau sgiliau Cymraeg y gweithlu ac maent yn sail i bolisïau iaith Gymraeg sefydliadau[13]. Felly, mae'r fframweithiau presennol hyn wedi'u hymgorffori mewn prosesau a gweithdrefnau sefydliadol presennol.

8.48 Ar hyn o bryd, mae gan randdeiliaid yr hyblygrwydd i ddewis fframwaith sy'n cyd-fynd orau ag anghenion ac arbenigedd eu sefydliad.

**Opsiwn 2 – Yr Opsiwn a Ffefrir – Mabwysiadu lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y CEFR**

8.49 Mae'r Bil yn nodi, yn unol â'r CEFR, y mathau o ddefnyddiwr Cymraeg a'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu'r mathau hynny o ddefnyddiwr Cymraeg, a disgrifiad o nodweddion cyffredinol pob lefel. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar y CEFR (“y Cod”), gan esbonio sut i ddefnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin a disgrifio nodweddion penodol pob lefel gyfeirio gyffredin.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.50 Bydd costau staff trosiannol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygu'r Cod a'r canllawiau cysylltiedig ac ymgynghori arnynt. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon gan y bydd yn cynnwys staff presennol Llywodraeth Cymru. Tybir yr eir i'r costau yn ystod dwy flynedd gyntaf y Bil.

[13] Cynlluniau Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg)

*Tabl 3 – Costau trosiannol staff Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 2 o'r Bil*

| Rhanddeiliad | Gradd Staff | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Cyfnod Trosiannol (Misoedd) | CALl | Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Trosiannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | 24 | 1.0 | £142,800 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | 24 | 0.5 | £92,800 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | 24 | 0.1 | £25,600 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | 2 | 0.2 | £3,100 |
| **Cyfanswm y Gost – £264,300 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £264,300)** | | | | | | |

8.51 Rhagwelwn y bydd angen i randdeiliaid (gan gynnwys y sector addysg) ymgyfarwyddo â'r Cod ac unrhyw ganllawiau gysylltiedig. Ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, mae hyn wedi'i gynnwys yn y costau amcangyfrifedig ar gyfer datblygu CSCAau lleol a chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Ystyrir unrhyw gostau ymgyfarwyddo ychwanegol i gyflogwyr fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i Safonau'r Gymraeg.

8.52 Gallai'r Cod sicrhau arbedion cost i rai rhanddeiliaid yn y tymor hwy drwy symleiddio prosesau cadw cofnodion ac adrodd os bydd un ffordd gyson o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ledled Cymru. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi rhanddeiliaid yn y broses o fabwysiadu'r Cod.

**Opsiwn 2 – Manteision**

8.53 Bydd y lefelau cyfeirio cyffredin sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ynghyd â'r Cod yn cynnig disgrifiadau cynhwysfawr, cydlynus a thryloyw o allu yn y Gymraeg ar gyfer pob oedran. Gan dybio y caiff y dull hwn o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ei fabwysiadu'n eang, naill ai'n wirfoddol neu drwy fesurau eraill a roddir ar waith, disgwylir y bydd llawer o fanteision ymarferol.

8.54 Yn gyntaf, mae'n darparu llwyfan i sicrhau mwy o gysondeb o ran y ffordd y caiff gallu yn y Gymraeg ei gofnodi mewn ymarferion casglu data. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a mesur cynnydd tuag at dargedau *Cymraeg 2050*. Un o nodau'r broses o adolygu'r Safonau yw sicrhau y caiff y lefelau cyfeirio cyffredin eu hymgorffori yn y ffordd y mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Safonau yn monitro ac yn cynllunio sgiliau Cymraeg eu gweithlu.

8.55 Yn ail, byddai'n sicrhau bod gan dysgwyr, rhieni, athrawon a chyflogwyr ddealltwriaeth gyffredin o'r gallu yn yr iaith a ddisgwylir ar bob cam o'r

daith tuag at ddysgu Cymraeg. Bydd mabwysiadu lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar Ieithoedd yn y Bil, gan ddefnyddio'r lefelau hynny i ddisgrifio nodau dysgu Cymraeg ysgolion ac, maes o law, eu defnyddio yn y gweithle, yn cyfrannu at broses dros amser o sicrhau bod pobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r lefelau.

8.56 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r ymgynghoriad ar y papur gwyn, gydag ymatebwyr yn nodi y byddai creu continwwm sgiliau Cymraeg yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol a mwy o eglurder i rieni a disgyblion ynghylch y deilliannau ieithyddol tebygol ar gyfer dysgwyr ym mhob ysgol.

## *Rhan 3 – Addysg Gymraeg*

### Categorïau iaith ysgolion; cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg; ac addysg drochi hwyr

#### Cefndir

8.57 Cyflwynwyd categorïau iaith ysgolion gyntaf yn 2007 er mwyn rhoi darlun cydlynus o'r ffordd yr oedd addysg Gymraeg yn cael ei rhoi ar waith ledled Cymru, yn ogystal â sicrhau cysondeb drwy grwpio ysgolion a oedd yn defnyddio dulliau trochi tebyg.

8.58 Ym mis Rhagfyr 2021, cyflwynwyd canllawiau anstatudol newydd gan leihau nifer y categorïau ysgolion i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Mae'r categorïau hyn yn gymwys i bob ysgol a gynhelir.

8.59 Cafodd is-gategorïau trosiannol eu creu hefyd ar gyfer ysgolion sy'n ymrwymedig i symud i gategori iaith uwch. Sefydlodd canllawiau 2021 yr egwyddor na ddylai ysgol gynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol na'r hyn a gynigiwyd yn y gorffennol.

8.60 Yr uchelgais polisi sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil yw adeiladu ar y gwaith hwn a datblygu'r broses categoreiddio iaith ysgolion ymhellach.

8.61 Bydd hefyd yn ofynnol i ysgolion lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yn nodi, ymhlith pethau eraill, sut y bydd ysgolion yn gwella neu'n cynyddu eu darpariaeth Gymraeg a, lle y bo'n gymwys, yn cynllunio i symud i gategori iaith uwch dros amser.

8.62 Bydd awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo cynllun cyflawni a chategori iaith a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg, ac annog galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi.

#### Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer

8.63 Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir nodi ei chategori iaith yn ei phrosbectws yn erbyn y canllawiau categoreiddio anstatudol presennol.

Mae hyn yn gysylltiedig â'r gofyniad i bob ysgol a gynhelir gwblhau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), lle y gofynnir am wybodaeth am gategori iaith ysgol. Mae'r categori hwn yn seiliedig ar hunanasesiad yr ysgol yn unig.

8.64 Mae canllawiau 2021 ar gyfer categoreiddio ysgolion yn nodi, "*Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau bod categorïau ysgolion yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu swm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'i CSCA*". Felly, mae'r pwyslais ar gynyddu darpariaeth ym mhob categori yn ôl deilliannau presennol CSCA, gyda chwmpas i symud ar hyd categorïau iaith os bydd ysgol yn dymuno gwneud hynny[14].

8.65 Nod y grant trochi hwyr cyfrwng Cymraeg oedd galluogi pob awdurdod lleol i gynnig addysg drochi hwyr yn Gymraeg yn eu hardal. Ers 2024-25, mae'r cyllid hwn wedi bod yn rhan o Grant Addysg Awdurdodau Lleol – Cymraeg 2050. Mae'r ddarpariaeth a'r modelau ar gyfer addysg drochi hwyr yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Mae'r sefyllfa o ran darpariaeth yn wahanol ar gyfer pob awdurdod lleol, gyda rhai yn cynnig darpariaeth beripatetig, rhai yn cynnig darpariaeth yn yr ysgol ei hun ac eraill yn cynnig darpariaeth mewn canolfannau iaith.

**Opsiwn 1 – Costau**

8.66 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer.

8.67 Mae'r costau i ysgolion yn gysylltiedig â hunanasesu eu categori iaith yn fach iawn. Costau sylfaenol Busnes fel Arfer o dan y rhan hon o'r Bil yw'r rhai sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu darpariaeth Gymraeg yn ei ardal yn unol â'i CSCA.

8.68 Er mwyn cynyddu addysg Gymraeg, mae angen sicrhau bod nifer craidd o staff a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth yn unol â thargedau CSCA ac er mwyn i ysgolion allu symud i'r categori iaith nesaf os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae canllawiau 2021 yn nodi, "*Bydd angen i gyrff llywodraethu gynllunio eu gweithlu er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcanion a bennir yn CSCA eu hawdurdod lleol i gynyddu nifer y staff addysgu sydd â'r gallu i addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg".*

8.69 Cyhoeddwyd Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg[15] yn 2022 er mwyn cefnogi ymrwymiadau awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'u CSCAau a helpu ysgolion â diddordeb i symud i gategori iaith uwch.

---

[14] Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru)

[15] Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (Cynllun y Gweithlu)

8.70 Mae Cynllun y Gweithlu wedi'i rannu'n bedwar nod allweddol, gan gynnwys “*cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg*” a “Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a’i arbenigedd i addysgu’r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg”. Felly, yn yr achos hwn, mae'r ffocws ar Addysg Gychwynnol i Athrawon ac uwchsgilio'r gweithlu presennol drwy gynlluniau megis y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.

8.71 Er mwyn helpu i roi Cynllun y Gweithlu ar waith, mae cyfanswm o £8.22 miliwn wedi'i ddarparu yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys tua £3.8m ar gyfer y cynllun sabothol Iaith Gymraeg[16] a chyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn helpu i uwchsgilio staff. Mae cyllid ar wahân hefyd wedi'i ddarparu drwy'r Grant Cymraeg mewn Addysg er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflawni amcanion Cynllun y Gweithlu a strategaeth ehangach *Cymraeg 2050*.

8.72 Neilltuodd y grant trochi hwyr cyfrwng Cymraeg £6.6m rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2025 er mwyn cefnogi addysg drochi hwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2025-26, darperir £3m er mwyn cefnogi addysg drochi hwyr yn Gymraeg fel rhan o Grant Addysg Awdurdodau Lleol – Cymraeg 2050.

**Opsiwn 1 – Manteision**

8.73 Cafodd categorïau 2021 eu llunio yn seiliedig ar egwyddorion symlrwydd, eglurder a hygyrchedd. Cafodd cyfanswm nifer y categorïau ei leihau o 10 i chwech: tri ar gyfer y sector cynradd a thri ar gyfer y sector uwchradd. Ymdriniodd hyn ag un o wendidau categorïau 2007 y nodwyd eu bod yn rhy gymhleth i'r rhai a oedd yn eu defnyddio[17].

8.74 Roedd diffiniad 2007 o gategori ysgol yn seiliedig ar y ganran o'r cwricwlwm a oedd yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol. Fodd bynnag, roedd system 2021 yn diffinio categorïau ysgolion yn ôl faint o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol a oedd yn cael eu cynnig yn Gymraeg. Roedd hyn yn cydnabod yn well yr holl weithgareddau y gall ysgolion eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.75 Egwyddor bwysig wrth adolygu'r trefniadau hyn oedd sicrhau bod gwybodaeth am y math o fodelau iaith ysgol a geir yng Nghymru yn cael ei chyfleu'n gliriach i rieni/gofalwyr. Wrth wneud hynny, byddai rhieni/gofalwyr mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau hyderus ar sail gwybodaeth wrth ddewis llwybr addysg eu plentyn. Byddai Busnes fel Arfer yn sicrhau parhad ymarfer presennol.

8.76 Un o nodau system gategoreiddio 2021 oedd annog rhagor o ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg drwy gyflwyno dau is-gategori trosiannol yn y sector cynradd a dau yn y sector uwchradd, er mwyn

---

[16] Dysgu proffesiynol iaith Gymraeg – Hwb (Llywodraeth Cymru)

[17] Adolygiad o gategorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru)

hwyluso'r broses ar gyfer ysgolion sy'n symud i'r categori nesaf. Mae Busnes fel Arfer yn galluogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig.

**Opsiwn 2 – Yr Opsiwn a Ffefrir – Sefydlu system statudol i gategoreiddio ysgolion yn unol â faint o addysg Gymraeg a ddarperir. Ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg a fydd yn nodi, ymhlith pethau eraill, sut y bydd yn cyflawni ei nodau dysgu Cymraeg. Pennu'r ddarpariaeth Gymraeg ofynnol mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ar 10%. Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg a hyrwyddo a darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg**

8.77 Mae'r Bil yn sefydlu system statudol i gategoreiddio ysgolion yn ôl faint o addysg Gymraeg a ddarperir. Mae'r Bil yn nodi y bydd tri chategori iaith, sef: (i) "Prif Iaith – Cymraeg", (ii) "Dwy Iaith", a (iii) "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". Ategir hyn gan ddarpariaethau sy'n gwneud y canlynol:

- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi, drwy Reoliadau, faint o addysg Gymraeg a ddarperir ar gyfer pob categori iaith.
- Nodi'r nod dysgu Cymraeg cyffredinol y dylai ysgolion ym mhob categori weithio tuag ato.
- Darparu mai'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yw 10%.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ofynnol dros amser wrth i ffactorau megis argaeledd y gweithlu newid.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu addysg Gymraeg yn unol â'u categori iaith.
- Galluogi ysgolion i wneud cais i gael esemptiad dros dro (hyd at dair blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o hyd at dair blynedd arall) rhag y gofyniad i ddarparu addysg Gymraeg yn unol â'u categori iaith, pan fydd angen mwy o amser arnynt i gyrraedd y lefel ofynnol statudol.
- Ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol lunio cynllun cyflawni addysg Gymraeg, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi categori iaith a sut y bydd yr ysgol yn gwella ac yn cynyddu ei darpariaeth Gymraeg yn barhaus, a, lle y bo'n berthnasol, yn symud tuag at gategori iaith uwch.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion dan oedran addysg orfodol amlinellu faint o addysg feithrin Gymraeg a ddarperir a sut mae'r corff llywodraethu yn bwriadu cynnal neu gynyddu'r ddarpariaeth addysg feithrin Gymraeg honno.
- Rhoi rôl i awdurdodau lleol wrth gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion, gan gynnwys y categori iaith.

- Ei gwneud yn ofynnol ysgolion gyhoeddi eu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ac i awdurdodau lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr o gategori iaith pob ysgol yn eu hardal, ac unrhyw ysgolion newydd a gynigir.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol annog y galw am addysg drochi hwyr yn Gymraeg, darparu gwybodaeth a chyngor ar ei hargaeledd yn yr ardal, a darparu addysg drochi hwyr sy'n ateb y galw.

8.78 Bydd hefyd yn ofynnol i ysgol arbennig gymunedol lunio cynllun cyflawni addysg Gymraeg. Rhaid i'r cynllun cyflawni hwn amlinellu faint o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol a sut y caiff ethos a diwylliant Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg eu hyrwyddo yn yr ysgol. Dim ond os bydd am gael un y pennir categori iaith i ysgol arbennig gymunedol.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.79 Bydd costau staff trosiannol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygu rheoliadau sy'n ymwneud â chategorïau iaith a chynlluniau cyflawni ysgolion ac ymgynghori arnynt, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl gwneud y rheoliadau. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon gan y bydd yn cynnwys staff presennol Llywodraeth Cymru. Tybir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ac, felly, yr eir i'r costau yn ystod ail a thrydedd flwyddyn y Bil.

*Tabl 4 – Costau trosiannol staff Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 3 o'r Bil*

| Rhanddeiliad | Gradd Staff | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Cyfnod Trosiannol (Misoedd) | CALl | Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Trosiannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | 16 | 1.0 | £95,200 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | 16 (+4*) | 0.8 (0.4*) | £111,400 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | 16 | 0.1 | £17,100 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | 12 | 1.0 | £92,800 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol – Sicrhau Ansawdd) | £92,844 | £7,737 | 3 | 1.0 | £23,200 |
| | Gradd 6 (Cyfreithiol) | £112,521 | £9,377 | 12 | 0.1 | £11,300 |
| | SEO (Dadansoddwr) | £71,380 | £5,948 | 12 | 0.5 | £35,700 |
| | Gradd 7 (Dadansoddwr) | £92,844 | £7,737 | 12 | 0.1 | £9,300 |
| | | | | | | **Cyfanswm y Gost – £395,900 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £395,900)** |

*Sylwer: Mae costau Gradd 7 (Polisi) yn cynnwys 16 mis ar 0.8 CALl, gyda 4 mis pellach ar 0.4 CALl.*

8.80 Bydd gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae wrth gymeradwyo categorïau iaith ysgolion fel rhan o'r broses o gymeradwyo cynlluniau cyflawni ysgolion. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddynt gael darlun clir o sefyllfa pob ysgol a gynhelir yn eu hardal o ran iaith. Cyfnod cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg cyntaf ysgolion yw tair blwyddyn academaidd, a chaiff cyfnod cynlluniau cyflawni dilynol ei bennu gan reoliadau. Byddem yn disgwyl i'r ysgol a'r awdurdod lleol drafod y cynllun yn rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys cost ychwanegol i awdurdodau lleol.

8.81 Mae mesur y costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn heriol. Mae amcangyfrifon awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr, yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch beth fyddai'r gofynion yn ei olygu yn ymarferol ar adeg casglu'r data ac yn rhannol oherwydd yr amrywiad yn nifer yr ysgolion a gynhelir ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd barn gyffredinol y byddai costau ychwanegol i awdurdodau lleol. Cyflwynir ein hamcangyfrif gorau o'r cyfanswm, sy'n seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol, fel cyfartaledd amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol, wedi'i luosi â nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gydnabod y gall costau fod yn uwch i rai awdurdodau lleol ac yn is i eraill.

8.82 Yn seiliedig ar ein tybiaeth y byddai'r gwaith yn gofyn am staff ychwanegol ar 0.4 CALl ar Raddfa Gyflog 4 Soulbury, amcangyfrifir bod y gost tua £23,200 y flwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol. Disgwylir i'r gost hon ddechrau ym Mlwyddyn 6 (2030-31) yn seiliedig ar dybiaeth y caiff cynlluniau cyflawni cyntaf ysgolion eu cymeradwyo yn 2030-31. Felly, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost i bob awdurdod lleol dros y cyfnod arfarnu tua £115,800, sy'n rhoi cost gyfanredol o £2,548,000.

*Tabl 5 – Costau Cylchol yr eir iddynt wrth gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion*

| **Rhanddeiliad** | **Gradd Staff** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Amlder** | **Blynyddoedd** | **CALl** | **Cost Amcangyfrifedig dros y Cyfnod Arfarnu (fesul awdurdod lleol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Graddfa Cyflog 4 Soulbury | £57,909 | £4,826 | Blynyddol | Blynyddoedd 6-10 | 0.4 | £115,800 |
| **Cyfanswm y Gost (ar draws pob Awdurdod lleol) – £2,548,000<br>(Cost Ychwanegol £2,548,000, Cost Cyfle £0)** | | | | | | | |

8.83 Er ei bod eisoes yn ofynnol i ysgolion lunio cynlluniau datblygu ar gyfer yr ysgol, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i fodloni gofynion newydd sy'n ymwneud â llunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Mae'r gofynion hyn ar ysgolion yn cynnwys:

- llunio'r cynllun
- ymgynghori ar y cynllun
- cyflwyno'r cynllun i'r awdurdod lleol i'w gymeradwyo ynghyd â chrynodeb o wrthwynebiadau i'r cynllun
- gwneud cais am eithriad os yw'n briodol

- cydgysylltu â'r awdurdod lleol i gael cymeradwyaeth
- os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod y cynllun, ailddrafftio'r cynllun a llunio adroddiad yn nodi sut yr ymdriniodd â'r materion a godwyd
- os bydd ysgol yn penderfynu newid y cynllun yn ystod y cyfnod perthnasol, ymgynghori arno eto a'i gyflwyno i'r awdurdod lleol i'w gymeradwyo, ynghyd ag adroddiad yn crynhoi'r newidiadau.

8.84 Bydd ysgolion (gan gynnwys y chwe ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion dan oedran addysg orfodol ar hyn o bryd[18]) yn mynd i gost gylchol bob tro y byddant yn llunio cynllun cyflawni, a fydd yn digwydd ar ôl tair blynedd yn y lle cyntaf. Rydym yn tybio yr eir i'r costau sy'n gysylltiedig â llunio'r cynllun cyflawni cyntaf yn 2029-30 a'r ail gynllun cyflawni yn 2032-33. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai ysgolion yn mynd i gostau mewn blynyddoedd eraill (e.e. os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod y cynllun neu os bydd ysgol yn penderfynu newid y cynllun), nid ydym yn ystyried hyn wrth lunio amcangyfrifon.

8.85 Bydd y gost hon yn gost cyfle i ysgolion. Mae'r union gostau y bydd pob ysgol yn mynd iddynt yn debygol o amrywio'n fawr oherwydd gwahaniaethau ym maint ysgolion a'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol. Fodd bynnag, cyflwynir ein hamcangyfrif fel cyfartaledd wedi'i luosi â nifer yr ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gan gydnabod y gall yr union gostau fod yn uwch i rai ysgolion ac yn is i eraill. Er mai ar gyrff llywodraethu y mae'r ddyletswydd, gallai gwahanol aelodau o staff chwarae rôl. Mae ein hamcangyfrif yn seiliedig ar gyflog pennaeth. Rydym yn tybio 0.1 CALl o amser pennaeth am chwe mis ar gyfer y fersiwn gyntaf o'r cynllun cyflawni a thri mis ar gyfer pob cynllun cyflawni dilynol (gan y bydd y broses yn fwy cyfarwydd ac y bydd yn cynnwys diweddaru'r cynllun presennol). Felly, amcangyfrifir bod y gost fesul ysgol tua £4,700 ym mlwyddyn 5 a £2,400 ym mlwyddyn 8. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £10,218,600 ar gyfer yr holl ysgolion dros y cyfnod arfarnu.

*Tabl 6 – Costau cylchol yr eir iddynt wrth lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg*

| Rhanddeiliad | Gradd Staff | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Amlder | Blynyddoedd | CALl | Cost Amcangyfrifedig dros y Cyfnod Arfarnu (fesul ysgol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | Pennaeth | £94,881 | £7,907 | Ysbeidiol (dau gyfnod) | 6 mis ym mlwyddyn 5 a 3 mis ym mlwyddyn 8 | 0.1 | £7,100 |
| **Cyfanswm y Gost (ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru) (n=1436)) – £10,218,600 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £10,218,600)** | | | | | | | |

8.86 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bob ysgol i nodi categori iaith yr ysgol yn ei chynllun cyflawni ac i nodi sut y bydd yn mynd ati i gynyddu (lle y bo'n rhesymol ddichonadwy) a gwella ei darpariaeth Gymraeg, gan ymateb i CSCA lleol ei hawdurdod lleol.

[18] Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2024 (Llywodraeth Cymru)

8.87 Mae awdurdodau lleol wedi nodi'n flaenorol yn eu hadroddiadau blynyddol ar CSCAau mai Canlyniad 7 o'r canllawiau ar CSCAau (Cynyddu nifer y staff addysgu sydd â'r gallu i addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg) sy'n peri'r risg fwyaf i gynnydd CSCAau. Adlewyrchir y farn hon yn fras yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid ac ysgolion, gyda llawer o ysgolion yn nodi bod y costau sy'n gysylltiedig â chynyddu darpariaeth Gymraeg yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod gan ysgolion weithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu addysg Gymraeg.

8.88 Fel y nodir yn y costau Busnes fel Arfer, mae £8.22 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2024-25 er mwyn helpu i roi Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ar waith, gydag elfennau (tua £4.37m) sy'n ymwneud yn benodol ag uwchsgilio staff presennol ym mhob un o'r categorïau. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn awgrymu y bydd yn hanfodol parhau ag o leiaf y lefel hon o gymorth dros y 10 mlynedd nesaf er mwyn sicrhau cynnydd parhaus tuag at ganlyniadau presennol CSCAau a thargedau *Cymraeg 2050*.

8.89 Fodd bynnag, mae Cynllun y Gweithlu yn tynnu sylw at sawl her sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa bresennol o ran CSCAau, yn enwedig mewn perthynas â'r athrawon ychwanegol â sgiliau Cymraeg sydd eu hangen fesul blwyddyn i gyflawni targedau *Cymraeg 2050* (a thrwy estyniad ganlyniadau CSCAau) ar ben nifer yr unigolion a dderbyniwyd ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon ar hyn o bryd a dulliau presennol eraill[19].

8.90 Mae Cynllun y Gweithlu hefyd yn nodi, os na chaiff targedau CSCAau awdurdodau lleol ar gyfer recriwtio eu cyflawni, y byddai hynny'n creu pwysau ychwanegol ar gyfer targedau yn y dyfodol. Mae a wnelo hyn yn bennaf â chanlyniad 2 CSCAau (Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg) sy'n ymwneud ag uchelgais ehangach *Cymraeg 2050* i gynyddu cyfran yr holl grwpiau blwyddyn ysgol sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.91 Ar hyn o bryd, mae tua 23% o ddysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Yr uchelgais yw cynyddu cyfran y grwpiau blwyddyn sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg i 30% erbyn 2030/31 a 40% erbyn 2050.

8.92 Fodd bynnag, mae canran dysgwyr Blwyddyn 1 ledled Cymru sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf wedi lleihau o 23.9% yn 2022 i 23.4% yn 2023. Mae hyn yn cyfateb i 320 yn llai o ddysgwyr. Mae canran dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf wedi cynyddu mewn 11 o awdurdodau lleol ers 2022, mae'r ganran wedi lleihau mewn 10, ac mae un wedi cynnal yr un ganran.

[19] Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data Saesneg (Llywodraeth Cymru)

8.93 Mae'r sefyllfa hon yn cyd-fynd, fwy neu lai, â thybiaethau Senario 2 (gweler 8.9), sef nad yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd tuag at y nod o sicrhau y gall pob disgybl sy'n gadael addysg statudol erbyn 2050 siarad Cymraeg yn annibynnol yn bodloni'r disgwyliadau ac, felly, y bydd angen i ddarpariaethau'r Bil atgyfnerthu gweithgareddau presennol Busnes fel Arfer er mwyn cydgysylltu cynnydd tuag at dargedau allweddol yn well.

8.94 Mae darpariaethau'r Bil yn debygol o olygu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", ac yn arbennig mewn ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at ddarparu'r isafswm oriau gofynnol o addysg Gymraeg (10%). Disgwylir y bydd angen i gyfran fawr o'r ysgolion hyn uwchsgilio eu gweithlu er mwyn bodloni'r gofynion newydd.

8.95 Yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol a thybiaethau Senario 2, rydym yn tybio y bydd angen i'r lefelau presennol o gyllid ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu barhau o leiaf ar y lefel bresennol dros y cyfnod arfarnu.

8.96 Yn ystod yr ymarfer casglu tystiolaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nododd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bosibl na fyddai'r lefel bresennol o gyllid yn ddigonol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r Bil. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o ansicrwydd am fod hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflymder y newid. Caiff ei bennu i raddau helaeth gan y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, a fydd yn llywio CSCAau lleol a chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion. Mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gael ei gyhoeddi cyn 31 Gorffennaf 2028, felly ym mlwyddyn 3 y broses o roi'r Bil ar waith.

8.97 Bydd y Fframwaith Cenedlaethol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi camau sy'n sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddibenion gwella gallu yn y Gymraeg. At hynny, mae'n rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni targedau perthnasol a amlinellir yn y Bil.

8.98 Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod llawer o ddarpariaethau'r Bil yn canolbwyntio ar wella'r seilwaith sydd wrth wraidd y gwaith o gynllunio addysg Gymraeg. Bydd hyn yn arwain at optimeiddio prosesau ac arferion presennol, a ddylai sicrhau bod defnydd mwy effeithlon yn cael ei wneud o adnoddau a chyllid. Enghraifft o hyn yw nifer yr athrawon a all siarad Cymraeg ar hyn o bryd ond nad ydynt yn defnyddio eu sgiliau ieithyddol yn eu swydd bresennol. O blith y 26,446 o athrawon mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, nid yw 6% neu 1,620 yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol (er bod ansicrwydd ynghylch faint o'r rhain a fyddai'n fodlon gwneud hynny petaent yn cael y cyfle). Mae'n bosibl y bydd

defnydd mwy effeithlon o adnoddau presennol yn gwrthbwyso rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gofynion ychwanegol yn y Bil.

8.99 Yng nghyd-destun yr ystyriaethau a nodwyd uchod, ein hamcangyfrif rhesymol yw y bydd y Bil yn gofyn am lefelau cyllid sy'n debyg i'r costau presennol sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio'r gweithlu (tabl 7), o'r adeg pan sefydlir y categorïau newydd ym mlwyddyn 3 y cyfnod arfarnu tan flwyddyn 10. Mae a wnelo'r costau hyn yn bennaf â chost cyllido a gweinyddu dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr, a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

8.100 Gan na chytunwyd ar gyllid yn y dyfodol eto, cyflwynir y costau hyn fel costau ychwanegol y Bil. Bydd angen adolygu'r sefyllfa hon yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y costau amcangyfrifedig yn ddigonol er mwyn cyflawni nodau'r Bil.

*Tabl 7 – Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i ysgolion er mwyn iddynt allu parhau i wella neu gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a, lle y bo'n berthnasol, gynllunio i symud i gategori iaith uwch dros amser. Y lefel ofynnol o ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" yw 10%.*

| Rhanddeiliad | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Amlder | Blynyddoedd | Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Arfarnu |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (*Ysgolion) | £4,370,000 | £364,167 | Blynyddol | Blynyddoedd 3-10 | £34,960,000 |
| **Cyfanswm y Gost – £34,960,000 (Cost Ychwanegol £34,960,000, Cost Cyfle £0)** | | | | | |

**Sylwer: Er mai ALlau/ysgolion a fyddai'n talu'r costau uniongyrchol (a bod hon yn cael ei dosbarthu'n gost cydymffurfio), disgwylir i gyllid gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn cyflwyno'r costau fel cost i Lywodraeth Cymru.*

8.101 Yn 2025-26, mae £3m wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn darparu addysg drochi hwyr yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i annog cynnydd yn y galw a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr, gyda'r nod o sicrhau y gall newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg elwa'n llawn ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn tybio y bydd hyn yn arwain at fwy o gyfranogiad mewn darpariaeth trochi hwyr dros amser[20]. Rydym yn tybio, felly, y bydd angen i gyllid ar gyfer trochi hwyr gynyddu o'i lefel bresennol er mwyn darparu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn cyfranogiad.

8.102 Mae modelu'r cynnydd tebygol mewn costau ar lefel awdurdod lleol yn heriol oherwydd y gwahanol fodelau o addysg drochi hwyr yn ogystal ag amrywiadau mewn lefelau cyfranogiad rhwng awdurdodau lleol. Felly, rydym yn modelu'r cynnydd mewn costau ar lefel genedlaethol. Mae ein

[20] Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed

model ar gyfer amcangyfrif y cynnydd angenrheidiol mewn cyllid ar gyfer darpariaeth trochi hwyr yn seiliedig ar y cynnydd rhagamcanol mewn cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd ei angen i gyflawni targedau perthnasol dros y cyfnod perthnasol.

8.103 Nod strategaeth *Cymraeg 2050* yw sicrhau bod 40% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi modelu'r cynnydd canrannol blynyddol yn nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd ei angen er mwyn cyflawni'r targed hwn[21] ac wedi cymhwyso cynnydd canrannol cyfatebol at y gyllideb bresennol ar gyfer darpariaeth trochi hwyr (£3m). Rydym yn priodoli costau trochi hwyr i'r Bil o'r adeg y daw'r darpariaethau perthnasol i rym yn 2028-29.

*Tabl 8 – Costau Blynyddol Amcangyfrifedig ar gyfer Darpariaeth Trochi Hwyr*

| **Blwyddyn** | **Canran y Dysgwyr mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg (Rhagamcanol)** | **Cost amcangyfrifedig darpariaeth trochi hwyr dros y cyfnod arfarnu** |
|---|---:|---:|
| 2028-29 | 21.2% | £3,000,000 |
| 2029-30 | 21.9% | £3,060,100 |
| 2030-31 | 22.6% | £3,119,600 |
| 2031-32 | 23.4% | £3,200,500 |
| 2032-33 | 24.3% | £3,291,100 |
| 2033-34 | 25.2% | £3,386,300 |
| 2034-35 | 26.1% | £3,490,600 |
| | | **Cyfanswm y Gost – £22,548,300 (Cost Ychwanegol £22,548,300, Cost Cyfle £0)** |

8.104 Rydym yn cydnabod cyfyngiadau'r dull modelu. Yn benodol, gall y ffactorau sy'n ysgogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg fod yn wahanol i'r ffactorau sy'n ysgogi cynnydd mewn addysg drochi hwyr yn Gymraeg. Nid yw'n hysbys eto a fydd y newid gwirioneddol mewn cyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros y cyfnod arfarnu yn dilyn y taflwybr a ragwelir gan y targed. At hynny, nid yw'n cyfrif am agweddau megis arbedion effeithlonrwydd a allai effeithio ar y gost fesul disgybl dros amser. Fodd bynnag, ein casgliad yw y bydd y tybiaethau a wnaed yn darparu'r amcangyfrif mwyaf rhesymol o ystyried yr amrywiaeth eang rhwng awdurdodau lleol a chyfyngiadau data presennol ar gyfranogiad mewn darpariaeth trochi hwyr ar lefel awdurdod lleol.

### Opsiwn 2 – Manteision

8.105 Bydd y cynigion newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion a chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion yn atgyfnerthu systemau presennol

[21] Yn seiliedig ar y newid a ragwelir yng nghanran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhabl 8, gan ystyried hefyd y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth oedran ysgol dros y cyfnod hwn.

ac yn creu llinell atebolrwydd gliriach o ran cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru, cyfrifoldebau awdurdodau lleol a chyfrifoldebau ysgolion.

8.106 Bydd y cynlluniau cyflawni, ymhlith pethau eraill, yn dangos sut y bydd ysgolion yn cynyddu ac yn gwella eu darpariaeth Gymraeg yn barhaus ac, os byddant yn dewis gwneud hynny, sut y byddant yn symud i gategori iaith uwch dros amser.

8.107 Mae tystiolaeth yn dangos pwysigrwydd amlygiad parhaus i iaith er mwyn ei chaffael mewn cyd-destunau uniaith [22]. Mae cyd-destun yr ysgol yn hollbwysig i sicrhau bod plant o aelwydydd di-Gymraeg yn cael y màs critigol o amlygiad sydd ei angen er mwyn datblygu eu gallu a'u hyder i ddefnyddio'r iaith[23]. Felly, bydd y ffocws o'r newydd ar gynyddu a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion ac, yn achos rhai ysgolion, symud tuag at gategori iaith uwch, yn cefnogi cynnydd tuag at sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn dod yn siaradwr Cymraeg annibynnol drwy'r system addysg statudol.

8.108 Bydd darpariaethau'r Bil yn atgyfnerthu'r seilwaith sy'n ategu'r gwaith o gynllunio addysg Gymraeg gan ysgolion ac yn sicrhau cynnydd parhaus tuag at filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

8.109 Mae darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â throchi hwyr yn Gymraeg yn gosod sylfaen gref ar gyfer sicrhau y caiff addysg drochi hwyr ei darparu gan bob awdurdod lleol a bod y ddarpariaeth hollbwysig hon yn cael ei darparu'n ddigonol ym mhob awdurdod lleol.

8.110 Bydd y darpariaethau yn helpu rhieni a gwarcheidwaid i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt a gwneud penderfyniadau am iaith addysg eu plant, gan helpu i sicrhau y gall dysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad.

8.111 Nododd adroddiad gan Estyn[24] ar Addysg Drochi Gymraeg fod y ddarpariaeth bresennol yn helpu dysgwyr i deimlo'n fwyfwy hyderus i geisio siarad Cymraeg ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau sy'n trochi dysgwyr yn y Gymraeg. At hynny, daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

> *"Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni trochi hwyr dwys yn cyrraedd lefel hyfedredd addas er mwyn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn canolfannau trochi iaith yn datblygu medrau gwrando a siarad yn gyson dda. Gwnânt gynnydd cyson yn eu medrau darllen ac erbyn diwedd y rhaglenni trochi hwyr dwys mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa*

[22] Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig COVID-19 (Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru)
[23] Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19 (Llywodraeth Cymru)
[24] Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed (Estyn)

*gyfarwydd. Yn yr achosion hynny lle darperir cefnogaeth i hwyrddyfodiaid trwy drefniadau amgen yn yr ysgol, mae mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol".*

8.112 Felly, mae pwyslais o'r newydd ar hyrwyddo a chefnogi trochi hwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwr y cyfle i gael addysg cyfrwng Cymraeg.

## *Rhan 4 – Cynllunio Addysg a Dysgu'r Gymraeg*

### Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg

#### Cefndir

8.113 Mae uchelgais polisi i symud o sefyllfa lle y caiff gweithgareddau caffael a dysgu'r Gymraeg eu cynnal mewn ffordd nad yw'n gysylltiedig mewn gwahanol sectorau ac ar gyfer gwahanol grwpiau oedran tuag at un system gydgysylltiedig, gyda thargedau penodol a chanllawiau a bennwyd gan Weinidogion Cymru.

#### Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer

8.114 Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o sefydliadau a phartneriaethau yn datblygu cynlluniau a pholisïau sy'n ymwneud â chefnogi unigolion ar eu taith ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg, mewn gwahanol sectorau ac ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Er enghraifft, mae'r Mudiad Meithrin yn arbenigo ym maes darparu addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda darparwyr ôl-16 i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i bobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys cymorth i weithleoedd.

8.115 Mae gan y sefydliadau gwahanol hyn eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu eu hunain ar gyfer dysgu a chaffael y Gymraeg y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at roi strategaeth *Cymraeg 2050* ar waith, gan gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith.

#### Opsiwn 1 – Costau

8.116 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth sy'n cyfateb i Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg ac, felly, nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â Busnes fel Arfer.

#### Opsiwn 1 – Manteision

8.117 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth sy'n cyfateb i Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Mae cynlluniau a pholisïau presennol a ddatblygwyd gan sefydliadau a phartneriaethau hynny sy'n gweithio yn y maes hwn yn sefydledig ac maent yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r rhai sy'n dysgu'r iaith.

**Opsiwn 2 – Yr Opsiwn a Ffefrir – Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

8.118 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, sy'n cwmpasu'r addysg a ddarperir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol ac ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru nodi yn y Fframwaith Cenedlaethol y camau y maent yn bwriadu eu cymryd dros gyfnodau o 10 mlynedd a'i adolygu a'i ddiwygio cyn diwedd pob cyfnod o bum mlynedd er mwyn diweddaru'r camau hynny. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol a'i gyhoeddi, a chyflwyno adroddiad blynyddol ar y ffordd y mae'n cael ei roi ar waith.

8.119 Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn pontio'r bwlch presennol rhwng y weledigaeth hirdymor a amlinellir yn *Cymraeg 2050* a thargedau lleol a amlinellir mewn CSCAau lleol. Bydd yn cysylltu targedau cenedlaethol a thargedau ar lefel awdurdod lleol.

8.120 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi camau mewn perthynas â chynyddu a gwella addysg Gymraeg; hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg"; sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth ar gael i ymarferwyr addysg; a chynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i bobl o bob oedran, gan gynnwys drwy ofal plant, addysg feithrin, addysg drydyddol ac yn y gweithle a'r gymuned. Caiff y camau eu hategu gan asesiad o'r addysg Gymraeg a ddarperir, yr addysg Gymraeg sydd ei hangen a nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.121 Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gost staff gylchol wrth lunio a/neu ddiweddaru Fframwaith Cenedlaethol bob pum mlynedd. Bydd llunio'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys gwaith cwmpasu, dadansoddi a drafftio yn ogystal ag ymgynghori. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon, gan y bydd y gwaith yn cael ei wneud gan staff presennol Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar y tybiaethau a nodir yn Nhabl 9, rhagwelwn gost o £209,000 ar gyfer llunio'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf ac rydym yn tybio yr eir i'r gost hon ym mlwyddyn 3 y Bil (2027-28). Rydym yn amcangyfrif cost is ar gyfer yr adolygiad cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd, sef £94,000, ac rydym yn tybio yr eir i'r gost ym mlwyddyn 8 Bil (2032-33). Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Cenedlaethol yw £302,700 dros y cyfnod arfarnu.

*Tabl 9 – Costau cylchol staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol yn Rhan 4 y Bil*

| Rhanddeiliad | Gradd Staff | Cost Gros Gyfartalog Flynyddol | Cost Gros Gyfartalog Fisol | Amlder | Blynyddoedd | CALl | Cost Amcangyfrifedig dros y Cyfnod Arfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 1.0 | £71,400 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.8 | £74,300 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.1 | £12,800 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.1 | £2,300 |
| | Gradd 6 (Cyfreithiol) | £112,521 | £9,377 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.1 | £900 |
| | SEO (Dadansoddwr) | £71,380 | £5,948 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.5 | £35,700 |
| | Gradd 7 (Dadansoddwr) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 3 | 0.2 | £18,600 |
| | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.5 | £35,700 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.2 | £18,600 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.1 | £12,800 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.1 | £2,300 |
| | Gradd 6 (Cyfreithiol) | £112,521 | £9,377 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.1 | £900 |
| | SEO (Dadansoddwr) | £71,380 | £5,948 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.3 | £21,400 |
| | Gradd 7 (Dadansoddwr) | £92,844 | £7,737 | Ysbeidiol | Blwyddyn 8 | 0.1 | £9,300 |
| | | | | | | | **Cyfanswm y Gost – £317,000 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £317,000)** |

*Noder: Mae costau polisi a chostau dadansoddi yn ymestyn am 12 mis ym mlwyddyn 3 a blwyddyn 8. Mae costau Gradd 7 (Cyfreithiol) yn ymestyn am dri mis ac mae costau Gradd 6 (Cyfreithiol) yn ymestyn am fis ym mlwyddyn 3 a blwyddyn 8.*

8.122 Ymdrinnir â'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith drwy CSCAau lleol awdurdodau lleol yn yr is-adran nesaf ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Lleol. Rhoddir y costau sy'n gysylltiedig â chefnogi'r gweithlu addysg ym mharagraffau 8.90 i 8.109.Bydd y broses gynllunio ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol yn pennu pa newidiadau, os o gwbl, sydd eu hangen i weithgareddau presennol yn y sector trydyddol. Felly, dim ond pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau y bydd yn bosibl amcangyfrif costau ar gyfer y sector trydyddol, os bydd unrhyw gostau o gwbl.

### Opsiwn 2 – Manteision

8.123 Bydd y ddarpariaeth hon yn helpu i gyflawni nod *Cymraeg 2050* o greu ‘system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus' drwy ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth glir i awdurdodau lleol ynghylch disgwyliadau mewn perthynas â chynyddu eu darpariaeth Gymraeg. Bydd yn cysylltu'r targed o filiwn o siaradwyr, y targedau ar gyfer addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg yn *Cymraeg 2050* a CSCAau lleol awdurdodau lleol. Bydd yn ymdrin â'r neges a roddwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'r papur gwyn ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru roi arweiniad strategol yn y maes. Bydd hefyd yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr a chyson o'r hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol o ran cynyddu a gwella addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”.

8.124 Bydd y ddarpariaeth yn creu un cynllun cydlynus ar gyfer addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg, gan sicrhau bod pob partner yn y maes yn gweithio tuag at yr un nodau. Bydd yn rhoi canllawiau i'r rhai sy'n darparu cymorth i'r system addysg ym maes caffael a dysgu Cymraeg gan osod y sylfeini ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes.

8.125 Nododd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymarfer casglu data ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai'r Fframwaith Cenedlaethol yn darparu cyfeiriad strategol o ran nifer yr athrawon sydd eu hangen i hwyluso'r twf mewn addysg Gymraeg.

8.126 Yn olaf, nododd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y byddai targedau yn sicrhau tryloywder ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau a fydd yn helpu i gyflawni polisi iaith cenedlaethol. Roedd rhai sefydliadau o blaid gwneud Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am waith cynllunio strategol er mwyn cefnogi twf addysg Gymraeg yn genedlaethol. Nodwyd hefyd y bydd angen i'r targedau a osodir gan Weinidogion Cymru ystyried amgylchiadau lleol, gan gydnabod, ar yr un pryd, yr uchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chreu system addysg lle y gall pob plentyn ddod yn siaradwr Cymraeg annibynnol.

## Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg

### Cefndir

8.127 Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i lunio eu CSCA eu hunain.

8.128 Mae'r ffordd y caiff CSCAau eu datblygu a'u rhoi ar waith, a'r effaith y maent yn ei chael wedi bod yn destun cryn dipyn o graffu ers i'r cynlluniau cyntaf gael eu cymeradwyo yn 2014, hyd at yr adeg y cymeradwywyd y CSCAau diweddaraf yn 2022.

8.129 O ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Annibynnol o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017[25]. Pwysleisiodd yr adolygiad fod angen atgyfnerthu'r weithdrefn gynllunio. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori annibynnol yn ddiweddarach er mwyn ystyried diwygiadau i'r system ar gyfer CSCAau rhwng mis Mai 2018 a mis Mawrth 2019. Blaenoriaeth y Bwrdd oedd rhoi cyngor ar ddiwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 2013, a arweiniodd at gyhoeddi rheoliadau diwygiedig yn 2019 a gyflwynodd sawl newid i'r system ar gyfer CSCAau.

8.130 Er iddo argymell y diwygiadau hyn, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd y strwythur deddfwriaethol presennol yn cefnogi gwaith cynllunio Cymraeg mewn addysg gan awdurdodau lleol mwyach i'r graddau sydd eu hangen i ymateb i'r uchelgais cenedlaethol hirdymor i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050[26].

8.131 Felly, mae'n uchelgais polisi i barhau i wella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio a'i threfnu'n lleol.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer**

8.132 Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i lunio CSCA, sy'n cynnwys ei gynigion ar gyfer y ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn gwneud y canlynol:

- gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg orfodol cyfrwng Cymraeg yn ei ardal;
- gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu cyfrwng Cymraeg yn ei ardal;
- adrodd ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

8.133 Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi'r cynllun a chymryd pob cam rhesymol i'w roi ar waith a'i adolygu'n rheolaidd. Mae gan Lywodraeth Cymru y pwerau deddfwriaethol i gymeradwyo, diwygio neu wrthod cynllun, a allai olygu bod Gweinidogion Cymru yn llunio ei chynllun ei hun ar gyfer awdurdod lleol.

**Opsiwn 1 – Costau**

8.134 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer.

[25] Adolygiad o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer 2017 i 2020: adroddiad terfynol (Llywodraeth Cymru)

8.135 Nododd awdurdodau lleol yn yr ymarfer casglu data ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol eu bod fel arfer yn neilltuo amser i swyddogion baratoi a chyflwyno CSCAau, ac i ymateb i adborth gan Lywodraeth Cymru. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i gyhoeddi eu CSCAau ac, fel arfer, maent yn gwneud hyn ar eu gwefannau ac mae'n bosibl y byddant yn argraffu copïau os bydd galw amdanynt.

**Opsiwn 1 – Manteision**

8.136 Mae system wreiddiol y CSCAau wedi bod ar waith ers 2013 ac mae wedi'i diwygio sawl gwaith mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid allweddol. Gwelwyd y newid mwyaf sylweddol yn 2021 pan gafodd y cylch CSCAau ei ymestyn o gylch tair blynedd i gylch 10 mlynedd.

8.137 Mewn adroddiad ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a luniwyd gan un o bwyllgorau'r Senedd yn 2023, roedd y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad yn cytuno bod y "fframwaith CSCA wedi gwella'n sylweddol ers ei sefydlu gyntaf yn 2012. *Ymhlith y gwelliannau a nodwyd gan dystion mae targedau mwy realistig, canllawiau cliriach a chylch 10 mlynedd sy'n lleihau'r baich cynllunio ar awdurdodau lleol"*[27].

8.138 Cyhoeddwyd y cynlluniau 10 mlynedd diweddaraf gan awdurdodau lleol yn 2022 a byddant yn weithredol tan 2032. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r cynlluniau hyn yn awgrymu bod y trefniadau presennol ar gyfer CSCAau wedi rhoi llwyfan cadarn i awdurdodau lleol ledled Cymru allu cynllunio a pharatoi ar draws saith canlyniad allweddol sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd.

**Opsiwn 2 – Yr Opsiwn a Ffefrir – Diwygio'r system bresennol ar gyfer llunio CSCAau a chreu cysylltiad uniongyrchol â'r targedau yn y Fframwaith Cenedlaethol**

8.139 Bwriedir i'r Bil ddiwygio CSCAau awdurdodau lleol, gan symud y ffocws tuag at gynlluniau sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni targedau a osodwyd gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal
- Gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal
- Sicrhau bod ganddo ddigon o ymarferwyr addysg yn gweithio yn ei ardal.

[27] Adroddiad ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Senedd Cymru)

8.140 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CSCAau lleol nodi'r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ysgolion yn y categori “Prif Iaith – Cymraeg” a darparu gwybodaeth am yr addysg honno
- Cyflawni ei ddyletswyddau i hyrwyddo a chynnig darpariaeth trochi hwyr yn ei ardal
- Hwyluso cynnydd o ran dysgu Cymraeg rhwng gwahanol gyfnodau addysgol
- Cynnwys gwybodaeth am weithlu addysg yr awdurdod lleol.

8.141 Yn olaf, bydd angen i Awdurdod Lleol gynnwys, i'r graddau y mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn mynnu hynny, sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau addysg er mwyn hyrwyddo a hwyluso addysgu Cymraeg ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir (fel y'u diffinnir yn y Bil).Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, plant sy'n ‘Cael Addysg Heblaw Yn yr Ysgol’ heblaw mewn uned cyfeirio disgyblion.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.142 Bydd costau staff trosiannol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â datblygu rheoliadau ynglŷn â CSCAau lleol ac ymgynghori arnynt. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon gan y bydd yn cynnwys staff presennol Llywodraeth Cymru. Tybir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud, ac felly yr eir i'r costau, yn ystod trydedd flwyddyn y Bil (2027-28).

*Tabl 10 – Costau trosiannol staff Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg yn Rhan 4 y Bil*

| **Rhanddeiliad** | **Gradd Staff** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Cyfnod Trosiannol (Misoedd)** | **CALl** | **Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Trosiannol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | SEO (Polisi) | £71,380 | £5,948 | 12 | 0.5 | £35,700 |
| | Gradd 7 (Polisi) | £92,844 | £7,737 | 12 | 0.2 | £18,600 |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi) | £127,981 | £10,665 | 12 | 0.1 | £12,800 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol) | £92,844 | £7,737 | 3 | 0.8 | £18,600 |
| | Gradd 7 (Cyfreithiol – Sicrhau Ansawdd) | £92,844 | £7,737 | 1 | 0.5 | £3,900 |
| | Gradd 6 (Cyfreithiol) | £112,521 | £9,377 | 1 | 0.1 | £900 |
| | SEO (Dadansoddwr) | £71,380 | £5,948 | 12 | 0.3 | £21,400 |
| | Gradd 7 (Dadansoddwr) | £92,844 | £7,737 | 12 | 0.1 | £9,300 |
| | | | | | | **Cyfanswm y Gost – £121,100 (Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £121,000)** |

8.143 Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae cryn dipyn o amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran y ffordd y caiff adnoddau i weinyddu a chefnogi CSCAau eu trefnu. Nid oedd awdurdodau lleol sy'n rhanddeiliaid o'r farn y byddai'r diwygiadau arfaethedig i CSCAau yn arwain at newidiadau sylweddol i'r system bresennol. Ar y cyfan, ein hamcangyfrif gorau a nodir yn Nhabl 11 yw y bydd y Bil yn gofyn am lefelau cyllid sy'n debyg i rai 2024-25 er mwyn darparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni CSCAau lleol, o flwyddyn 4 y cyfnod arfarnu. Gan na chytunwyd ar gyllid yn y dyfodol eto, cyflwynir y costau hyn fel costau ychwanegol y Bil.

*Tabl 11 – Costau Cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt gyflawni CSCAau.lleol*

| **Rhanddeiliad** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Amlder** | **Blynyddoedd** | **Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Arfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (*Awdurdodau Lleol) | £4,500,000 | £375,000 | Blynyddol | Blynyddoedd 4-10 | £31,500,000 |
| **Cyfanswm y Gost – £31,500,000** <br> **(Cost Ychwanegol £31,500,000, Cost Cyfle £0)** | | | | | |

*Noder: *Er mai ALlau/ysgolion a fyddai'n talu'r costau uniongyrchol (a bod hon yn cael ei dosbarthu'n gost cydymffurfio), disgwylir i gyllid gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn cyflwyno'r costau fel cost i Lywodraeth Cymru.*

8.144 Fodd bynnag, nododd awdurdodau lleol ei bod yn debygol y bydd pwyslais o'r newydd ar gynllunio eu gweithlu addysgu fel rhan o dargedau'r Fframwaith Cenedlaethol yn gofyn am adnoddau staff ychwanegol er mwyn dadansoddi data'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Mae mesur y costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn heriol. Mae amcangyfrifon awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr, yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch beth fyddai'r gofynion yn ei olygu yn ymarferol ar adeg casglu'r data ac yn rhannol oherwydd yr amrywiad yng nghyfansoddiad ieithyddol a maint pob awdurdod lleol. Cyflwynir ein hamcangyfrif gorau sy'n seiliedig ar adborth gan awdurdodau lleol fel cyfartaledd amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol, wedi'i luosi â nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gydnabod y gall costau fod yn uwch i rai awdurdodau lleol ac yn is i eraill. Rydym yn tybio y bydd y gost i bob awdurdod lleol tua £11,600 y flwyddyn yn seiliedig ar staff ychwanegol ar 0.2 CALl ar Raddfa Gyflog 4 Soulbury, a disgwylir i awdurdodau lleol fynd i'r gost hon o flwyddyn 4 y cyfnod arfarnu (2028-29). Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i awdurdodau lleol dros y cyfnod arfarnu fydd tua £1,783,600.

*Tabl 12 - Costau cylchol yr eir iddynt wrth weinyddu'r trefniadau newydd ar gyfer CSCAau lleol (e.e. cynllunio'r gweithlu, ysgolion "Prif Iaith- Saesneg, rhannol Gymraeg", hybu addysgu cyfrwng Cymraeg)*

| **Rhanddeiliad** | **Gradd Staff** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Cost Gros Gyfartalog Fisol** | **Amlder** | **Blynyddoedd** | **CALl** | **Cost Amcangyfrifedig dros y Cyfnod Arfarnu (fesul awdurdod lleol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Graddfa Cyflog 4 Soulbury | £57,909 | £4,826 | Blynyddol | Blynyddoedd 4-10 | 0.2 | £81,100 |
| **Cyfanswm y Gost (ar draws pob Awdurdod lleol) – £1,783,600** <br> **(Cost Ychwanegol £1,783,600, Cost Cyfle £0)** | | | | | | | |

8.145 O ran y trefniadau monitro newydd, mae'r Bil yn pennu y dylid gofyn i Estyn gynnal adolygiad cyflym o CSCA lleol awdurdod lleol os daw

patrwm o dangyflawni i'r amlwg. Ein tybiaeth, a adlewyrchir yn Nhabl 13, yw y byddai Estyn yn adolygu un CSCA lleol y flwyddyn o flwyddyn 4 y cyfnod arfarnu. Byddai hyn yn cynnwys adolygiadau a fyddai'n cael eu cynnal o ganlyniad i unrhyw dangyflawni yn ogystal â rhai arolygiadau i feithrin dealltwriaeth o arferion a chynnydd tuag at ddatblygu gwahanol ganlyniadau ar gyfer CSCAau lleol. Gallai'r gost hon gynyddu petai angen adolygu CSCAau lleol ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Yn seiliedig ar adborth gan Estyn, amcangyfrifir mai'r gost gylchol flynyddol i'r asiantaeth sy'n gysylltiedig ag adolygu un CSCA lleol yw £23,500, ac y bydd yn mynd i'r gost o 2028-29 ymlaen.

*Tabl 13 – Costau cylchol yr eir iddynt gan Estyn wrth adolygu CSCAau lleol*

| **Rhanddeiliad** | **Gradd Staff** | **Cost Gros Gyfartalog Flynyddol** | **Amlder** | **Blynyddoedd** | **CALI** | **Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Arfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Estyn | Dd/B | £23,500 | Blynyddol | Blynyddoedd 4-10 | Dd/B | £164,500 |
| **Cyfanswm y Gost – £164,500**<br>**(Cost Ychwanegol £164,500, Cost Cyfle £0)** | | | | | | |

8.146 Caiff costau posibl unrhyw reoliadau a wneir mewn perthynas â'r gofyniad i awdurdodau lleol nodi sut y byddant yn arfer eu swyddogaethau addysg i hyrwyddo a hwyluso dysgu Cymraeg mewn perthynas â phlant nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir, eu hystyried mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân a gaiff ei osod gerbron y Senedd ochr yn ochr â'r rheoliadau hynny.

### Opsiwn 2 – Manteision

8.147 Bydd y rhan hon o'r Bil yn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r gofynion rhwng Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynllunio cynnydd cenedlaethol ym maes addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg ar lefel strategol drwy'r Fframwaith Cenedlaethol a bydd awdurdodau lleol yn dangos sut maent yn cynllunio ac yn gweithio i sicrhau'r cynnydd hwnnw.

8.148 Bydd y rhan hon hefyd yn sicrhau mwy o dryloywder o ran gosod targedau, casglu data a chytuno ar gynlluniau.

8.149 At hynny, un o'r argymhellion a wnaed mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd oedd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi mesurau addas a fyddai'n gwella'r trefniadau presennol ar gyfer monitro cynnydd CSCAau.

8.150 Nododd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn y byddai'r diwygiadau arfaethedig i CSCAau yn rhoi ffocws i waith cynllunio cenedlaethol a lleol ac yn nodi'n glir y llwybr dymunol tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

8.151 Mewn rhai awdurdodau lleol, lle mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn uchel ar y cyfan, a lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o adeiladwaith cymdeithasol yr ardal, yr her yw diogelu'r ardaloedd hyn rhag newid ieithyddol a sefydlogi dwysedd y siaradwyr er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymunedau Cymraeg. Gallai tystiolaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol ddarparu sail ar gyfer pennu disgwyliadau uwch mewn ardaloedd o'r fath. Mewn awdurdodau lleol eraill, lle ceir dwysedd is o ran siaradwyr Cymraeg, yr her, o bosibl, fydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg.

8.152 Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn cytuno â'r cynnig, gan nodi nad oedd rhai o'r cynlluniau presennol yn ddigon uchelgeisiol neu nad oedd ganddynt weledigaeth. Dywedodd ymatebwyr y gallai adolygiadau annibynnol roi pwysau ar awdurdodau lleol i fireinio eu cynlluniau a'u camau gweithredu er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y targedau.

8.153 At hynny, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnwys gwybodaeth yn y CSCA lleol am eu gweithlu addysg. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeall y sefyllfa staffio bresennol yn eu hysgolion a nifer y siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen er mwyn cyflawni cynllun yr awdurdod lleol i gynyddu addysg Gymraeg neu symud ysgolion i gategori iaith uwch yn eu hardaloedd. Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i fwydo gwybodaeth yn ôl i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill er mwyn iddynt allu datblygu neu fireinio polisïau ac ymyriadau cenedlaethol i ehangu neu ddatblygu'r gweithlu.

8.154 Os bydd angen cynyddu nifer yr ymarferwyr â sgiliau Cymraeg, bydd angen i hyn fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data perthnasol yn y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Bydd deall anghenion datblygu ymarferwyr o ran sgiliau iaith ym mhob awdurdod lleol yn hwyluso cydweithio â'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau y darperir hyfforddiant Cymraeg priodol a digonol i gyflawni'r targed.

## *Rhan 5 – Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol*

**Cefndir**

8.155 Mae *Cymraeg 2050* wedi gosod nod hirdymor inni ei gyflawni fel gwlad. Mae creu siaradwyr newydd sy'n dysgu Cymraeg y tu allan i'r cartref yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth. Mae gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr 3-16 oed hefyd wrth wraidd Rhannau 2-4 o'r Bil. Wrth reswm felly, mae angen inni sicrhau bod strwythurau addas ar waith er mwyn helpu i roi'r Bil ar waith.

8.156 Fel y nodwyd yn y papur gwyn, er mwyn cyflawni ein targedau yn *Cymraeg 2050*, mae angen inni ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth dysgu

Cymraeg a sicrhau bod cymorth ac adnoddau o ansawdd uchel ar gael i ymarferwyr a dysgwyr, ni waeth beth fo'u hoedran. Mae uchelgais polisi i ganoli cymorth ar gyfer dysgu Cymraeg mewn un sefydliad gweladwy sy'n arbenigo ym maes dysgu Cymraeg ar bob cam mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth i ysgolion, pobl ifanc, oedolion a gweithleoedd ar eu taith ieithyddol.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer**

8.157 Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o sefydliadau a phartneriaethau yn cefnogi unigolion ar eu taith ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg, gan gynnwys:

- Mudiad Meithrin – sy'n arbenigo mewn darparu addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cylchoedd meithrin
- Ysgolion
- Consortia addysg ac awdurdodau lleol – sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ysgolion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - sy'n gweithio gyda darparwyr ôl-16 i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (“y Ganolfan”) – sy'n darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg i bobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys cymorth i weithleoedd.

8.158 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi, strategaeth a chyllido'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg yn y sector ôl-16, gan gynnwys cefnogi'r Ganolfan drwy gyllid grant.

8.159 Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan yn goruchwylio'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg i bobl dros 16 oed ar ran Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Ganolfan yn dilyn proses dendro yn 2015 er mwyn cynnig arweiniad strategol ar gyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar lefel genedlaethol. Roedd hyn mewn ymateb i un o argymhellion 9(adolygiad o Gymraeg i Oedolion) yn 2015.

8.160 Prif swyddogaethau'r Ganolfan yw:

- bod yn gorff gweladwy sy’n gosod y cyfeiriad strategol cenedlaethol i’r sector Dysgu Cymraeg (ar gyfer pobl dros 16 oed) a gweithredu ochr yn ochr â phartneriaid ledled Cymru;
- rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i bob darparwr Dysgu Cymraeg
- codi safonau yn y sector Dysgu Cymraeg (ar gyfer pobl dros 16 oed) a chynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg
- datblygu cwricwlwm cenedlaethol Cymraeg i Oedolion priodol, diddorol o ansawdd uchel a llunio adnoddau sy'n addas i ddysgwyr ac ymarferwyr

- caffael rhwydwaith o ddarparwyr a phenderfynu ar ddyraniadau cyllid i ddarparwyr yn seiliedig ar gytundebau cyllido
- cynnal prosiect Cymraeg Gwaith sy'n darparu hyfforddiant dysgu Cymraeg mewn gweithleoedd er mwyn gwella gallu yn y Gymraeg a sgiliau Cymraeg, gan felly wella gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr.

8.161 Ers 2022, mae'r Ganolfan hefyd wedi bod yn cynnig darpariaeth wedi'i thargedu i bobl ifanc 16-25 oed yn ogystal ag ehangu'r cymorth y mae'n ei ddarparu i'r gweithlu addysg drwy gynnig cyrsiau wedi'u teilwra ar bob lefel.

8.162 Mae'r Ganolfan yn pennu'r cwricwlwm a'r cyfeiriad ar gyfer y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ac yn llunio adnoddau er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan yn contractio ag 11 o ddarparwyr rhanbarthol sy'n darparu cyrsiau Dysgu Cymraeg, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae pob darparwr yn cael targedau gan y Ganolfan, sydd hefyd yn monitro eu perfformiad.

8.163 Mae'r Ganolfan yn canolbwyntio ar bobl dros 16 oed. Ar hyn o bryd, nid oes un corff sy'n darparu arweiniad a chymorth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg i bobl o bob oedran.

**Opsiwn 1 – Costau**

8.164 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â pharhau â Busnes fel Arfer.

8.165 Mae'r costau Busnes fel Arfer, a nodir yn Nhabl 14, yn cynnwys costau staff Llywodraeth Cymru. Mae'r costau staff hyn yn cwmpasu staff presennol y mae eu rolau yn cynnwys goruchwylio a rheoli'r grant ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

8.166 Mae'r costau Busnes fel Arfer hefyd yn cynnwys costau gweithredol cylchol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r costau gweithredol hyn yn cynnwys:

- costau staff, gan gynnwys argostau cyflog
- ffi reoli a delir i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am wasanaethau, gan gynnwys cymorth cyflogres a phensiynau, seilwaith TG, swyddfeydd, yswiriant, gwasanaeth caffael a gwasanaethau proffesiynol eraill
- costau'r Bwrdd a chostau llywodraethu
- costau eraill nad ydynt yn gostau staff, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â llwyfan digidol, costau marchnata, costau swyddfa a chyfarpar TG a ffioedd archwilio'r Ganolfan.

8.167 Mae'r amcangyfrif o'r costau gweithredol cylchol yn seiliedig ar y grant a gafodd y Ganolfan gan Lywodraeth Cymru yn 2024-25 a chyfrifon

blynyddol diweddar y Ganolfan, yn ogystal â chostau rhedeg a amcangyfrifwyd gan y Ganolfan ei hun.

8.168 Mae costau Busnes fel Arfer hefyd yn cynnwys naw swydd CALl sy'n darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg ar hyn o bryd. Mae'r rhain y tu allan i staff craidd presennol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r hyn sy'n cyfateb i wyth swydd CALl wedi'i gomisiynu ar hyn o bryd drwy rwydwaith darparwyr y Ganolfan a chânt eu hariannu drwy ei chostau rhaglenni. Bwriedir i'r swyddi hyn naill ai gael eu trosglwyddo i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu eu recriwtio ganddi pan ddaw'n weithredol.

8.169 Mae'r swydd arall wedi'i chlustnodi ar hyn o bryd o fewn y strwythur staffio arfaethedig ar gyfer y Corff Cefnogi Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, y disgwylir iddo gael ei sefydlu erbyn mis Medi 2025. Caiff y swydd hon (Arweinydd Dylunio: y Gymraeg) ei recriwtio i'r Corff newydd ar ôl ei sefydlu i weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi'r gwaith o addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r posibilrwydd o drosglwyddo'r swydd hon i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2027 pan ddaw'r Athrofa yn weithredol. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym yn rhagdybio trosglwyddo'r swydd.

8.170 Ar yr adeg hon, rydym wedi cynnwys naw swydd CALl ar gyfer darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu yn y costau amcangyfrifedig ar gyfer yr Athrofa (Opsiwn 2). Rydym wedi cynnwys yr un nifer o swyddi yn yr amcangyfrifon o'r costau sy'n gysylltiedig â Busnes fel Arfer, gan dybio (ar wahân i gostau recriwtio posibl) na fydd angen unrhyw adnoddau ychwanegol y tu allan i'r system er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Athrofa mewn perthynas â darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg.

*Tabl 14 – Costau cylchol sy'n Gysylltiedig â Busnes fel Arfer*

| Cost | Cost Flynyddol | Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Arfarnu |
|---|---|---|
| Costau Staff Llywodraeth Cymru – EO (Polisi) CALl 0.25 | £11,100 | £111,300 |
| Costau Staff Llywodraeth Cymru – SEO (Polisi) CALl 0.6 | £42,800 | £428,300 |
| Costau Staff Llywodraeth Cymru – Gradd 7 (Polisi) CALl 0.25 | £23,200 | £232,100 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Costau staff | £1,437,600 | £14,376,300 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Ffi Reoli Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | £148,000 | £1,480,000 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Llwyfan digidol | £265,000 | £2,650,000 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Llywodraethu | £6,000 | £60,000 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Costau eraill nad ydynt yn gostau staff | £287,500 | £2,874,800 |
| Y Gweithlu Addysg: Costau staff | £560,000 | £5,599,900 |
| Y Gweithlu Addysg: Costau nad ydynt yn gostau staff | £275,200 | £2,751,900 |
| **Cyfanswm** | **£3,056,500** | **£30,564,600** |

8.171 Mae costau Busnes fel Arfer yn seiliedig ar y swyddogaethau a gyflawnir gan y Ganolfan Genedlaethol ar hyn o bryd, a ariennir drwy grant gweithredol y Ganolfan, yn hytrach na'i dyraniadau cyllid i ddarparwyr. Mae hyn oherwydd nad yw dyraniadau cyllid i ddarparwyr yn ffocws yn Rhan 5 o'r Bil. Yr unig gostau rhaglen sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 14 yw'r rhai sy'n ymwneud â'r Gweithlu Addysg, gan mai'r bwriad yw y bydd y swyddi hyn, sy'n cael eu hariannu gan gyllid rhaglen ar hyn o bryd, yn dod yn gostau gweithredol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol unwaith y caiff ei sefydlu (gweler paragraff 8.168).

**Opsiwn 1 – Manteision**

8.172 Mantais allweddol yw na fyddai parhau gyda BAU yn golygu unrhyw gostau diwygio ymlaen llaw ychwanegol.

8.173 Mae camau sylweddol wedi'u cymryd ers i'r Ganolfan gael ei sefydlu yn 2015 er mwyn proffesiynoli a sefydlogi'r sector Dysgu Cymraeg. Cyn hynny, cafodd llawer o newidiadau strwythurol eu gwneud yn y sector ac roedd diffyg cydlyniant rhwng rhanbarthau. Mae adroddiadau diweddar gan Estyn a'r Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym yn 2021 yn cyfeirio at y gwelliannau sylweddol yn y sector Dysgu Cymraeg ers i'r Ganolfan gael ei sefydlu, gan gynnwys cyflwyno cwricwlwm cenedlaethol penodol, datblygu system ar gyfer cynllunio'r gweithlu a chymwysterau i broffesiynoli'r sector, systemau data gwall ac arloesedd digidol.

8.174 Nododd adolygiad Estyn o'r Ganolfan, a gynhaliwyd yn 2021, ei bod wedi datblygu'n llais cenedlaethol, dylanwadol ar gyfer y sector. Canmolodd yr Adolygiad arweinyddiaeth y Ganolfan a'i gweledigaeth. Tynnodd sylw at lwyddiant y Ganolfan wrth lunio amrywiaeth eang o bartneriaethau strategol a nododd ei bod yn darparu ffocws cynyddol i weithgareddau sy'n hanfodol i ymdrechion cynllunio ieithyddol. Daeth i'r casgliad hefyd ei bod yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

8.175 Daeth yr Adolygiad Cyflym yn 2021 i'r casgliad bod y Ganolfan 'wedi llwyddo i ad-drefnu, ailstrwythuro ac arwain y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg genedlaethol, gan wireddu gweledigaeth 'Codi Golygon'.

**Opsiwn 2 – Yr Opsiwn a Ffefrir – Sefydlu corff statudol newydd: yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.**

8.176 Bydd y Bil yn sefydlu corff statudol newydd, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

8.177 Bydd yr Athrofa yn siop un stop ar gyfer cefnogi pob agwedd ar ddysgu Cymraeg, gyda swyddogaethau a fydd yn cynnwys y canlynol:

- rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg;
- llunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr 16 oed a throsodd
- datblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg i ddysgwyr 16 oed a throsodd
- datblygu gweithlu addysg Gymraeg er mwyn cynyddu cyfraddau trosglwyddo'r iaith
- cydgysylltu a chomisiynu ymchwil ym maes dysgu Cymraeg
- casglu a chyhoeddi data ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd.

8.178 Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Athrofa i wneud y canlynol:

- hyrwyddo arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg
- hyrwyddo cyfle cyfartal ac annog cyfranogiad ymhlith grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol
- hyrwyddo ymdrechion i gydgysylltu a chydweithio mewn perthynas â dysgu Cymraeg.

**Opsiwn 2 – Costau**

8.179 Wrth nodi costau, rydym wedi tybio y daw'r Athrofa yn weithredol ar 1 Awst 2027, ar yr un pryd ag y daw cytundeb cyllido presennol y Ganolfan â Llywodraeth Cymru i ben.

8.180 Eir i gostau sefydlu trosiannol wrth sefydlu'r corff newydd, cyn iddo ddod yn weithredol ym mis Awst 2027. Bydd y rhain yn cynnwys costau staff

a chostau Bwrdd a Llywodraethu yn ystod y cyfnod trosiannol yn ogystal â chostau brandio, costau TGCh, costau llwyfan digidol (sy'n cwmpasu gwefan bresennol y Ganolfan a'i systemau casglu data a chofrestru dysgwyr) a chostau cyfreithiol a chostau proffesiynol eraill sy'n arwain at sefydlu'r corff newydd. Bydd costau trosiannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru hefyd ar gyfer staff a fydd yn gweithio ar sefydlu'r corff newydd.

8.181 Mae costau staff trosiannol yn cynnwys darparu ar gyfer pum aelod ychwanegol o staff i ymgymryd â swyddogaethau gweinyddol a fydd yn eu swydd o fis Ionawr 2027. Mae darpariaeth ar gyfer Prif Weithredwr yr Athrofa o fis Ionawr 2027 ymlaen hefyd wedi'i chynnwys.

*Tabl 15 – Costau trosiannol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru dros Flynyddoedd 1-3 wrth sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol*

| **Costau** | **Blynyddoedd** | **Cost Drosiannol Amcangyfrifedig dros Flynyddoedd 1-3** |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru: Staff | Years 1-3 | £430,800 |
| Athrofa: Staff (gan gynnwys y Prif Weithredwr a swyddi gweinyddol newydd) | Years 2-3 | £583,700 |
| Bwrdd a Llywodraethu | Years 1-3 | £86,000 |
| Brandio | Years 2-3 | £86,000 |
| TGCh | Years 2-3 | £201,200 |
| Costau cyfreithiol a chostau proffesiynol eraill | Years 2-3 | £75,000 |
| Llwyfan Digidol | Years 2-3 | £265,000 |
| **Cyfanswm y Gost Drosiannol dros y Cyfnod Arfarnu - £1,727,600** | | |

8.182 Bydd yr Athrofa yn cyflawni'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Ganolfan, swyddogaethau sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu addysg Gymraeg a chomisiynu ymchwil ac adnoddau i gefnogi dysgu Cymraeg. Mae'r costau cylchol a nodir yn Nhabl 16 isod yn tybio y bydd staff o'r Ganolfan yn trosglwyddo i weithio i'r Athrofa. Amcangyfrifir y costau yn seiliedig ar y canlynol:

- Costau staffio presennol y Ganolfan, gan gynnwys 24 o aelodau o staff: pump mewn uwch-swyddi rheoli, pedwar rheolwr, chwe swyddog gweithredol, pedwar uwch-swyddog gweinyddol a phum swyddog gweinyddol.
- Pum aelod ychwanegol o staff i gyflawni swyddogaethau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r corff newydd, gan gynnwys Swyddog Cyllid, Swyddog Adnoddau Dynol, Swyddog TG, ystadegydd a Swyddog Cofnodion Adrannol. Bydd y Swyddog Cofnodion Adrannol yn rôl orfodol ac mae'n tybio y bydd gan yr Athrofa statws Corff Cofnodion Cyhoeddus. Caiff gwaith arall sy'n gysylltiedig â Chorff Cofnodion Cyhoeddus ei gynnwys fel rhan o rolau staff eraill yn y sefydliad.
- Addasiad i gostau staff presennol y Ganolfan er mwyn cyfrif am gynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn os daw staff yn y corff newydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

- Naw aelod o staff CALl i gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg. Rydym yn tybio y daw'r adnoddau i ddarparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg yn yr Athrofa o rywle arall yn y system. Fel y nodwyd uchod o dan gostau sy'n gysylltiedig â Busnes fel Arfer, ar hyn o bryd mae wyth swydd CALl yn cael eu hariannu drwy gostau rhaglen y Ganolfan, gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo'r swydd arall o'r Corff Cefnogi Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd. Rydym wedi cynnwys yr un nifer o swyddi yn yr amcangyfrifon o'r costau sy'n gysylltiedig â Busnes fel Arfer (Opsiwn 1), gan dybio na fydd angen unrhyw adnoddau ychwanegol y tu allan i'r system er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Athrofa mewn perthynas â darparu cymorth a hyfforddiant i'r gweithlu addysg. Mae'r costau, fodd bynnag, yn cynnwys addasiad er mwyn cyfrif am gynnydd mewn rhwymedigaethau pensiwn pan fydd staff yn trosglwyddo i'r Athrofa.

8.183 Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 yn cynnwys costau'r Bwrdd a Llywodraethu. Rydym wedi amcangyfrif costau blynyddol yn seiliedig ar un Cadeirydd am 60 diwrnod y flwyddyn; dau Ddirprwy Gadeirydd am 36 diwrnod y flwyddyn; pedwar aelod o'r Bwrdd am 24 diwrnod y flwyddyn; yn ogystal â swm ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer teithio a chynhaliaeth.

8.184 Mae costau cylchol nad ydynt yn gostau staff yn cynnwys costau rhentu swyddfeydd a chostau rhedeg, costau TG, costau llwyfan digidol a chostau'r Archwilydd Cyffredinol. Maent hefyd yn cynnwys amcangyfrif o gostau gweithredol eraill nad ydynt yn gostau staff, megis costau marchnata, archwilio mewnol ac allanol, hyfforddiant staff a chostau sy'n gysylltiedig â chynadleddau a chyfarfodydd. Amcangyfrifir y costau gweithredol eraill hyn nad ydynt yn gostau staff yn seiliedig ar gostau nad ydynt yn gostau staff presennol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gyda chynnydd wedi'i gymhwyso er mwyn adlewyrchu'r cynnydd canrannol mewn costau staff a nodir yn Nhabl 16 isod.

*Tabl 16 – Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod arfarnu wrth sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol*

| **Costau** | **Cost Flynyddol (Blwyddyn 3)** | **Cost Flynyddol (Blwyddyn 4-10)** | **Cost Amcangyfrifedig Dros y Cyfnod Arfarnu** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru: Staff | £77,200 | £77,200 | £617,400 |
| Staff yr Athrofa: wedi eu trosglwyddo o’r Ganolfan Genedlaethol | £958,400 | £1,437,600 | £11,021,800 |
| Staff wedi trosglwyddo i’r Athrofa o’r Ganolfan Genedlaethol (addasiad pensiwn) | £59,200 | £88,900 | £681,300 |
| Staff yr Athrofa: staff gweinyddol newydd | £255,300 | £383,000 | £2,936,100 |
| Staff yr Athrofa: cefnogi'r gweithlu addysg | £373,300 | £560,000 | £4,293,200 |
| Staff yr Athrofa: cefnogi'r gweithlu addysg (addasiad pensiwn) | £17,500 | £26,300 | £201,400 |
| Y Bwrdd a Llywodraethu | £48,000 | £72,000 | £552,100 |
| Rhentu a chynnal swyddfa | £135,900 | £135,900 | £1,087,500 |
| TGCh | £0* | £97,700** | £618,500 |
| Llwyfan digidol | £265,500 | £265,000 | £2,120,000 |
| Archwilydd Cyffredinol | £20,000 | £20,000 | £160,000 |
| Costau eraill nad ydynt yn gostau staff | £337,000 | £505,500 | £3,875,300 |
| **Costau Cylchol yr Athrofa dros y Cyfnod Arfarnu** | | | **£28,164,700** |
| **Costau Cylchol Busnes fel Arfer dros y Cyfnod Arfarnu*** ** | | | **£7,017,700** |
| **Cyfanswm y Costau Cylchol dros y Cyfnod Arfarnu**** ** | | | **£35,182,400** |

*Sylwer:*
** Mae costau cyfalaf a refeniw TGCh ar gyfer Blwyddyn 3 wedi'u cynnwys yn y costau trosiannol yn Nhabl 15 uchod gan y tybir y bydd angen i'r rhain fod ar waith cyn Awst 2027.*

*** Cost Bl. 4 gan fod costau’n gostwng ar draws blynyddoedd 4-10*

**** Bydd costau Busnes fel Arfer yn parhau nes i'r Sefydliad ddod yn weithredol ym mis Awst 2027*

***** Mae cyfanswm y costau cylchol ar gyfer y Bil yn ystyried y bydd costau Busnes fel Arfer yn parhau tan ddaw'r Athrofa yn weithredol ym mis Awst 2027.*

8.185 Mae Tabl 17 yn darparu amcangyfrif o gost ychwanegol Opsiwn 2 o'i gymharu â pharhau gyda Busnes fel Arfer dros y cyfnod arfarnu.

*Tabl 17 Cyfanswm cost ychwanegol Opsiwn 2 o'i gymharu â pharhau gyda Busnes fel Arfer dros y cyfnod arfarnu*

| **Cyfanswm y costau dros y cyfnod arfarnu** | |
|---|---|
| Cyfanswm costau trosiannol Opsiwn 2 | £1,727,600 |
| Cyfanswm costau cylchol Opsiwn 2 | £35,182,400 |
| Cyfanswm costau cylchol Busnes fel Arfer (Opsiwn 1) | £30,564,600 |
| **Cost ychwanegol Opsiwn 2 (Cost Opsiwn 2 minws cost Busnes fel Arfer)** | **£6,345,400** |

### Opsiwn 2 – Manteision

8.186 Bydd sefydlu corff statudol newydd, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn darparu arweiniad a chymorth strategol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes yn genedlaethol. Bydd y corff newydd yn gallu arloesi a llunio atebion lleol a chenedlaethol. Bydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i ddysgu Cymraeg a throsglwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'r system addysg, gan gynnwys y sector ysgolion.

8.187 Bydd canoli arweiniad strategol ac arbenigedd ar gyfer dysgu Cymraeg mewn un corff yn fodd i sicrhau bod cymorth ar gyfer dysgu Cymraeg yn cael ei ddarparu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chydweithredol, gan helpu i osgoi achosion o ddyblygu ymdrech ac adnoddau. Bydd yr Athrofa yn cydnabod llwyddiant y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y sector oedolion ers iddi gael ei sefydlu yn 2015 ac yn adeiladu arno. Yn benodol, bydd yn ymdrin â'r argymhellion yn yr adolygiad diweddar gan Estyn ac yn yr Adolygiad Cyflym yn 2021, gan alluogi'r Athrofa i fod yn ddylanwadwr strategol ar y daith tuag at gyflawni nodau *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

8.188 Bydd y ddarpariaeth hon yn codi proffil dysgu Cymraeg ac yn darparu mecanwaith lle ceir perchnogaeth ganolog mewn perthynas â'r fframwaith ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ac mewn perthynas â darparu cymorth i'r gweithlu addysg ac ysgolion wrth iddynt geisio cynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg.

8.189 Bydd creu corff statudol newydd yn darparu sail fwy sefydlog ar gyfer cynllunio a chyllido hirdymor a bydd hefyd yn osgoi'r angen i aildendro a'r ansefydlogrwydd cynhenid y mae hyn yn ei greu. Bydd darparu seiliau ariannol cadarn yn rhoi hyder i'r Athrofa ac yn cynnig llwyfan ar gyfer llunio polisïau ac ymyriadau hirdymor.

## *Costau cyfieithu*

8.190 Bydd costau staff trosiannol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chyfieithu ar gyfer holl elfennau'r Bil. Rydym yn tybio mai cost cyfle fydd y gost hon gan y bydd yn cynnwys staff presennol Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd amcangyfrif y gost ar hyn o bryd gan nad yw nifer na hyd y

dogfennau yn hysbys ar hyn o bryd. Mae cyfanswm y gost yn Nhabl 18 wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar 40,000 o eiriau ar gyfer y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg; 25,000 o eiriau ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol; a thair set o reoliadau sy'n cynnwys 6,000 o eiriau yr un ynghyd â thri memorandwm esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n cynnwys 10,000 o eiriau yr un. Er nad yw union amseriad y gwaith cyfieithu yn hysbys ar hyn o bryd, rydym yn tybio yr eir i'r gost yn ystod blynyddoedd 1-3 y cyfnod arfarnu.

*Tabl 18 – Costau cyfieithu ar draws y Bil*

| **Rhanddeiliad** | **Blynyddoedd** |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Blynyddoedd 1-3 |
| | **Cyfanswm y Gost – £47,300**<br>**(Cost Ychwanegol £0, Cost Cyfle £47,300)** |

## *Trosolwg o Gostau'r Bil dros y Cyfnod Arfarnu o 10 Mlynedd*

8.191 Mae Tabl 19 yn rhoi trosolwg o pryd y disgwylir i gostau'r Bil (trosiannol a chylchol) godi dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad ar ôl gweithredu.

*Tabl 19 – Trosolwg o gostau'r Bil dros y cyfnod arfarnu o 10 Mlynedd*

| | | Disgrifiad o'r Costau | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 1 y Bil** | **Llywodraeth Cymru** | Costau staff trosiannol Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 1 o'r Bil | £0 | £72,500 | £32,600 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£105,000** |
| **Rhan 2 o'r Bil** | **Llywodraeth Cymru** | Costau staff trosiannol Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 2 o'r Bil | £130,600 | £133,700 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£264,300** |
| **Rhan 3 o'r Bil** | **Llywodraeth Cymru** | Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i ysgolion er mwyn iddynt allu parhau i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a, lle y bo'n berthnasol, symud i gategori iaith uwch. | £0 | £0 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | **£34,960,000** |
| | **Llywodraeth Cymru** | Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cynnig addysg drochi hwyr yn Gymraeg | £0 | £0 | £0 | £3,000,000 | £3,060,100 | £3,119,600 | £3,200,500 | £3,291,100 | £3,386,300 | £3,490,600 | **£22,548,300** |
| | **Llywodraeth Cymru** | Costau staff trosiannol Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar Ran 3 o'r Bil | £0 | £330,700 | £65,200 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£395,900** |
| | **Awdurdodau Lleol** | Costau cylchol yr eir iddynt wrth gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | **£2,548,000** |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgolion** | Costau cylchol yr eir iddynt wrth lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg | £0 | £0 | £0 | £0 | £6,812,400 | £0 | £0 | £3,406,200 | £0 | £0 | **£10,218,600** |
| **Rhan 4 o'r Bil** | **Llywodraeth Cymru** | Costau staff cylchol Llywodraeth Cymru yr eir iddynt ar y Fframwaith Cenedlaethol yn Rhan 4 o'r Bil | £0 | £0 | £216,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £101,000 | £0 | £0 | **£317,000** |
| | **Llywodraeth Cymru** | Costau staff trosiannol Llywodraeth Cymru ar gyfer CSCAau lleol yn Rhan 4 o'r Bil | £0 | £0 | £121,100 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£121,100** |
| | **Llywodraeth Cymru** | Costau Cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni CSCAau lleol | £0 | £0 | £0 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | **£31,500,000** |
| | **Awdurdodau Lleol** | Costau cylchol yr eir iddynt wrth weinyddu'r trefniadau newydd ar gyfer CSCAau lleol (e.e. cynllunio'r gweithlu, ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg") | £0 | £0 | £0 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | **£1,783,600** |
| | **Estyn** | Costau cylchol yr eir iddynt gan Estyn wrth adolygu un CSCA lleol y flwyddyn | £0 | £0 | £0 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | **£164,500** |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 5 o'r Bil** | **Llywodraeth Cymru** | Costau trosiannol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru wrth sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | £139,300 | £625,200 | £963,100 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£1,727,600** |
| | **Llywodraeth Cymru** | Costau cylchol ychwanegol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru wrth ddarparu cymorth ariannol i redeg yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | £0 | £0 | £395,200 | £612,600 | £609,300 | £606,100 | £603,000 | £600,000 | £597,200 | £594,400 | **£4,617,800** |
| **Adolygiad Ar Ôl Gweithredu** | | Costau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad ar ôl gweithredu | £100,000 | £0 | £100,000 | £100,000 | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | £100,000 | **£600,000** |
| **Cyfieithu** | | Costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu dogfennau, canllawiau a rheoliadau sy'n deillio o'r Bil | £15,800 | £15,800 | £15,800 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£47,400** |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gost Y Flwyddyn** | | | £385,600 | £1,177,900 | £6,279,000 | £12,860,900 | £19,730,100 | £13,383,600 | £13,461,400 | £17,056,200 | £13,741,400 | £13,842,900 | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cost y Bil dros 10 Mlynedd** | | | **£111,919,000**<br>**(*Cost Ychwanegol £100,449,800 Cost Cyfle £11,469,200)**<br>*Mae llawer o'r costau hyn wedi'u cynnwys mewn cyllidebau presennol er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y Gymraeg a chefnogi cynlluniau'r gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Byddai angen iddynt barhau tan ddiwedd cyfnod gweithredu'r Bil. | | | | | | | | | | |

# 9. Asesiadau Effaith

9.1 Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn cyflwyno nifer o gynigion sy'n ymwneud yn bennaf â chynllunio addysgu Cymraeg ledled Cymru, darparu adnoddau ar ei gyfer a chefnogi'r gwaith o'i ddatblygu. Felly, mae'r effaith ar bobl, i raddau helaeth, yn effaith eilaidd a fydd yn digwydd dros yr hirdymor, drwy'r addysgu mewn ysgolion yn dilyn y newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, disgwylir i'r effaith eilaidd honno fod yn gadarnhaol, ar y cyfan, gan mai nod y Bil yw sicrhau mynediad cyfartal at y Gymraeg, a sicrhau bod pob plentyn, ni waeth ble mae'n byw yng Nghymru ac ni waeth beth fo'i gefndir ieithyddol neu unrhyw gefndir arall, yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg a dod yn siaradwr hyderus ac annibynnol.
.

9.2 Cynhaliwyd asesiadau effaith penodol wrth ddatblygu'r Bil. Rhoddir crynodeb o'r effeithiau isod, a chaiff yr asesiadau effaith penodol eu cyhoeddi fel y bo'n briodol. Cynhaliwyd asesiadau penodol er mwyn deall effeithiau'r Bil ar y meysydd canlynol:

- Hawliau plant
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg
- Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Prawfesur Gwledig
- Y System Gyfiawnder

9.3 Wrth gasglu tystiolaeth i ategu'r Asesiadau Effaith, mae swyddogion wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o gydweithwyr ym meysydd polisi, y gyfraith ac ymchwil yn y Llywodraeth. Denodd yr ymgynghoriad ar y papur gwyn, a'r ymarfer ymgysylltu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, yr oedd rhai ohonynt, megis Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Cymru, mewn sefyllfa i gyfleu safbwyntiau plant a phobl ifanc. Roedd llawer o ymatebwyr eraill yn cynrychioli rhanddeiliaid, partneriaid cyflawni a'r gweithlu addysgu.

9.4 Roedd y Llywodraeth hefyd yn ymwybodol fod Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi siom nad oedd swyddogion wedi ymgysylltu'n benodol â phlant ynglŷn â'r cynigion yn y papur gwyn. O ganlyniad, aeth y Llywodraeth ati i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy weithdai a gynhaliwyd ledled Cymru, a gynhaliwyd ar ei rhan gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Chwefror 2024. Hefyd, cynhaliwyd arolwg ansoddol gan dîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru yn ystod ei gwrs preswyl ym mis Chwefror 2024.

## *Hawliau Plant*

**Effaith gadarnhaol**

9.5 Nod y Bil yw sicrhau newidiadau a fydd, yn eu tro, yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael y cyfle i adael y system addysg â sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cefnogi hawliau plant i gael addysg, eu hawl i

ddysgu a defnyddio iaith eu teuluoedd a'u hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

9.6 Gallai cynyddu sgiliau Cymraeg dysgwyr hefyd arwain at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i'r unigolion hyn mewn cyflogaeth ac yn eu bywydau bob dydd. Bydd y manteision o ran cyflogaeth a sicrheir gan sgiliau iaith ychwanegol yn grymuso plant a phobl ifanc pan fyddant yn gadael y system addysg. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda trechu tlodi, gan gefnogi llwybrau allan o dlodi drwy addysg a sgiliau. Bydd gwella eu sgiliau Cymraeg yn cynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i blant a phobl ifanc.

9.7 Er mai prif effaith y cynigion hyn fydd gwella prosesau cynllunio addysg, gan gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i bob disgybl dros amser, bydd agweddau ar y Bil hefyd yn dod â rhagor o fanteision penodol.

9.8 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn cyfrannu at ddealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall lefel gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio mesurau gwrthrychol, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol.

9.9 Bydd categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg yn sicrhau cysondeb ac, yn yr hirdymor, yn sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgu Cymraeg i bob dysgwr yng Nghymru.

9.10 Bydd y Fframwaith Cenedlaethol a CSCAau lleol yn helpu i gynllunio ar gyfer gwell mynediad a mwy o gyfleoedd i bob dysgwr ddysgu Cymraeg.

9.11 Bydd gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hybu addysg cyfrwng Cymraeg a darparu gwybodaeth amdani yn gwella dealltwriaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cael effaith benodol ar bobl sydd â llai o ddealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol yng Nghymru ac sy'n llai cyfarwydd ag ef, neu'r rhai nad ydynt yn ymwybodol y gall plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

9.12 Byddai hybu a chynnig darpariaeth trochi hwyr hefyd yn ehangu mynediad at y Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n awyddus i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad.

9.13 Gwneir darpariaethau hefyd i sicrhau bod cymorth ar gael er mwyn helpu pob ysgol i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu'r ddarpariaeth addysgu Cymraeg ac ansawdd y ddarpariaeth honno, a fydd o fudd i bob dysgwr yng Nghymru yn y pen draw.

**Effeithiau negyddol posibl a mesurau lliniaru**

9.14 Wrth i ysgolion ddatblygu eu darpariaeth Gymraeg a chynyddu'r dysgu a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r galw am wasanaethau addysg

arbenigol neu adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gynyddu. Os nad ymdrinnir ag ef, mae'n bosibl y gallai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau addysg arbenigol.

9.15 Mae'r Llywodraeth o'r farn y gall y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n nodi gofynion a chanllawiau i ysgolion er mwyn cyflawni un o'i hegwyddorion craidd i greu system ddwyieithog, liniaru'r effaith. Mae 'cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg' hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu y bwriedir iddynt feithrin gallu ac arbenigedd er mwyn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan liniaru unrhyw effaith negyddol ymhellach.

9.16 Fodd bynnag, gan fod y galw am ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gynyddu, ochr yn ochr ag ymdrechion mwy strategol a bwriadol i gynllunio a chynyddu nifer yr ymarferwyr a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gallai'r cynigion wneud darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn fwy costeffeithiol.

9.17 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynigion olygu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac yn arbennig mewn ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at ddarparu'r isafswm oriau gofynnol (10%). Mae'n debygol mai dysgwyr yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg hyn fydd â'r lefel isaf o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac a fydd leiaf cyfarwydd â hi. Mae dysgwyr o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy tebygol o fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, ar gyfartaledd. O ganlyniad, ar gyfartaledd, mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o deimlo effaith unrhyw heriau cysylltiedig, ochr yn ochr â'r dysgwyr eraill yn yr ysgolion hyn.

9.18 Ar gyfartaledd, gall fod yn anodd i'r disgyblion hyn ymgysylltu'n llawn a chyflawni hyd eithaf eu gallu os caiff pynciau ehangach eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, neu os bydd cynnydd yn nifer y gwersi Cymraeg (fel pwnc) yn golygu bod llai o amser yn cael ei dreulio yn addysgu pynciau eraill. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Tîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru hefyd yn adleisio pryderon na ddylai addysgu Cymraeg gael blaenoriaeth dros addysgu pynciau allweddol megis Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ac na ddylai leihau ansawdd yr addysgu yn y pynciau hynny.

9.19 Caiff yr ysgolion sy'n symud o'r sylfaen isaf tuag at yr oriau gofynnol eu cefnogi mewn sawl ffordd. Ni chaiff yr oriau gofynnol eu cyflwyno yn syth ar ôl pasio'r Bil, er mwyn rhoi amser i ysgolion baratoi. Nod y gofyniad yn y Bil yw rhagnodi faint o addysg Gymraeg a ddylai gael ei darparu mewn ysgol, (y pwnc a'r iaith y mae dysgwyr yn dysgu drwyddi, yn hytrach na'r pwnc penodol ar ei ben ei hun). Felly, er enghraifft, gallai dysgwyr fod yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond wrth astudio pwnc gwahanol. Wrth gwrs, mewn ysgolion sy'n defnyddio llai o Gymraeg, mae'n debygol y

bydd y 10%, o reidrwydd, yn golygu dysgu Cymraeg fel pwnc. Mae gan yr ysgol yr hyblygrwydd i benderfynu.

9.20 Bydd yn bwysig bod yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y corff statudol newydd a sefydlir yn y Bil) yn adeiladu ar waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sydd â phrofiad o ymgysylltu â phobl o gefndiroedd di-Gymraeg, y rhai sy'n newydd i Gymru a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu a theilwra cyrsiau ac adnoddau i helpu pobl o amrywiaeth o gefndiroedd i gael mynediad at y Gymraeg a'i dysgu, ac wedi llunio strategaeth er mwyn cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â phobl o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

9.21 Bydd angen i'r Athrofa adeiladu ar ei phrofiad o ddatblygu cyrsiau a sicrhau bod ganddi ddigon o allu ac arbenigedd i ddylanwadu ar ddysgu gydol oes a'i gefnogi. I'r perwyl hwn, bydd yn rhaid i'r Athrofa feithrin gallu a datblygu arbenigedd er mwyn cefnogi dysgu Cymraeg yn y sector ysgolion.

9.22 Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil yn cynnig cyfle i ehangu mynediad i ddysgwyr nad ydynt, ar gyfartaledd, wedi ymgysylltu'n hanesyddol ag addysg cyfrwng Cymraeg i'r un graddau â dysgwyr eraill. Mae'r cynigion a'r broses o'u rhoi ar waith hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i gynllunwyr addysg feithrin ymhellach eu dealltwriaeth o safbwyntiau dysgwyr yn y grwpiau hyn (a'u rhieni) a'r rhwystrau posibl y maent yn eu hwynebu.

## *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*

9.23 Mae'r newidiadau arfaethedig yn creu cyfleoedd i gynllunio'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn gynhwysol i bawb. Mae'r cyfle hwn wedi'i gydnabod gan randdeiliaid allweddol yn ystod camau ymgynghori a datblygu'r Bil.

### Effaith Gadarnhaol

9.24 Yn benodol, byddai'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn cyfrannu at ddealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig ar bob cam o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg. Yn yr un modd, bydd cyflogwyr mewn sefyllfa well i ddeall lefel gallu ymgeisydd yn yr iaith drwy ddefnyddio mesurau gwrthrychol, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol. O ganlyniad, gallai hyn hefyd leihau'r risg y bydd cyflogwyr yn defnyddio barn oddrychol, a allai fod yn rhagfarnllyd neu'n ystrydebol, am alluoedd ieithyddol ymgeisydd. Er enghraifft, tybir weithiau na all Cymry Du siarad Cymraeg.

9.25 Bydd categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg yn sicrhau cysondeb a mynediad cyfartal at addysgu Cymraeg i bob dysgwr yng Nghymru. Bydd categoreiddio yn rhoi eglurder i rieni/gwarcheidwaid a dysgwyr ynglŷn â'r ddarpariaeth iaith yn eu hysgol a'r deilliannau ieithyddol disgwyliedig i'r dysgwyr.

9.26 Bydd y Fframwaith Cenedlaethol a CSCAau lleol yn gwella prosesau cynllunio Cymraeg mewn addysg. Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu ar gyfer gwaith cynllunio mwy effeithiol ac ymatebol mewn perthynas â grwpiau lleiafrifol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cynllunwyr addysg yn cael cyfleoedd i feithrin, dros amser, ddealltwriaeth well o ofynion cymorth a dysgu pob dysgwr sy'n byw yn ardaloedd yr awdurdodau lleol.

9.27 Bydd cynigion i osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau i hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu CSCAau lleol yn gwella dealltwriaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ac yn nodi deilliannau ieithyddol disgwyliedig dysgwyr yn gliriach. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith benodol ar bobl sydd â llai o ddealltwriaeth o'r cyd-destun diwylliannol-ieithyddol yng Nghymru ac sy'n llai cyfarwydd ag ef, neu'r rhai nad ydynt yn ymwybodol y gall plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol; pobl ag anableddau; pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill; neu bobl sydd wedi symud i Gymru, y mae'n bosibl na fyddant wedi ymgysylltu cymaint ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r dulliau traddodiadol.

9.28 Bydd darpariaeth trochi hwyr yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn sicrhau y bydd y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i deuluoedd sydd wedi symud i Gymru a bydd yn rhoi mwy o gymorth iddynt ac yn galluogi teuluoedd o'r fath i ymgysylltu â'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, gan sicrhau, ar yr un pryd, y gall eu plant gael yr un cyfleoedd addysgol â phob dysgwr arall yng Nghymru.

**Effeithiau negyddol posibl a mesurau lliniaru**

9.29 Ar gyfartaledd, mae dysgwyr o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy tebygol o fynd i ysgolion sy'n debygol o wynebu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser. O ganlyniad, ar gyfartaledd, mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o deimlo effaith unrhyw heriau cysylltiedig. Trafodir yr heriau hyn a'r mesurau lliniaru sydd ar waith o dan y pennawd Hawliau Plant, uchod.

9.30 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfeiriwyd at y mater hwn gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn. Amlinellir y mater hwn, a'r mesurau lliniaru o dan y pennawd Hawliau Plant uchod.

9.31 Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn fod diffyg amrywiaeth yn y sector addysg ar hyn o bryd, a bod angen cymryd camau i ddenu mwy o unigolion o grwpiau lleiafrifol i'r proffesiwn. Ategwyd hyn gan gyflwyniad y Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc, a nododd hefyd fod pobl ifanc yn aml yn sôn am ddiffyg amrywiaeth, yn

arbennig mewn perthynas ag athrawon o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, a chynrychiolaeth pobl anabl yn y proffesiwn.

9.32 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd proffesiwn amrywiol yn rhoi hwb mawr i ymdrechion i ddatblygu addysgu effeithiol ac ymatebol a mynediad at y Gymraeg i bawb. Er nad yw'r mater hwn yn cael ei achosi gan y cynigion, gallai'r Bil waethygu'r sefyllfa bresennol os bydd y gweithlu yn parhau i gael ei nodweddu gan ddiffyg amrywiaeth. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd swyddi gwag yn codi mewn rhai ysgolion yn y byrdymor ac mai dim ond dros gyfnod hwy o amser y gellir gwella amrywiaeth y gweithlu.

9.33 Fodd bynnag, mae'r cynigion yn y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu ar sail y CSCAau lleol. Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg', sef cynllun 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r gweithlu Cymraeg mewn ysgolion er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn *Cymraeg 2050*, hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys y rhai i helpu i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg o gefndir ethnig leiafrifol yn unol â'r 'Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon'. O ganlyniad, mae'r Bil yn galluogi'r sector i gynllunio ar gyfer gweithlu mwy amrywiol.

## *Y Gymraeg*

9.34 Bydd y cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy ehangu mynediad plant a phobl ifanc at y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg a thrwy roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, ni waeth beth fo categori iaith yr ysgol y maent yn mynd iddi neu ym mha gymuned y maent yn byw.

9.35 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni'r targedau i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac a all siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau o Gymraeg i 20% erbyn 2050. Un o nodau'r strategaeth yw 'creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus'. Nod y cynigion hyn yw cyflawni'r targedau hyn drwy ehangu mynediad at y Gymraeg i ddisgyblion yng Nghymru, ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru, a thrwy sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg ym mhob ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

9.36 Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod gan y sector cyfrwng Saesneg gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. Mae'r strategaeth yn nodi bod angen 'gweddnewid' y ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu yn yr ysgolion hyn. Nod y Bil yw cynyddu'r ddarpariaeth addysgu Cymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. Drwy'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio

gallu yn y Gymraeg, bydd hefyd yn rhoi llwyfan i bob dysgwr allu parhau ar ei daith dysgu Cymraeg drwy gydol ei addysg ffurfiol ac ar ôl hynny.

9.37 Byddai rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn gosod sylfaen gadarn i awdurdodau lleol allu gwneud penderfyniadau uchelgeisiol ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Bydd y lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllunio dysgu Cymraeg gydol oes ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol a ddisgwylir ar bob cam o'r daith.

9.38 Byddai'r Fframwaith Cenedlaethol yn pennu cyfeiriad strategol y penderfynwyd arno gan Weinidogion Cymru a fframwaith er mwyn i'r sector dysgu a chaffael Cymraeg cyfan gyflawni'r nod hirdymor o sicrhau miliwn o siaradwyr a chreu un system sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr.

9.39 Bydd CSCAau lleol yn ehangu mynediad disgyblion ledled Cymru at addysg cyfrwng Cymraeg, ni waeth ym mha ran o Gymru y maent yn byw, ac yn cynyddu nifer y disgyblion sy'n datblygu sgiliau Cymraeg. Fel rhan o'r cynnig hwn, byddai awdurdodau lleol yn gweithio tuag at gyflawni'r targed(au) unigol a bennwyd ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol, drwy'r system addysg, gynnal neu wella cynaliadwyedd eu cymunedau Cymraeg.

9.40 Byddai hybu addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth trochi hwyr hefyd yn ehangu mynediad at y Gymraeg ar gyfer disgyblion yng Nghymru dros amser, gan gynnwys disgyblion sy'n awyddus i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad.

9.41 Byddai'r cynnig i ganoli darpariaeth cymorth arbenigol yn cynnig sefydlogrwydd, cysondeb a chyfeiriad hirdymor i'r sector dysgu Cymraeg.

## *Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol*

9.42 Nod y Bil yw gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr yng Nghymru, ni waeth beth fo'i gefndir. Nod y Bil yw sicrhau darpariaeth gyson ledled Cymru, i bob cymuned, a sicrhau bod deilliannau ieithyddol disgwyliedig dysgwyr hefyd yn gyson.

9.43 Bydd sgiliau Cymraeg gwell yn galluogi pobl i fanteisio ar fwy o gyfleoedd cyflogaeth lle mae'r Gymraeg yn sgìl ddymunol neu angenrheidiol. Bydd hyn yn galluogi pob plentyn sy'n cael budd o'r cynigion hyn i fanteisio ar fwy o lwybrau allan o dlodi drwy gyflogaeth.

### Effeithiau negyddol posibl a mesurau lliniaru

9.44 Ar gyfartaledd, mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fynd i ysgolion a fydd yn wynebu mwy o newid a diwygio dros gyfnod hwy o amser. O ganlyniad, ar gyfartaledd, mae'r dysgwyr hyn yn fwy tebygol o deimlo effaith unrhyw heriau cysylltiedig. Trafodir yr heriau hyn a'r mesurau lliniaru sydd ar waith o dan y pennawd Hawliau Plant, uchod.

9.45 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Bil yn cynnig cyfle i ehangu mynediad i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt yn hanesyddol wedi mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r un graddau â dysgwyr eraill. Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnwys camau yn eu CSCA lleol sy'n ymwneud â hybu addysg cyfrwng Cymraeg y bwriedir iddynt fynd i'r afael â'r diffyg mynediad hanesyddol hwn.

## *Prawfesur Gwledig*

9.46 Bydd yr effaith ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gadarnhaol, ar y cyfan, gan y bydd dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael mwy o gyfleoedd i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus.

9.47 Yn aml mae cymunedau Cymraeg wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig ac maent yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau cyfrwng Cymraeg. Gall fod yn anodd i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ymuno yn y cymunedau a'r lleoliadau hyn. Gellir tarfu ar gydbwysedd ieithyddol y cymunedau, y lleoliadau a'r gwasanaethau, os bydd yn rhaid i drigolion a defnyddwyr droi at y Saesneg yn rheolaidd. Gyda mwy o gyfleoedd i fwy o bobl ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol, bydd mwy o bobl hefyd yn gallu ymuno â lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chymunedau Cymraeg ac ymgysylltu â nhw.

9.48 Bydd cael cyfle i ddysgu Cymraeg hefyd yn helpu plant a theuluoedd sydd wedi symud i gymunedau lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg i ymgysylltu â'r cymunedau Cymraeg hynny a dod yn rhan ohonynt.

9.49 Gyda mwy o fynediad, a mynediad haws, at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'n debygol y bydd llai o angen i ddysgwyr deithio i gael addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd mewn perthynas â theithio a thlodi tanwydd.

### Effeithiau negyddol posibl a mesurau lliniaru

9.50 Efallai y bydd ardaloedd gwledig yn wynebu heriau ychwanegol o ran recriwtio staff a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. CSCAau yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy pob awdurdod lleol ar gyfer 2022-32. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CSCAau lleol ystyried yr heriau a ddisgrifir yn eu cynlluniau hirdymor ar gyfer y

gweithlu. Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn nodi nifer o gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

9.51 Mae'r Bil yn cynnig y dylid sefydlu corff canolog ar gyfer cymorth: yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr Athrofa yn darparu cymorth i ysgolion ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu darpariaeth addysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi ymestyn y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig mewn ymateb i bandemig COVID-19. Bydd yn bwysig bod yr Athrofa yn parhau â'r gwaith hwn a'i bod mewn sefyllfa i roi cyngor ar y ddarpariaeth a'r adnoddau ar-lein er mwyn ategu addysgu a lleihau unrhyw fylchau hirdymor, ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth a'r adnoddau hyn.

## *Cyfiawnder*

9.52 Mae effeithiau posibl y cynigion ar y system gyfiawnder wedi'u hystyried. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Daethpwyd i'r casgliad hwn am fod y Bil yn weinyddol ei natur, a'i fod yn gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff addysg yng Nghymru ei chynllunio er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

9.53 Nid yw'r Bil:

- yn creu nac yn diwygio trosedd
- yn creu nac yn diwygio cosb sifil neu gosb benodedig newydd
- yn creu gorchymyn na gwaharddeb sifil, y gallai ei dorri (ei thorri) arwain at achos pellach neu gosbau troseddol
- yn creu nac yn diwygio dedfrydau na chosbau
- yn creu nac yn diwygio rheolau trefniadaeth llysoedd na thribiwnlysoedd
- yn golygu newidiadau i geisiadau i'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys adolygiad barnwrol
- yn ymwneud ag awdurdodaeth tribiwnlys newydd
- yn creu mecanwaith apelio
- yn gofyn am sefydlu mecanweithiau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, cosbau sifil neu gosbau troseddol
- yn arwain at newid yn nifer y troseddwyr sy'n oedolion sy'n cael eu hanfon i'r carchar neu eu rhoi ar brawf
- yn arwain at newid yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol nac yn nifer y plant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa
- yn arwain at newid yn hyd dedfrydau o garchar.

### *Effaith ar Lwyth Gwaith Staff Addysg Ysgolion*

9.54 Ar y cyfan, rydym yn rhagweld y bydd gweithredu'r Bil yn arwain at rywfaint o waith ychwanegol i arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion, rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu, a swyddogion awdurdodau lleol.

9.55 Y brif effaith ar lwyth gwaith ysgolion yw mewn perthynas â pharatoi a gweithredu cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol. Bydd graddfa a maint y gwaith sydd ei angen yn dibynnu ar (a) y ddarpariaeth Gymraeg gyfredol yn yr ysgol, (b) gallu sgiliau Cymraeg presennol gweithlu'r ysgol, a (c) yr uchelgais y bydd yr ysgol yn ei osod yn ei chynllun cyflawni o ran cynyddu a/neu wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

9.56 Bydd llwyth gwaith ychwanegol yn cynnwys:

- ymgyfarwyddo â rheoliadau a chanllawiau newydd – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion, rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu, a swyddogion awdurdodau lleol
- datblygu ac ymgynghori ar gynllun cyflawni addysg Gymraeg – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion yn bennaf
- goruchwylio gweithredu'r cynllun cyflawni – arweinwyr, llywodraethwyr ysgolion yn bennaf
- ymgyfarwyddo â dulliau addysgeg newydd a/neu unrhyw ofynion cwricwlwm/cymhwyster newydd, yn ogystal â hyfforddiant a chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth – rhai athrawon a chynorthwywyr dysgu yn bennaf
- sicrhau bod digon o staff yn yr ysgol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol, gan oresgyn heriau recriwtio a chadw posibl – arweinwyr yn bennaf

9.57 Bydd y cynlluniau cyflawni yn ofyniad newydd i ysgolion, gyda'r paratoi'n dechrau yn 2029/30 i'w gweithredu o fis Medi 2030. O dan fusnes fel arfer, efallai y bydd cynllunio tebyg wedi cael ei wneud trwy'r cynllun datblygu ysgolion. Bydd cynlluniau cyflawni yn casglu gwybodaeth mewn ffordd fwy cyson ar draws ysgolion i hwyluso cymorth wedi'i dargedu ar lefel genedlaethol.

9.58 Yn y tymor hwy, trwy safoni dulliau, mae'r Bil yn ceisio gwneud y prosesau cynllunio yn fwy effeithlon ac i gymryd llawer llai o amser, gan leihau llwyth gwaith o bosibl. Disgwylir i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn  y Gymraeg hefyd arwain at effeithlonrwydd, drwy ddarparu cymorth ac arweiniad, a thrwy ddatblygu adnoddau newydd.

# 10. Asesiad o Fforddiadwyedd

10.1 Pan fydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac, felly, yn cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, asesiad ariannol yw asesiad o fforddiadwyedd a dim mwy. Felly, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod a gaiff eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ac unrhyw gostau a manteision economaidd ehangach a nodir mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu dileu o asesiad o fforddiadwyedd.

10.2 Mae'r asesiad o fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod o amser â chyfnod arfarnu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sef 2025–26 i 2034–35.

10.3 Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n ymwneud â rhoi'r Bil ar waith a datblygu rheoliadau. Gan nad yw'r costau cyfle hyn yn gostau ariannol ychwanegol i'r sefydliadau dan sylw, maent wedi'u dileu o'r asesiad hwn o fforddiadwyedd. Er enghraifft, ystyrir mai costau cyfle yw'r costau i ysgolion sy'n gysylltiedig â llunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ac, felly, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn.

10.4 Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu er mwyn adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu. Gwnaed yr addasiad hwn ar sail yr amcanestyniadau datchwyddydd cynnyrch domestig gros a gynhwyswyd yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebo (OBR)[28], a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025. Dim ond tan 2027-28 y mae rhagolygon yr OBR yn ymestyn, ond mae’r rhagolygon yn setlo ar 1.9% tuag at ddiwedd y cyfnod rhagweld, ac felly defnyddiwyd cyfartaledd rhagolygon yr OBR ar gyfer gweddill ein cyfnod arfarnu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

10.5 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf. Mewn rhai tablau, efallai y bydd anghysondeb bach rhwng swm y costau a'r cyfansymiau oherwydd y talgrynnu hwn.

**Llywodraeth Cymru**

10.6 Nodir y costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn Nhabl 20.

10.7 Nodwyd costau staff ychwanegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefydlu Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Caiff y costau hyn eu hariannu o gyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru.

---

[28] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagolwg economaidd a chyllidol – Mawrth 2025

10.8 Bydd cost ychwanegol sefydlu a rhedeg yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol dros y cyfnod arfarnu yn cael eu gyllido drwy ail-ddosbarthu'r grant presennol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r cyllid i gefnogi gweithredu'r Bil.

10.9 Gwneir rhagdybiaeth y bydd angen i lefelau presennol cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion barhau drwy gydol y cyfnod gwerthuso i wireddu uchelgeisiau'r Bil, gyda chynnydd blynyddol bach yn y cyllid ar gyfer addysg trochi hwyr. Ariannir y costau hyn drwy nifer o grantiau presennol o fewn cyllidebau rhaglenni Llywodraeth Cymru. Serch hynny, gan nad yw cyllid yn y dyfodol wedi'i gytuno eto, cynrychiolir y costau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel costau ychwanegol y Bil.

10.10 Bydd costau sy'n gysylltiedig â chefnogi addysg drochi hwyr yn Gymraeg i ddisgyblion yn parhau i gael eu hariannu gan linyn Cymraeg 2050 Grant Addysg Awdurdodau Lleol. Bydd angen archwilio opsiynau i godi'r gyllideb yn rheolaidd yn y blynyddoedd i ddod fel rhan o'r broses sefydlu cyllideb yn y dyfodol.

10.11 Cydnabyddir y gallai fod angen nodi cyllid ychwanegol i ariannu costau staff neu ddarpariaeth drochi ysgolion er mwyn helpu i roi'r Bil ar waith yn ystod ei oes. Ystyrir hyn yn ystod y cam gweithredu, er enghraifft, yn yr adolygiadau o'r Fframwaith Cenedlaethol a gynhelir bob pum mlynedd.

10.12 Caiff Asesiadau Effaith Rheoleiddiol eu gosod gerbron y Senedd ochr yn ochr ag is-ddeddfwriaeth er mwyn nodi ac ystyried y costau amcangyfrifedig a fforddiadwyedd i Lywodraeth Cymru a sefydliadau allanol.

**Awdurdodau Lleol**

10.13 Nodir y costau staff cylchol amcangyfrifedig ychwanegol i awdurdodau lleol yn Nhabl 21.Caiff y rhain eu hariannu drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

**Estyn**

10.14 Caiff y costau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau cyflym o CSCAau lleol awdurdodau lleol gan Estyn eu hariannu gan amcanion Adrannol Llywodraeth Cymru (Tabl 22).

**Crynodeb Cyffredinol**

10.15 Mae cyfanswm costau ychwanegol y Bil wedi'u cynnwys yn Nhabl 19. Yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellwyd uchod, ein hasesiad yw y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod arfarnu.

*Tabl 20 – Costau ariannol a briodolir i Lywodraeth Cymru*

| **Disgrifiad o'r Costau** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** | **2033-34** | **2034-35** | **Cyfanswm y Gost** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i ysgolion er mwyn iddynt allu parhau i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a, lle y bo'n berthnasol, symud i gategori iaith uwch* | £0 | £0 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | £4,370,000 | **£34,960,000** |
| Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cynnig darpariaeth trochi Cymraeg hwyr* | £0 | £0 | £0 | £3,000,000 | £3,060,100 | £3,119,600 | £3,200,500 | £3,291,100 | £3,386,300 | £3,490,600 | **£22,548,000** |
| Costau Cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni CSCAau lleol* | £0 | £0 | £0 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | £4,500,000 | **£31,500,000** |
| Costau staff trosiannol Llywodraeth Cymru yr eir iddynt wrth sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | £133,300 | £164,200 | £133,300 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£430,800** |
| Costau trosiannol eraill yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru wrth Sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | £6000 | £461,000 | £829,800 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£1,296,800** |
| Costau cylchol yr eir iddynt gan Lywodraeth Cymru wrth ddarparu cymorth ariannol i redeg yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol | £0 | £0 | £395,200 | £612,600 | £609,300 | £606,100 | £603,000 | £600,000 | £597,200 | £594,400 | £4,617,800 |
| Costau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad ar ôl gweithredu | £100,000 | £0 | £100,000 | £100,000 | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | £100,000 | **£600,000** |
| **Cyfanswm y gost** | £239,900 | £625,200 | £5,828,300 | £12,582,600 | £12,639,400 | £12,595,700 | £12,673,500 | £12,761,100 | £12,953,500 | £13,055,000 | **£95,953,600** |
| **Cyfanswm y gost wedi'i addasu yn ôl chwyddiant** | **£254,800** | **£677,200** | **£6,438,800** | **£14,164,800** | **£14,499,100** | **£14,723,500** | **£15,096,000** | **£15,489,100** | **£16,021,300** | **£16,453,700** | **£113,818,300** |

*Tabl 21 – Costau Ariannol a Briodolir i Awdurdodau Lleol*

| Disgrifiad o'r Costau | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau cylchol yr eir iddynt wrth gymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | £509,600 | | **£2,548,000** |
| Costau cylchol yr eir iddynt wrth weinyddu'r trefniadau newydd ar gyfer CSCAau lleol | £0 | £0 | £0 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | £254,800 | | **£1,783,600** |
| **Cyfanswm y Gost** | **£0** | **£0** | **£0** | **£254,800** | **£254,800** | **£764,400** | **£764,400** | **£764,400** | **£764,400** | **£764,400** | | **£4,331,600** |
| **Cyfanswm y gost wedi'i addasu yn ôl chwyddiant** | **£0** | **£0** | **£0** | **£286,800** | **£292,300** | **£893,500** | **£910,500** | **£927,800** | **£945,400** | **£963,400** | | **£5,219,800** |

*Tabl 22 – Costau ariannol a briodolir i Estyn*

| Disgrifiad o'r Costau | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | | Cyfanswm y Gost |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau cylchol yr eir iddynt gan Estyn wrth adolygu un CSCA lleol y flwyddyn | £0 | £0 | £0 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | £23,500 | | **£164,500** |
| **Cyfanswm y gost wedi'i addasu yn ôl chwyddiant** | **£0** | **£0** | **£0** | **£26,500** | **£27,000** | **£27,500** | **£28,000** | **£28,500** | **£29,100** | **£29,600** | | **£196,200** |

# 11. Adolygiad Ar Ôl Gweithredu

11.1 Cyflwynir Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yng nghyd-destun yr her sylweddol a osodir gan strategaeth *Cymraeg 2050*, a'r targed o filiwn o siaradwyr. Bydd hyn yn golygu newidiadau trawsnewidiol i'r seilwaith sy'n ategu polisi iaith Gymraeg ac, yn benodol, rôl addysg yn y broses hon.

11.2 Mae'r Bil hefyd yn nodi camau i annog newid ymddygiad hirdymor er mwyn i bolisi iaith Gymraeg gael ei hymgorffori yn y broses gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol.

11.3 Er mwyn cyfrif yn effeithiol am y cymhlethdod hwn a sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r polisi yn effeithiol, bydd angen cwblhau asesiad o werthusadwyedd yn fuan ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith. Bydd hyn yn helpu i nodi natur a chwmpas y rhaglen werthuso ac argaeledd data perthnasol er mwyn monitro cynnydd.

11.4 Bydd y broses hon hefyd yn cynnig cyfle i ailystyried y Ddamcaniaeth Newid wreiddiol a luniwyd ar gyfer y Bil, rhoi cyfrif am unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi yn ystod y broses ddrafftio ddeddfwriaethol a sicrhau y caiff canlyniadau ac effeithiau bwriadedig ymyriadau polisi gwahanol eu cyfleu a'u nodi'n glir.

11.5 Ar y sail hon y caiff y broses werthuso ar gyfer y Bil ei llunio. Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith a bydd yn canolbwyntio ar b'un a yw newidiadau polisi yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd ac a ydynt yn arwain at welliannau i'r seilwaith sy'n ategu'r gwaith o gynllunio polisi iaith Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i elfennau penodol o'r Bil megis y Fframwaith Cenedlaethol a'r broses newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn seiliedig ar y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg.

11.6 Cynhelir gwerthusiad crynodol tua diwedd y cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd (a fydd yn cynnwys y gwaith a wnaed i ddatblygu'r ddau Fframwaith Cenedlaethol cyntaf a CSCAau lleol) er mwyn nodi a yw'r Bil wedi cael yr effaith a ddymunir ar nifer y disgyblion sy'n gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn annibynnol ac yn hyderus.

11.7 Bydd y gwerthusiad crynodol hefyd yn cynnig cyfle i nodi a yw'r Bil wedi sicrhau'r newid ymddygiad a ddymunir o ran cynllunio ar gyfer y Gymraeg. Gallai fod yn fuddiol defnyddio modelau newid ymddygiad megis COM-B yn ystod y broses hon er mwyn deall a ellir priodoli Gallu, Cyfle a/neu Gymhelliant rhanddeiliaid allweddol i fabwysiadu'r ymddygiad a ddymunir i'r Bil[29].

---

[29] Behaviour change: guides for national and local government and partners (GOV.UK)

11.8 Er mwyn rhoi'r Bil ar waith yn effeithiol, bydd angen deall y rhwystrau i grwpiau penodol (fel y'u nodwyd yn yr asesiadau effaith) ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â'r Bil. At hynny, mae angen nodi canlyniadau bwriadedig cadarnhaol y Bil o ran sicrhau mynediad at ddarpariaeth Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru. Caiff hyn ei ystyried mewn gwerthusiadau crynodol a ffurfiannol.

11.9 Yn olaf, cwblheir gwerthusiad economaidd er mwyn nodi unrhyw wahaniaethau rhwng costau gwirioneddol y Bil a'r costau a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a ddiwygiwyd yn dilyn trafodion Cyfnod 2 ar 13 a 19 Chwefror 2025*

# Atodiad 1

## Nodiadau Esboniadol

# BIL Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU)

---

NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 15 Gorffennaf 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar un o ddarpariaethau'r Bil, nis rhoddir.

**CRYNODEB A'R CEFNDIR**

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Prif amcan y Bil hwn yw cyfrannu at y nod hwnnw drwy geisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Yn benodol, yr amcan yw i bob disgybl feithrin sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.


3. Yn gryno, bydd y Bil:
   a) yn rhoi sail statudol i'r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy ei gwneud yn ofynnol i strategaeth y Gymraeg gynnwys targed o o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol;
   b) yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd;
   c) yn gwneud darpariaeth ynghylch dynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, ynghyd â gofynion o ran swm yr addysg Gymraeg a

ddarperir (yn cynnwys isafswm) a nodau dysgu Cymraeg sydd ynghlwm wrth y categorïau;

d) yn cysylltu'r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel sirol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg);

e) yn sefydlu corff statudol, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu Cymraeg.

4. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae Rhannau gwahanol o'r Bil yn cyd-blethu i gyflawni'r prif nod o hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg ar lefel cenedlaethol, awdurdod lleol ac ysgol:




*5.* Dyma (yn fras) strwythur y cynllunio ieithyddol, a'r atebolrwydd am y camau sydd i'w cymryd yn unol â hynny, a gyflwynir gan y Bil. Drwy hyn nodir y prif ddyletswyddau y gosodir ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion: -

*Y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg*

a) Mae gofyniad ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu

Cymraeg (adran 26), ac mae'n rhaid iddynt adrodd ar y Fframwaith Cenedlaethol yn flynyddol (adran 29).

*Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol*

b) Mae rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r targedau a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol (adran 26), a rhaid i'w gynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru (adran 32). Mae hefyd rhaid i bob awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg (adran 33).

*Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion*

c) Mae rhaid i gynllun cyflawni pob ysgol roi sylw i gynllun strategol lleol yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a chael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol hwnnw (adrannau 14 a 15). Mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod yr ysgol yn darparu'r swm o addysg Gymraeg sydd wedi ei bennu ar gyfer categori iaith yr ysgol (adran 10(4)) a chymryd pob cam rhesymol (adran 15(9)) i weithredu'r cynigion ar wella addysg Gymraeg sydd yn ei gynllun cyflawni (gweler adran 14(e), (f), (g) a (h)).

*Arolygu*

d) Bydd gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru y swyddogaeth o arolygu'r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion, a'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau o ran addysg Gymraeg (o dan Ddeddfau Addysg 1997 a Deddf Addysg 2005 — gweler y sylwebaeth ar adran 50 am fwy o fanylion).

*Pwerau ymyrryd*

e) Os oes methiant gan gorff llywodraethu ysgol neu awdurdod lleol i gydymffurfio â dyletswydd o dan y Bil, neu os ydynt yn ymddwyn yn afresymol wrth gyflawni swyddogaeth o dan y Bil, mae pwerau ymyrryd gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol o dan Ddeddf Safonau Addysg a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (gweler y sylwebaeth ar adran 50 am fwy o fanylion).

6. Mae'r Bil yn cynnwys 57 o adrannau a dwy Atodlen.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 1 – Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg

### Adran 1 – Targedau strategaeth y Gymraeg: o leiaf miliwn o siaradwyr a chynnydd mewn defnydd

7. Effaith adran 1(1)(a) yw ei bod yn ofynnol i strategaeth Gweinidogion Cymru ar hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("strategaeth y Gymraeg"), gynnwys y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn darparu na chaiff

unrhyw darged a osodir gan y strategaeth fod yn is nag un filiwn, ac mae'n adlewyrchu'r targed a geir yn "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr", a gyhoeddwyd yn 2017, ac yn rhoi sail statudol iddo.

8. O dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae rhaid i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth Gymraeg sy'n nodi eu cynigion ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth a'i gosod gerbron y Senedd. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar sut y gweithredwyd y cynigion yn y strategaeth a nodi pa mor effeithiol y bu gweithredu'r cynigion yn y strategaeth wrth hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi cynllun cyn dechrau pob blwyddyn ariannol sy'n nodi sut maent yn mynd i weithredu'r cynigion yn y strategaeth yn ystod y flwyddyn honno.

9. Mae adran 1 hefyd yn darparu ar gyfer elfennau eraill y mae rhaid i'r strategaeth eu cynnwys. Rhaid i'r strategaeth osod targedau ynglŷn â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol; i gynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion categori "Prif iaith – Cymraeg"; i gynyddu nifer yr ysgolion categori "Prif iaith – Cymraeg"; i gynyddu swm yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" a "Prif iaith – Saesneg, rannol Gymraeg"; ac i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg (adran 1(1)(b) i (d)). Mae'r targed o gael miliwn o siaradwyr yn hollbwysig i nod cyffredinol y Bil hwn, sef cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio, a'r targedau pellach a osodir ar lefel genedlaethol, awdurdod lleol neu ysgol – boed y targedau hynny ar gyfer gweithleoedd, yn gymdeithasol neu ar gyfer y sector addysg a dysgu Cymraeg. Bwriedir hefyd i dargedau'r strategaeth osod cyd-destun a chyfeiriad i Weinidogion Cymru, i awdurdodau lleol, i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac i ysgolion wrth iddynt fynd ati i gynllunio ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Bydd angen gweithredu cydlynol ar sawl lefel er mwyn gallu gwireddu nod cyffredinol y Bil. Er enghraifft, mae'r targedau sy'n ymwneud ag addysg a bennir yn y strategaeth, yn unol ag adran 1(1)(c), yn sail i'r cynnwys a'r targedau a osodir yn Fframwaith Cenedlaethol Gweinidogion Cymru ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg (gweler Rhan 4).

10. Mae adran 1(2) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r targedau sy'n ofynnol i'r strategaeth eu gosod sydd wedi eu cynnwys yn adran 1(1)(c) sy'n ymwneud â chynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg mewn ysgolion categori "Prif iaith – Cymraeg"; cynyddu nifer yr ysgolion categori "Prif iaith – Cymraeg "; a chynyddu swm yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" a "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

11. Mae adran 1(1)(e) ac (f) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnwys yn y strategaeth wybodaeth am y camau y byddant yn eu cymryd i annog trosglwyddo'r Gymraeg a phennu meini prawf ar gyfer y daith tuag at

wireddu'r targed o filiwn o siaradwyr a'r targedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio a chaffael yr iaith.

12. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y targedau wrth iddynt nodi eu cynigion ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn y strategaeth (adran 1(3)). Mae adran 1(4) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt esbonio yn flynyddol (yn y cynllun a gyhoeddir o dan adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yr hyn y byddant yn ei wneud i gyflawni'r targedau y cyfeirir atynt yn adran 1(1)(a) a (b). Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt, yn unol ag adran 29, gynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol (o dan adran 78(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) am sut y gweithredwyd y Fframwaith Cenedlaethol, a gwybodaeth yn y cynllun (o dan adran 78(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) am sut y byddant yn gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu cynigion y strategaeth.

13. Mae adran 1(5) yn diwygio adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ganlyniad i'r darpariaethau hyn, ac yn ychwanegu Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai statudol pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar strategaeth y Gymraeg newydd neu ar ddiwygiadau iddi.

## Adran 2 – Adrodd ar y targedau yn strategaeth y Gymraeg

14. Mae'r adran hon yn ffurfioli rôl atebolrwydd y Senedd o ran y targed o filiwn o siaradwyr a'r targedau eraill yn strategaeth y Gymraeg er mwyn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i alluogi gwireddu'r targedau. Mae'r adran hon yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar sut y gweithredwyd eu cynigion yn strategaeth y Gymraeg.

15. O leiaf unwaith pob 5 mlynedd mae rhaid i'r adroddiad o dan adran 78(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gynnwys dadansoddiad o sefyllfa'r Gymraeg, sy'n cynnwys yr elfennau a restrir yn adran 2(1)(a) i (e). Mae hefyd yn ofynnol i'r dadansoddiad asesu'r tebygolrwydd y bydd targedau strategaeth y Gymraeg yn cael eu cyflawni, gan gyfeirio at y meini prawf sydd wedi eu pennu i fesur cynnydd yn erbyn y targedau (adran 1(1)(f)).

16. Yn dilyn dadansoddiad o'r fath, ac os yw Gweinidogion Cymru yn dod i'r casgliad nad yw targed yn debygol o gael ei gyflawni, mae adran 2(2) i (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad gerbron y Senedd i esbonio'r rhesymau am hynny a nodi'r camau pellach y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r targed.

## Adran 3 – Cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg

17. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut mae cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2.

18. O dan adran 3(1) bydd rheoliadau gan Weinidogion Cymru yn datgan y ffynonellau data sydd i'w defnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg, a bydd rhaid ystyried unrhyw ddata perthnasol sy'n deillio o gyfrifiad a gynhelir yn unol â Deddf Cyfrifiad 1920. Mae adran 3(2) yn datgan mai hunanasesiad (hynny yw, asesiad yr unigolyn ei hun o'i allu yn y Gymraeg) yw sail penderfyniad ynghylch a yw person yn siaradwr Cymraeg ar gyfer personau 17 oed a throsodd. Ar gyfer plant o dan 17 oed bydd hyn yn cael ei benderfynu naill ai ar sail hunanasesiad, neu asesiad gan riant neu ofalwr, neu mewn ffordd arall a bennir mewn rheoliadau. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd, drwy reoliadau, bennu dull gwahanol o benderfynu a yw person/plentyn o dan 17 oed yn siaradwr Cymraeg at ddibenion adran 1 a 2, a phennu a ddylid defnyddio'r dull hwnnw yn ogystal â'r hunanasesiad neu asesiad gan riant neu ofalwr, neu yn ei le.

19. Mae adran 3(4) i (6) yn gwneud darpariaeth ynghylch llunio a chyhoeddi canllawiau ar asesiadau. Bydd y rhain yn cynorthwyo unigolion i gwblhau asesiadau, gan gynnwys hunan-asesiad o'u gallu yn y Gymraeg, a hefyd dylid eu hystyried wrth gasglu data ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y Cod o dan adran 6 wrth lunio'r canllawiau.

**Adran 4 - Adolygu safonau'r Gymraeg**

20. Mae Rhan 4 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg ac ynglŷn â gorfodi'r safonau. Mae rheoliadau o dan y Mesur yn pennu'r safonau a osodir ar gyrff penodol drwy hysbysiadau cydymffurfio a ddyroddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

21. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu rhai o'r safonau yng ngoleuni darpariaethau'r Bil, gan osod rhai trefniadau ar gyfer yr adolygiad hwnnw.

22. Yn unol ag adran 4(1) bydd rhaid i'r adolygiad ystyried a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn hwyluso cyflawni targed yn strategaeth y Gymraeg neu (yn achos rhai o'r safonau hynny) adlewyrchu darpariaethau a geir yn Rhan 2 o'r Bil (disgrifio gallu yn y Gymraeg).

23. O dan adran 4(2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r adolygiad. Mae rhaid iddynt gwblhau'r adolygiad o fewn 12 mis ar ôl iddynt gyhoeddi Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a defnydd o'r lefelau cyfeirio cyffredin mewn perthynas â'r Gymraeg o dan adran 7.

**Rhan 2 – Disgrifio Gallu yn y Gymraeg ac Atodlen 1 – Mathau o Ddefnyddiwr Cymraeg a Lefelau Cyfeirio Cyffredin**

**Adran 5 – Mathau o ddefnyddiwr Cymraeg a lefelau cyfeirio cyffredin**

24. Mae'r adran hon ac Atodlen 1 yn sefydlu un dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ym mhob cyd-destun.

25. Mae adran 5(1) yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n cynnwys Tabl wedi'i atgynhyrchu o'r "Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd". Mae'r Tabl yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
    a) disgrifio tri math o ddefnyddiwr Cymraeg;
    b) gosod lefelau (y cyfeirir atynt fel "lefelau cyfeirio cyffredin") ar gyfer y mathau o ddefnyddiwr Cymraeg, a
    c) disgrifio nodweddion cyffredinol y lefelau hynny.

26. Y tri math o ddefnyddiwr Cymraeg yw "defnyddiwr Cymraeg sylfaenol", "defnyddiwr Cymraeg annibynnol", a "defnyddiwr Cymraeg hyfedr". Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio eu gallu yn y Gymraeg ar sail chwe lefel (A1-C2). Adnabyddir y rhain fel "lefelau cyfeirio cyffredin", ac maent yn cael eu grwpio fel a ganlyn:
    a) defnyddiwr sylfaenol (A1 ac A2),
    b) defnyddiwr annibynnol (B1 a B2), a
    c) defnyddiwr hyfedr (C1 ac C2).

27. Mae'r Tabl yn Atodlen 1 wedi'i atgynhyrchu (mewn perthynas â'r Gymraeg) a'i gyfieithu o *Council of Europe (2020), Common European Framework of Reference Languages: Learning, teaching, assessment – Companion volume,* Cyhoeddi Cyngor Ewrop, Strasbwrg, ar gael yn www.coe.int/lang-cefr (ISBN 978-92-871-8621-8). Cyhoeddir y fersiwn Saesneg â chaniatâd Cyngor Ewrop, a'r fersiwn Gymraeg drwy drefniant gyda Chyngor Ewrop, o dan gyfrifoldeb Senedd Cymru yn unig.

28. Yn unol ag adran 5(2) a (3), mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, drwy reoliadau, i ddiwygio Tabl Atodlen 1. Fodd bynnag, ni chânt ddefnyddio'r pŵer hwn oni bai bod angen gwneud hynny mewn ymateb i unrhyw newidiadau a wneir i'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd gan Gyngor Ewrop.

## Adran 6 – Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg

29. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod a fydd yn esbonio sut i ddefnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin yn y Tabl yn Atodlen 1, ac yn disgrifio nodweddion y lefelau hynny yn fwy manwl. Bydd y Cod yn cynorthwyo'r defnydd o'r dull safonol a sefydlir gan adran 5 a'r Tabl ar gyfer disgrifio gallu defnyddiwr yn y Gymraeg, ar sail y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Y bwriad yw y bydd datblygu un dull safonol ar gyfer pob cyd-destun, gydol oes, y gall unrhyw un gyfeirio ato a'i ddefnyddio yn arwain at wella ansawdd data sy'n cael ei gasglu am niferoedd siaradwyr Cymraeg, boed hynny fel rhan o'r cyfrifiad neu fel arall yn ogystal â hwyluso cynllunio ieithyddol cydlynol.

30. Mae adran 6(2) yn egluro'r hyn y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei gynnwys yn y Cod ond o dan adran 6(3) gall hefyd gynnwys unrhyw beth arall sy'n gysylltiedig â disgrifio gallu yn y Gymraeg.

**Adran 7 – Cyhoeddi ac adolygu'r Cod**

31. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi, adolygu a diwygio'r Cod. Gweler hefyd adran 52 am ddarpariaeth benodol ynghylch y ddyletswydd i gyhoeddi. Yn ogystal, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyhoeddi'r Cod neu God diwygiedig.

**Rhan 3 – Addysg Gymraeg**
**Cyflwyniad**
**Adran 8 – Trosolwg a dehongli**

32. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Rhan hon sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer yr hyn y mae'n ofynnol i ysgolion ac awdurdodau lleol ei wneud mewn perthynas â chynllunio darpariaeth addysg Gymraeg.

33. Mae adran 8(2) yn diffinio termau y mae'n angenrheidiol eu deall cyn ystyried gweddill Rhan 3, sef "addysg Gymraeg", "addysg feithrin Gymraeg" ac "ysgol". Mae'r diffiniad o'r term "ysgol a gynhelir", a geir yn adran 51 (lle diffinnir termau eraill at ddibenion y Rhan hon), yn berthnasol wrth ystyried y term "ysgol".

**Categorïau iaith ysgolion**
**Adran 9 – Categorïau iaith ysgolion**

34. Mae'r adran hon yn sefydlu system i gategoreiddio pob ysgol (ac eithrio ysgolion arbennig cymunedol) yn ôl darpariaeth addysg Gymraeg yr ysgol. Mae tri chategori iaith ar gyfer ysgolion yng Nghymru:
    (i) Prif Iaith - Cymraeg,
    (ii) Dwy Iaith, a
    (iii) Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg.

35. Mae adran 9(1) yn datgan bod y categori iaith a ddynodir i ysgol yn penderfynu'r swm o addysg Gymraeg y mae rhaid ei ddarparu yn yr ysgol (yn unol ag adran 10) a nodau dysgu Cymraeg yr ysgol (yn unol ag adran 11).

36. Bydd y categorïau gwahanol yn cynnwys ysgolion sy'n darparu swm yr addysg Gymraeg yn unol â'r amrediad a bennir ar gyfer y categori yn adran 10(2).

37. Bydd y categori "Prif Iaith - Cymraeg" yn cynnwys ysgolion lle bo'r addysg ynddynt drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf (er enghraifft ysgol lle mae'r holl ddarpariaeth heblaw'r elfen fandadol Saesneg o'r Cwricwlwm o dan adran 3 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg).

38. Bydd y categori "Dwy Iaith" yn cynnwys ysgolion sy'n addysgu drwy gyfrwng y ddwy iaith. Mae hyn yn wahanol i ysgolion sydd â dwy ffrwd ieithyddol wahanol (a fydd yn gallu cael dau gategori yn unol ag adran 9(3)).

39. Bydd y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yn cynnwys ysgolion lle bo'r addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ond bydd isafswm o ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ofynnol.

40. Yn unol ag adran 9(3), gall fod gan ysgol fwy nag un categori iaith. Enghraifft bosib fyddai ysgol gynradd sydd â dwy ffrwd ieithyddol wahanol.

41. Mae adran 9(3) hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ysgolion sydd â mwy nag un categori iaith.

42. Ni ddynodir categori iaith i ysgolion arbennig cymunedol ond gweler adran 20 am ddarpariaeth benodol ar gyfer ysgolion arbennig cymunedol, sy'n cynnwys yr opsiwn o ddynodi categori iaith. Ceir diffiniad o "ysgol arbennig gymunedol" yn adran 51(2).

**Adran 10 – Y swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori iaith**

43. Gosodir dyletswydd, yn adran 10(1), ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r swm o addysg Gymraeg ar gyfer pob categori iaith (adran 9(2)), ac mae adran 10(2) yn manylu ar sut y dylai'r swm hwnnw gael ei bennu.

44. Noda adran 10(2) fod y swm o addysg Gymraeg i'w bennu fel canran o'r addysg a hyfforddiant a ddarperir dros flwyddyn ysgol a'i fod yn gyfyngedig i sesiynau ysgol, a hynny ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn unig. Golyga hyn nad yw gweithgareddau y tu hwnt i "sesiynau ysgol" yn cyfrif tuag at y swm o addysg Gymraeg a ddarperir, ac y caiff ysgolion gyrraedd y swm a bennir mewn ffordd sy'n galluogi'r ysgol i ymateb i'w amgylchiadau lleol. Ceir diffiniad o "sesiynau ysgol", "blwyddyn ysgol" ac "oedran ysgol gorfodol", fel y'u defnyddir yn yr adran hon, eu nodi yn adran 51.

45. Mae adran 10(2)(b) yn darparu bod y swm o addysg Gymraeg a bennir i'w fynegi ar ffurf amrediad o ganrannau ar gyfer pob categori iaith.

46. Yn unol ag adran 10(3) ni chaiff isafswm yr amrediad o addysg Gymraeg ar gyfer categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" fod yn llai na 10% o'r holl addysg a hyfforddiant yn ystod sesiynau ysgol dros flwyddyn ysgol. Mae'r Bil yn caniatáu i'r ddarpariaeth fod ar gyfartaledd dros flwyddyn ysgol, gan roi hyblygrwydd i ysgolion o ran sut y caiff yr isafswm ei fodloni.

47. Mae adran 10(4) yn ar ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod yr ysgol yn darparu swm o addysg Gymraeg yn unol ag amrediad categori iaith a ddynodir i'r ysgol ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

**Adran 11 – Y nodau dysgu Cymraeg ar gyfer pob categori iaith**

48. Mae adran 11(1) i (3) yn sefydlu'r nodau dysgu Cymraeg, sy'n seiliedig ar y lefelau cyfeirio cyffredin (a geir yn Nhabl Atodlen 1), ar gyfer y gwahanol gategorïau o ysgolion. Mae'r nodau dysgu fel a ganlyn:

| **Categori iaith** | **Nod dysgu Cymraeg** |
|---|---|
| Prif Iaith - Cymraeg | Bod disgyblion yn ddefnyddwyr hyfedr o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel cyfeirio gyffredin C1 neu C2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr hyfedr. |
| Dwy Iaith | Bod disgyblion yn ddefnyddwyr annibynnol o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr annibynnol. |
| | Erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, bod disgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, (defnyddiwr Cymraeg annibynnol) o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol. |
| Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg | Hyd at ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, bod disgyblion yn ddefnyddwyr sylfaenol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol.<br>Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr sylfaenol.<br>O ran y lefelau cyfeirio cyffredin sy'n cwmpasu defnyddiwr sylfaenol, bydd disgwyl i gynllun cyflawni ysgol o dan adran 14(1)(f)(iii) hwyluso gwelliant parhaus. O wneud hynny, y disgwyl dros amser yw y bydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin A2 o leiaf. |
| | Ar ôl y dyddiad hwnnw,<br>(iii) bod disgyblion yn ddefnyddwyr annibynnol, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol (lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2). Mae'r Tabl yn Atodlen 1 yn disgrifio nodweddion cyffredinol defnyddiwr annibynnol. |

| | |
|---|---|
| | (iv) erbyn dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, fod disgyblion yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar, (defnyddiwr Cymraeg annibynnol) o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran addysg gorfodol. |

49. Pwrpas y nodau dysgu Cymraeg yw eu bod yn rhai sefydlog a throsfwaol a fydd wrth wraidd y gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion. Bydd cyfuniad o wersi i addysgu Cymraeg a gwersi cyfrwng Cymraeg yn ystod sesiynau ysgol yn hanfodol er mwyn gwireddu'r nod dysgu Cymraeg ar gyfer y gwahanol gategorïau o ysgolion.

50. Bydd rheoliadau yn pennu dyddiadau ar gyfer uwchraddio'r nodau dysgu ar gyfer ysgolion yn y categori "Dwy Iaith" ac yn y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

51. Mae'r nodau dysgu yn adran 11 yn pennu nodau penodol ar gyfer ysgolion yn seiliedig ar eu categori iaith. Y nodau hyn yw bod y disgyblion yn cyrraedd lefel gyfeirio gyffredin benodol erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol. Mae adran 11(4) yn nodi sut y dylid dehongli'r nodau dysgu Cymraeg yng nghyd-destun ysgolion cynradd. Rhaid i'r ysgol gynradd dybio y bydd ei disgyblion yn aros mewn ysgol o'r un categori pan fyddant yn derbyn eu haddysg uwchradd.

52. Mae adran 11(5) yn diffinio'r term "lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio llafar".

## Adran 12 – Asesu cynnydd tuag at gyflawni nodau dysgu Cymraeg

53. Mae adran 56 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch trefniadau asesu cynnydd mewn perthynas â chwricwlwm ysgol. Mae hyn yn cynnwys asesu cynnydd plant, camau nesaf a'r hyn y mae angen ei wneud i gyflawni cynnydd pellach. Mae'r adran hon yn sicrhau cyswllt deddfwriaethol rhwng y Bil a Deddf 2021. Caiff Gweinidogion Cymru, yn y rheoliadau o dan adran 56 o Ddeddf 2021, wneud trefniadau i asesu cynnydd disgyblion tuag at gyflawni'r nodau dysgu Cymraeg. `

54. Caiff y rheoliadau ynghylch trefniadau i asesu cynnydd disgyblion tuag at gyflawni'r nodau dysgu Cymraeg hynny gynnwys, ymhlith materion eraill, y materion a nodir yn adran 12(2)(a) a (b) ac felly wneud defnydd o'r dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg y mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar ei gyfer.

55. Mae adran 12(2)(c) yn caniatáu gwneud trefniadau asesu gwahanol ar gyfer ysgolion sydd wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg (gweler adrannau 18 a 19).

56. O dan adran 7 o Ddeddf 2021 mae rhaid i Weinidogion Cymru baratoi 'Cod Cynnydd' yn nodi sut mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan bob disgybl. Mae'r Cod Cynnydd yn nodi bod cwricwlwm llwyddiannus, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd priodol. Mae adran 12(3) yn diwygio Deddf 2021 at ddiben sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio'r Cod Cynnydd, roi sylw i'r nodau dysgu Cymraeg a osodir gan adran 11 o'r Bil. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol wrth i Weinidogion Cymru gadw'r Cod Cynnydd o dan adolygiad.

**Adran 13 – Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion**

57. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio adran 9 (categorïau iaith ysgolion) ac adran 10(3) (isafswm amrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg"). Gellir defnyddio'r pŵer hwn i gynyddu, dros amser, isafswm y ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgol categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" o 10% i ganran uwch wrth i ffactorau megis argaeledd gweithlu newid, er enghraifft.

58. Os yw Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn ychwanegu categori iaith at adran 9, bydd rhaid iddynt hefyd ddiwygio adran 11 fel bod gan y categori hwnnw nod dysgu Cymraeg.

59. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon. Fodd bynnag, mae adran 13(5) yn gosod dyletswydd arnynt i ystyried arfer y pŵer i gynyddu'r isafswm o addysg Gymraeg unwaith pob 5 mlynedd.

**Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg**

**Adran 14 – Cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgolion**

60. Mae adran 14(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol lunio cynllun mewn perthynas â'r Gymraeg ("cynllun cyflawni addysg Gymraeg"), ac mae adran 14(1)(a) i (h) yn manylu ar yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn cynllun o'r fath. Pwrpas hyn yw ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio ar gyfer darparu addysg Gymraeg, yn y byrdymor ac yn y dyfodol, a dilyn y cyfeiriad a osodir gan Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol perthnasol (gweler Rhan 4).

61. Mae adran 14(5) yn eithrio ysgolion arbennig cymunedol rhag gofynion yr adran hon (ond gweler adran 20 am y gofyniad iddynt gael cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol).

62. Yn unol ag adran 14(1)(a) i (c), rhaid i gynllun cyflawni nodi categori iaith ar gyfer ysgol, nodi'r ddarpariaeth bresennol (h.y. swm) o addysg Gymraeg yr ysgol, ac esbonio sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu'r swm o addysg Gymraeg yn unol â gofynion ei chategori iaith.

63. Yn ogystal â'r hyn y mae rhaid ei nodi yn unol ag adran 14(1)(c) (sut y bydd ysgol yn darparu'r swm o ddarpariaeth addysg sy'n orfodol), yn unol ag adran 14(1)(e) rhaid i gynllun cyflawni nodi cynigion y corff llywodraethu am yr union swm o addysg y mae'r ysgol yn bwriadu ei ddarparu o fewn amrediad y categori yn ystod cyfnod y cynllun, a sut y bydd yn cynnal hynny ac yn cynyddu'r swm hwnnw pan fo hynny'n rhesymol ymarferol.

64. Yn unol ag adran 14(1)(d) rhaid i gynllun cyflawni nodi sut y bydd yr ysgol yn hybu addysg drochi hwyr i ddisgyblion yn unol ag adran 23(3).

65. Mae adran 14(1)(f) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun cyflawni nodi gwybodaeth ynghylch darpariaeth addysg feithrin Gymraeg yr ysgol i ddisgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, a chynigion y corff llywodraethu ar gyfer cynnal y swm hwnnw o addysg feithrin Gymraeg, a chynyddu'r swm lle bo hyn yn rhesymol ymarferol.

66. Pwrpas y cynigion a nodir yn adran 14(1)(g) yw sicrhau bod pob ysgol yn cymryd camau er mwyn gallu cyflawni ei nod dysgu. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar sut i hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol a hybu defnydd o'r Gymraeg. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys trefnu gweithgareddau y tu hwnt i sesiynau ysgol sy'n meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae hefyd yn cynnwys cynigion ar sut i hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol a fyddai'n arwain at gynnydd ar hyd y lefelau cyfeirio cyffredin. Mae hyn yn berthnasol i ysgolion o bob categori iaith ond rhagwelir y bydd cynnydd yn fwy perthnasol ar gyfer ysgolion "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" ac ysgolion "Dwy Iaith" wrth iddynt weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth Gymraeg er mwyn cyflawni nod gallu'r ysgol.

67. Os yw corff llywodraethu ysgol yn bwriadu cynyddu ei ddarpariaeth addysg Gymraeg yr ysgol er mwyn newid o gategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" i gategori "Dwy Iaith", er enghraifft, bydd rhaid, yn unol ag adran 14(1)(h), i'r cynllun cyflawni nodi'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i wireddu hynny. Gweler hefyd adran 17 am ofynion penodol ynghylch diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgol at ddiben newid ei chategori iaith.

68. O dan adran 30 (Rhan 4) rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Mae adran 14(2) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol roi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ei awdurdod lleol wrth lunio cynllun cyflawni neu gynllun cyflawni diwygiedig. Mae hefyd yn manylu ar y personau y mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â hwy wrth lunio cynllun neu gynllun

diwygiedig. Bwriad hyn yw sicrhau bod cyfle i randdeiliaid gyfrannu at benderfyniadau a wneir am yr addysg Gymraeg a ddarperir gan ysgol, ac yn benodol i'r awdurdod lleol gael rhoi barn ar ddigonolrwydd y cynllun cyflawni i fodloni darpariaethau'r cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg (Rhan 4). Bydd rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y cynllun er mwyn penderfynu a ddylid ei gymeradwyo o dan adran 15, ac mae'r ymgynghori yn gyfle cynnar i sicrhau bod cynllun cyflawni ysgol yn addas.

69. Mae adran 14(3) yn nodi bod cynlluniau cyflawni yn cael effaith am gyfnod o dair blwyddyn ysgol. Bydd Gweinidogion Cymru yn datgan, drwy reoliadau, â pha flwyddyn ysgol y mae cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf yn dechrau. Bydd cyfnod cynlluniau cyflawni dilynol yn dechrau yn union ar ôl i'r cynllun cyflawni blaenorol ddod i ben.

70. Mae adran 14(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddiben newid hyd y cyfnod y mae cynlluniau cyflawni yn cael effaith, ac i wneud darpariaeth benodol am ffurf a chynnwys cynllun cyflawni.

## Adran 15 – Cymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg

71. Mae adran 15(1) i (3) yn gosod trefniadau ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr hyn y mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ei wneud wrth gyflwyno cynlluniau cyflawni. Mae adran 14 yn manylu ar yr hyn y mae'n ofynnol i gynllun cyflawni ysgol ei gynnwys.

72. Mae adran 15(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gyflwyno i'r awdurdod lleol ddrafft o'r cynllun cyflawni y mae wedi ei lunio yn unol ag adran 14. Bydd y corff llywodraethu eisoes wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol wrth lunio cynllun yn unol ag adran 14(2).

73. Mae adran 15(3) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r corff llywodraethu wrth gyflwyno'i ddrafft gynnwys crynodeb o unrhyw ymatebion i'w gynllun a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori.

74. Mae adran 15(4) i (6) yn nodi'r camau y caiff yr awdurdod lleol eu cymryd mewn perthynas â'r cynllun cyflawni sydd wedi'i gyflwyno iddo o dan adran 15(1). Caiff gymeradwyo'r cynllun, ag addasiadau neu heb addasiadau, neu ei wrthod. Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod awdurdod lleol yn gallu dylanwadu ar addysg Gymraeg o fewn ei ardal, a bod modd iddo gyflawni'r targedau a osodir arno gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni, rhaid iddo roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu i ailystyried y cynllun a rhoi'r rhesymau dros y penderfyniad a nodi erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o'r cynllun i'r awdurdod lleol.

75. Mae adran 15(4) i (6) hefyd yn gymwys i gynllun cyflawni sy'n cael ei ailgyflwyno. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen ailgyflwyno cynllun

cyflawni fwy nag unwaith os yw awdurdod lleol yn parhau o'r farn nad yw cynllun cyflawni yn ddigonol.

76. Mae adran 15 wedi'i llunio gyda'r bwriad y bydd awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol yn cytuno ar gynnwys cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg yr ysgol. Felly nid oes modd i awdurdodau lleol, o dan yr adran hon, baratoi cynllun cyflawni ar ran ysgol. Dylid nodi, fel cyrff cyhoeddus, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion ymddwyn yn rhesymol. Pe bai oedi wrth gytuno ar gynllun cyflawni, neu os credir bod corff llywodraethu ysgol neu awdurdod lleol wedi ymddwyn yn afresymol, caiff awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru (fel sy'n briodol) ystyried arfer eu pwerau ymyrryd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (gweler hefyd adran 50).

77. O dan adran 15(8) rhaid i gynllun cyflawni ysgol sydd wedi'i gymeradwyo gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol os oes gan yr ysgol honno wefan. Gweler adran 52 am ddyletswyddau penodol o ran cyhoeddi dogfennau.

78. Mae adran 15(9) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion o dan adran 14(1)(e) i (h) sydd yn y cynllun cyflawni y mae awdurdod lleol wedi'i gymeradwyo.

**Adran 16 - Adolygu a diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg**

79. Mae adran 16(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol adolygu cynllun cyflawni o leiaf unwaith cyn diwedd y cyfnod y mae cynllun cyflawni yn cael effaith amdano.

80. Gan ystyried hyn, mae adran 16(2) yn caniatáu i gorff llywodraethu ysgol ddiwygio cynllun cyflawni yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn weithredol. O dan adran 16(3) i (4) rhaid i gorff llywodraethu ysgol roi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol (gweler adran 30) wrth adolygu neu ddiwygio'r cynllun cyflawni, a chyflwyno drafft diwygiedig i'r awdurdod lleol. Mae adran 16(5) yn gosod dyletswydd ar gorff llywodraethu i ddarparu crynodeb o'r diwygiadau a gynigir a'r rhesymau drostynt.

81. Mae adran 16(6) i (7) yn nodi'r camau y caiff yr awdurdod lleol eu cymryd mewn perthynas â'r cynllun cyflawni diwygiedig sydd wedi'i gyflwyno iddo o dan adran 16(3). Caiff gymeradwyo'r cynllun, ag addasiadau neu hebddynt, neu ei wrthod.

82. Os yw awdurdod lleol yn gwrthod cynllun cyflawni diwygiedig rhaid iddo roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu i ailystyried y cynllun. Rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a phennu erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol.

83. Os oes rhaid i gorff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o gynllun cyflawni, rhaid i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno yn unol ag adran 16(5) i (7). Gall fod angen ailgyflwyno cynllun cyflawni diwygiedig fwy nag unwaith.

84. Yn unol ag adran 16(9), rhaid i gynllun cyflawni ysgol sydd wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol os oes gan yr ysgol honno wefan. Gweler adran 50 am ddyletswyddau penodol o ran cyhoeddi dogfennau. Mae hefyd yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynigion o dan adran 14(1)(e) i (h) yn y cynllun cyflawni diwygiedig y mae awdurdod lleol wedi'i gymeradwyo.

**Adran 17 –Diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg er mwyn newid categori iaith ysgol**

85. Mae adran 17 yn berthnasol pan gynigir diwygio cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgol at ddiben newid categori iaith yr ysgol yn ystod y cyfnod pan fo'r cynllun yn weithredol. Mae'n darparu na chaniateir i ysgol categori "Prif Iaith – Cymraeg" ddiwygio cynllun cyflawni a fyddai'n newid categori iaith yr ysgol i "Dwy Iaith", nac ychwaith i ysgol "Dwy Iaith" newid ei chategori iaith i "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg". Mae hyn yn ategu'r egwyddorion a osodir yng ngofynion adran 14(1)(e) i (h) y dylid llunio cynigion i gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yr ysgol pan fo'n rhesymol ymarferol, a hwyluso gwelliant parhaus yn addysg Gymraeg yr ysgol.

86. Os yw cynllun cyflawni yn cael ei ddiwygio at ddiben newid categori iaith, mae adran 16 yn gymwys wrth wneud hynny. Yn ychwanegol, mae'r gofyniad i ymgynghori â'r personau sydd wedi'u rhestru yn adran 14(2)(b) yn gymwys.

**Adran 18 – Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad dros dro**

87. Mae adran 18 yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptio ysgolion rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol i ysgol categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". Noda adran 18(2) yr hyn y mae'n rhaid i gynllun cyflawni drafft ei gynnwys os yw ysgol yn dymuno cael esemptiad dros dro.

88. Mae'n bosib i gorff llywodraethu ysgol gael esemptiad os, wrth lunio ei gynllun cyflawni cyntaf, ei fod o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg i ysgol categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". Yn yr un modd, os yw corff llywodraethu yn dod i'r casgliad nad yw'n rhesymol ymarferol i ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg i ysgol categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" ar ôl dechrau cyfnod ei gynllun cyflawni cyntaf, caiff gynnig diwygio'r cynllun (o dan adran 17) i adlewyrchu hyn a cheisio esemptiad.

89. Yn y fath achosion mae rhaid i gynllun cyflawni gynnwys elfennau ychwanegol os yw'r ysgol yn ceisio esemptiad. Mae adran 18(2)(d) yn benodol yn nodi bod yn rhaid i gorff llywodraethu ysgol nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen arno er mwyn darparu'r isafswm o addysg Gymraeg. Nid oes disgwyl

i ysgol weithio heb gymorth ac arweiniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg. Bydd yr awdurdod lleol ei hun yn ddarostyngedig i ddarpariaethau ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg, ac felly er mwyn bodloni'r darpariaethau hyn bydd angen i'r awdurdod lleol gefnogi ysgolion i gynyddu eu haddysg Gymraeg fel eu bod yn bodloni'r isafswm o addysg Gymraeg.

90. Fel y'i darperir yn adran 15, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau cyflawni. Gan hynny, yr awdurdod lleol a fydd yn penderfynu — drwy gymeradwyo'r cynllun — a yw'r ysgol wedi ei hesemptio rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm. Er enghraifft, os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad oes rhwystrau rhesymol ymarferol sy'n atal ysgol rhag darparu'r isafswm o addysg Gymraeg, a bod capasiti amgen i ddarparu'r isafswm, gallai fod yn briodol i'r awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r ysgol ailystyried y cynllun cyflawni. Yn ogystal, dim ond os yw'n cynnwys y materion a nodir yn adran 15(2) y bydd cymeradwyaeth yn arwain at esemptiad.

91. Pan fo'r awdurdod lleol yn cymeradwyo'r cynllun, caiff y corff llywodraethu ei esemptio rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg sy'n ofynnol, a bydd yr ysgol yn cael ei hystyried yn ysgol categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" er nad yw'n darparu'r isafswm a fyddai'n ofynnol heblaw am yr esemptiad. Bydd yr esemptiad yn cael effaith tan ddiwedd cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynigion sydd wedi'u gosod yn y cynllun cyflawni i sicrhau y bydd yr ysgol yn gallu darparu'r isafswm yn unol â'r cynigion hynny.

**Adran 19 – Isafswm o addysg Gymraeg: esemptiad pellach**

92. Mae adran 19 yn gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiad pellach (hyd at gyfnod o dair blynedd ychwanegol) ar gyfer ysgol a gafodd esemptiad mewn perthynas â'i chynllun cyflawni cyntaf. Mae ail esemptiad yn bosibilrwydd os yw'r corff llywodraethu yn parhau i fod o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol i'r ysgol ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg. Dim ond ar ddechrau cyfnod yr ail gynllun cyflawni y mae'n bosib cael esemptiad pellach (ac nid yn ystod cyfnod yr ail gynllun cyflawni).

93. Mae adran 19(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ail gynllun cyflawni gynnwys elfennau ychwanegol os yw'r corff llywodraethu yn ceisio ail esemptiad o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys y rhesymau pam na weithredwyd y cynigion yn y cynllun cyflawni cyntaf i sicrhau darpariaeth yr isafswm , neu pam nad oedd y cynigion hynny wedi llwyddo. Mae hefyd rhaid i gorff llywodraethu nodi'r gefnogaeth y mae ei hangen arno er mwyn diwallu'r isafswm o addysg Gymraeg cyn diwedd y cyfnod ychwanegol o dair blynedd.

94. Mae i'r ail esemptiad yr un effaith â'r esemptiad cyntaf, ac eithrio nad oes esemptiad absoliwt tan ddiwedd y cyfnod o dair blynedd (fel a geir yn adran 18(3)(a)). Yn hytrach, mae'r esemptiad rhag darparu'r isafswm yn gymwys hyd y dyddiad sydd wedi ei nodi yn y cynllun cyflawni. Er enghraifft, os yw

ail gynllun cyflawni ysgol yn cynnig y bydd yn darparu'r isafswm erbyn diwedd ail flwyddyn y cynllun hwnnw, ni fydd yr esemptiad yn gymwys ar gyfer trydedd flwyddyn y cynllun. Yn ogystal, mae adran 19(3)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn manylu ar y rhesymau pam y cymeradwywyd y cynllun cyflawni a arweiniodd at ail esemptiad ynghyd â gwybodaeth am unrhyw gefnogaeth y mae'r awdurdod lleol (neu unrhyw un arall) wedi ei chynnig i gorff llywodraethu ysgol sydd wedi cael ail esemptiad. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fonitro'r defnydd o ail esemptiadau fesul awdurdod lleol, a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael.

**Ysgolion Arbennig**

**Adran 20 – Ysgolion arbennig cymunedol: cynlluniau a dynodi categori iaith**

95. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol i lunio cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol. Mae i "ysgol arbennig gymunedol" yr un ystyr ag a roddir i "community special school" yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler adran 49(4)).

96. Mae adran 20(1)(a) i (c) yn manylu ar yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn cynllun addysg Gymraeg ysgol arbennig gymunedol, ac mae adran 20(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynllun o'r fath drwy reoliadau.

97. Mae adran 20(3) yn golygu na fydd categori iaith yn cael ei ddynodi i ysgol arbennig gymunedol fel mater o drefn. Fodd bynnag, caiff corff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol ddewis cael categori iaith ar gyfer ei ysgol ar sail wirfoddol os yw'n dymuno ("dynodiad gwirfoddol"). Yn unol ag adran 20(4) rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at y diben hwn.

**Ysgolion Meithrin a Gynhelir**

**Adran 21 – Cynlluniau cyflawni addysg feithrin Gymraeg**

98. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir baratoi cynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg. Diffinnir y term "ysgol feithrin a gynhelir" yn adran 51.

99. Mae adran 21(1)(a) i (c) yn manylu ar yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg, ac mae adran 21(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach, mewn rheoliadau, ynghylch cynllun o'r fath.

**Cofrestr**

**Adran 22 – Cofrestr categorïau iaith ysgolion**

100. O dan adran 22(1) rhaid i awdurdod lleol gynnal a chyhoeddi cofrestr o gategorïau iaith ysgolion yn ei ardal (gweler hefyd adran 52 am ddarpariaeth benodol ynghylch cyhoeddi dogfennau). Hefyd rhaid i'r gofrestr gynnwys cofnod o bob ysgol sydd wedi derbyn esemptiad rhag y gofyniad i ddarparu'r isafswm o addysg Gymraeg, a chategori iaith arfaethedig unrhyw ysgolion

newydd y gwneir cynigion ar eu cyfer. Yn unol ag adran 22(3) rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am y materion sydd i'w cynnwys ar y gofrestr ynghyd â'i ffurf a threfniadau cyhoeddi.

101. Mae adran 22(2) yn diwygio adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyfeirio at adran 22(2) o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg 2025.

**Addysg drochi hwyr**

**Adran 23 – Addysg drochi hwyr yn y Gymraeg**

102. Mae adran 23(2) yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud er mwyn codi a sicrhau ymwybyddiaeth ynghylch addysg drochi hwyr (ceir diffiniad yn adran 23(1)) yn barhaus fel bod rhieni neu warcheidwaid yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am addysg plentyn ar unrhyw bwyntiau mynediad. Mae'r dyletswyddau yn cynnwys annog cynnydd yn y galw am addysg drochi hwyr, a mwy o gyfranogiad mewn addysg drochi hwyr. Mae adran 23(2) hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r personau a restrir yn adran 23(2)(b)(i) i (v) ynghylch addysg drochi hwyr, a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu addysg drochi hwyr sy'n ateb y galw amdani (adran 23(2)(c)).

103. Pan fo awdurdod lleol yn hysbysu corff llywodraethu ysgol am yr addysg drochi hwyr sydd ar gael, mae adran 23(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth am y ddarpariaeth o addysg drochi hwyr, a sut i gael mynediad ati, yn hysbys i ddisgyblion yr ysgol a'u rhieni.

**Rhan 4 – Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

**Y Fframwaith Cenedlaethol**

**Adran 24 - Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg**

104. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg sy'n cwmpasu'r addysg a ddarperir i ddisgyblion o oedran addysg orfodol yn ogystal â dysgu Cymraeg gydol oes.

105. Mae rhaid i Weinidogion Cymru fabwysiadu strategaeth ar hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae rhaid i'r strategaeth gynnwys y targedau a nodir yn adran 1(1). Mae'n ofynnol i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi strategaeth y Gymraeg ar waith dros y tymor canolig yng nghyd-destun addysg Gymraeg, darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol ac o ran caffael a dysgu Cymraeg.

106. Pwrpas y Fframwaith Cenedlaethol yw creu cyswllt rhwng y targedau cenedlaethol (yn y strategaeth) a'r targedau ar lefel awdurdodau lleol mewn

perthynas â'r Gymraeg mewn addysg, ynghyd â'r targedau y gellir eu gosod ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

107. Mae adran 24(3) i (6) yn cynnwys gofynion o ran yr hyn y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei nodi a'i gynnwys mewn Fframwaith Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys:
   a) nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys mewn perthynas â chynyddu a gwella darpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion;
   b) nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i ddarparu cyfleoedd i bobl o bob oed i ddysgu'r Gymraeg ar hyd eu bywyd ac i gynnal a gwella eu gallu yn y Gymraeg a'u defnydd ohoni: mewn gofal plant i'r rheiny sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol, mewn gwahanol gamau o'u gyrfaoedd addysg ac yn y gweithle a'r gymuned;
   c) gosod targedau ar awdurdodau lleol i adlewyrchu unrhyw darged cenedlaethol a nodir yn strategaeth y Gymraeg yn sgil adran 1(1)(c) (dyma'r targedau sy'n sail i'r hyn y mae rhaid i awdurdodau lleol ei gynnwys yn y cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg (gweler adran 30));
   d) asesiadau a dadansoddiadau o ran sefyllfa gyfredol y ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ardal pob awdurdod lleol, yr hyn sydd ei angen o ran addysg Gymraeg i gyrraedd unrhyw darged a osodwyd, ac o ran nifer yr ymarferwyr addysg ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni'r targedau a osodir ar awdurdodau lleol yn y Fframwaith Cenedlaethol.

108. Bwriedir i'r camau a nodir yn adran 24(3) gael eu cymryd ochr yn ochr â chamau ar lefel sirol gan awdurdodau lleol ac ar lefel leol mewn ysgolion. Mae'r tabl isod yn ymhelaethu ar y gofynion penodol mewn perthynas ag addysg Gymraeg mewn ysgolion, a sut maent yn cydblethu â darpariaethau eraill:

| **Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau sydd i'w cymryd er mwyn:** | **Eglurhad pellach** |
|---|---|
| Cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg | Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynyddu'r addysg Gymraeg y maent yn ei chynnig pan fo hynny'n rhesymol ymarferol.<br><br><u>Cydblethiad</u><br>Er bod y camau hyn ar lefel genedlaethol, mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel leol i ysgolion nodi yn eu cynlluniau cyflawni sut y byddant yn sicrhau cynnydd yn yr addysg Gymraeg pan fo hynny'n rhesymol ymarferol (gweler adran 14(1)(e)(ii) o'r Bil). |

| | |
|---|---|
| Gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg | Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd ar lefel genedlaethol i gynorthwyo ysgolion i wella ansawdd eu haddysg Gymraeg.<br><br><u>Cydblethiad</u><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad:<br>(iii) ar lefel awdurdod lleol: i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg nodi'r camau y bydd awdurdod lleol yn eu cymryd er mwyn gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg (gweler adran 30(2)(a)(i));<br>(iv) ar lefel ysgol: i ysgolion nodi yn eu cynlluniau cyflawni sut y byddant yn hwyluso gwelliant parhaus yn yr addysg Gymraeg (gweler adran 14(1)(g)(iii)). |
| Hybu addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" a chynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu'r categori hwnnw | Mae disgyblion yn fwy tebygol o feithrin deilliannau ieithyddol uwch po fwyaf o addysg Gymraeg a gânt. Felly, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle gorau posibl i ddod yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol, a thrwy hynny esgor ar gyfleoedd newydd iddynt, mae rôl i Weinidogion Cymru o ran hybu addysg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg".<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i hybu a darparu gwybodaeth am yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" yn ei ardal (gweler adran 30(3)(b)).<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg drochi hwyr yn y Gymraeg yn adran 23 o'r Bil. |
| Sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru | Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan ysgolion y capasiti i gynyddu neu wella eu haddysg Gymraeg yn ôl y disgwyl. |

<table>
<tr><td></td><td>Gan y bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn gosod targedau fesul awdurdod lleol i gynyddu neu wella'r addysg Gymraeg yn eu hardal, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd rôl arweiniol wrth sicrhau bod y targedau hyn yn gyraeddadwy. Rhaid cynllunio capasiti ymarferwyr addysg ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod gweithlu digonol i wireddu targedau'r Fframwaith Cenedlaethol.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer y gweithlu o ymarferwyr addysg sy'n gweithio yn ei ardal yn ddigonol (gweler adran 30(3)(a)(iii)).</td></tr>
<tr><td>Annog dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac o ran addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amryw gyd-destunau</td><td>Dyma'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i annog disgyblion i ddilyn llwybr addysg Gymraeg sy'n gyson â'r ddarpariaeth flaenorol a gawsant. Drwy hynny, bydd disgyblion yn cael eu hannog i wneud cynnydd parhaus yn eu sgiliau Cymraeg. Gallai hyn, er enghraifft, fod drwy barhau mewn ysgol o'r un categori iaith wrth symud o addysg gynradd i addysg uwchradd, neu drwy symud i ysgol mewn categori iaith uwch gan fanteisio ar addysg drochi hwyr yr awdurdod lleol i'w galluogi i wneud hynny.<br><br><u>Cydblethiad</u><br><br>Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r gofyniad ar lefel awdurdod lleol i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i hwyluso dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng—<br><br>(i) addysg feithrin ac addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol (gweler adran 30(3)(d)(i)),<br>(ii) ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir (gweler adran 30(3)(d)(ii), a<br>(iii) addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | drydyddol. (gweler adran 30(3)(d)(ii)).<br>Mae hefyd yn cyd-fynd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg drochi hwyr yn y Gymraeg yn adran 23 o'r Bil. |

109. Yn ogystal â'r targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol o dan adran 24(5), mae adran 24(7) yn galluogi'r Fframwaith i osod targedau pellach ar awdurdodau lleol at ddiben gweithredu'r Fframwaith.

110. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer, yn unol ag adran 23(7), i osod targedau ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol at ddiben hwyluso cyflawni targedau cenedlaethol (a gynhwysir yn strategaeth y Gymraeg) sy'n ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg.

111. Yn ogystal, mae adran 24(9) yn caniatáu hyblygrwydd wrth wneud darpariaethau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Fel un enghraifft gallai'r Fframwaith Cenedlaethol osod targedau gwahanol, yn unol ag adran 24(5), ar gyfer awdurdodau lleol gwahanol.

112. Mae adran 24(10) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio adrannau 24(3) i (8) o ran cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol.

**Adran 25 – Y Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach ar y gweithlu addysg**

113. Mae Adran 25(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Fframwaith Cenedlaethol nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd mewn perthynas ag ymarferwyr addysg yng Nghymru – yn benodol i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael.

114. Rhaid i'r Fframwaith hefyd gynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg sydd eu hangen ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyrraedd targedau, a'r camau penodol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd, yn seiliedig ar yr asesiad hwnnw, i sicrhau bod nifer yr ymarferwyr addysg yn diwallu'r angen.

**Adran 26 – Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol**

115. Mae adran 26(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol.

116. Mae'n ofynnol, yn unol ag adran 26(2), i bob awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r targedau a osodir arnynt gan y Fframwaith Cenedlaethol, ac i ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn pennu'r targedau a chwblhau'r asesiadau a'r dadansoddiadau y cyfeirir atynt yn adrannau 24(6) a 25(2)(a), ac adrannau 24(5) neu 24(7).

**Adran 27 – Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach am gynnwys, adolygu a diwygio**

117. O dan yr adran hon, wrth baratoi neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i adrannau 24(3) a (4) ac adran 25 am gyfnodau o 10 mlynedd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar y broses o adolygu a diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol.

118. Rhaid adolygu a diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol bob 5 mlynedd i ddiweddaru'r camau hynny. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd adolygu targedau'r Fframwaith Cenedlaethol.

119. Mae adran 27(4) a (5) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol o bryd i'w gilydd, neu i lunio un newydd, gan nodi pa adrannau o'r Bil sy'n gymwys wrth wneud hynny. Mae adran 27(7) yn nodi bod adran 27(6) yn gymwys i Fframwaith Cenedlaethol newydd fel y mae'n gymwys i'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf.

**Adran 28 –Ymgynghori a chyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol**

120. Mae'r adran hon yn cynnwys gofynion ar Weinidogion Cymru i ymgynghori wrth lunio neu ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol, a gofyniad i gyhoeddi'r Fframwaith. Rhaid hefyd ei osod gerbron Senedd Cymru. Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gael ei osod gerbron Senedd Cymru cyn 31 Gorffennaf 2028.

**Adran 29 – Adrodd ar y Fframwaith Cenedlaethol**

121. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys gwybodaeth am weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn yr adroddiad blynyddol a'r cynllun blynyddol ar y strategaeth i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn flynyddol o dan adran 78(8) a (9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Cynlluniau lleol**

**Adran 30 - Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

122. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer newid y system o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg a baratoir gan awdurdodau lleol. Cyflwynwyd cyfundrefn cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r Bil hwn yn cyflwyno cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg gan hepgor y darpariaethau o dan Ddeddf 2013 (gweler adran 36). Drwy ddarpariaethau'r Bil hwn bydd rhaid i gynlluniau strategol awdurdodau lleol ymateb i dargedau sydd wedi'u gosod arnynt yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ac i gynlluniau cyflawni ysgolion roi sylw i dargedau cynlluniau strategol eu hawdurdodau lleol. Rhaid i'r targedau a osodir ar awdurdodau lleol yn y Fframwaith Cenedlaethol adlewyrchu targedau cenedlaethol a osodir yn strategaeth y Gymraeg (adran 1(1)). Pwrpas

cydgysylltu'r targedau yw sicrhau bod targedau yn galluogi gweithio tuag at yr un nod.

123. Yn unol ag adran 30 mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys y materion a nodir yn adran 30(1) i (4).

124. Mae adran 30(1)(a) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i fanylu yn ei gynllun sut y bydd yn hybu a hwyluso, yn ei ardal, addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion. Gall hynny gynnwys gweithgareddau Siarter Iaith a Chymraeg Campus a gynllunnir mewn ysgolion, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. Rhaid i gynllun hefyd, yn unol ag adran 30(1)(b), nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod arno yn y Fframwaith Cenedlaethol (adran 26(2)(a)).

125. Mae adran 30(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol, i'r graddau sy'n ofynnol gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, sut y byddant yn arfer eu swyddogaethau addysg i hyrwyddo a hwyluso addysgu'r Gymraeg ac addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i blant o oedran ysgol orfodol nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.

126. Mae adran 30(3)(a) i (d) yn manylu ar y math o gamau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu cynnwys mewn cynllun. Mae adran 30(3)(a) yn nodi bod rhaid i gynllun awdurdod lleol nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i arfer ei swyddogaethau addysg i wella darpariaeth addysg Gymraeg a'r broses o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg o fewn ei ardal. Ceir diffiniad o "addysg Gymraeg" at ddiben Rhan 4 yn adran 37.

127. Mae adran 30(3)(b) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i fanylu yn ei gynllun sut y bydd yn hybu a darparu gwybodaeth am addysg Gymraeg mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" (fel y'i diffinnir yn Rhan 3). Gallai'r cynllun gyfeirio yma at y math o wybodaeth y mae ei hangen am addysg Gymraeg ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg" i wella dealltwriaeth y cyhoedd, a ble y bydd yr wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd. O ran hyrwyddo, fe allai'r cynllun strategol esbonio beth fydd yr awdurdod lleol yn ei wneud i dynnu sylw'r cyhoedd at gyfleoedd o fewn ardal yr awdurdod lleol i gael mynediad at ysgolion categori "Prif Iaith - Cymraeg".

128. Mae adran 30(3)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol nodi yn ei gynllun y camau y bydd yn eu cymryd i hybu a darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth addysg drochi hwyr yn ei ardal. Mae adran 23 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch addysg drochi hwyr.

129. Yn unol ag adran 30(3)(d)(i) i (iii), mae'n ofynnol i awdurdod lleol nodi yn ei gynllun y camau y bydd yn eu cymryd i hwyluso dilyniant i ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg a dysgwyr sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o un cyfnod

o'u haddysg i'r llall. Manylir ar y cyfnodau hynny yn is-baragraff (i) rhwng 'addysg feithrin' ac 'addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol', yn is-baragraff (ii) rhwng 'ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir', ac yn is-baragraff (iii) rhwng 'addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol' ac 'addysg drydyddol'. Ceir diffiniad o "addysg feithrin" yn adran 37 ac mae'n cwmpasu addysg amser llawn neu ran-amser a ddarperir i blant o dan oedran ysgol gorfodol mewn ysgol neu mewn lleoliad arall y tu hwnt i safle'r ysgol. Ceir diffiniad o "addysg drydyddol" yn adran 51, ac mae'n cynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion. Enghraifft o'r hyn y gallai awdurdod ei gynnwys yn ei gynllun yma yw nodi'r camau y mae am eu cymryd i'w gwneud yn bosibl neu'n haws i ddysgwr barhau i ddysgu Cymraeg neu ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg cyn, ac ar ôl, oedran ysgol gorfodol.

130. Mae adran 30(5) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnwys gwybodaeth yn ei gynllun am y gweithlu o ymarferwyr dysgu yn ardal yr awdurdod lleol, yn unol â'r diffiniad o "ymarferydd addysg" yn adran 37.

131. Yn unol ag adran 30(4)(b) mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys yn ei gynllun adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod oes y cynllun blaenorol.

132. Mae adran 30(5) yn nodi'r personau y mae rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth lunio cynllun, â'r bwriad o sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei chynllunio mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig ar draws yr awdurdod lleol ac o hwyluso'r broses honno. Yn ogystal, dylai'r ffaith bod cynlluniau strategol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 32, sicrhau bod gweledigaeth y cynllun strategol yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol.

**Adran 31 – Cyfnod cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

133. Mae'r adran hon yn nodi am ba gyfnod o amser y mae cynllun strategol yn cael effaith. Cynllun 5 mlynedd ydyw ond mae rhaid i awdurdodau lleol nodi'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd ynghylch materion adran 30(3) dros gyfnod o 10 mlynedd. Bwriad hyn yw galluogi awdurdodau lleol i amlinellu eu bwriadau hirdymor, gan gydnabod bod rhai newidiadau i ddarpariaeth ysgolion yn gallu cymryd degawd i ddwyn ffrwyth.

134. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn pennu erbyn pryd y mae rhaid i awdurdod lleol baratoi cynllun am y tro cyntaf. Y bwriad yw i bob awdurdod lleol weithredu yn unol â'r un amserlen â'r cyfnod 5 mlynedd yn cychwyn ar yr un pryd i bob awdurdod lleol, ni waeth a yw awdurdod lleol wedi gorfod ailgyflwyno cynllun ai peidio.

**Adran 32 - Cymeradwyo cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

135. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r broses o gymeradwyo cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, gan gynnwys y camau y mae rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd wrth gyflwyno eu cynllun drafft i Weinidogion

Cymru yn ogystal â'r camau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd wrth wneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo cynllun drafft neu ei wrthod.

136. Mae adran 32(2) yn nodi ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol, wrth gyflwyno'i gynllun drafft, gynnwys crynodeb o ymatebion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori.

137. Mae adran 32(3) a (4) yn amlinellu'r opsiynau sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllun drafft ar ôl iddo ddod i law. Mae tri opsiwn sef:

(a) cymeradwyo'r cynllun drafft fel y'i cyflwynir,

(b) cymeradwyo cynllun drafft wedi'i addasu (lle byddai angen i'r awdurdod lleol gytuno ar unrhyw newidiadau gyda Gweinidogion Cymru), ac

(c) gwrthod y cynllun gan gyfarwyddo'r awdurdod lleol i ailystyried y cynllun drafft (a gall hynny olygu ailystyried elfennau o'r cynllun drafft neu'r cynllun yn ei gyfanrwydd).

138. Yn unol ag adran 32(4), os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwrthod cynllun drafft, rhaid iddynt roi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r awdurdod lleol a'i gyfarwyddo i ailystyried ei gynllun. Yn ogystal, mae rhaid iddynt nodi erbyn pa ddyddiad y mae rhaid i awdurdod lleol ailgyflwyno ei gynllun drafft.

139. Mae adran 32(5) yn cadarnhau bod adran 32(3) i (4) hefyd yn gymwys i gynllun drafft pellach (e.e. cynllun sy'n cael ei ailgyflwyno). Mae hyn yn golygu y gallai fod angen i awdurdod lleol ailgyflwyno cynllun fwy nag unwaith os yw Gweinidogion Cymru yn parhau o'r farn nad yw cynllun drafft yn bodloni'r hyn sy'n ofynnol.

140. Yn debyg i'r broses ar gyfer cymeradwyo cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion, mae adran 32 wedi'i llunio â'r bwriad y bydd pob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru yn cytuno ar gynnwys y cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Felly nid oes modd i Weinidogion Cymru, o dan yr adran hon, fynnu ar gynnwys penodol unrhyw gynllun strategol lleol. Ond yn hyn o beth, fel cyrff cyhoeddus, rhaid ymddwyn yn rhesymol. A phan fo oedi wrth gytuno ar gynllun strategol lleol, gall Gweinidogion Cymru ystyried, os yw awdurdod lleol yn ymddwyn yn afresymol, arfer eu pwerau ymyrryd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (gweler hefyd adran 50).

**Adran 33 - Cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

141. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd y dylai awdurdod lleol gyhoeddi cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, yn ogystal â'r personau y mae disgwyl i awdurdodau lleol anfon copi atynt. Mae adran 52 yn gwneud

darpariaeth benodol ar gyfer cyhoeddi dogfennau, ac adran 53 yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch anfon dogfen.

142. Mae adran 33(2) yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol.

**Adran 34 – Adolygu a diwygio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

143. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu a diwygio'r cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

144. Mae adran 34(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol adolygu ei gynllun yn gyson at ddiben ystyried a oes angen ei ddiwygio e.e. os oes risg nad yw cynllun yr awdurdod lleol yn mynd i arwain at gyflawni ei dargedau, neu fod amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol yn effeithio ar ei allu i gyflawni'r targedau.

145. Mae adran 34(3) yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol i ystyried adolygu ei gynllun ynddynt, gydag adran 34(4) i (6) yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud wrth ystyried diwygio neu benderfynu peidio diwygio ei gynllun.

146. Mae adran 34(4) yn benodol yn cyflwyno proses os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â diwygio ei gynllun yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru iddo ystyried diwygio ei gynllun. Yn y sefyllfa hon, byddai'n rhaid i awdurdod lleol roi rhesymau i Weinidogion Cymru dros beidio â diwygio ei gynllun. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn rhesymau'r awdurdod lleol, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o'r newydd. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, cânt hefyd ystyried defnyddio eu pwerau o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn swyddogaethau addysg mewn amgylchiadau penodol). Mae'n bosib hefyd y byddai Gweinidogion Cymru am ofyn i Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (yn unol â'u pwerau yn adran 38 o Ddeddf Addysg 1997) arolygu sut mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau addysg. Mae swyddogaethau awdurdod lleol yn y Rhan hon yn swyddogaethau addysg (adran 50).

**Adran 35 - Rheoliadau**

147. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Mae adran 35(1)(a) i (f) yn nodi'r hyn y caiff rheoliadau ddarparu ar eu cyfer, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. Bwriad y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i fanylu ar y materion a amlinellir yn adran 30 o'r Bil, er enghraifft, mewn perthynas â ffurf a chynnwys cynllun. Gall hyn gynnwys gwneud rheoliadau sy'n manylu ar ddisgwyliadau ehangach Gweinidogion Cymru ar awdurdodau lleol i amlinellu yn eu cynlluniau sut y

mae rhaglenni, polisïau a'u dyletswyddau statudol ehangach wedi cael eu hystyried wrth geisio cyflawni'r targedau a osodir arnynt, e.e. Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, Rhaglenni Blynyddoedd Cynnar, Rhaglenni cyfalaf ysgolion, trefniadau Teithio Dysgwyr, ymysg eraill. Gellir hefyd, mewn rheoliadau, fanylu ar amserlen derbyn, ystyried a chymeradwyo cynllun drafft, yn ogystal â threfniadau i adrodd ar weithredu'r cynllun, er enghraifft, trwy adroddiadau adolygu blynyddol.

148. Rhoddir pŵer hefyd i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i alluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i lunio cynllun ar y cyd, ac i gymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon gydag addasiadau i'r perwyl hwnnw.

**Adran 36 – Diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

149. Mae'r adran hon yn hepgor Rhan 4, (adrannau 84 i 87) a hefyd adran 1(13) ac (14) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n ymwneud â pharatoi cynllun strategol Cymraeg mewn addysg.

**Adran 37 - Dehongli**

150. Mae'r adran hon yn dehongli'r termau yn Rhan 4.

**Rhan 5 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac Atodlen 2 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

**Adran 38 - Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

151. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer sefydlu yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg yn gorff corfforedig â'i phersonoliaeth gyfreithiol ei hun â phwerau a dyletswyddau penodol mewn perthynas â hwyluso a chefnogi dysgu'r Gymraeg.

152. Cyflwynir Atodlen 2 gan yr adran hon, sy'n cadarnhau nad yw'r Athrofa Dysgu Cymraeg yn gorff y Goron ac sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodau, staff, gweithdrefnau a materion ariannol. Mae'r Atodlen hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a darpariaethau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol.

153. Aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg yw'r cadeirydd a rhwng chwech a deg o aelodau anweithredol, a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r prif weithredwr yn aelod gweithredol a chaiff y prif weithredwr a'r aelodau anweithredol benodi hyd at ddau aelod o staff i fod yn aelodau gweithredol. Caniateir i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, newid nifer yr aelodau anweithredol ac aelodau gweithredol a benodir, ond rhaid i nifer yr aelodau anweithredol bob amser fod yn fwy na nifer yr aelodau gweithredol.

154. Penodir y prif weithredwr cyntaf gan Weinidogion Cymru, gydag aelodau anweithredol yn penodi'r olynwyr. Mae'r prif weithredwr yn aelod o staff yr Athrofa Dysgu Cymraeg, ac yn rhinwedd y swydd honno, hefyd yn swyddog cyfrifyddu. Fodd bynnag, mae paragraffau 15(2) i (3) o Atodlen 2 yn caniatáu i aelod arall o staff fod yn swyddog cyfrifyddu mewn sefyllfa pan fo'r prif

weithredwr yn methu â chyflawni'r cyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu (e.e. oherwydd cyfnod o salwch tymor hir), neu mewn sefyllfa pan nad oes prif weithredwr, ac yn ystod y cyfnod hyd nes bod prif weithredwr wedi'i benodi.

155. Mae Atodlen 2 hefyd yn cynnwys darpariaethau am bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Athrofa Dysgu Cymraeg, archwilio a chyfrifon, gweithdrefnau, cofrestr buddiannau a phwerau atodol.

**Adran 39 - Hwyluso a chefnogi dysgu Cymraeg gydol oes**

156. Mae'r adran hon yn gosod amcan yr Athrofa Dysgu Cymraeg. Prif rôl yr Athrofa Dysgu Cymraeg yw cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso'u cynnydd fel bod rhagor o bobl yn dysgu'r iaith ac yn gwella'u sgiliau. Bwriedir i hyn gyfrannu at wireddu amcanion Cymraeg 2050, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd o'r iaith. Gosodir dyletswyddau ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg yn adran 37(2) er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

157. Mae adran 39(3) yn rhoi pŵer i'r Athrofa Dysgu Cymraeg mewn perthynas â chydlynu a chomisiynu ymchwil ar addysgu neu ddysgu Cymraeg, ac mae'n rhoi pwerau iddi i roi cyngor i unrhyw berson ar addysgu neu ddysgu Cymraeg a rhoi cymorth ariannol i unrhyw berson mewn perthynas ag addysgu Cymraeg neu ddysgu Cymraeg. Mae hefyd yn caniatáu i'r Athrofa Dysgu Cymraeg wneud unrhyw beth arall sy'n ymwneud â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso'u cynnydd os yw'n ystyried ei fod yn briodol i gyflawni targedau sydd wedi'u gosod yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg o dan adran 24(7).

158. Rhaid i'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg a ddylunnir ac a ddatblygir ar gyfer y rhai dros oedran ysgol gorfodol o dan adran 39(2)(f) gynnwys amrywiaeth o faterion fel y'u nodir yn adran 39(4)(a) i (c), er enghraifft drwy ddarparu amrywiaeth o gyrsiau, gweithgareddau ac adnoddau ar wahanol lefelau dysgu, ac mewn lleoliadau gwahanol. Caiff hyn gynnwys darparu lefelau amrywiol o gyrsiau Cymraeg wyneb yn wyneb yn ogystal ag ar-lein. Bwriedir i hyn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael yn hwylus i bawb sydd eisoes yn dysgu, neu sy'n dymuno dysgu Cymraeg er mwyn hwyluso cynnydd dysgwyr drwy lefelau gwahanol dysgu Cymraeg. Mae'n ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg seilio'r lefelau dysgu ar y lefelau cyfeirio cyffredin sydd yn y tabl yn Atodlen 1, ac ar y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (gweler adran 6).

**Adran 40 - Swyddogaethau ychwanegol**

159. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg neu hwyluso'u cynnydd. Mae'r pwerau yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu swyddogaethau'r corff pan fo angen.

**Adran 41 – Hybu cyfle cyfartal**

160. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu cynyddu cyfranogiad gan bersonau sydd dros oedran ysgol gorfodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes dysgu Cymraeg, ac i hybu bod y personau hynny yn cwblhau rhaglenni dysgu Cymraeg. Ceir diffiniad o "grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol" yn adran 41(2).

161. Gosodir dyletswydd hefyd ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg i hybu'r gwaith o leihau bylchau o ran cyrhaeddiad dysgu Cymraeg grwpiau amrywiol o bersonau pan fo'r gwahaniaethau hynny yn deillio o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

**Adran 42 - Hybu arloesedd a gwelliant parhaus**

162. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu arloesedd a gwelliant parhaus mewn perthynas â dysgu Cymraeg, a chodi safonau dysgu Cymraeg. Mae'r adran hefyd yn pennu materion (adran 42(2)(a) i (c)) y mae rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau yn unol ag adran 42(1).

**Adran 43 - Hybu cydlafurio mewn perthynas â dysgu Cymraeg**

163. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu cydlafurio rhwng darparwyr dysgu Cymraeg, yn ogystal â rhwng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir yng Nghymru, darparwyr addysg drydyddol eraill yng Nghymru, a chyflogwyr yng Nghymru.

**Adran 44 – Hybu cydlynu mewn perthynas â dysgu Cymraeg**

164. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg, wrth arfer ei swyddogaethau, hybu cydlynu yn narpariaeth dysgu Cymraeg yng Nghymru i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol, a rhannu arfer orau mewn perthynas â dulliau addysgu a throsglwyddo'r Gymraeg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol.

**Adran 45 – Cymhwyso safonau'r Gymraeg**

165. Mae adran 45 yn dod â'r Athrofa Dysgu Cymraeg o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Mae'n gwneud hynny drwy ychwanegu'r Athrofa Dysgu Cymraeg at Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac at y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Bydd hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Athrofa Dysgu Cymraeg a fydd yn pennu'r safonau penodol a fydd yn berthnasol iddi.

**Adran 46 - Cynllun strategol**

166. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg i lunio cynllun strategol ar gyfer pob cyfnod cynllunio. Ceir diffiniad o'r "cyfnod cynllunio" yn adran 46(8). Rhaid i'r cynllun strategol nodi sut y mae'r Athrofa Dysgu Cymraeg yn bwriadu arfer ei swyddogaethau yn unol ag adrannau 41 i 44 a chyflawni ei hamcan.

167. Gosodir, yn adran 46(3), (4) a (6), y trefniadau y mae rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg eu dilyn wrth baratoi, cyflwyno a chyhoeddi'r cynllun strategol.

168. Yn unol ag adran 46(5), mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymeradwyo cynllun yn ddarostyngedig i addasiadau, ond rhaid i'r Athrofa Dysgu Cymraeg hefyd gytuno ar yr addasiadau hynny.

169. Caiff yr Athrofa adolygu ei chynllun a chyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

**Adran 47 - Adroddiad blynyddol**

170. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno, a'i anfon at Weinidogion Cymru. Yn unol ag adran 47(2), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.

**Rhan 6 – Cyffredinol**

**Adran 48 – Cyfarwyddydau a chanllawiau**

171. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfarwyddydau a roddir o dan Rannau 3 a 4 o'r Bil hwn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol, wrth arfer swyddogaethau o dan y Bil, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Ceir diffiniad o "awdurdod lleol" yn adran 51(1).

**Adran 49 - Diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

172. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 drwy ddileu paragraffau a chroes benawdau sy'n ymwneud â chyfrwng iaith yr addysgu mewn ysgolion, ac yn nodi rhai newidiadau canlyniadol. Golyga hyn nad yw'r newidiadau cyfrwng iaith a ddisgrifir yn Atodlen 2 ("Newidiadau Rheoleiddiedig") i Ddeddf 2013 yn "Newid Rheoleiddiedig" at ddiben y Ddeddf honno. O ganlyniad nid oes angen dilyn y broses yn Rhan 3 o Ddeddf 2013. Yn hytrach, Rhan 3 o'r Bil hwn sydd bellach yn gwneud darpariaeth ynghylch newid cyfrwng iaith yr addysgu mewn ysgol.

**Adran 50 - Y Deddfau Addysg**

173. Mae'r adran hon yn ychwanegu Rhan 3 (Addysg Gymraeg) a Rhan 4 (Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg) o'r Bil at y rhestr o Ddeddfau Addysg ("Education Acts") a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Ffordd o gydlynu deddfwriaeth ar destun addysg yw hyn a'i phrif effaith yma yw bod gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd os bydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau o dan y Bil, neu'n arfer swyddogaethau o dan y Bil mewn ffordd afresymol. Mae'r pwerau hyn yn Rhan 2 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac (yn fwy cyffredinol) maent yn galluogi Gweinidogion Cymru

ymyrryd, pan fo'n briodol, mewn perthynas ag ymddygiad ysgolion a gynhelir a'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg.

**Adran 51 - Dehongli**

174. Mae'r adran hon yn diffinio rhai o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y Bil. Yn ogystal, mae'n yn darparu bod diffiniadau yn narpariaethau Deddf Addysg 1996 yn gymwys pan ddefnyddir y term diffiniedig yn adran 1(1)(c) a Rhannau 3 a 4 o'r Bil hwn. Ond os rhoddir ystyr arall i un o'r termau hynny gan y Bil, yr ystyr arall hwnnw yn hytrach na'r diffiniad yn Neddf Addysg 1996 sydd yn gymwys at ddibenion y Bil. Mae hyn yn berthnasol i'r diffiniadau o "ysgol" ac "ysgol a gynhelir" sydd yn is-adran (3).

**Adran 52 – Cyhoeddi**

175. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut mae rhaid cyhoeddi dogfen yn unol â dyletswydd o dan y Bil hwn. Mae'n ofynnol i'r ddogfen fod ar ffurf electronig. Mae hefyd yn ofynnol i berson gyhoeddi'r ddogfen mewn modd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol fel bod y rhai na allant gael mynediad at y ddogfen yn electronig, neu ei bod yn annhebygol y gallant gael mynediad o'r fath, yn gallu cael mynediad ati.

**Adran 53 – Anfon dogfennau**

176. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi neu anfon hysbysiad, cyfarwyddyd neu ddogfen, ac yn egluro sut y gall person wneud hynny yn unol â dyletswydd o dan y Bil hwn. Mae'r dulliau cyfathrebu a ganiateir yn cynnwys person yn gwneud hynny â llaw, gadael ym man preswylio arferol y person, ac anfon drwy'r post neu drwy e-bost. Caiff person ddefnyddio mwy nag un dull cyfathrebu os yw'n dymuno. Os yw person yn rhoi neu'n anfon hysbysiad, cyfarwyddyd neu ddogfen drwy e-bost mae adran 53(2) yn gosod amodau ar gyfer hynny.

**Adran 54 - Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

177. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, ac mae adran 54(2) a (3) yn manylu ar y pŵer hwnnw. Mae adran 54(4) a (5) yn nodi'r gweithdrefnau deddfwriaethol sy'n gymwys i reoliadau o dan y Bil. Mae rheoliadau o dan yr adrannau a nodir yn 54(4) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O dan 54(5) mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Adran 55 – Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.**

178. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth amrywiol. Gall hyn fod yn ddarpariaeth atodol, yn ddarpariaeth ddeilliadol neu'n ddarpariaeth ganlyniadol, neu'n ddarpariaeth drosiannol, yn ddarpariaeth ddarfodol neu'n ddarpariaeth arbed. Mae hyn yn cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn).

**Adran 56 - Dod i rym**

179. Mae adran 56(1) yn darparu pa adrannau sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, tra bod adran 56(2) yn darparu pa adrannau sy'n dod i rym ddau fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r adran hon yn darparu bod Rhan 5 ac Atodlen 2 mewn perthynas â'r Athrofa Genedlaethol yn dod i rym ar 1 Awst 2027. Daw adrannau eraill, gan gynnwys adran 49 sy'n darparu ar gyfer diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pŵer i wneud gorchymyn.

**Adran 57 - Enw byr**

180. Enw byr y Ddeddf yw Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

# Atodiad 2 –

# Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl A2.1

| **Rheol sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 1 – Disgrifad<br><br>Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Paragraff 1.1, tud 3<br><br>• Rhan 1 – Paragraffau 3.65-3.69 , tud 18-19<br>• Rhan 2 – Paragraffau 3.87-3.95, tud 23 -24<br>• Rhan 3 – Paragraffau 3.116-3.164 , tud 28 - 39<br>• Rhan 4 – Paragraffau 3.183-3.201 tud 43 - 49 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | • Rhan 5 – Paragraffau 3.225 – 3.260 tud 53 - 62 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Paragraffau 7.1 - 7.5 a Thabl 1, tud 117-123 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, a<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Paragraffau 4.1 – 4.97, tud 65-82 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Paragraffau, 4.58- 4.97, tud 75-82 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Paragraff 4.98, tud 82 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tud 187 -220 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Paragraffau 8.1 - 8.1981 a Thabl 19, tud 124- 170 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Paragraffau 8.1- 8.191 a pharagraffau 9.1.- 9.51, tud 124-179 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tud 83-112 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) Gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw'r gofyniad gofyniad yn Rheol Sefydlog26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn. | Paragraff 6.2 tud 113 |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Paragraff 9.52-9.53, tud 179 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Atodiad 3 – Tabl Tarddiadau | Tud 225 - 226 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 4 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tud 227 - 252 |

# Atodiad 3

# Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

| ADRAN/PARAGRAFF | CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES | NEWID SYLWEDDOL |
|---|---|---|
| 1 – 29 | Newydd | |
| 30-36 | Adrannau 84 - 87 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. | Mae'r Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn y Bil yn cymryd lle y cynlluniau yn Neddf 2013 er mwyn gwella'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a'r broses o gynllunio addysg Gymraeg mewn ysgolion o bob categori iaith. Hynny yw, bydd y cynlluniau newydd yn rhoi pwyslais ar wella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg", ysgolion "Dwy Iaith", ac ysgolion "Prif Iaith – Cymraeg" fel ei gilydd.<br><br>Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth bod rhaid i'r cynllun nodi y camau bydd yr awdurdod leol yn cymryd i sicrhau bod |

| | | |
|---|---|---|
| | | digon o ymarferwyr addysg yn ei ardal. Nod y cynlluniau fydd gwireddu targedau a osodir ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru. Newidir enw'r Cynlluniau i Gynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. |
| 37 – 57 | Newydd | |
| Atodlen 1 | Newydd | |
| Atodlen 2 | Newydd | |

# Atodiad 4

# Atodlen o ddiwygiadau

Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN
FIL Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai darpariaethau'r deddfwriaeth a rhestrir isod, fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 10 Mehefin 2024 yn edrych fel y'u diwygid gan Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2):

- Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. <u>mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn</u>. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

*Yr adran ddiwygio ym Mil Y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*

***78 The Welsh language***

*Adran 1(5)(a)*

(1) The Welsh Ministers must adopt a strategy ~~("the Welsh language strategy")~~ to be known as "the Welsh language strategy" or "strategaeth y Gymraeg" setting out how they propose to promote and facilitate the use of the Welsh language.

*Adran 1(5)(b)*

(1A) See Part 1 of the Welsh Language and Education Act (Wales) 2025 (asc [ ]) (referred to in Welsh as Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc[ ])) for further provision relating to the Welsh language strategy.

(2). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(3). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) The Welsh Ministers—

(a) must keep under review ... the Welsh language strategy ..., and

(b) from time to time adopt a new strategy or revise it.

*Adran 1(5)(c)*

(5) Before adopting or revising a strategy ..., the Welsh Ministers must ~~consult such~~ consult the Welsh Language Commissioner and such other persons as they consider appropriate.

(6)The Welsh Ministers must publish the Welsh language strategy ... when they first adopt it and—

(a) if they adopt a new strategy ... they must publish it, and

(b) if they revise the Welsh language strategy ... (rather than adopting a new strategy ...) they must publish either the revisions or the strategy or scheme as revised (as they consider appropriate).

(7) If the Welsh Ministers publish a strategy ..., or revisions, under subsection (6) they must lay a copy of the strategy or scheme, or revisions, before the Senedd.

(8) After each financial year the Welsh Ministers must publish a report of how the proposals set out in the Welsh language strategy were implemented in that financial year and how effective their implementation has been in promoting and facilitating the use of the Welsh language and must lay a copy of the report before the Senedd.

(9) For each financial year, the Welsh Ministers must publish a plan setting out how they will implement the proposals set out in the Welsh language strategy during that year.

(10) The plan must be published as soon as reasonably practicable before the commencement of the financial year to which it relates.

(11) In subsection (5), the reference to "Welsh Language Commissioner" means the commissioner appointed under section 2 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1) (referred to in Welsh as Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011(mccc1)). *Adran 1(5)(d)*

**148 Welsh public records**

(1) The following are Welsh public records—

(a) administrative and departmental records belonging to Her Majesty which are records of the Welsh ... Government,

(b) administrative and departmental records of the Auditor General,

(ba) administrative and departmental records belonging to Her Majesty which are records of or held by the Welsh Revenue Authority;

(c) administrative and departmental records belonging to Her Majesty which are records of or held in any government department which is wholly or mainly concerned with Welsh affairs,

(d) administrative and departmental records belonging to Her Majesty which are records of any office, commission or other body or establishment under Her Majesty's Government which is wholly or mainly concerned with Welsh affairs in a field or fields in which the Welsh Ministers have functions, or the First Minister or the Counsel General has functions,

(e) administrative and departmental records of the bodies and establishments specified in subsection (2) (but not records of health service hospitals in Wales which are of the descriptions excepted from being public records for the purposes of the Public Records Act 1958 (c. 51) in the case of health service hospitals in England), and

(f)any other description of records (other than records of the Senedd or the Senedd Commission or records of any court or tribunal or held in any department of the Senior Courts) which is specified by order made by the Secretary of State.

(2)The bodies and establishments referred to in subsection (1)(e) are—

(a) the Care Council for Wales,

(aa) the Commission for Tertiary Education and Research,

(aa) the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales,

(b). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(c) the Curriculum and Assessment Authority for Wales,

(d) Family Practitioner Committees for localities in Wales,

(e) the Further Education Funding Council for Wales,

(f) the General Teaching Council for Wales,

(g) health service hospitals, within the meaning of the National Health Service (Wales) Act 2006, in Wales,

(h) the Higher Education Funding Council for Wales[30],

(i) the Local Government Boundary Commission for Wales,

(j) the National Council for Education and Training for Wales,

(k) National Health Service Authorities for districts or localities in Wales, or for areas in or consisting of Wales, including National Health Service trusts all of whose hospitals, establishments and facilities are situated in Wales,

<u>(kza) the National Institute for Learning Welsh,</u> *Atodlen 2, Paragraff 21*

(ka) the Natural Resources Body for Wales,

(l) the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales,

(la) Qualifications Wales,

(m) the Wales Centre for Health, and

(n) the Welsh Board of Health.

(3) An order under subsection (1)(f) may be made in relation to a description of records—

(a) which (immediately before the order is made) are public records for the purposes of the Public Records Act 1958, or

(b) which (at that time) are not public records for those purposes.

(4) No order under subsection (1)(f) may be made—

(a) in relation to records within paragraph (a) of subsection (3), unless the Secretary of State has consulted the Welsh Ministers, and

(b) in relation to records within paragraph (b) of that subsection, without the agreement of the Welsh Ministers.

(5) A statutory instrument containing an order under subsection (1)(f) is subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament.

(6) In this section "records" includes—

(a) written records, and

(b) records conveying information by any other means.

[30] Hepgorer y paragraff hon gan Atodlen 4, paragraff 20(2)(b) i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, nid yw'r newid wedi gwneud i wefan legislation.gov.uk

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

*Yr adran ddiwygio ym Mil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*

**7 Y Cod Cynnydd**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "Cod Cynnydd") sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan ddisgyblion a phlant.

(1A) Wrth baratoi'r Cod Cynnydd o dan -isadran (1), a'i gadw o dan adolygiad o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r nodau dysgu Cymraeg a osodir gan adran 11 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc [ ]).

*Adran 12(3)*

(2) Nid yw cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd.

(3) Nid yw addysgu a dysgu yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd.

(4) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gadw'r Cod Cynnydd o dan adolygiad, a

(b) cânt ei ddiwygio.

(5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod Cynnydd, gweler adran 76.

**Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

*Yr adran ddiwygio ym Mil Y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*

**1 Trosolwg ar y Ddeddf hon**

(1) Mae 6 Rhan i'r Ddeddf hon.

(2) Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n 3 Pennod sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnal a gwella safonau—

(a) mewn ysgolion a gynhelir, a

(b) yn y modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdodau lleol.

(3)Mae Pennod 1 o Ran 2 (gan gynnwys Atodlen 1)—

(a)yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir sy'n peri pryder, a

(b)yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.

(4) Mae Pennod 2—

(a) yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder, a

(b) yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.

(5) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, penaethiaid

ysgolion o'r fath ac awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai swyddogaethau gael eu harfer gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir.

(6) Mae Rhan 3 wedi ei rhannu'n 6 Phennod sy'n cynnwys darpariaeth am drefniadaeth ysgolion a gynhelir.

(7) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn darparu ar gyfer Cod Trefniadaeth Ysgolion ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 3.

(8) Mae Pennod 2 (gan gynnwys Atodlenni 2 i 4) yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir yn unol â phroses benodedig.

(9) Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir.

(10) Mae Pennod 4 yn darparu ar gyfer gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion [addysgol arbennig] [dysgu ychwanegol].[31]

(11) Mae Pennod 5 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.

(12) Mae Pennod 6 yn darparu ar gyfer materion amrywiol ac atodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

~~(13) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, sydd—~~ *Adran 36(3)*

~~(a) i'w paratoi gan awdurdodau lleol,~~

[31] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

~~(b) i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac~~

~~(c) i'w cyhoeddi a'u gweithredu gan awdurdodau lleol (adrannau 84, 85 a 87).~~

~~(14) Mae Rhan 4 hefyd yn darparu pŵer sy'n arferadwy drwy reoliadau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant (adran 86).~~

(15) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth am swyddogaethau amrywiol sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu brecwast ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir ar gais cyrff llywodraethu'r ysgolion hynny (adrannau 88 i 90);

(b) sy'n diwygio pwerau presennol awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i godi tâl am brydau ysgol, fel bod—

(i) gofyniad cysylltiedig i godi'r un pris ar bob person am yr un maint o'r un eitem yn cael ei ddileu, a

(ii) gofyniad newydd na fydd y pris a godir am eitem yn fwy na chost darparu'r eitem honno yn cael ei osod (adran 91);

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth resymol am wasanaeth sy'n cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol i ddisgyblion ysgol penodedig a phlant eraill (adran 92);

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynnal cyfarfod os gofynnir

iddynt wneud hynny gan rieni mewn deiseb (adran 94) ac yn diddymu dyletswydd sy’n bodoli eisoes i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni (adran 95);

(e) yn diddymu dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar gyfer sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir (adran 96).

(16).Mae Rhan 6—

(a) yn cyflwyno Atodlen 5, sy’n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy’n codi o ddarpariaethau’r Ddeddf hon;

(b) yn cynnwys diffiniadau sy’n gymwys at ddibenion y Ddeddf hon yn gyffredinol a mynegai o ddiffiniadau sy’n gymwys i nifer o ddarpariaethau, ond nid yr holl Ddeddf (adran 98);

(c) yn cynnwys darpariaethau eraill sy’n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

**41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd**

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i sefydlu—

(a) ysgol gymunedol newydd, neu

(b) ysgol feithrin newydd a gynhelir.

(2) Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu

ysgol wirfoddol newydd.

(3) Gweler adran 22(1) o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc [ ]) am ddarpariaeth ynghylch cofrestr o gategorïau iaith arfaethedig ysgolion y gwnaed cynigion i’w sefydlu o dan yr adran hon. *Adran 22(2)*

*Adran 36(2)*

**RHAN 4**
**CYNLLUNIAU STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG**

**84 Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg**

(1) Cynllun yw cynllun strategol Cymraeg mewn addysg sy'n cynnwys—

(a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn—

(i) gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal;

(ii) gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(b) targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gadw golwg ar ei gynllun, ac os yw'n angenrheidiol, ei ddiwygio.

(4) Wrth lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg neu gynllun diwygiedig, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) ei awdurdodau lleol cyfagos;

(b) pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo;

(c) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo;

(d) pob sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ei ardal;

(e) mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn ei ardal—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol;

(f) personau rhagnodedig eraill.

~~(5) Os yw awdurdod lleol yn cynnal asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â rheoliadau o dan adran 86, rhaid iddo ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw y tro nesaf y bydd yn llunio neu'n diwygio ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg.~~

**~~85 Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg~~**

~~(1) Rhaid i awdurdod lleol sydd wedi llunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo.~~

~~(2) Caiff Gweinidogion Cymru—~~

~~(a) cymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,~~

~~(b) cymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau, neu~~

~~(c) gwrthod y cynllun a llunio cynllun arall sydd i'w drin fel cynllun cymeradwy'r awdurdod.~~

~~(3) Os yw awdurdod lleol yn dymuno diwygio ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru.~~

~~(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gydag addasiadau neu hebddynt.~~

~~(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdod lleol cyn—~~

~~(a) addasu cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(b),~~

~~(b) llunio cynllun arall i gymryd lle cynllun yr awdurdod o dan is-adran (2)(c), neu~~

~~(c) addasu cynllun diwygiedig yr awdurdod o dan is-adran (4).~~

~~(6) Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.~~

~~(7) Rhaid i awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg (neu ei gynllun diwygiedig) a gymeradwywyd.~~

**~~86 Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg~~**

~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau, wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni yn ei ardal am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant.~~

~~(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd a sut i wneud asesiad.~~

**~~87 Rheoliadau a chanllawiau~~**

~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg.~~

~~(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach am y materion canlynol (ymhlith pethau eraill)—~~

~~(a) ffurf a chynnwys cynllun;~~

~~(b) amseriad a hyd cynllun;~~

~~(c) cadw golwg ar gynllun a'i ddiwygio;~~

~~(d) ymgynghori yn ystod y broses o lunio cynllun a'i ddiwygio;~~

~~(e) cyflwyno cynllun i gael ei gymeradwyo;~~

~~(f) pryd a sut i gyhoeddi cynllun.~~

~~(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i alluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i lunio cydgynllun, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon o ran y modd y mae'n gymwys i gydgynlluniau.~~

~~(4) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.~~

## ATODLEN 2
## NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## RHAN 1
## POB YSGOL A GYNHELIR

1 Mae paragraffau 2 a 3 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir.

*Trosglwyddo safle*

2 Trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd presennol.

*Ysgolion rhyw gymysg ac ysgolion un rhyw*

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

3(1) Newid a wneir i ysgol fel a ganlyn—

(a) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw, neu

(b) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig.

(2) At ddibenion y paragraff hwn mae ysgol i'w thrin fel un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os yw trefn derbyn disgyblion o'r rhyw arall—

(a) yn gyfyngedig i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol; a

(b) heb fod yn fwy na 25% o nifer y disgyblion yn y grwp oedran a dan sylw sydd fel arfer yn yr ysgol.

**RHAN 2** *Adran 49(2)(a)*

**POB YSGOL A GYNHELIR AR WAHÂN I YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR**

4 Mae paragraffau 5 ~~i 8~~ a 6 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol.

*Ystod oedran*

5(1) Newid oedran isaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy.

(2) Newid oedran uchaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy os yw'r ysgol, cyn ac ar ôl y newid, yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol ond heb fod yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

*Darpariaeth chweched dosbarth*

6(1) Cyflwyno'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sy'n darparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

(2) Terfynu'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sydd i barhau i ddarparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

~~*Cyfrwng iaith – addysg gynradd*~~ *Adran 49(2)(b)*

~~7(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—~~

~~(a) ysgolion cynradd,~~

~~(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac~~

~~(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.~~

~~(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn [grwp oedran (neu grwpiau oedran)] [grŵp blwyddyn perthnasol (neu grwpiau blwyddyn perthnasol)] mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 1 isod, ac os cynigir newid addysgu'r dosbarth cyfatebol o ddisgyblion yn y [grwp oedran hwnnw (neu'r grwpiau oedran hynny) [grŵp blwyddyn perthnasol hwnnw (neu'r grwpiau blwyddyn perthnasol hynny) ][32] fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.~~

~~(3) Yn y paragraff hwn—~~

(a)[ystyr "grwp oedran" yw—

(i) grwp blwyddyn o'r cyfnod sylfaen (o fewn yr ystyr a roddir i "foundation phase" gan adran 102 o Ddeddf Addysg 2002), neu

(ii) grwp blwyddyn o'r ail gyfnod allweddol (o fewn yr ystyr a roddir i "second key stage" gan adran 103 o Ddeddf Addysg 2002);]

[32] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**[**ystyr “grŵp blwyddyn perthnasol” yw grŵp blwyddyn nad yw’r rhan fwyaf o’r disgyblion eto wedi cwblhau’r flwyddyn ysgol y maent yn cyrraedd 11 oed ynddi;**]**[33]

(b)nid yw cyfeiriad at addysgu dosbarth o ddisgyblion yn cynnwys gwasanaeth ysgol na gweithgareddau eraill mewn ysgol a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion.

[33] Mae’r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**~~TABL 1~~**

| ~~1~~ | ~~2~~ |
|---|---|
| ~~Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg~~ | ~~Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg~~ |
| ~~Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg~~ | ~~Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg~~ |
| ~~Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg~~ | ~~Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg~~ |
| ~~Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg~~ | ~~Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg~~ |
| ~~Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg~~ | ~~Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg~~ |
| ~~Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg~~ | ~~Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg~~ |
| ~~Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Saesneg~~ | ~~Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg~~ |
| ~~Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg~~ | ~~Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg~~ |

~~*Cyfrwng iaith – addysg uwchradd*~~ *Adran 49(2)(c)*

~~8(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—~~

~~(a) ysgolion uwchradd,~~

~~(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac~~

~~(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.~~

~~(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu disgyblion mewn grwp blwyddyn mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 2 isod, ac os cynigir newid addysgu’r disgyblion yn y grwp blwyddyn hwnnw fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.~~

~~(3) Yn y paragraff hwn “pwnc perthnasol” yw unrhyw bwnc ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir yn yr ysgol i ddisgyblion yn y grwp blwyddyn o dan sylw.~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~TABL 2~~

| ~~*1*~~ | ~~*2*~~ |
|---|---|
| ~~Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl~~ | ~~Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl~~ |
| ~~Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl~~ | ~~Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl~~ |
| ~~Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl~~ | ~~Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl~~ |
| ~~Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i bob disgybl~~ | ~~Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl~~ |
| ~~Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl~~ | ~~Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl~~ |
| ~~Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl~~ | ~~Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl~~ |

**RHAN 3**
**YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL**

9 Mae paragraffau 10 i 17 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol

*Newidiadau i fangreoedd*

10(1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol.

(2) Wrth benderfynu cynnydd mewn capasiti at ddibenion is-baragraff (1), mae pob ehangiad a wnaed ar ôl y dyddiad priodol i'w cymryd i ystyriaeth ynghyd â'r ehangiad arfaethedig.

(3) Y "dyddiad priodol" yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a)y dyddiad sy'n dod bum mlynedd cyn y dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad;

(b)y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud unrhyw newid i'r ysgol a oedd yn golygu ehangu ei mangre ac y cyhoeddwyd y cynigon hynny o dan—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ehangu yn cynnwys ehangu dros dro.

11(1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol os yw'r dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn isbaragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw'r cyfnod ac mae'n dechrau ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (neu'r dyddiad diweddaraf) sy'n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw "ehangu" yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.

12 Gwneud ehangu dros dro, a fyddai ar yr adeg y'i gwnaed wedi dod o fewn paragraff 10 (heblaw am y ffaith ei fod dros dro), yn ehangu parhaol.

13 Newid a wneir i fangre'r ysgol a fyddai'n lleihau capasiti'r ysgol, lle y byddai'r capasiti arfaethedig yn is na'r nifer uchaf o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad y lluniodd y cynigydd ei gynnig i wneud y newid arfaethedig.

14At ddibenion paragraffau 10 i 13—

(a) mae cyfeiriadau at gapasiti ysgol yn gyfeiriadau at nifer y disgyblion y gall yr ysgol drefnu lle ar eu cyfer fel a ddyfernir yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) "ehangu dros dro" yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

*Anghenion [addysgol arbennig] [*dysgu ychwanegol*]*[34]

15(1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion [addysgol arbennig] [dysgu ychwanegol].

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion [addysgol arbennig] [dysgu ychwanegol], newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

*Trefniadau derbyn*

16 Cyflwyno trefniadau derbyn y mae adran 101(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion) yn gymwys iddynt.

*Darpariaeth fyrddio*

17(1) Cyflwyno darpariaeth ar gyfer llety byrddio neu ei dirwyn i ben.

(2) Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 50 o ddisgyblion neu ragor neu gan 50% neu ragor

[34] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## RHAN 4 YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol.

*Cynnydd yn nifer disgyblion*

19(1)Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

(2)Yn y paragraff hwn—

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

"y nifer perthnasol" *("relevant number*") mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw—

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5, a

(b)ym mhob achos arall, 20.

*Darpariaeth fyrddio*

20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

*Darpariaeth anghenion [addysgol arbennig] [*dysgu ychwanegol*]*[35]

21 Newid yn y math o anghenion **[**addysgol arbennig**]** **[**dysgu ychwanegol**]** y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.

**RHAN 5 YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR** *Adran 49(2)(d)*

22 Mae paragraffau 23 ~~i 25~~ a 24 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir.

*Y man addysgu*

23(1) Ehangu'r man addysgu, ac eithrio ehangu dros dro, gan 50% neu fwy.

(2) Gwneud ehangu dros dro y man addysgu gan 50% neu fwy yn ehangu parhaol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "man addysgu" ("*teaching space*") yw unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg feithrin ac eithrio'r canlynol—

(a) unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer addysg disgyblion y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu **[**hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno**]** **[**penderfynu o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a disgyblion â chynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan y Ddeddf honno**]**[36];

(b) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn y fath fodd nad yw'n addas at ddibenion addysgu cyffredinol;

(c) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn bennaf ar gyfer storio cyfarpar, offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu;

(d) unrhyw ran o ardal y mae ei hangen ar gyfer symudiad disgyblion drwy'r ardal honno ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben hwnnw;

---

[35] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

[36] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

"ehangu dros dro" ("*temporary enlargement")* yw ehangu man addysgu y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd

*Anghenion [addysgol arbennig] [*dysgu ychwanegol*]*[37]

24(1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion [addysgol arbennig] [dysgu ychwanegol].

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion [addysgol arbennig] [dysgu ychwanegol], newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

~~*Cyfrwng iaith*~~ *Adran 49(2)(e)*

~~25(1) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.~~

~~(2) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.~~

**RHAN 6 ATODOL**

*Y pŵer i ddiwygio*

26(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn yr Atodlen hon.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-baragraff (1) wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Ddeddf hon.

[37] Mae'r ddau eiriad yn y cromfachau sgwâr yn cyfleu trefniadau cychwyn graddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

*Yr adran ddiwygio ym Mil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*

*Adran 45(1))*

**Atodlen 6**

**CYRFF CYHOEDDUS ETC: SAFONAU**

| **Colofn 1**<br>**Person/Categori** | **Colofn 2**<br>**Safon cymwysadwy** |
|---|---|
| **CYFFREDINOL** | |
| Asiantaeth yr Amgylchedd ("*The Environment Agency*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Yr Athrofa Cymraeg Genedlaethol (*"The National Institute for Learning Welsh*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |